# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 25/06/2013

Cynnwys Contents

Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Adolygu'r Cyllid sydd ar Gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Adroddiad Cyntaf
Statement: The Independent Review of the Availability of Funding for SMEs in Wales: First Report

Y Papur Gwyn ynghylch Tai—Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Weithredu'r Papur Gwyn
The Housing White Paper—Update on Implementation

Gofal Sylfaenol a'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal
Primary Care and the Inverse Care Law

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before we start the business of today, I am sure that Members will be aware that, on Thursday, I received notice from Ieuan Wyn Jones that he was resigning his Ynys Môn seat with immediate effect. Party leaders paid tribute to Ieuan in the Chamber last week, but I would like to take the opportunity to pay my own tribute today. I am very pleased that Ieuan is in the public gallery this afternoon and he assures me that he has no rotten tomatoes or apples that he has going to throw at us. [Laughter.]

Cyn i ni ddechrau ar fusnes heddiw, rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n ymwybodol i mi dderbyn rhybudd gan Ieuan Wyn Jones ddydd Iau, ei fod yn ymddiswyddo o'i sedd yn Ynys Môn ar unwaith. Talodd arweinwyr y pleidiau deyrnged i Ieuan yn y Siambr yr wythnos diwethaf, ond hoffwn achub ar y cyfle hwn i dalu teyrnged fy hun heddiw. Rwy'n falch iawn bod Ieuan yn yr oriel gyhoeddus y prynhawn yma ac mae'n fy sicrhau nad oes ganddo unrhyw domatos nac afalau wedi pydru y mae'n mynd i'w taflu atom ni. [Chwerthin.]

Ieuan will be a great loss to the National Assembly for Wales, having made so many thoughtful and passionate contributions in the Chamber over the past 14 years. He led his party with great dignity and authority for over a decade, including serving as Deputy First Minister between 2007 and 2011. He has also diligently represented his constituents from Ynys Môn throughout his 14 years as an Assembly Member.

Bydd Ieuan yn golled fawr i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan iddo wneud cymaint o gyfraniadau meddylgar ac angerddol yn y Siambr yn ystod y 14 mlynedd diwethaf. Arweiniodd ei blaid â llawer o urddas ac awdurdod am dros ddegawd, gan gynnwys gwasanaethu fel Dirprwy Brif Weinidog rhwng 2007 a 2011. Mae hefyd wedi cynrychioli ei etholwyr o Ynys Môn yn ddiwyd trwy gydol ei 14 mlynedd fel Aelod o'r Cynulliad.

Ieuan will be sorely missed, and I know I speak for all Assembly Members when I thank him for his contribution to the Assembly and wish him well in his new career. [Applause.]

Bydd colled fawr ar ôl Ieuan, ac rwy'n gwybod fy mod yn siarad ar ran holl Aelodau'r Cynulliad wrth i mi ddiolch iddo am ei gyfraniad i'r Cynulliad a dymuno'n dda iddo yn ei yrfa newydd. [Cymeradwyaeth.]

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Diwydiant Ynni Niwclear

## Questions to the First Minister

### Nuclear Power Industry

13:32 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r diwydiant ynni niwclear yng Nghymru? OAQ(4)1148(FM)*

*1. Will the First Minister outline what the Welsh Government is doing to support the nuclear power industry in Wales? OAQ(4)1148(FM)*

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are working closely with all key stakeholders, including the Anglesey energy island programme, the Nuclear Decommissioning Authority, Magnox, Hitachi, and Horizon Nuclear Power. Support is available for businesses to look at the nuclear sector as a real market opportunity.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys rhaglen ynys ynni Môn, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, Magnox, Hitachi a Horizon Nuclear Power. Mae cymorth ar gael i fusnesau edrych ar y sector niwclear fel cyfle marchnad gwirioneddol.

13:32 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

A new Wylfa B reactor on Anglesey could pull in £10 billion of investment and lock in 6,000 jobs in one of the poorest areas of Wales. First Minister, who would not support a project like that?

Gallai adweithydd Wylfa B newydd ar Ynys Môn ddenu gwerth £10 biliwn o fuddsoddiad a sicrhau 6,000 o swyddi yn un o ardaloedd tlotaf Cymru. Brif Weinidog, pwy na fyddai'n cefnogi prosiect o'r fath?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that those questions are best directed at the benches to my right. As far as we as a Government are concerned, we offer it our full support. We know that it is exceptionally important for the economy of the whole island, and we know of the 6,000 jobs that would potentially be created, and the 800 permanent jobs that would be on the island for the people who are already employed in the existing reactor and beyond. It is an exceptionally important part of Ynys Môn's economy.

Rwy'n credu mai'r lle gorau i gyfeirio'r cwestiynau hynny yw at y meinciau ar y dde i mi. O'n safbwynt ni fel Llywodraeth, rydym ni'n cynnig ein cefnogaeth lawn iddo. Rydym yn gwybod ei fod yn eithriadol o bwysig i economi'r ynys gyfan, a gwyddom am y 6,000 o swyddi a allai gael eu creu, a'r 800 o swyddi parhaol a fyddai ar yr ynys ar gyfer y bobl sydd eisoes yn cael eu cyflogi yn yr adweithydd presennol a thu hwnt. Mae'n rhan eithriadol o bwysig o economi Ynys Môn.

13:33 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

The construction and operation of Wylfa B will bring huge benefits for Anglesey's economy, as Ken Skates as already outlined. What specific steps is your Government taking to ensure that Welsh businesses are able to benefit from the construction and operation of the plant, both directly and in the supply chain? Can you confirm what preparatory work is being carried out through Careers Wales to encourage students, both on Anglesey and across north Wales, to develop the skills and qualifications that will be in demand during the lifetime of Wylfa B?

Bydd y gwaith o adeiladu a gweithredu Wylfa B yn dod â manteision enfawr i economi Ynys Môn, fel y mae Ken Skates wedi ei amlinellu eisoes. Pa gamau penodol y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau y gall busnesau Cymru elwa o'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r orsaf, yn uniongyrchol ac yn y gadwyn gyflenwi? A allwch chi gadarnhau pa waith paratoadol sy'n cael ei wneud trwy Gyrfa Cymru i annog myfyrwyr, ar Ynys Môn yn ogystal â ledled gogledd Cymru, i ddatblygu'r sgiliau a'r cymwysterau y bydd galw amdanynt yn ystod oes Wylfa B?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are currently undertaking a supply chain mapping exercise to maximise the opportunity that the nuclear market provides and this will be commissioned in the coming months. Successful supply chain events were held by Horizon and Hitachi last month, in north Wales and in Gloucester, with over 500 in attendance at those events. The Minister for Economy, Science and Transport was present and spoke at the event, demonstrating the commitment of Welsh Government. I know that the local further education college, Coleg Menai, has for some years now been working to ensure that the skills that will need to be utilised by the new reactor are produced by the college.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal ymarfer mapio'r gadwyn gyflenwi i wneud cymaint â phosibl o'r cyfle y mae'r farchnad niwclear yn ei gynnig a bydd hyn yn cael ei gomisiynu yn y misoedd nesaf. Cynhaliwyd digwyddiadau cadwyn gyflenwi llwyddiannus gan Horizon a Hitachi fis diwethaf, yng ngogledd Cymru ac yng Nghaerloyw, ac roedd dros 500 yn bresennol yn y digwyddiadau hynny. Roedd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn bresennol a siaradodd yn y digwyddiad, gan ddangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru. Gwn fod y coleg addysg bellach lleol, Coleg Menai, wedi bod yn gweithio ers rhai blynyddoedd bellach i sicrhau bod y sgiliau y bydd eu hangen ar yr adweithydd newydd yn cael eu haddysgu gan y coleg.

13:34 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Pan fydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwneud ei phenderfyniad ynglŷn â beth sy'n digwydd yn Wylfa, a allwch amlinellu sut y byddwch yn sicrhau mai pobl sir Fôn a phobl y gogledd-orllewin a fydd yn cael y cyfle cyntaf i fanteisio ar y swyddi hynny?

When the UK Government has made its decision on what is to happen at Wylfa, can you outline how you will ensure that it is the people of Anglesey and the people of the north-west who will have the first opportunity to take advantage of those jobs?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid oes dod mewn â rhyw fath o reol sy'n dweud taw dim ond pobl leol all weithio ar y safle. Fodd bynnag, bydd cyfle i bobl leol, nid yn unig i weithio ar y safle dros dro, ond i weithio yno yn barhaol, fel y mae cymaint o bobl Ynys Môn yn ei wneud yn barod. Yr hyn sy'n bwysig yw y bydd cynifer o swyddi eu creu, ac mae hynny'n rhoi cyfle gwych i bobl leol. Heb Wylfa B, byddai'r swyddi hynny'n diflannu.

It is not possible to introduce some kind of rule that says that only local people can work on the site. However, there will be an opportunity for local people not to just to work temporarily on the site, but to work there permanently, as so many of the people of Ynys Môn do already. The important point is that these jobs will be created, and that will give local people an excellent opportunity. Without Wylfa B, those jobs would disappear.

13:35 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, bydd cyfnod rhwng yr amser y bydd yr orsaf bresennol yn cael ei dad-gomisiynu a'r amser pan fydd yr orsaf newydd yn cael ei hagor. Mae cryn boeni ar yr ynys ynglŷn â'r ffaith y bydd rhai sgiliau yn cael eu colli o bosibl. A ydych yn barod i gymryd camau fel Llywodraeth i gynnal y gweithlu, yn ystod y broses honno rhwng un cyfnod a'r llall?

First Minister, there will be a period between the decommissioning of the current reactor and the opening of the new power plant. There is some concern on the island about the fact that some skills will be lost. Are you ready as a Government to take steps to support the workforce while that transition process in ongoing?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid yw hwn yn fater i ni, gan nad yw wedi cael ei ddatganoli. Mae hwn yn fater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w ystyried. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos—ac rwy'n gobeithio, wrth gwrs—na fydd bwlch rhwng y cyfnod pan fydd y 'reactor' sydd yno nawr yn cau a'r 'reactor' newydd yn agor. Ond, wrth gwrs, mae hwn yn rhywbeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w ystyried.

This is not a matter for us because it has not been devolved. This is matter for the United Kingdom Government to consider. At present, it looks as if—and we hope, of course—that there will not be any gap between the decommissioning of the current reactor and the commissioning of the new reactor. However, of course, that is a matter for the United Kingdom Government to consider.

**Marchand Allforio Cymru**

**The Welsh Export Market**

13:36 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am farchnad allforio Cymru? OAQ(4)1140(FM)*

*2. Will the First Minister provide an update on the Welsh export market? OAQ(4)1140(FM)*

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, we continue our efforts to promote and develop investment and trading links, through activities such as the recent successful trade mission to Japan.

Gwnaf. Rydym yn parhau â'n hymdrechion i hyrwyddo a datblygu cysylltiadau buddsoddiad a chysylltiadau masnachu, trwy weithgareddau fel y daith fasnach lwyddiannus i Japan yn ddiweddar.

13:36 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Thank you very much for that. Craig Bragdy Design of Denbigh, which is a family firm, and which has moved and expanded, is a highly specialised and innovative company. It has broken through into the market in Saudi Arabia and the United Arab Emirates to design swimming pools and mosaic tiles, which are all hand-made and are all unique. Clients are now coming from all over the world to look at these, and the company has a very successful order book at the moment. Therefore, what support could your Government offer to businesses that would want to follow in the footsteps of this innovative design market of Craig Bragdy, and how will they enter? Furthermore, will you join me in congratulating all those concerned at Craig Bragdy, and will you also accompany me on a visit to see for yourself the excellent work that they do?

Diolch yn fawr iawn am hynna. Mae Craig Bragdy Design o Ddinbych, sy'n gwmni teuluol, ac sydd wedi symud ac ehangu, yn gwmni hynod arbenigol ac arloesol. Mae wedi torri drwodd i'r farchnad yn Saudi Arabia a'r Emiradau Arabaidd Unedig i ddylunio pyllau nofio a theils mosaig, sydd i gyd yn cael eu gwneud â llaw ac i gyd yn unigryw. Mae cleientiaid yn dod o bedwar ban byd i edrych ar y rhain bellach, ac mae gan y cwmni lyfr archebion llwyddiannus iawn ar hyn o bryd. Felly, pa gymorth y gallai eich Llywodraeth ei gynnig i fusnesau a fyddai'n awyddus i ddilyn yn ôl troed marchnad ddylunio arloesol Craig Bragdy, a sut y byddan nhw'n ymuno? Hefyd, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch pawb dan sylw yn Craig Bragdy, ac a wnewch chi hefyd ymuno â mi ar ymweliad i weld drosoch eich hun y gwaith rhagorol y maen nhw'n ei wneud?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I join you in congratulating Craig Bragdy Design for all that it has done and for its innovation in terms of swimming pool designs. I would be pleased to take up your invitation, when time allows. There are four schemes that would be of interest to the company—the international trade development programme, the international trade opportunities programme, the trade missions and exhibitions programme, as well as the overseas business development visits support. These are all schemes that enable companies to develop their capabilities for international trade, as well as enabling them to undertake visits to sell what they produce in other countries.

Ymunaf â chi i longyfarch Craig Bragdy Design am bopeth y mae wedi ei wneud ac am ei arloesedd o ran dyluniadau pyllau nofio. Byddwn yn falch o dderbyn eich gwahoddiad, pan fydd amser yn caniatáu. Ceir pedwar cynllun a fyddai o ddiddordeb i'r cwmni—y rhaglen datblygu masnach ryngwladol, y rhaglen cyfleoedd masnach ryngwladol, y rhaglen teithiau ac arddangosfeydd masnach, yn ogystal â chymorth ar gyfer ymweliadau tramor i ddatblygu busnesau. Mae'r rhain i gyd yn gynlluniau sy'n galluogi cwmnïau i ddatblygu eu galluoedd o ran masnach ryngwladol, yn ogystal â'u galluogi i gynnal ymweliadau i werthu'r hyn y maen nhw'n ei gynhyrchu mewn gwledydd eraill.

13:38 **William Graham** Bywgraffiad Biography

The First Minister will acknowledge that firms such as Just Rollers in Cwmbran, Reid Lifting in Monmouth, SPTS Technologies in Newport, Bon Bon Buddies in Blackwood, which are all companies in my region, have all won the Queen's Awards for Enterprise in international trade. These companies are flying the flag for Wales in their endeavours to attract economic growth into our country. What more can you do to promote firms of this kind?

Bydd y Prif Weinidog yn cydnabod bod cwmnïau fel Just Rollers yng Nghwmbrân, Reid Lifting yn Nhrefynwy, Technologies SPTS yng Nghasnewydd, Buddies Bon Bon yn y Coed Duon, sydd i gyd yn gwmnïau yn fy rhanbarth i, i gyd wedi ennill Gwobrau'r Frenhines am Fenter mewn masnach ryngwladol. Mae'r cwmnïau hyn yn chwifio'r faner dros Gymru yn eu hymdrechion i ddenu twf economaidd i'n gwlad. Beth arall allwch chi ei wneud i hyrwyddo cwmnïau o'r fath?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We look to promote firms abroad through trade missions, and via the schemes that I have already mentioned. I have been on trade missions where I have been accompanied by a number of Welsh businesses—indeed, I know that there were successes in terms of negotiating successful contracts at the Paris Air Show last week. It is important that we are able to send trade missions around the world in order to promote many Welsh businesses—some of which are quite small—and to enable them to grow in the future.

Rydym yn ceisio hyrwyddo cwmnïau dramor trwy deithiau masnach, a thrwy'r cynlluniau yr wyf wedi eu crybwyll eisoes. Rwyf wedi bod ar deithiau masnach yng nghwmni nifer o fusnesau o Gymru—yn wir, rwy'n gwybod y bu llwyddiannau o ran cytuno ar gontractau llwyddiannus yn Sioe Awyr Paris yr wythnos diwethaf. Mae'n bwysig ein bod yn gallu cynnal teithiau masnach ledled y byd er mwyn hyrwyddo llawer o fusnesau Cymru—rhai ohonynt yn eithaf bach—a'u galluogi i dyfu yn y dyfodol.

13:38 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod gwelliant a chynnydd bach wedi bod yn yr allforion o Gymru yn ystod y ddau chwarter diwethaf, rwy'n credu. Fodd bynnag, sut mae'r ffigurau hynny'n cymharu â'r ffigurau cyn y dirwasgiad?

The latest figures show that there has been a slight increase in the exports from Wales over the past two quarters, I believe. However, how do those figures compare with the pre-recession figures?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r ffigurau wedi gwella dros ddegawd—mae hynny'n wir—ond mae pethau wedi bod yn anodd ers i'r dirwasgiad ddechrau. Yr oedd cwymp llynedd o ran allforion o Gymru; roedd hynny fwy neu lai oherwydd bod 'refinery' Valero wedi cau am ychydig, ac felly roedd cwymp sylweddol o ran allforio petrolewm, sy'n allweddol i allforio yng Nghymru. Mae'n wir dweud bod pethau wedi gwella dros ddegawd, ac mae'n braf gweld bod y ffigurau o ran buddsoddiad o dramor, yn enwedig, yn ddiweddar wedi cynyddu o 123%.

The figures have improved over a period of a decade—that is true—but things have been difficult since the start of the recession. There was a fall last year in terms of Welsh exports. That was generally because the Valero refinery was closed for a time, and therefore there was a significant decline in petroleum exports, which are crucial to exports more generally from Wales. It is true to say that things have improved over a period of a decade and it is good to see that the figures in terms of investment from abroad have increased by 123%.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon, we have the leader of the opposition, Andrew R. T. Davies.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, last week we had figures from Estyn that indicated that 40% of primary school children and 50% of secondary school children had poor numeracy skills. When Megan was conceived by the Welsh Government in 2006, the statement at the beginning of the document said that Megan, through her life, would,

'have unprecedented new opportunities todevelop to the limits of her ability, rather thanthe limits of the system.'

What went wrong for Megan?

Brif Weinidog, cawsom ffigurau gan Estyn yr wythnos diwethaf a oedd yn dangos bod gan 40% o blant ysgolion cynradd a 50% o blant ysgolion uwchradd sgiliau rhifedd gwael. Pan luniwyd Megan gan Lywodraeth Cymru yn 2006, roedd y datganiad ar ddechrau'r ddogfen yn dweud y byddai Megan, trwy gydol ei hoes, yn:

cael cyfleoedd newydd, digyffelyb, i ddatblygu hyd eithaf ei gallu, yn hytrach na hyd eithaf terfynau'r system.

Beth aeth o chwith i Megan?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As the Member will know, we have the national literacy and numeracy framework, which is now in place. We believe that will ensure that there are ever-higher attainment levels for Welsh pupils.

Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol gennym, sydd wedi ei sefydlu bellach. Rydym yn credu y bydd hwnnw'n sicrhau lefelau cyrhaeddiad cynyddol uwch i ddisgyblion Cymru.

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, the Welsh Government has, since the inception of devolution and under successive Labour Ministers, brought forward initiative after initiative. Here we are, in 2013, with Estyn, the school inspectorate, bringing forward figures that show that 40% of primary school children and half of secondary children fall behind, so Megan would have an evens chance of actually falling behind on numeracy in Welsh schools. How can we have any confidence—I hear the Minister for Education and Skills chundering on there—in the ability of this Minister for education and your Government to be any different from previous Assembly Governments that have clearly failed the Megans of this world?

Brif Weinidog, ers dechrau datganoli ac o dan Weinidogion Llafur olynol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno menter ar ôl menter. Dyma ni, yn 2013, ac mae Estyn, yr arolygiaeth ysgolion, yn cyhoeddi ffigurau sy'n dangos bod 40% o blant ysgolion cynradd a hanner plant uwchradd ar ei hôl hi, felly byddai gan Megan un siawns mewn dau o fod ar ei hôl hi o ran rhifedd yn ysgolion Cymru mewn gwirionedd. Sut allwn ni fod ag unrhyw ffydd—rwy'n clywed y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn clebran yn y fan yna—yng ngallu'r Gweinidog addysg hwn a'ch Llywodraeth i wneud unrhyw beth gwahanol i Lywodraethau blaenorol y Cynulliad sy'n amlwg wedi siomi pobl fel Megan?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not accept that. If you look at the figures 51.1% of pupils achieved the level 2 threshold, including English, Welsh and mathematics in 2011-12. That is seven points higher than in 2006-07. We know that the number of pupils leaving full-time education with no qualifications has dropped. We know that the gap in performance between those pupils entitled to free school meals and those who are not is being addressed and has fallen over the last two years. We know, for example, that attainment has improved at key stage 3—the figures show that. Of course, we have the foundation phase, which, together with the national literacy and numeracy framework, will allow us to ensure that literacy and numeracy improve in the future.

Nid wyf yn derbyn hynny. Os edrychwch chi ar y ffigurau, cyrhaeddodd 51.1% o ddisgyblion drothwy lefel 2, gan gynnwys mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn 2011-12. Mae hynny saith pwynt yn uwch nag yn 2006-07. Rydym yn gwybod bod nifer y disgyblion sy'n gadael addysg llawn amser heb gymwysterau wedi gostwng. Rydym yn gwybod bod y bwlch rhwng perfformiad y disgyblion hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl iddynt wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydym yn gwybod, er enghraifft, bod cyrhaeddiad wedi gwella yng nghyfnod allweddol 3—mae'r ffigurau'n dangos hynny. Wrth gwrs, mae'r cyfnod sylfaen gennym, a fydd, ynghyd â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, yn ein galluogi i sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn gwella yn y dyfodol.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

That clearly is not happening, First Minister. The evidence from the school inspectorate shows that that is not happening on the ground. What we do have, though, is a Minister for education who, week in week out, is taking positions that differ from your Government's position, whether that be on accident and emergency services or, indeed, his own department's position on surplus school places. How can anyone have confidence in your Government's ability to improve those deplorable figures, when you have a Cabinet Minister who is not buying in to Cabinet responsibility and is campaigning on one side of the fence for the Rhondda and on the other side of the fence for the Government? We had the One Wales Government in the third Assembly; we have a two-Wales Government now: one led by you and one being undermined by the Minister for education. Have you confidence in your Minister for education to deliver for the students of Wales?

Mae'n amlwg nad yw hynny'n digwydd, Brif Weinidog. Mae'r dystiolaeth o'r arolygiaeth ysgolion yn dangos nad yw hynny'n digwydd ar lawr gwlad. Beth sydd gennym, fodd bynnag, yw Gweinidog addysg sydd, wythnos ar ôl wythnos, yn cymryd safbwyntiau sy'n wahanol i safbwynt eich Llywodraeth, boed hynny ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys neu, yn wir, safbwynt ei adran ei hun ar leoedd gwag mewn ysgolion. Sut y gall unrhyw un fod yn hyderus yng ngallu eich Llywodraeth i wella'r ffigurau trychinebus hyn, pan fo gennych chi Weinidog yn y Cabinet nad yw'n cyd-fynd â chyfrifoldeb y Cabinet ac yn ymgyrchu ar un ochr y ffens dros y Rhondda ac ar ochr arall y ffens dros y Llywodraeth? Cawsom Lywodraeth Cymru'n Un yn y trydydd Cynulliad; mae gennym Lywodraeth dwy Gymru bellach: un a arweinir gennych chi ac un sy'n cael ei thanseilio gan y Gweinidog addysg. A oes gennych chi ffydd yn eich Gweinidog addysg i gyflawni dros fyfyrwyr Cymru?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Welsh Government will continue to deliver. I will just give him some figures on key stage 2: since 1998-99 performance in the core subject indicators has increased from 61% to 83%. That is another figure that shows the improvement that a Welsh Labour Government has delivered. If we are talking about Ministers, I recall last night the Secretary of State for Wales destroying the Silk commission. The Silk commission was set up by him and, last night, he destroyed part 2 of the Silk commission. He said that he was not prepared to consider any change in the devolution settlement, which is something—[Interruption.]

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflawni. Hoffwn roi rhai ffigurau iddo ar gyfnod allweddol 2: ers 1998-99, mae perfformiad yn y dangosyddion pwnc craidd wedi cynyddu o 61% i 83%. Dyna ffigur arall sy'n dangos y gwelliant y mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi ei gyflawni. Os ydym ni'n sôn am Weinidogion, rwy'n cofio Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn dinistrio comisiwn Silk neithiwr. Sefydlwyd comisiwn Silk ganddo ef a, neithiwr, dinistriodd ail ran comisiwn Silk. Dywedodd nad oedd yn barod i ystyried unrhyw newid i'r setliad datganoli, sy'n rhywbeth—[Torri ar draws.]

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order.

Trefn.

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is something, in fairness to the leader of the opposition, that he has never said. It was the Secretary of State for Wales who said that the Welsh Government was like a butterfly collector trying to collect powers. These are views not taken by the Welsh Government, but by all parties in this Chamber. If we are talking about collective responsibility, if we are talking about speaking on behalf of the Government, where on earth is the Secretary of State for Wales?

Mae'n rhywbeth, er tegwch i arweinydd yr wrthblaid, nad yw ef erioed wedi ei ddweud. Ysgrifennydd Gwladol Cymru a ddywedodd bod Llywodraeth Cymru fel casglwr gloÿnnod byw yn ceisio casglu pwerau. Nid safbwyntiau Llywodraeth Cymru yw'r rhain, ond safbwyntiau pob plaid yn y Siambr hon. Os ydym yn sôn am gyfrifoldeb ar y cyd, os ydym yn sôn am siarad ar ran y Llywodraeth, ble ar y ddaear y mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru?

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, how do you reconcile your Government's policy regarding surplus places, while photographs emerge of the Minister for education not just objecting to a consultation process, but actively marching and campaigning to keep open a school that should, according to his policies and his directives, close?

Brif Weinidog, sut ydych chi'n cysoni polisi eich Llywodraeth o ran lleoedd gwag, pan gyhoeddir lluniau o'r Gweinidog addysg, nid yn unig yn gwrthwynebu proses ymgynghori, ond yn gorymdeithio ac yn ymgyrchu'n ymarferol i gadw ar agor ysgol a ddylai, yn ôl ei bolisïau a'i gyfarwyddebau ef, gau?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Welsh Government's policy on surplus places has not changed.

Nid yw polisi Llywodraeth Cymru ar leoedd gwag wedi newid.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

It may not have changed for you, First Minister, but can you not see that the Minister's behaviour conflicts with the role that he has taken, with your Government's policies and with your public statements— something that you have just repeated? Do you not accept that, when a Minister behaves in such a way, it undermines your Government and it undermines your leadership?

Efallai nad yw wedi newid i chi, Brif Weinidog, ond allwch chi ddim gweld fod ymddygiad y Gweinidog yn gwrthdaro â'r swydd y mae wedi ei chymryd, â pholisïau eich Llywodraeth a chyda'ch datganiadau cyhoeddus—rhywbeth yr ydych chi newydd ei ailadrodd? Onid ydych chi'n derbyn, pan fydd Gweinidog yn ymddwyn yn y fath fodd, ei fod yn tanseilio eich Llywodraeth ac yn tanseilio eich arweinyddiaeth?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, I do not accept that for one moment. As I said, the policy has not changed. These are matters that, in the future, will remain the same. It is correct to say that there are surplus places in Wales and that those surplus places need to be dealt with.

Na, nid wyf yn derbyn hynny am eiliad. Fel y dywedais, nid yw'r polisi wedi newid. Mae'r rhain yn faterion a fydd, yn y dyfodol, yn aros yr un fath. Mae'n gywir i ddweud bod lleoedd gwag yng Nghymru a bod angen ymdrin â'r lleoedd gwag hynny.

13:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Do not tell me that; tell your Minister for education. First Minister, you have had to spend more and more of your time defending the performance and actions of your Cabinet colleagues. You had to reshuffle your Minister for health, you had to fend off calls for the resignation of your Minister for agriculture and you have had to slap down a rogue Minister for education, who now, we find out, disagrees not only with Labour's health policies, but with policies that he has written himself. Before it gets any worse for you, First Minister, is it not time for you to agree with the Standards of Conduct Committee and reconsider appointing an independent person to police the ministerial code?

Peidiwch â dweud hynny wrthyf i; dywedwch wrth eich Gweinidog addysg. Brif Weinidog, rydych chi wedi gorfod treulio mwy a mwy o'ch amser yn amddiffyn perfformiad a gweithredoedd eich cydweithwyr yn y Cabinet. Bu'n rhaid i chi ad-drefnu eich Gweinidog iechyd, bu'n rhaid i chi wrthod galwadau am ymddiswyddiad y Gweinidog amaethyddiaeth a bu'n rhaid i chi geryddu Gweinidog addysg twyllodrus, sydd bellach, rydym ni'n canfod, yn anghytuno nid yn unig â pholisïau iechyd y blaid Lafur, ond gyda pholisïau y mae ef ei hun wedi eu hysgrifennu. Cyn i bethau waethygu ymhellach i chi, Brif Weinidog, onid yw'n bryd i chi gytuno â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac ailystyried penodi unigolyn annibynnol i blismona'r cod gweinidogol?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is a matter for debate tomorrow. The Government's response in that regard will come tomorrow. I am amazed by what the leader of the Liberal Democrats has said. She saw what the Secretary of State said yesterday. She is a Member of the governing party in London. Does she agree with the Secretary of State, or was he flying a kite in that regard? Is it the case that the Liberal Democrats agree that the Silk commission's work should now be junked? Is it the case that the Liberal Democrats agree that there is no scope to change the devolution settlement? It is all very well the leader of the Liberal Democrats shouting about this. I understand how upset she is about what the Secretary of State said yesterday, but it is about time the Liberal Democrats made their views clear as to whether they agree with the Secretary of State that there should be no changes to the devolution settlement.

Mae hynny'n fater i'w drafod yfory. Daw ymateb y Llywodraeth yn hynny o beth yfory. Mae'r hyn y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi ei ddweud yn fy syfrdanu. Gwelodd yr hyn a ddywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol ddoe. Mae hi'n Aelod o'r blaid sy'n llywodraethu yn Llundain. A yw hi'n cytuno â'r Ysgrifennydd Gwladol, neu ai dim ond gwneud awgrym oedd ef yn hynny o beth? A yw'n wir fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno y dylai gwaith comisiwn Silk gael ei anghofio bellach? A yw'n wir fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno nad oes lle i newid y setliad datganoli? Mae'n ddigon hawdd i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol weiddi am hyn. Rwy'n deall ei gofid am yr hyn a ddywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol ddoe, ond mae'n hen bryd i'r Democratiaid Rhyddfrydol wneud eu barn yn eglur o ran ba un a ydynt yn cytuno â'r Ysgrifennydd Gwladol na ddylai fod unrhyw newidiadau i'r setliad datganoli.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the Leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:46 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, last week I quoted Vincent Kane, who said that Wales is becoming an economic wasteland, a description that you said was R.S. Thomas-like—a response that sounds very much like a denial to me. The BBC journalist Mark Easton recently made a short film in Blaenau Gwent that showed very high rates of depression and problems related to high levels of worklessness. This is neither fantasy nor fiction, First Minister. Wales is increasingly reliant upon food banks and too many people are finding it difficult to cope. When are you going to stop being in denial?

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, dyfynnais Vincent Kane, a ddywedodd fod Cymru yn troi'n dir economaidd diffaith, disgrifiad y dywedasoch chi oedd yn debyg i rywbeth gan R.S. Thomas—ymateb sy'n swnio'n debyg iawn i wadiad i mi. Gwnaeth newyddiadurwr y BBC Mark Easton ffilm fer ym Mlaenau Gwent yn ddiweddar a oedd yn dangos cyfraddau uchel iawn o iselder a phroblemau'n gysylltiedig â lefelau uchel o ddiweithdra. Nid yw hyn yn ffantasi nac yn ffuglen, Brif Weinidog. Mae Cymru'n dibynnu fwyfwy ar fanciau bwyd ac mae gormod o bobl yn ei chael hi'n anodd ymdopi. Pryd ydych chi'n mynd i roi'r gorau i wadu hyn?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I read the report from the BBC. It completely failed to mention the works. It seemed to me that the journalist had gone into that report with a particular view of what he wanted to report and ignored the facts. He failed to see the new further education college that has been built, he failed to see the redevelopment that has taken place at Ebbw Vale and the enormous redevelopment that is taking place on the old steelworks site, he failed to take into account the plans to bring the railway line into Ebbw Vale and he failed to take into full account the issue of the enterprise zone. I am afraid that I take no notice of the report. Unlike the leader of Plaid Cymru, I do not think that Wales is a wasteland.

Darllenais yr adroddiad gan y BBC. Methodd â sôn am y gweithfeydd yn llwyr. Roedd yn ymddangos i mi fod y newyddiadurwr wedi mynd i'r afael â'r adroddiad yna gyda bwriad penodol o'r hyn yr oedd yn dymuno ei adrodd gan anwybyddu'r ffeithiau. Methodd â gweld y coleg addysg bellach newydd sydd wedi ei adeiladu, methodd â gweld yr ailddatblygu sydd wedi digwydd yng Nglynebwy a'r ailddatblygu enfawr sy'n digwydd ar safle'r hen waith dur, method â chymryd i ystyriaeth y cynlluniau i ddod â'r rheilffordd i Lynebwy a methodd â rhoi ystyriaeth lawn i'r ardal fenter. Rwy'n ofni nad wyf fi'n cymryd unrhyw sylw o'r adroddiad. Yn wahanol i arweinydd Plaid Cymru, nid wyf yn credu bod Cymru yn dir diffaith.

13:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

First Minister, you are in denial. You cannot deny the impact of the recession on Wales and upon people's physical and mental health. It is substantial. Between 2008 and 2011, there was a 38% increase in the number of male suicides in Wales. The biggest increases were among young men in their early 20s and men in their 40s. What are you doing to help our communities deal with this appalling increase in mental health problems and how will you ensure that you keep up with the increased demand for mental health services in coming years?

Brif Weinidog, rydych chi'n ymwadu. Ni allwch wadu effaith y dirwasgiad ar Gymru ac ar iechyd corfforol a meddyliol pobl. Mae'n sylweddol. Rhwng 2008 a 2011, bu cynnydd o 38% i nifer yr achosion o hunanladdiad ymhlith dynion yng Nghymru. Roedd y cynnydd mwyaf ymhlith dynion ifanc yn eu 20au cynnar a dynion yn eu 40au. Beth ydych chi'n ei wneud i helpu ein cymunedau i ymdopi â'r cynnydd ofnadwy hwn mewn problemau iechyd meddwl a sut y byddwch chi'n sicrhau eich bod yn bodloni'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl yn y blynyddoedd i ddod?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

She has changed tack now. The first question was about what we were doing to deal with the economic situation. That has been said ad nauseam in this Chamber. The second question accused me of denying the effect of the recession. Of course I do not deny the effect of the recession; it is there for all to see. I do not think that her party has any answers at all to how to deal with the economic situation that we are in. We have. We have done it through the Wales small and medium-sized enterprise growth fund and the Wales economic growth fund. Her predecessor did it as Minister for economic development at the time when things started to become difficult. We have continued, to a great extent, what he put in place. Unless she is willing to criticise him and the policies that he put in place, then I do not know where she is going with this. We take very seriously the effects of the recession. We have put in place the extension of Flying Start, which we promised that we would do, we have made communities safer in establishing more community support officers, we have ensured, through Jobs Growth Wales, that we now have more than 4,000 young people in apprenticeships or training with a view to getting a job: 80% of them get in that position. These are all the things that we promised to the people of Wales. We are taking action. Where is the action from Plaid Cymru?

Mae hi wedi newid cyfeiriad nawr. Roedd y cwestiwn cyntaf yn ymwneud â'r hyn yr ydym yn ei wneud i ymdrin â'r sefyllfa economaidd. Mae hynny wedi cael ei ddweud hyd at syrffed yn y Siambr hon. Roedd yr ail gwestiwn yn fy nghyhuddo i o wadu effaith y dirwasgiad. Nid wyf yn gwadu effaith y dirwasgiad wrth gwrs; mae yno i bawb ei weld. Nid wyf yn credu bod gan ei phlaid hi unrhyw atebion o gwbl o ran sut i ymdrin â'r sefyllfa economaidd yr ydym ni ynddi. Mae gennym ni. Rydym ni wedi ei wneud trwy gronfa twf busnesau bach a chanolig eu maint Cymru a chronfa twf economaidd Cymru. Gwnaeth ei rhagflaenydd hynny fel Gweinidog datblygu economaidd ar yr adeg pan ddechreuodd pethau fynd yn anodd. Rydym ni wedi parhau, i raddau helaeth, â'r hyn a sefydlwyd ganddo ef. Oni bai ei bod yn barod i'w feirniadu ef a'r polisïau a sefydlwyd ganddo, nid wyf yn gwybod ble mae hi'n mynd gyda hyn. Rydym ni'n trin effeithiau'r dirwasgiad o ddifrif. Rydym ni wedi sefydlu'r estyniad i Dechrau'n Deg, a addawyd gennym y byddem ni'n ei wneud, rydym ni wedi gwneud cymunedau yn fwy diogel o ran sefydlu mwy o swyddogion cymorth cymunedol, rydym wedi sicrhau, trwy Twf Swyddi Cymru, bod gennym fwy na 4,000 o bobl ifanc mewn prentisiaethau neu hyfforddiant erbyn hyn, gyda'r gobaith o gael swydd: mae 80% ohonynt yn cyrraedd y sefyllfa honno. Dyma'r holl bethau a addawsom i bobl Cymru. Rydym ni'n cymryd camau. Ble mae camau Plaid Cymru?

13:49 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

First Minister, the outcomes are simply not there though, are they? According to a Sheffield Hallam University report, eight Welsh local authorities are among the 20 UK authorities worst affected by cuts to disability living allowance. Five of the 10 worst-hit for incapacity benefit are Valleys councils. All the evidence and statistics show that some parts of Wales are declining fast, yet you are in denial. Plaid Cymru has produced 'Plan C', and a plan for the Valleys, 'A Greenprint for the Valleys', which you may well have heard me talk about before. First Minister, when are we going to see your plans for the Valleys?

Ond Brif Weinidog, nid yw'r canlyniadau i'w gweld mewn gwirionedd, ydyn nhw? Yn ôl adroddiad Prifysgol Sheffield Hallam, mae wyth o awdurdodau lleol Cymru ymhlith yr 20 awdurdod yr effeithiwyd arnynt waethaf gan doriadau i lwfans byw i'r anabl yn y DU. Mae pump o'r 10 yr effeithiwyd arnynt waethaf o ran budd-dal analluogrwydd yn gynghorau yn y Cymoedd. Mae'r holl dystiolaeth ac ystadegau yn dangos bod rhai rhannau o Gymru yn dirywio'n gyflym, ac eto rydych chi'n dal i wadu. Mae Plaid Cymru wedi llunio 'Cynllun C', a chynllun ar gyfer y Cymoedd, 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd', efallai eich bod wedi fy nghlywed yn sôn amdano o'r blaen. Brif Weinidog, pryd yr ydym ni'n mynd i weld eich cynlluniau chi ar gyfer y Cymoedd?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Leader of Plaid Cymru seems to think that she is in Parliament in London. I would remind that, if she is that British in her outlook, perhaps she should go there, but there are those of us in this Chamber who feel that Wales is important. The Welsh Government is taking forward policies for the people of Wales, rather than some ill-defined, vague plan. You only have to see the success of Jobs Growth Wales, the success of the Wales economic growth fund, that foreign direct investment rates have gone up 123% in the last year, that export rates are going back up again this year, the success of the trade missions, the jobs announcements that have been made in Wales, and the fact that we have enterprise zones that are moving forward, including one in Blaenau Gwent. These are all things that have been developed under a Welsh Labour Government, while Plaid Cymru has produced a 'Plan C'. What 'C' stands for, I do not know, but 'clueless' is a good description.

Mae'n ymddangos bod Arweinydd Plaid Cymru yn meddwl ei bod hi yn y Senedd yn Llundain. Hoffwn ei hatgoffa, os yw hi mor Brydeinig â hynny yn ei hagwedd, efallai y dylai hi fynd yno, ond mae rhai ohonom ni yn y Siambr hon sy'n teimlo bod Cymru yn bwysig. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu polisïau ar gyfer pobl Cymru, yn hytrach na rhyw gynllun annelwig ac amwys. Does ond yn rhaid i chi weld llwyddiant Twf Swyddi Cymru, llwyddiant cronfa twf economaidd Cymru, bod cyfraddau buddsoddiad tramor uniongyrchol wedi cynyddu 123% yn y flwyddyn ddiwethaf, bod cyfraddau allforio yn mynd yn ôl i fyny eto eleni, llwyddiant y teithiau masnach, y cyhoeddiadau am swyddi sydd wedi eu gwneud yng Nghymru, a'r ffaith fod gennym ardaloedd menter sy'n datblygu, gan gynnwys un ym Mlaenau Gwent. Mae'r rhain i gyd yn bethau sydd wedi eu datblygu dan Lywodraeth Lafur Cymru, tra bod Plaid Cymru wedi cynhyrchu 'Cynllun C'. Wn i ddim am beth mae'r 'C' yn sefyll, ond byddai 'clueless' yn ddisgrifiad da.

## Datblygu Economaidd yng Nghanol De Cymru

## Economic Development in South Wales Central

13:51 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)1151(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on his priorities for economic development in South Wales Central? OAQ(4)1151(FM)*

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. Our priorities for economic development continue to be the encouragement of jobs and growth.

Gwnaf. Annog swyddi a thwf yw ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd o hyd.

13:51 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, First Minister. Can I draw the First Minister's attention to the Cardiff enterprise zone, in particular the lack of take-up of business rate relief? Under the last round of applications for business rate relief, not one business had it granted to it. That either shows a failure of Government to engage with businesses within the enterprise zone or an inability for businesses to think that it is worth their while applying. What action is the First Minister and his Government taking to address this, because surely one of the big planks that would support businesses is greater uptake of business rate relief, which is, clearly, not happening in the enterprise zone?

Diolch i chi am hynna, Brif Weinidog. A allaf i dynnu sylw'r Prif Weinidog at ardal fenter Caerdydd, ac yn benodol y diffyg niferoedd sydd wedi manteisio ar ostyngiad i ardrethi busnes? Dan y rownd ddiwethaf o geisiadau am ostyngiad i ardrethi busnes, ni chafodd ei ganiatáu i unrhyw fusnes. Mae hynny naill ai'n dangos methiant y Llywodraeth i ymgysylltu â busnesau o fewn yr ardal fenter neu'r ffaith nad yw busnesau'n meddwl ei fod yn werth iddyn nhw wneud cais. Pa gamau mae'r Prif Weinidog a'i Lywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, oherwydd does bosib mai un o'r planciau mawr a fyddai'n cefnogi busnesau yw i fwy o bobl fanteisio ar ostyngiad i ardrethi busnes, ac, yn amlwg, nid yw hynny'n digwydd yn yr ardal fenter?

13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is true. Of course, one of the things that we have done is to make sure that there is sufficient grade-A office space available for business. In that way, we can attract more businesses to the enterprise zone. That will mean that many of those businesses may want to apply for business rate relief in the future. What we have done is to ensure that the right level and quality of office space is available to attract businesses into Cardiff, and that is exactly what a Government should be doing. In fact, it is exactly what the Tory Government did in the 1980s with the Development Board for Rural Wales and the Welsh Development Agency—making sure that buildings were built to attract businesses. We are, I suppose, in some ways following the example that it set in the 1980s, although that is as far as I would go in terms of the lessons that it can teach us.

Mae hynny'n wir. Wrth gwrs, un o'r pethau yr ydym ni wedi ei wneud yw gwneud yn siŵr bod digon o swyddfeydd o'r radd flaenaf ar gael i fusnesau. Gallwn ddenu mwy o fusnesau i'r ardal fenter drwy wneud hynny. Bydd hynny'n golygu efallai y bydd llawer o'r busnesau hynny eisiau gwneud cais am ostyngiad i ardrethi busnes yn y dyfodol. Yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud yw sicrhau bod y lefel a'r ansawdd cywir o ran swyddfeydd ar gael i ddenu busnesau i Gaerdydd, a dyna'n union y dylai Llywodraeth fod yn ei wneud. A dweud y gwir, dyna'n union yr hyn a wnaed gan Lywodraeth y Toriaid yn y 1980au gyda Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ac Awdurdod Datblygu Cymru—gan sicrhau bod adeiladau yn cael eu hadeiladu i ddenu busnesau. Rydym ni, mewn rhai ffyrdd mae'n debyg, yn dilyn yr esiampl a osodwyd gan y Llywodraeth honno yn y 1980au, er bod hynny cyn belled ag y byddwn i'n mynd o ran y gwersi y gall eu haddysgu i ni.

13:52 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you will be aware of Unison's recent report, 'A Future for Wales'. One of the suggestions in that report was that all local government pension funds should be combined into one fund, and that fund could then be used to support infrastructure investment in Wales. Will you consider this suggestion, which has the support of the other major local government trade unions, and whether it could support greater investment in the south Wales economy, as well as providing a better return for members?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o adroddiad diweddar Unsain, 'Dyfodol i Gymru'. Un o'r awgrymiadau yn yr adroddiad hwnnw oedd y dylai holl gronfeydd pensiwn llywodraeth leol gael eu cyfuno'n un gronfa, ac y gellid defnyddio'r gronfa honno wedyn i gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith yng Nghymru. A wnewch chi ystyried yr awgrym hwn, a gefnogir gan yr undebau llafur llywodraeth leol mawr eraill, a pha un a allai hynny gefnogi mwy o fuddsoddiad yn economi de Cymru, yn ogystal â darparu gwell elw i aelodau?

13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As part of the Wales infrastructure investment plan, we are committed to exploring innovative means of levering additional funding into public infrastructure investment. Developing schemes that enable direct access to the capital markets, including pension funds, is a part of that, so it is certainly something that we will look to explore as work progresses on the plan.

Yn rhan o gynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, rydym ni wedi ymrwymo i archwilio ffyrdd arloesol o roi cyllid ychwanegol i'w fuddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus. Mae datblygu cynlluniau sy'n galluogi mynediad uniongyrchol at y marchnadoedd cyfalaf, gan gynnwys cronfeydd pensiwn, yn rhan o hynny, felly mae'n sicr yn rhywbeth y byddwn yn ystyried ei archwilio wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen ar y cynllun.

13:53 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, mae llawer o bobl yn poeni'n arw am ddyfodol S4C, yr unig sianel deledu Gymraeg yn y byd. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth San Steffan yn torri ei gyllideb eto yn yr adolygiad o wariant. Mae S4C yn bwysig i ddiwylliant, economi a iaith Cymru. Brif Weinidog, beth allwch ei wneud i sicrhau y bydd llif arian annibynnol i S4C yn parhau yn y dyfodol?

First Minister, many people are extremely concerned about the future of S4C, the only Welsh-language television channel in the world. It is possible that the Westminster Government will, once again, cut its budget in the spending review. S4C is important to the culture, economy and language of Wales. What can you do, First Minister, to ensure that there will continue to be an independent income stream for S4C for the future?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n bwysig dros ben, wrth gwrs, bod S4C yn cael y cyfle i gael ei gyllido mewn ffordd deg yn y dyfodol. Rwyf wedi siarad yn barod gyda phrif weithredwr S4C, ac mae'n wir i ddweud bod y sianel ei hun yn bryderus iawn am yr hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol. Nid ydym wedi cael cadarnhad eto ynglŷn â beth y gallai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei wneud, ond mae John Griffiths, y Gweinidog, wedi ysgrifennu at Maria Miller er mwyn dweud yn blwmp ac yn blaen na fyddai hyn yn rhywbeth y gallem ei dderbyn fel Llywodraeth. Mae'n bwysig dros ben fod cefnogaeth deg i'r sianel gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

It is very important, of course, that S4C has the opportunity to be funded fairly in the future. I have already spoken to the chief executive of S4C, and it is true to say that the channel itself is very concerned about what may happen in the future. We have not received confirmation as of yet as to what the Department for Culture, Media and Sport could do, but John Griffiths, the Minister, has written to Maria Miller to state clearly that this would not be something that we could accept as a Government. It is extremely important that there should be fair support for the channel from the UK Government.

13:54 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Encouraging young entrepreneurs is an economic priority in my region, First Minister. I have been looking at the Welsh Government's Big Ideas Wales website, which describes itself as 'guiding young people to start up'. On the page on 'useful guides to turn ideas into reality', it links to a series of fact sheets, including: 'How to set up your own escort agency', 'How to set up your own lapdancing club' and 'How to become a stripper'. These are, of course, legal enterprises, but are they, do you think, the kind of aspirational career opportunities that the Welsh Government should be actively promoting to young people?

Mae annog entrepreneuriaid ifanc yn flaenoriaeth economaidd yn fy rhanbarth i, Brif Weinidog. Rwyf wedi bod yn edrych ar wefan Syniadau Mawr Cymru Llywodraeth Cymru, sy'n dweud ei bod yn 'rhoi canllawiau i bobl ifanc ar gyfer dechrau busnes'. Ar y dudalen ar 'canllawiau defnyddiol i wireddu syniadau', ceir dolenni i gyfres o daflenni gwybodaeth, gan gynnwys: 'Sut i sefydlu eich asiantaeth esgort eich hun', 'Sut i sefydlu eich clwb glin-ddawnsio eich hun' a 'Sut i fod yn striper '. Mae'r rhain, wrth gwrs, yn fentrau cyfreithlon, ond ai dyma, yn eich barn chi, yw'r math o gyfleoedd gyrfaol uchelgeisiol y dylai Llywodraeth Cymru fod yn eu hyrwyddo'n ymarferol i bobl ifanc?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No. I was made aware of this some 10 minutes before I came into the Chamber and I will ensure that there is a full investigation into how this happened.

Nage. Fe'm hysbyswyd am hyn tua 10 munud cyn i mi ddod i mewn i'r Siambr a byddaf yn sicrhau y bydd ymchwiliad llawn i sut y digwyddodd hyn.

## Economi Gorllewin Cymru

## The Economy of West Wales

13:55 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

*4. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu economi gorllewin Cymru? OAQ(4)1142(FM)*

*4. What steps is the Welsh Government taking to promote the economy of west Wales? OAQ(4)1142(FM)*

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym yn dal i hybu economi gorllewin Cymru drwy ganolbwyntio ar weithgareddau sy'n annog twf a swyddi, a hynny drwy ddarparu amrywiaeth eang o gefnogaeth i fusnesau.

We are continuing to promote the economy of west Wales by focusing on activities that encourage jobs and growth through providing wide ranging support to businesses.

13:55 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, yng Ngheredigion, mae'r stryd fawr yn parhau i fod yn bwysig fel lleoliad ar gyfer busnes, siopa a hamdden. Fodd bynnag, y byrdwn mawr ar fusnesau a siopau annibynnol ar y stryd fawr yw ardrethi busnes. Yn sgîl y gwaith mae'ch Llywodraeth eisoes wedi ei wneud ar ardrethi busnes, a wnewch chi ystyried ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi busnes i gynnwys mwy o siopau annibynnol ar y stryd fawr er mwyn eu galluogi i oroesi'r cyfnod economaidd heriol hwn?

First Minister, in Ceredigion, the high street remains an important location for business, shopping and leisure. However, the great burden on businesses and independent shops on the high street is business rates. Given the work that your Government has already done on business rates, will you consider extending the business rate relief scheme to include more independent shops on the high street in order to enable them to survive these challenging economic times?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym yn barod i ystyried hynny. Bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ynglŷn ag ardrethi busnes yn y pen draw, a bydd yn gynhwysfawr iawn ynglŷn â'r ffyrdd i hybu'r stryd fawr yn y dyfodol. Gwn fod cymysgedd o siopau yn nhrefi Ceredigion—mae Aberaeron wedi gwneud yn weddol dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac Aberystwyth hefyd, o achos y myfyrwyr, ac Aberteifi i raddau. Fodd bynnag, mae'n bwysig dros ben ein bod yn sicrhau bod y pecyn mwyaf effeithiol gennym i helpu'r stryd fawr yn y dyfodol.

We are willing to consider that. The Minister will be making a statement on business rates, and it will be very comprehensive as regards ways of promoting the high street in the future. I know that there is a mix of shops in Ceredigion's towns—Aberaeron has done quite well in the past few years, as has Aberystwyth, because of the students, and Cardigan to an extent. However, it is exceptionally important that we ensure that we have the most effective package to assist the high street in future.

13:56 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

First Minister, the Welsh Government-sponsored Spotlight West Wales event on Friday in Carmarthen was a fantastic opportunity to focus on the region's achievements and to identify new opportunities to boost business by inspiring, educating and developing relationships. How will the Welsh Government capitalise on the momentum of this event to ensure that the legacy of it is jobs and growth in west Wales?

Brif Weinidog, roedd y digwyddiad Goleuo'r Gorllewin a noddwyd gan Lywodraeth Cymru ddydd Gwener yng Nghaerfyrddin yn gyfle gwych i ganolbwyntio ar lwyddiannau'r rhanbarth ac i nodi cyfleoedd newydd i roi hwb i fusnes drwy ysbrydoli, addysgu a datblygu cysylltiadau. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn manteisio ar fomentwm y digwyddiad hwn er mwyn sicrhau etifeddiaeth o swyddi a thwf yn y gorllewin iddo?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Business and specialist advisers from our business Wales network were present at the event to help promote the range of help available and they will continue to provide tailor-made professional guidance and support to SMEs and microbusinesses. They also run a programme of events and workshops covering a range of topics to support business growth. So, there were officials there and they will now look to provide further support and assistance off the back of the event.

Roedd cynghorwyr busnes ac arbenigol o'n rhwydwaith busnes Cymru yn bresennol yn y digwyddiad i helpu i hyrwyddo'r amrywiaeth o gymorth sydd ar gael a byddant yn parhau i roi cyfarwyddyd a chefnogaeth broffesiynol wedi'u teilwra i fusnesau bach a chanolig eu maint ac i ficrofusnesau. Maen nhw hefyd yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau a gweithdai ar amrywiaeth o bynciau i gefnogi twf busnes. Felly, roedd swyddogion yno a'u nod nawr fydd darparu cefnogaeth a chymorth pellach yn sgil y digwyddiad.

13:57 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Bydd parthau menter yn cyfrannu at wella economi Cymru a bydd parth menter yr Hafan yn hanfodol i economi gorllewin Cymru. Ar ôl ymweld â'r parth menter wythnos diwethaf, cafodd y Pwyllgor Cyllid gyflwyniad gan Finance Wales. Fe gadarnhaodd cynrychiolydd Finance Wales nad oedd pecyn ariannol arbennig i fusnesau mewn parthau menter. Yn yr amgylchiadau, Brif Weinidog, a allwch ddweud wrthym a yw'ch Llywodraeth yn fodlon ystyried gweithio gyda Finance Wales i ddatblygu pecyn ariannol arbennig i fusnesau mewn parthau menter?

Enterprise zones will contribute to the improvement of the Welsh economy and the Haven enterprise zone will be crucial to the economy of west Wales. Having visited the enterprise zone last week, the Finance Committee had a presentation from Finance Wales. A representative of Finance Wales confirmed that there was no particular financial package available to businesses in enterprise zones. In the circumstances, First Minister, could you tell us whether your Government is willing to consider working with Finance Wales to develop a financial package for businesses in enterprise zones?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae sawl adroddiad wedi cael eu comisiynu er mwyn edrych ar y cyfleoedd sydd yn yr Hafan. Rwy'n deall bod yr adroddiadau hynny'n mynd i gael eu cyflwyno i'r bwrdd erbyn diwedd yr haf. Mae adroddiad wedi cael ei gomisiynu ynglŷn â safle Waterston. Mae gwaith wedi cael ei wneud i wella'r gatiau dŵr yn y marina, ac mae 100 o swyddi wedi'u creu gydag estyniad y busnes adeiladu cychod, Mustang Marine Ltd, yn Noc Penfro.

A number of reports have been commissioned to look at the opportunities in the Haven. I understand that those reports will be presented to the board by the end of the summer. A report has been commissioned on the Waterston site. Work has been done to improve the lock gates in the marina, and 100 jobs have been created through the expansion of the ship building business, Mustang Marine Ltd, in Pembroke Dock.

## Materion a drafodwyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru

## Issues discussed with the Secretary of State for Wales

13:58 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Gweinidog nodi pa faterion a drafodwyd pan gyfarfu ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? OAQ(4)1154(FM)*

*5. Will the Minister outline what issues were discussed when he met with the Secretary of State for Wales? OAQ(4)1154(FM)*

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ni chynhaliwyd y cyfarfod diwethaf a drefnwyd o achos y ffaith bod yr Ysgrifennydd Gwladol yng Nghaerdydd ond yn rhy fishi i gwrdd â fi. Edrychaf ymlaen at gwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol yn y dyfodol.

Our last arranged meeting did not take place because the Secretary of State was in Cardiff but too busy to meet with me. I look forward to meeting the Secretary of State in future.

13:59 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Ond, Brif Weinidog, a golloch chi unrhyw beth o beidio â'i gyfarfod ag ef? Yn ddiweddar, mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi datgan y dylai Llywodraeth Cymru ddilyn yr un polisi cynllunio ynglŷn ag ynni adnewyddadwy ag sydd yn Lloegr. Yn ddiweddar iawn, mae wedi datgan, y drws nesaf atom yn y fan hon, nad oes angen newid o gwbl yn y strwythur datganoli. Beth yw diben swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru?

But, First Minister, did you miss out on anything by not meeting him? Recently, the Secretary of State for Wales has stated that the Welsh Government should follow the same planning policy in relation to renewable energy as is followed in England. Very recently, he has stated, next door to us here, that there is no need for any change in the structure of devolution. What is the point of the post of Secretary of State for Wales?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n anodd dweud ar hyn o bryd. Mae llawer o ddiddordeb gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn pethau sydd wedi eu datganoli—pethau mae pobl Cymru ddwywaith wedi dweud na ddylai gael unrhyw ddylanwad drostynt. Dywedodd ddoe nad oes eisiau newid y setliad datganoli. Mae hynny'n codi'r cwestiwn hwn: beth yw pwynt Silk? Mae comisiynwyr Silk yn gofyn y cwestiwn hwnnw ar hyn o bryd. A oedd ef yn siarad dros Lywodraeth y Deyrnas Unedig neu beidio? A oedd yn siarad dros y Rhyddfrydwyr neu beidio? Yn ogystal, i fod yn deg, nid yw'n siarad, yn fy marn i, dros Geidwadwyr Cymru, sydd wedi bod yn gadarn yn eu safbwynt y dylai'r setliad gael ei newid. Felly, a yw'n siarad dros ei hun neu dros unrhyw un arall? Nid oes neb yn gwybod.

It is difficult to say at present. The Secretary of State for Wales has a great deal of interest in devolved matters—things that the people of Wales have twice said he should have no influence over. He said yesterday that there is no need to amend the devolution settlement. That begs this question: what is the point of Silk? The Silk commissioners are asking that question at present. Was he speaking on behalf of the United Kingdom Government or not? Was he speaking on behalf of the Liberals or not? In addition, to be fair, he does not speak, in my opinion, on behalf of the Welsh Conservatives, who have been firm in their stance that the settlement should be amended. So, is he speaking on his own behalf or on behalf of anyone else? No-one knows.

14:00 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

First Minister, I am sure that you are aware that it was the Conservative-Liberal Democrat Government in Westminster that set up the Silk commission and allowed it to take the views of a wide range of people within the Chamber and also the strong views of people outside the Chamber. No doubt the Secretary of State is entitled to express his personal views. [Interruption.] Do you not agree that the recommendations will ultimately lie with the Silk commission?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol mai Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan sefydlodd gomisiwn Silk gan ganiatáu iddo ystyried barn amrywiaeth eang o bobl yn y Siambr, yn ogystal â safbwyntiau cryf pobl y tu allan i'r Siambr. Nid oes amheuaeth fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl i fynegi ei farn bersonol. [Torri ar draws.] Onid ydych chi'n cytuno mai comisiwn Silk fydd yn gyfrifol am yr argymhellion yn y pen draw?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The recommendations lie with the Silk commission, that much is clear, but the Secretary of State has basically rejected any recommendation before the commission has even finished its work. That is the path to judicial review, as any lawyer will tell you. However, I am exceptionally surprised that the Secretary of State should have expressed such a wide view on the devolution settlement. We are talking about 800 years of history. He said that he could not unravel 800 years of history, but that is an argument against devolution. I am not sure why he raised that. He surely is aware that the opinion polls show that the Welsh people are very much in favour of more devolution.

Comisiwn Silk sy'n gyfrifol am yr argymhellion, mae cymaint â hynny'n eglur, ond mae'r Ysgrifennydd Gwladol fwy neu lai wedi gwrthod unrhyw argymhelliad cyn i'r comisiwn orffen ei waith hyd yn oed. Dyna'r llwybr i adolygiad barnwrol, fel y bydd unrhyw gyfreithiwr yn dweud wrthych. Fodd bynnag, rwy'n synnu'n fawr iawn bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi mynegi barn mor eang ar y setliad datganoli. Rydym ni'n sôn am 800 o flynyddoedd o hanes. Dywedodd na allai ddadwneud 800 mlynedd o hanes, ond mae honno'n ddadl yn erbyn datganoli. Nid wyf yn siŵr pam y gwnaeth ef godi hynny. Does bosib ei fod yn ymwybodol bod y polau piniwn yn dangos bod pobl Cymru yn bendant o blaid mwy o ddatganoli.

I was particularly concerned by two things that he said. First, he said that he felt that the present model—second-class Scotland, as I call it—is sufficient to allow there to be a flow back and forth of powers between Cardiff and Westminster. The Welsh people have already voted on this two years ago. I would like to know which powers are going to be—he uses the word 'repatriated'; I use the word 'pinched' from the Welsh people. I find that very worrying, and it suggests to me that this is an attempt to keep a settlement that undermines devolution in the future, to no-one's advantage.

Mae dau beth a ddywedodd yn peri pryder arbennig i mi. Yn gyntaf, dywedodd ei fod yn teimlo bod y model presennol—yr Alban ail-ddosbarth, fel rwy'n ei alw—yn ddigon i ganiatáu i bwerau lifo yn ôl ac ymlaen rhwng Caerdydd a San Steffan. Mae pobl Cymru eisoes wedi pleidleisio ar hyn ddwy flynedd yn ôl. Hoffwn wybod pa bwerau sy'n mynd i gael eu —'dadalltudio' yw ei air ef; rwyf fi'n defnyddio'r gair 'dwyn' oddi ar bobl Cymru. Mae hynny'n peri pryder mawr i mi, ac mae'n awgrymu i mi fod hon yn ymgais i gadw setliad a fydd yn tanseilio datganoli yn y dyfodol, na fyddai o fantais i neb.

Secondly, he mentioned transport projects that are of national importance. He meant England, of course, or England and Wales, at the most, when he talked about 'national importance'. We know in Wales that we want to see sufficient powers to enable us to move forward with borrowing and with an income stream, and sufficient powers, which have been identified, not just by the Government, but by all parties in the Chamber, to help to make the settlement more robust and give the people of Wales the powers that they deserve. Last night, all of that argument was thrown out of the window by the Secretary of State, and I do not know now what the view of the UK Government is. I know the view of the Welsh Conservatives and I know the view of the Welsh Liberal Democrats, but now I am afraid that confusion reigns in London.

Yn ail, soniodd am brosiectau trafnidiaeth sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Roedd yn golygu Lloegr, wrth gwrs, neu Loegr a Chymru, o leiaf, pan soniodd am 'bwysigrwydd cenedlaethol'. Rydym yn gwybod yng Nghymru, ein bod eisiau gweld digon o bwerau i'n galluogi i symud ymlaen gyda benthyca a gyda ffrwd incwm, a phwerau digonol, sydd wedi cael eu nodi, nid yn unig gan y Llywodraeth, ond gan bob plaid yn y Siambr, er mwyn helpu i wneud y setliad yn fwy cadarn a rhoi'r pwerau maen nhw'n eu haeddu i bobl Cymru. Neithiwr, taflwyd yr holl ddadl honno allan drwy'r ffenestr gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac nid wyf yn gwybod beth yw barn Llywodraeth y DU bellach. Rwy'n gwybod beth yw barn Ceidwadwyr Cymru ac rwy'n gwybod beth yw barn Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ond rwy'n ofni mai dryswch sydd bennaf yn Llundain.

## Targedau Amseroedd Aros y GIG

## NHS Waiting Time Targets

14:03 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dargedau amseroedd aros y GIG ar gyfer Powys? OAQ(4)1146(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on NHS waiting time targets for Powys? OAQ(4)1146(FM)*

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Powys, along with all other health boards in Wales, is taking action to ensure that waiting-time targets are met.

Mae Powys, ynghyd â'r holl fyrddau iechyd eraill yng Nghymru, yn cymryd camau i sicrhau bod targedau amser aros yn cael eu cyrraedd.

14:03 **Russell George** Bywgraffiad Biography

The issue for me, First Minister, is the performance of Powys Teaching Local Health Board as the commissioner of treatment, particularly when it comes to commissioning with English hospital trusts. There are still over 200 people waiting over the 36-week target and, while I appreciate that there are mitigating factors, the impact of Powys's waiting-time policy, which was implemented in November and is still in place, is still being felt. How will you ensure that Powys health board reverses its policy so that Powys patients receive equal treatment?

Y broblem i mi, Brif Weinidog, yw perfformiad Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys fel y comisiynydd triniaeth, yn enwedig pan ddaw i gomisiynu gydag ymddiriedolaethau ysbytai Lloegr. Mae dros 200 o bobl yn dal i aros am fwy na'r targed o 36 wythnos ac, er fy mod yn gwerthfawrogi bod ffactorau arbennig yn bodoli, mae effaith polisi amser aros Powys, a roddwyd ar waith ym mis Tachwedd ac sy'n dal i fod ar waith, yn dal i gael ei deimlo. Sut y byddwch chi'n sicrhau bod bwrdd iechyd Powys yn gwrthdroi ei bolisi fel bod cleifion Powys yn derbyn triniaeth gyfartal?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The problem in Powys is that when people are referred to English hospitals, they wait longer. To give the Member some statistics, for example, in terms of data for the 26-week target, in Wales the performance is 95%. For Powys residents waiting to be treated in England, it is 87.1%, which is a poorer performance. When it comes, for example, to the performance on cancer, in terms of those referred on the urgent pathway to English hospitals, 97.3% were treated within 31 days; the equivalent figure in Wales was 99%. Therefore, the difficulty at the moment lies in the fact that those Powys residents who are referred to English hospitals get a worse service.

Y broblem ym Mhowys yw bod pobl yn aros yn hirach pan fyddant yn cael eu hatgyfeirio i ysbytai Lloegr. I roi rhai ystadegau i'r Aelod, er enghraifft, o ran y data ar gyfer y targed 26 wythnos, 95% yw'r perfformiad yng Nghymru. 87.1% yw'r ffigur ar gyfer trigolion Powys sy'n aros i gael triniaeth yn Lloegr, sy'n berfformiad salach. Wrth ystyried, er enghraifft, y perfformiad o ran canser, o ran y rhai a atgyfeiriwyd ar y llwybr brys i ysbytai yn Lloegr, derbyniodd 97.3% driniaeth o fewn 31 diwrnod; 99% oedd y ffigur cyfatebol yng Nghymru. Felly, yr anhawster ar hyn o bryd yw'r ffaith fod y trigolion hynny o Bowys sy'n cael eu hatgyfeirio i ysbytai yn Lloegr yn derbyn gwasanaeth salach.

14:04 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

A throi y ffordd arall, Brif Weinidog, mae trigolion de Powys yn dibynnu ar wasanaethau sydd i'w cael yn ne Cymru, o gwmpas Ysbyty'r Tywysog Siarl yn arbennig. Mae cynlluniau yn y de i newid rhai o'r gwasanaethau hynny, felly pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau nad yw trigolion de Powys ar eu colled o ganlyniad i symud gwasanaethau yn ne Cymru?

To turn in another direction, First Minister, the people of south Powys are dependent upon services in south Wales, particularly those services around Prince Charles Hospital. There are plans in south Wales to change some of those services, therefore what steps is the Government taking to ensure that the people of south Powys will not lose out when services are moved around in south Wales?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Fel y gŵyr yr Aelod, mae'r mater hwn yn rhan o broses ymgynghori ar hyn o bryd, felly ni fyddai'n briodol imi wneud unrhyw fath o ddatganiad ar hynny.

As the Member knows, this is something that is currently subject to a consultation process, therefore it would not be appropriate for me to make any kind of statement on that.

14:05 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

One particular area where Powys patients are experiencing very long waits is for access to DEXA scanning to obtain a diagnosis of osteoporosis. What steps can the Welsh Government take to ensure that women needing DEXA scanning for such purposes will have access to timely screening, and then appropriate treatment?

Un maes arbennig lle mae cleifion Powys yn aros am amser hir iawn yw am fynediad at sganio DEXA i gael diagnosis o osteoporosis. Pa gamau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau y bydd gan fenywod sydd angen sganio DEXA at ddibenion o'r fath fynediad at sgrinio prydlon, ac yna triniaeth briodol?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I know that the Minister for Health and Social Services is aware of this issue, and he is looking to see what can be done in order to provide an appropriate level of access to scanning for the residents of Powys.

Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol o'r mater hwn, ac mae'n ystyried beth y gellir ei wneud i ddarparu lefel briodol o fynediad at sganio i drigolion Powys.

### Prosiect Gwyrdd

### Prosiect Gwyrdd

14:06 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rheswm y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol rhoi cymhorthdal o dros £6 miliwn y flwyddyn ar gyfer ffioedd wrth giât y llosgydd ar gyfer Prosiect Gwyrdd? OAQ(4)1145(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on why the Welsh Government considers it necessary to subsidise the incinerator gate fees for Prosiect Gwyrdd by over £6 million per annum? OAQ(4)1145(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is actually £4.264 million per annum, not £6 million; however, we do have an ambitious target in 'Towards Zero Waste' to drive resource efficiency. We are helping the local authorities, through Prosiect Gwyrdd, to secure an affordable and sustainable alternative to landfill for non-recyclable waste. Recyclable waste needs to be dealt with in the proper way, but there will still be residual waste that cannot be recycled. Incineration is better than landfill.

£4.264 miliwn y flwyddyn yw'r ffigur mewn gwirionedd, nid £6 miliwn; fodd bynnag, mae gennym darged uchelgeisiol yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' i sbarduno effeithlonrwydd adnoddau. Rydym yn helpu awdurdodau lleol, trwy Prosiect Gwyrdd, i sicrhau dewis amgen fforddiadwy a chynaliadwy i safleoedd tirlenwi ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu. Mae angen ymdrin â gwastraff y gellir ei ailgylchu yn y ffordd briodol, ond bydd gwastraff dros ben na ellir ei ailgylchu yn parhau i fodoli. Mae llosgi'n well na thirlenwi.

14:06 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister. That is still a lot of money. You will know that a statement by the EU Commission in November 2012 stated that energy recovery must be limited to non-recyclable materials, and that barriers facing recycling activities include the presence of harmful subsidies to support incineration. First Minister, will you please take a look at this particular EU statement to see how this can fit into the general policy of incineration in Wales? When we want to be encouraging people to recycle, I do not think that an emphasis towards incineration is the way that we should be going in Wales.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae hynny'n dal i fod yn ddrud iawn. Byddwch yn gwybod bod datganiad gan Gomisiwn yr UE ym mis Tachwedd 2012 wedi datgan bod yn rhaid cyfyngu adfer ynni i ddefnyddiau na ellir eu hailgylchu, a bod rhwystrau sy'n wynebu gweithgareddau ailgylchu yn cynnwys presenoldeb cymhorthion niweidiol i gefnogi llosgi. Brif Weinidog, a fyddech chi cystal â bwrw golwg ar y datganiad UE penodol hwnnw i weld sut y gall hyn gyd-fynd â'r polisi cyffredinol o losgi yng Nghymru? Pan mai annog pobl i ailgylchu y dylem ni fod yn ei wneud, nid wyf yn credu mai rhoi pwyslais ar losgi yw'r trywydd y dylem ni fod yn ei ddilyn yng Nghymru.

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We should put this in context. Our recycling rate in around 2000 was 4%. It is now 50%. That is an enormous increase in recycling in a pretty short space of time. Notwithstanding that, there will still be waste that cannot be recycled, certainly in the short term, and that must be dealt with. We now take the view that landfill is the worst possible option; so, incineration is being taken forward. It is quite common for that to happen in other countries in Europe. Of course we want to move to zero waste—as we have said, with 'Towards Zero Waste'—and a zero waste economy, but that is some years ahead of us. Nevertheless, the recycling figures that we have seen in Wales have increased quite substantially, as I have mentioned, over the past 13 years.

Dylem roi hyn yn ei gyd-destun. Tua 4% oedd ein cyfradd ailgylchu yn 2000. Mae'n 50% erbyn hyn. Mae hynny'n gynnydd enfawr mewn ailgylchu mewn cyfnod eithaf byr o amser. Er hynny, bydd gwastraff na ellir ei ailgylchu, yn sicr yn y byrdymor, yn parhau i fodoli, ac mae'n rhaid ymdrin â hwnnw. Rydym ni bellach o'r farn mai tirlenwi yw'r dewis gwaethaf posibl; felly, mae llosgi yn cael ei ddatblygu. Mae'n eithaf cyffredin i hynny ddigwydd mewn gwledydd eraill yn Ewrop. Wrth gwrs ein bod eisiau symud at ddim gwastraff—fel rydym ni wedi'i ddweud yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'—ac economi diwastraff, ond mae hynny rai blynyddoedd yn y dyfodol. Serch hynny, mae'r ffigurau ailgylchu yr ydym ni wedi eu gweld yng Nghymru wedi cynyddu'n eithaf sylweddol, fel yr wyf wedi ei grybwyll, yn ystod y 13 mlynedd diwethaf.

14:08 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

First Minister, you will be aware that there are widely varying attitudes to incineration across Europe. For example, in Denmark and Norway, there are very different attitudes. Last year, Norway imported 45,000 tonnes of household waste from the UK to incinerate. I am pleased that you have re-stated the commitment to reuse and recycle. Can you confirm, First Minister, not only that incineration will only be preferable to landfill, but that there will be a focus on anaerobic digestion, and that we will not move towards the position in Norway of actively importing waste for incineration?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod agweddau at losgi yn amrywio'n eang ledled Ewrop. Er enghraifft, yn Nenmarc a Norwy, ceir agweddau gwahanol iawn. Y llynedd, mewnforiodd Norwy 45,000 tunnell o wastraff cartref o'r DU i'w losgi. Rwy'n falch eich bod wedi ail-ddatgan yr ymrwymiad i ailddefnyddio ac ailgylchu. A allwch chi gadarnhau, Brif Weinidog, nid yn unig y bydd llosgi yn well na thirlenwi, ond y bydd pwyslais ar dreuliad anaerobig, ac na fyddwn yn symud tuag at y sefyllfa yn Norwy o fewnforio gwastraff yn ymarferol i'w losgi?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I know that the Member will be aware of the waste hierarchy. Landfill sits at the bottom and incineration sits just above that, and then we have energy from waste, reusing, recycling and composting. We continue to encourage recycling and reusing in composting as much as possible. The figures speak for themselves in terms of how successful that has been. We are ahead of the UK in that regard. Nevertheless, certainly for the time being, there will be a need to dispose of waste through incineration rather than through landfill, but we are not looking to encourage more waste to be incinerated that would otherwise be recycled. That is certainly not the case.

Gwn y bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r hierarchaeth wastraff. Mae tirlenwi ar y gwaelod ac mae llosgi ychydig yn uwch na hynny, ac yna mae gennym ni ynni o wastraff, ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio. Rydym yn parhau i annog ailgylchu ac ailddefnyddio trwy gompostio cymaint â phosibl. Mae'r ffigurau'n siarad drostynt eu hunain o ran pa mor llwyddiannus y bu hynny. Rydym ar y blaen i'r DU yn hynny o beth. Serch hynny, yn sicr ar hyn o bryd, bydd angen cael gwared ar wastraff trwy losgi yn hytrach na thrwy dirlenwi, ond nid ydym yn bwriadu annog bod mwy o wastraff yn cael ei losgi a fyddai'n cael ei ailgylchu fel arall. Nid dyna'r achos yn sicr.

14:09 **Russell George** Bywgraffiad Biography

First Minister, your Government signed up to all of the recommendations made by the Petitions Committee in its report, published last December. Recommendation 4 was to consider the feasibility of contributing to a comprehensive study to explore the potential health risks that could be associated with the release of very small particles from incinerators. What progress have you made on implementing this recommendation?

Brif Weinidog, cytunodd eich Llywodraeth i gyd-fynd â phob un o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Deisebau yn ei adroddiad, a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf. Argymhelliad 4 oedd ystyried y posibilrwydd o gyfrannu at astudiaeth gynhwysfawr i ystyried y risgiau iechyd posibl a allai fod yn gysylltiedig â rhyddhau gronynnau bach iawn o losgyddion. Pa gynnydd ydych chi wedi ei wneud o ran rhoi'r argymhelliad hwn ar waith?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that the Member is talking about PM2.5 or PM10 measures. PM10, of course, is the usual particulate measure that has historically been used, although the PM2.5 measure is increasingly being looked at by those who are environmental scientists in the field. I will write to the Member with regard to his specific question, in terms of the timescale for complying with the recommendation that may have been accepted.

Credaf fod yr Aelod yn siarad am fesurau PM2.5 neu PM10. PM10, wrth gwrs, yw'r mesur gronynnau arferol a ddefnyddiwyd yn hanesyddol, er bod y mesur PM2.5 yn cael ei ystyried fwyfwy gan y rhai sy'n wyddonwyr amgylcheddol yn y maes. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod o ran ei gwestiwn penodol, ynglŷn ag amserlen ar gyfer cydymffurfio â'r argymhelliad a allai fod wedi ei dderbyn.

**Rhyddhad Ardrethi Busnes**

**Business Rate Relief**

14:10 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i newid y rhyddhad ardrethi busnes? OAQ(4)1147(FM)*

*8. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's plans to change business rate relief? OAQ(4)1147(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are currently consulting on the recommendations of the task and finish group. The Minister will publish a summary of responses from the consultation and will make a further announcement to Members in due course.

Rydym yn ymgynghori ar argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ar hyn o bryd. Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn gwneud cyhoeddiad pellach i'r Aelodau maes o law.

14:10 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Thank you for that reply, First Minister. The Charity Retail Association has warned that a Welsh Government proposal to implement changes to business rate relief could result in 80 shops closing, a loss of 130 paid jobs, and nearly £2 million being lost from charity income. Since Wales already has the highest high street vacancy rate in the United Kingdom, why is the Welsh Government proposing to penalise charity shops that raise money for worthy causes, including hospices and palliative care?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae'r Gymdeithas Manwerthu Elusennol wedi rhybuddio y gallai cynnig Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau i ostyngiadau i ardrethi busnes arwain at gau 80 o siopau, colli 130 o swyddi cyflogedig, a cholli bron i £2 filiwn o incwm elusennau. Gan mai Cymru sydd â'r gyfradd siopau gwag uchaf ar y stryd fawr yn y Deyrnas Unedig eisoes, pam mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cosbi siopau elusennol sy'n codi arian i achosion da, gan gynnwys hosbisau a gofal lliniarol?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is very kind of the Member to describe me as 'Prime Minister', but I can certainly assure the Chamber that that is the last thing that I would want to be, certainly in Westminster.

Mae'r Aelod yn garedig iawn yn fy nisgrifio fel 'Y Prif Weinidog', ond gallaf sicrhau'r Siambr yn bendant mai dyna'r peth olaf y byddwn i eisiau ei fod, yn sicr yn San Steffan.

The Member talks about charity. I wish to make it absolutely clear that no decisions have been made at all, nor have there been any Government proposals, to change the nature of business rate relief to charities. This has been identified as part of a consultation process, and no decisions have been taken. The Minister is aware of all of the issues surrounding charities. I have to say to the Member that it was his party that suggested that charitable shops should be banned from selling certain goods. That is in the party's consultation document. You cannot, on the one hand, say how important charity shops are and, on the other hand, say that you would impose a ban on selling certain goods through those shops.

Mae'r Aelod yn siarad am elusennau. Hoffwn ei gwneud yn gwbl eglur nad oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud o gwbl, ac ni chafwyd unrhyw gynigion gan y Llywodraeth ychwaith, i newid natur y rhyddhad ardrethi busnes i elusennau. Mae hyn wedi ei nodi yn rhan o broses ymgynghori, ac nid oes unrhyw benderfyniadau wedi ei wneud. Mae'r Gweinidog yn ymwybodol o'r holl faterion sy'n ymwneud ag elusennau. Mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Aelod mai ei blaid ef a awgrymodd y dylai siopau elusennol gael eu gwahardd rhag gwerthu nwyddau penodol. Mae hynny yn nogfen ymgynghori ei blaid. Ni allwch, ar y naill law, ddweud pa mor bwysig yw siopau elusennol ac, ar y llaw arall, dweud y byddech yn gwahardd gwerthu nwyddau penodol drwy'r siopau hynny.

14:11 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

To carry on that theme, I have received a large number of representations from small charities across Mid and West Wales on the potential impact that a reduction in business rate relief could have on their livelihoods and their ability to serve their local communities. I know that this is out to consultation. However, they are seeking reassurance that any changes to business rate relief will not impact adversely on the small charities on the high street that provide service delivery to very local communities.

I barhau ar y thema honno, rwyf wedi derbyn nifer fawr o sylwadau gan elusennau bach ledled canolbarth a gorllewin Cymru ar yr effaith bosibl y gallai lleihau'r rhyddhad ardrethi busnes ei chael ar eu bywoliaeth ac ar eu gallu i wasanaethu eu cymunedau lleol. Gwn fod hyn yn destun ymgynghoriad. Fodd bynnag, maen nhw'n gofyn am sicrwydd na fydd unrhyw newidiadau i'r rhyddhad ardrethi busnes yn effeithio'n andwyol ar yr elusennau bach ar y stryd fawr sy'n darparu gwasanaethau i gymunedau lleol iawn.

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can assure Members that the Minister's stance on this is neutral. She is sensitive to the many viewpoints that have been expressed, and to those that will continue to be expressed, during the course of the consultation process. The process will end later this month, and the Minister will take a considered decision, taking into account all of the submissions that have been made, at the appropriate time.

Gallaf sicrhau'r Aelodau bod safbwynt y Gweinidog ar hyn yn niwtral. Mae hi'n sensitif i'r llu o safbwyntiau sydd wedi eu mynegi, ac i'r rhai a fydd yn parhau i gael eu mynegi, yn ystod y broses ymgynghori. Bydd y broses yn dod i ben yn ddiweddarach y mis hwn, a bydd y Gweinidog yn gwneud penderfyniad cytbwys, gan gymryd yr holl gyflwyniadau a wnaed i ystyriaeth, ar yr adeg briodol.

14:12 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Credaf y gallaf gyfeirio atoch fel 'Prif Weinidog' yn y Gymraeg. [Chwerthin.] Brif Weinidog, mae'r mater hwn yn fater dyrys iawn. Rwyf yn clywed cwynion gan berchnogion siopau mewn trefi yn fy etholaeth i fod yna ormod o siopau elusen ar y stryd fawr. Rwyf hefyd yn cael gohebiaeth oddi wrth siopau elusen sy'n poeni am yr argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Gweinidog. Rwyf yn falch iawn fod y Gweinidog yn derbyn ei bod ei sefyllfa yn niwtral ar hyn o bryd. A wnewch chi roi ystyriaeth i'r ffaith, os bydd nifer o siopau elusen yn cau ar y stryd fawr, mae perygl y byddwn yn cael ein gadael â nifer o siopau gwag ar y stryd fawr? Gallai hynny fod yn andwyol iawn i'r economi lleol ac i ddelwedd y stryd fawr yn ein trefi yng Nghymru.

I believe that I can refer to you as 'Prif Weinidog' in Welsh. [Laughter.] First Minister, this is a very complicated issue. I receive complaints from shop owners in towns in my constituency that there are too many charity shops on the high street. I also receive correspondence from charity shops that are concerned about the recommendation in the report that has been presented to the Minister. I am very pleased that the Minister accepts that her position is neutral at present. Will you give consideration to the fact that if a substantial number of charity shops close on the high street, there is a risk that we will be left with a number of empty shops on the high street? That could be detrimental to the local economy and to the image of the high street in our towns in Wales.

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r pwynt hwnnw'n bwynt teg. Credaf ei bod yn werth pwysleisio ei bod yn well gweld siop yn cael ei defnyddio na gweld siop wag. Mewn sawl tref yng Nghymru, mae siopau elusen yn darparu gwasanaeth pwysig dros ben, o ran sicrhau bod nwyddau ar gael i bobl am bris fforddiadwy. Felly, o ran yr hyn a ddywedais eisoes am safbwynt y Gweinidog, dywedaf unwaith eto y bydd pob ffaith yn cael ei chymryd i ystyriaeth cyn y bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud.

That is a fair point. It is important to emphasise that it is better to see a shop being used than to see it vacant. In a number of Welsh towns, charity shops provide very important services, in terms of ensuring that goods are available to people at a price that they can afford. So, in terms of what I have said already on the stance of the Minister, I reiterate that all facts will be taken into account before any decision is made.

## Ysmygu

## Smoking

14:14 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*9. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i leihau nifer y bobl sy'n ysmygu yng Nghymru? OAQ(4)1149(FM)*

*9. What plans does the Welsh Government have to reduce the number of people smoking in Wales? OAQ(4)1149(FM)*

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our tobacco control action plan sets out how we aim to tackle smoking. We continue to invest in discouraging people from starting to smoke and supporting those who want to quit. We have set a new target for NHS Wales to increase the number of smokers accessing smoking cessation services.

Mae ein cynllun gweithredu ar reoli tybaco yn nodi sut yr ydym yn bwriadu mynd i'r afael ag ysmygu. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn annog pobl i beidio â dechrau ysmygu a chefnogi'r rhai sydd am roi'r gorau iddi. Rydym ni wedi gosod targed newydd i GIG Cymru gynyddu nifer yr ysmygwyr sy'n defnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu.

14:14 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the First Minister for that response, and I appreciate that the Welsh Government has done a lot in this field. Has the Welsh Government considered implementing a retail register in Wales that would ensure that tobacco is sold only at certain registered outlets, which would help to stop underage sales and help to stop the trade in illicit tobacco?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna, ac rwyf yn gwerthfawrogi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer yn y maes hwn. A yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried sefydlu cofrestr fanwerthu yng Nghymru a fyddai'n sicrhau na fyddai tybaco ond yn cael ei werthu mewn siopau cofrestredig penodol, a fyddai'n helpu i atal gwerthu i bobl dan oed ac yn helpu i atal y fasnach mewn tybaco anghyfreithlon?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can say to the Member that we are considering a number of policy areas for inclusion in the public health Bill, including the possibility of a tobacco retailers' register, and I shall of course be making a statement on the programme on 16 July.

Gallaf ddweud wrth yr Aelod ein bod yn ystyried nifer o feysydd polisi i'w cynnwys ym Mil iechyd y cyhoedd, gan gynnwys y posibilrwydd o gofrestr manwerthwyr tybaco, a byddaf, wrth gwrs, yn gwneud datganiad ar y rhaglen ar 16 Gorffennaf.

14:15 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

First Minister, one of the disappointing things in the recent Welsh health survey was that the number of smokers seems to have plateaued in terms of the decline in Wales, with just a 1% drop since 2007. Unfortunately, those in the most deprived communities are three times more likely to die from smoking-related diseases than those in the more affluent parts of the country. Do you think the current system of GP referrals to the smoking cessation service is the right way to address the problem of smoking, particularly in those stubborn areas where it does not appear to be coming down? Also, what assurances can you give to Members that the full range of therapies recommended by NICE are available through the NHS to those people who might require them?

Brif Weinidog, un o'r pethau siomedig yn yr arolwg iechyd Cymru diweddar oedd ei bod yn ymddangos bod nifer yr ysmygwyr wedi lefelu o ran y gostyngiad yng Nghymru, a dim ond gostyngiad o 1% a fu ers 2007. Yn anffodus, mae'r rhai yn y cymunedau mwyaf difreintiedig dair gwaith yn fwy tebygol o farw o glefydau sy'n gysylltiedig ag ysmygu na'r rhai mewn rhannau mwy cyfoethog o'r wlad. A ydych chi'n credu mai'r system bresennol o atgyfeiriadau gan feddygon teulu at y gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu yw'r ffordd iawn o fynd i'r afael â'r broblem o ysmygu, yn enwedig yn yr ardaloedd ystyfnig hynny lle nad yw'n ymddangos ei fod yn gostwng? Hefyd, pa sicrwydd allwch chi ei roi i'r Aelodau bod yr holl amrywiaeth o therapïau a argymhellir gan NICE ar gael trwy'r GIG i'r bobl hynny a allai fod eu hangen?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course, smoking cessation services are important, but they are not the only lever when it comes to controlling smoking. The Member will be aware of what we have done in terms of smoking in cars when children are present, and what has been done in terms of controlling the sale of tobacco, including regulations banning the sale of tobacco from vending machines, which came into force on 1 February last year. It seems a lot longer than last year, actually. It seems a while since I saw a cigarette machine in a pub—of course, I do not frequent pubs often, but it is nonetheless a long time since I saw one in such a premises. I can say that the Minister has recently agreed to a tier 1 target for smoking cessation services in Wales. That means that local health boards will now need to ensure that 5% of the smoking population makes a quit attempt using a smoking cessation service in 2013-14. Some 40% of smokers accessing the services must be biochemically validated as having quit at a four-week follow-up. So, it is a question of not simply making sure that people are referred, but that they are monitored.

Wrth gwrs, mae gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yn bwysig, ond nid dyma'r unig ddull o reoli ysmygu. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r hyn yr ydym ni wedi ei wneud o ran ysmygu mewn ceir pan fo plant yn bresennol, a'r hyn a wnaed o ran rheoli gwerthiant tybaco, gan gynnwys rheoliadau sy'n gwahardd gwerthu tybaco o beiriannau gwerthu, a ddaeth i rym ar 1 Chwefror y llynedd. Mae'n ymddangos yn llawer ymhellach yn ôl na'r llynedd, mewn gwirionedd. Mae'n ymddangos bod cryn amser ers i mi weld peiriant sigaréts mewn tafarn—wrth gwrs, nid wyf yn mynd i dafarnau yn aml, ond, serch hynny, mae cryn amser ers i mi weld un mewn safle o'r fath. Gallaf ddweud bod y Gweinidog wedi cytuno yn ddiweddar i darged haen 1 ar gyfer gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yng Nghymru. Mae hynny'n golygu y bydd angen bellach i fyrddau iechyd lleol sicrhau bod 5% o'r boblogaeth sy'n ysmygu yn gwneud ymdrech i roi'r gorau iddi gan ddefnyddio gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu yn 2013-14. Mae'n rhaid dilysu'n fiocemegol bod tua 40% o ysmygwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau wedi rhoi'r gorau iddi mewn sesiwn ddilynol ar ôl pedair wythnos. Felly, mae'n fater o nid yn unig gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu hatgyfeirio, ond eu bod yn cael eu monitro.

14:17 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

First Minister, 6,000 of our fellow countrymen and women a year die as a result of smoking. The tobacco industry has to recruit at least 6,000 every year to maintain its present position and we know that they are mainly young people and children. First Minister, I am all in favour of plain packaging for cigarettes, and we are aware that the United Kingdom Government has kicked its own plans on that issue into the long grass. So, realistically, there is no point in us in Wales waiting for it to act on this issue. Could you therefore outline what your plans are regarding plain packaging for tobacco?

Brif Weinidog, mae 6,000 o'n cydwladwyr yn marw o ganlyniad i ysmygu bob blwyddyn. Mae'n rhaid i'r diwydiant tybaco recriwtio o leiaf 6,000 bob blwyddyn i gynnal ei sefyllfa bresennol ac rydym yn gwybod mai pobl ifanc a phlant yw'r rhain yn bennaf. Brif Weinidog, rwy'n bendant o blaid pecynnau plaen ar gyfer sigaréts, ac rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi ei gynlluniau ei hun ar y mater hwnnw o'r neilltu. Felly, mewn gwirionedd, nid oes pwynt i ni yng Nghymru aros iddi weithredu ar y mater hwn. A allech chi felly amlinellu beth yw eich cynlluniau o ran pecynnu plaen ar gyfer tybaco?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Minister issued a written statement on 15 May outlining our position. He has also written for a second time, expressing his disappointment that standardised packaging of tobacco products was not included in the Queen's Speech this year. I can say that Ministers in Scotland and Northern Ireland have also written to the Secretary of State in England in similar terms.

Cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig ar 15 Mai yn amlinellu ein safbwynt. Mae hefyd wedi ysgrifennu am yr eilwaith, yn mynegi ei siom nad oedd pecynnu safonol ar gyfer cynnyrch tybaco wedi ei gynnwys yn Araith y Frenhines eleni. Gallaf ddweud bod Gweinidogion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr yn mynegi safbwynt tebyg.

14:18

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have two changes to report to this week's business. The planned oral statement on additional learning needs will now be issued as a written statement. Secondly, as no questions had been tabled for answer by the Assembly Commission, the Business Committee has agreed to adjust timings for tomorrow accordingly. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Bydd y datganiad llafar arfaethedig ar anghenion dysgu ychwanegol, bellach yn cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig. Yn ail, gan nad oes cwestiynau wedi'u cyflwyno i'w hateb gan Gomisiwn y Cynulliad, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i addasu'r amseroedd ar gyfer yfory yn unol â hynny. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel a welir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir eu gweld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:18 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Leader of the house, there have been numerous requests in this Chamber for a statement on the funding of All Wales Ethnic Minority Association, but not one has yet been forthcoming. Last week, yet again, another report was published by the Public Accounts Committee, which clearly reveals management shortcomings in the allocation of grants, and it has called for a cultural change in the way that the Welsh Government awards money. The way in which public money is spent should be a priority for any Government and should be at the top of its agenda. It is therefore only right and proper that the Welsh Government responds to this latest report, so that we can scrutinise these failings. It is now time for more accountability and responsibility, and it is certainly time for due diligence. I would therefore urge you to ensure that a statement is brought forward immediately with regard to this issue, as it is long overdue. A failure to bring forward a statement will clearly raise further questions with regard to how seriously this Welsh Government treats transparency and accountability.

Arweinydd y tŷ, bu nifer o geisiadau yn y Siambr hon am ddatganiad ar ariannu Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, ond ni chafwyd unrhyw un hyd yma. Yr wythnos diwethaf, unwaith eto, cyhoeddwyd adroddiad arall gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, sy'n dangos yn eglur ddiffygion rheoli wrth ddyrannu grantiau, ac mae wedi galw am newid diwylliannol i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu arian. Dylai'r ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario fod yn flaenoriaeth i unrhyw Lywodraeth a dylai fod ar frig ei agenda. Felly, mae'n gwbl gywir a phriodol bod Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r adroddiad diweddaraf hwn, fel y gallwn graffu ar y diffygion hyn. Mae'n amser i ni gael mwy o atebolrwydd a chyfrifoldeb bellach, ac yn sicr yn amser diwydrwydd dyladwy. Rwy'n eich annog felly i sicrhau y cyflwynir datganiad ar unwaith ar gyfer y mater hwn, gan ei bod yn hen bryd. Bydd methiant i gyflwyno datganiad yn siŵr o godi cwestiynau pellach o ran pa mor ddifrifol mae'r Llywodraeth Cymru hon yn trin tryloywder ac atebolrwydd.

14:19 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Transparency and accountability are very important, and I will have discussions with the relevant Minister on the matter.

Mae tryloywder ac atebolrwydd yn bwysig iawn, a byddaf yn cael trafodaethau gyda'r Gweinidog perthnasol ar y mater.

14:20 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Could we have a statement from the Minister for Natural Resources and Food on Green Deal providers in Wales? I am receiving increasing number of complaints from constituents—as I am sure are other Members—over their dealings with Green Deal providers based in south Wales. Many of the constituents are elderly and a common problem appears to be that such companies require an upfront fee prior to home assessment. While the payment is cashed almost straight away, I am aware that people have been left for weeks and months waiting for an assessor to call and that there are difficulties in getting hold of them to arrange an assessment or refund. I know that this is a UK Government initiative and that responsibility for regulation and monitoring therefore lies with it, but my concern is that that does not appear to be happening. Could the Minister bring forward a statement on that?

A allem ni gael datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar ddarparwyr y Fargen Werdd yng Nghymru? Rwy'n derbyn nifer cynyddol o gwynion gan etholwyr—fel rwy'n siŵr y mae Aelodau eraill—o ran ymwneud â darparwyr y Fargen Werdd yn ne Cymru. Mae llawer o'r etholwyr yn oedrannus ac mae'n ymddangos mai un broblem gyffredin yw bod cwmnïau o'r fath yn gofyn am ffi ymlaen llaw cyn cynnal asesiad o'r cartref. Er bod y taliad yn cael ei gyfnewid am arian bron ar unwaith, rwy'n ymwybodol bod pobl wedi cael eu gadael am wythnosau a misoedd yn aros i aseswr alw a bod anawsterau o ran cael gafael arnyn nhw i drefnu asesiad neu ad-daliad. Gwn mai menter Llywodraeth y DU yw hon a hi sy'n gyfrifol am reoleiddio a monitro felly, ond fy mhryder i yw nad yw'n ymddangos ei fod yn digwydd. A allai'r Gweinidog gyflwyno datganiad ynglŷn â hynny?

14:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I am aware that a number of complaints have been made by Welsh customers about the UK Government's Green Deal since it commenced in January of this year. The Minister's officials are currently preparing information for the Welsh Government's website to ensure that Welsh customers are aware of whom to contact in different situations and how they can complain. Anybody who wishes to complain or is not sure about which procedure to follow can contact the Energy Saving Advice Service by telephone.

Rwy'n ymwybodol bod nifer o gwynion wedi cael eu gwneud gan gwsmeriaid yng Nghymru am Fargen Werdd Llywodraeth y DU ers iddi gychwyn ym mis Ionawr eleni. Mae swyddogion y Gweinidog wrthi'n paratoi gwybodaeth ar gyfer gwefan Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cwsmeriaid yng Nghymru yn ymwybodol o bwy i gysylltu â nhw mewn gwahanol sefyllfaoedd a sut y gallant wneud cwyn. Gall unrhyw un sy'n dymuno gwneud cwyn neu nad yw'n siŵr o ba weithdrefn i'w dilyn gysylltu â'r Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni dros y ffôn.

14:21 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Weinidog, fel y dywedodd arweinydd Plaid Cymru yn gynharach am S4C, rwy'n clywed yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ynglŷn â siarad â rheolwyr S4C a bod y Gweinidog John Griffiths wedi ysgrifennu at yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. A fedrwn ni gael datganiad llawn gan Lywodraeth Cymru i ymhelaethu ar yr hyn sydd wedi digwydd mewn perthynas â dyfodol S4C? Yn ôl a ddeallaf, nid yw Maria Miller o DCMS wedi cwrdd ag S4C a'i bod hi wedi canslo cyfarfodydd. Mae'n bwysig ein bod ni fel Aelodau'r Cynulliad yng Nghymru yn deall yr hyn fydd yn digwydd i ddyfodol S4C os bydd toriadau i'r gyllideb gelfyddydol ac i gyllideb S4C yn y dyfodol.

Minister, as the leader of Plaid Cymru said earlier on the issue of S4C, I hear what the First Minister had to say about talking to the management of S4C and that the Minister John Griffiths has written to the Department for Culture, Media and Sport. Could we have from the Welsh Government a full statement that expands on what has happened in relation to the future of S4C? It is my understanding that Maria Miller has not met with S4C and, indeed, that she has cancelled meetings. It is important that we as Assembly Members in Wales should understand what is to happen in terms of the future of S4C if there were to be cuts to the arts budget and to S4C's budget in the future.

Hefyd, hoffwn ofyn am ddatganiad ar ddatganiad Tanni Grey-Thompson ddoe ynglŷn â chwaraeon mewn ysgolion. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod barn Aelodau'r Cynulliad ar y mater pwysig hwn yn cael ei chlywed o ran sut y gall chwaraeon chwarae rôl bwysig ym myd addysg. Rwy'n credu ei bod yn bwysig inni drafod hynny ar lawr y Cynulliad.

I would also like to ask for a statement on the statement made yesterday by Tanni Grey-Thompson about sport in schools. It is important that Assembly Members should have the opportunity to express their views on the issue of how sport can play an important role in education. It is important, therefore, that this matter is discussed on the floor of the Assembly.

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you for those questions. As you said, the First Minister answered Leanne Wood's question during First Minister's questions. It would not be appropriate for the Minister at the present time to speculate on another Government's spending decisions, but I know that John Griffiths is watching events very closely.

Diolch i chi am y cwestiynau yna. Fel y nodwyd gennych, atebodd y Prif Weinidog gwestiwn Leanne Wood yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog. Ni fyddai'n briodol i'r Gweinidog i gynnig sylwadau ar benderfyniadau gwariant Llywodraeth arall ar hyn o bryd, ond gwn fod John Griffiths yn gwylio digwyddiadau'n ofalus iawn.

As regards the report that was produced yesterday, the Minister for Education and Skills firmly believes in the positive impact that physical education can have on people and on children in particular. He commissioned the report because of his concerns about levels of physical activity. I think the Minister will now take time to consider the recommendations, particularly in the context of the national curriculum.

O ran yr adroddiad a gynhyrchwyd ddoe, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn credu'n gryf yn yr effaith gadarnhaol y gall addysg gorfforol ei chael ar bobl ac ar blant yn arbennig. Comisiynodd yr adroddiad oherwydd ei bryderon am lefelau gweithgarwch corfforol. Rwy'n credu y bydd y Gweinidog yn cymryd amser nawr i ystyried yr argymhellion, yn enwedig yng nghyd-destun y cwricwlwm cenedlaethol.

14:23

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Weinidog, a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Llywodraeth ynghylch y gefnogaeth y mae'n ei rhoi i gynghorau'r gogledd i ddenu carchar i ardal Wrecsam a'r swyddi y gellid eu creu, gan gynnwys trosglwyddo tir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd?

Minister, may I ask for a statement from the Government on the support it is giving to north Wales councils to attract a prison to the Wrexham area and the jobs that that could bring, which would include the transfer of land in Welsh Government ownership at present?

14:24

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

The Welsh Government is supportive—with Wrexham being in my constituency—and the First Minister has had dealings with the Ministry of Justice. We are supportive of the site in Wrexham being used for a prison.

Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol—mae Wrecsam yn fy etholaeth i—ac mae'r Prif Weinidog wedi bod mewn cysylltiad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym ni'n gefnogol i'r safle yn Wrecsam gael ei ddefnyddio ar gyfer carchar.

14:24

## William Graham Bywgraffiad Biography

May I ask the Minister for business to ask the Minister for Natural Resources and Food to bring forward a statement on when lessons will finally be learned about importing live trees into Wales? Due to ash dieback, the Welsh Government now has to focus on clearing a massive backlog of diseased larch, which stands at 1 million tonnes, at least, and which is rising. Will the Minister further commit to exploring the idea of exporting sawn-wood options? I understand that vast quantities of Welsh spruce are exported to China, so would that now be a viable possibility with larch?

A gaf i ofyn i'r Gweinidog busnes ofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd gyflwyno datganiad ar bryd y bydd gwersi'n cael eu dysgu o'r diwedd am fewnforio coed byw i Gymru? Oherwydd clefyd coed ynn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio bellach ar glirio ôl-groniad enfawr o larwydd heintiedig, sy'n 1 miliwn o dunelli, o leiaf, ac sy'n cynyddu. A wnaiff y Gweinidog ymrwymo ymhellach i ystyried y syniad o allforio opsiynau pren wedi'i lifio? Rwy'n deall bod symiau enfawr o sbriws Cymru yn cael eu hallforio i Tsieina, felly a fyddai hynny'n bosibilrwydd dichonadwy gyda llarwydd nawr?

14:24

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Thank you for that question. The Minister for Natural Resources and Food will provide a written statement next week that will give an update on actions in respect of the management of tree health in Wales.

Diolch i chi am y cwestiwn yna. Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn darparu datganiad ysgrifenedig yr wythnos nesaf a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu o ran rheoli iechyd coed yng Nghymru.

14:25

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Without prejudging the current consultation with staff at Halo Foods in Tywyn, will the Minister consider issuing a statement on how the Welsh Government will be looking to help those in the area affected by the move, and in mitigating the potential job losses? There are 243 loyal staff who will have transferrable skills. They will need somewhere to use those skills, and Newport, south Wales, is a step too far for them to utilise them. Their local economy cannot afford to lose those skills or lose all the other jobs that are dependent on those 243 jobs, provided by significantly the largest employer in that area.

Heb ragfarnu'r ymgynghoriad presennol gydag aelodau staff yn Halo Foods yn Nhywyn, a wnaiff y Gweinidog ystyried cyflwyno datganiad ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio helpu pobl yn yr ardal yr effeithir arni gan y symud, ac o ran lliniaru colledion posibl o ran swyddi? Mae yno 243 o aelodau staff ffyddlon a chanddynt sgiliau trosglwyddadwy. Bydd angen rhywle arnynt i ddefnyddio'r sgiliau hynny, ac mae Casnewydd, yn ne Cymru, braidd yn rhy bell iddynt ar gyfer eu defnyddio. Ni all eu heconomi leol fforddio colli'r sgiliau hynny na cholli'r holl swyddi eraill sy'n dibynnu ar y 243 o swyddi hynny, a ddarperir gan gyflogwr mwyaf yr ardal honno o bell ffordd.

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You will be aware that the company is undergoing a 45-day period of consultation, and I do not think that a discussion around this issue would be particularly helpful. However, I know that the Minister for Economy, Science and Transport's officials are in discussions with the company to offer all available avenues of support to the staff affected.

Byddwch yn ymwybodol fod y cwmni yn cynnal cyfnod ymgynghori 45 diwrnod, ac nid wyf yn credu y byddai trafodaeth ar y mater hwn o gymorth arbennig. Fodd bynnag, gwn fod swyddogion Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cynnal trafodaethau gyda'r cwmni i gynnig yr holl lwybrau o gefnogaeth sydd ar gael i'r aelodau staff yr effeithir arnynt.

14:26 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, you will already know that the time allocated for the Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations 2013 is now lost, and will be used for an emergency Government Bill. However, the issue of breeding, puppy mills and dog welfare is long overdue to be addressed, and many Members here do not support the Minister's rather weak policy position on this. Can you give us assurance that these regulations will be brought before us without any further delay?

Weinidog, byddwch yn gwybod eisoes bod yr amser a neilltuwyd i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2013 wedi ei golli bellach, ac y bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Bil Llywodraeth brys. Fodd bynnag, mae'n hen bryd mynd i'r afael â'r mater o fridio, melinau cŵn bach a lles cŵn, ac mae llawer o Aelodau yma nad ydynt yn cefnogi safbwynt polisi braidd yn wan y Gweinidog ar hyn. A allwch chi roi sicrwydd y bydd y rheoliadau hyn yn cael eu cyflwyno i ni heb unrhyw oedi pellach?

I am sure that you will also be aware that the NSPCC, supported by the Metropolitan Police and others, have set up a female genital mutilation helpline, which was launched yesterday and is staffed by specially trained councillors who can assist the public and professionals in detecting and protecting girls at risk. Will you ask the Minister to issue a written statement outlining how the Welsh Government will be supporting this initiative and facilitating access to it by professionals working with children in Wales?

Rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol hefyd bod yr NSPCC, gyda chefnogaeth gan yr Heddlu Metropolitan ac eraill, wedi sefydlu llinell gymorth ar enwaedu benywod, a lansiwyd ddoe ac sydd wedi ei staffio gan gynghorwyr personol a hyfforddwyd yn arbennig ac sy'n gallu helpu'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol i ganfod a diogelu merched mewn perygl. A wnewch chi ofyn i'r Gweinidog gyflwyno datganiad ysgrifenedig yn amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r fenter hon ac yn hwyluso mynediad ati gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yng Nghymru?

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

On the first point, the Welsh Government is determined to ensure that the necessary incentives and sanctions are in place in order to maintain animal health and welfare standards throughout Wales, and we are keen to ensure that we have regulations that tighten the criteria for dog breeding, which I believe is critical for the health and welfare of these animals.

O ran y pwynt cyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau bod y cymhellion a'r sancsiynau angenrheidiol ar waith er mwyn cynnal safonau iechyd a lles anifeiliaid ledled Cymru, ac rydym yn awyddus i sicrhau bod gennym reoliadau sy'n tynhau'r meini prawf ar gyfer bridio cŵn , sydd yn fy marn i yn hanfodol ar gyfer iechyd a lles yr anifeiliaid hyn.

In relation to the issue on FGM, I would be the Minister to bring that forward and I will consider a written statement.

O ran y mater yn ymwneud ag enwaedu benywod, fi fyddai'r Gweinidog i gyflwyno hynny a byddaf yn ystyried datganiad ysgrifenedig.

14:27 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Minister, I would ask you to provide clarification on a number of extremely serious questions about the Welsh Government's plans to use an emergency Bill to preserve the functions of the Agricultural Wages Board. First, what justification is there for the use of an emergency Bill when the Welsh Government has been aware of this issue since 2010? You will be aware of the report of the House of Lords select committee on emergency legislation, and not one of the listed justifications can be properly applied to this emergency Bill. Why, therefore, when the Welsh Government has had plenty of opportunity to bring legislation to the Assembly and to submit it to proper scrutiny has it chosen to delay until now? Do you agree with the definition of an emergency as a serious, unexpected, often dangerous situation requiring immediate action? How can there be effective scrutiny when there will be no detailed committee scrutiny and no report, no allowance for an explanatory memorandum, no requirement to publish the cost implications, and no requirement for the Bill to be available in Welsh as well as English?

Weinidog, gofynnaf i chi ddarparu eglurhad ar nifer o gwestiynau difrifol iawn am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddefnyddio Bil brys i gadw swyddogaethau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Yn gyntaf, pa gyfiawnhad sydd dros ddefnyddio Bil brys pan fo Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol o'r mater hwn ers 2010? Byddwch yn ymwybodol o adroddiad pwyllgor dethol Tŷ'r Arglwyddi ar ddeddfwriaeth frys, ac nid oes yr un cyfiawnhad rhestredig yn berthnasol i'r Bil brys hwn. Pam, felly, pan fo Llywodraeth Cymru wedi cael digon o gyfle i gyflwyno deddfwriaeth i'r Cynulliad ac i'w chyflwyno ar gyfer craffu priodol, y mae wedi dewis oedi tan nawr? A ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o argyfwng fel sefyllfa ddifrifol, annisgwyl, sy'n aml yn beryglus ac sy'n gofyn am gamau di-oed? Sut y gellir craffu'n effeithiol pan na fydd unrhyw graffu manwl gan bwyllgor a dim adroddiad, dim cyfle ar gyfer memorandwm esboniadol, dim gofyniad i gyhoeddi'r goblygiadau cost, a dim gofyniad i'r Bil fod ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg?

Secondly, there is the issue of legislative competence. Employment law is not devolved, and is not referred to in Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006, yet this Bill relates clearly to wage-setting powers. Why have Assembly Members and the proper committee not been given the opportunity to scrutinise the Welsh Government's legal justification for competence in this area? Finally, if Wales is truly facing an emergency situation that justifies the use of an emergency Bill, why is the Minister not here to make a statement and justify the use of this Bill to this Assembly?

Yn ail, mae'r mater o gymhwysedd deddfwriaethol. Nid yw cyfraith cyflogaeth wedi ei datganoli, ac ni chyfeirir ati yn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac eto mae'r Bil hwn yn ymwneud yn eglur â phwerau pennu cyflogau. Pam nad yw Aelodau'r Cynulliad a'r pwyllgor priodol wedi cael y cyfle i graffu ar gyfiawnhad cyfreithiol Llywodraeth Cymru ar gyfer cymhwysedd yn y maes hwn? Yn olaf, os yw Cymru wir yn wynebu sefyllfa o argyfwng sy'n cyfiawnhau defnyddio Bil brys, pam nad yw'r Gweinidog yma i wneud datganiad a chyfiawnhau'r defnydd o'r Bil hwn i'r Cynulliad hwn?

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The purpose of the Bill is to ensure that Welsh agricultural workers are not disadvantaged. The Minister is currently in Luxembourg, representing Wales and making sure that we get the very best deal.

Diben y Mesur yw sicrhau nad yw gweithwyr amaethyddol Cymru dan anfantais. Mae'r Gweinidog yn Lwcsembwrg ar hyn o bryd, yn cynrychioli Cymru ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn cael y cytundeb gorau.

14:29 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

I was grateful to my colleague Joyce Watson for bringing up the issue of Halo Foods. I note your response that discussions are under way. I ask for two statements from the Government, the first on fall prevention. It was Falls Awareness Week last week, so I would like an update on how the Welsh Government is tackling the issue of fall prevention through education, awareness raising and investment in aids and adaptations. I also request a statement on the animal welfare network's report on the regulation of sanctuaries. I understand that this was presented to the Welsh Government at the end of last year, so I would be keen to know when the Welsh Government intends to respond.

Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithiwr Joyce Watson am godi mater Halo Foods. Nodaf eich ymateb fod trafodaethau wedi cychwyn. Gofynnaf am ddau ddatganiad gan y Llywodraeth, y cyntaf ar atal achosion o syrthio. Roedd yn Wythnos Ymwybyddiaeth o Syrthio yr wythnos diwethaf, felly hoffwn gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r mater o atal pobl rhag syrthio trwy addysg, codi ymwybyddiaeth a buddsoddi mewn cymhorthion ac addasiadau. Gofynnaf hefyd am ddatganiad ar adroddiad y rhwydwaith lles anifeiliaid ar reoleiddio gwarchodfeydd. Rwy'n deall y cyflwynwyd hwn i Lywodraeth Cymru ddiwedd y llynedd, felly byddwn yn awyddus i wybod pryd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb.

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

In relation to the last question, I will speak to the Minister for Natural Resources and Food to ask where the report is and whether he is going to bring a statement forward. I will write to you on that point.

O ran y cwestiwn olaf, byddaf yn siarad â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i ofyn ble mae'r adroddiad ac a yw'n mynd i gyflwyno datganiad. Byddaf yn ysgrifennu atoch ar y pwynt hwnnw.

You are quite right that it was Falls Awareness Week last week. Preventing falls is a key priority for our work on frailty and the integration of services for older people. You may be aware of the 1000 Lives Plus programme's focus on falls in the community, and I know that the Older People's Commissioner for Wales is funding and hosting an Ageing Well in Wales programme, which includes a focus on falls prevention. Just yesterday, I met with the Minister for Health and Social Services and the Deputy Minister for Social Services, because it is very important that falls prevention is looked at when we are looking at health and social services being more integrated. That is a key point, to ensure that funding goes in to prevent a fractured hip, for instance, which would then have an impact on the health service. It is a very important area.

Rydych chi yn llygad eich lle ei bod yn Wythnos Ymwybyddiaeth o Syrthio yr wythnos diwethaf. Mae atal pobl rhag syrthio yn flaenoriaeth allweddol i'n gwaith ar eiddilwch ac integreiddio gwasanaethau i bobl hŷn. Efallai eich bod yn ymwybodol o bwyslais y rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy ar achosion o syrthio yn y gymuned, a gwn fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ariannu ac yn cynnal rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, sy'n cynnwys pwyslais ar atal pobl rhag syrthio. Ddoe ddiwethaf, cefais gyfarfod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ei bod yn bwysig iawn yr ystyrir atal pobl rhag syrthio pan fyddwn yn ystyried integreiddio mwy ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mae hwnnw'n bwynt allweddol, er mwyn sicrhau bod arian yn mynd at atal achos o dorri clun, er enghraifft, a fyddai'n cael effaith wedyn ar y gwasanaeth iechyd. Mae'n faes pwysig iawn.

14:31

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

I call for two statements, including one from the Minister for Natural Resources and Food in relation to flood risk in Wales. You will be aware that there is some concern, certainly in my constituency and in other parts of the country, that the agreement between the UK Government and the Association of British Insurers, which provides households with affordable insurance cover, will expire at the end of next month. People are very concerned that they will either be denied insurance or face very hefty premiums. I visited Lloyds of London yesterday and there has been no discussion, or any attempt at a discussion, by the Welsh Government on the implications of that for people in Wales. I would be very grateful if the Minister could make a statement so that we can ask him what the situation is as far as he is concerned.

Galwaf am ddau ddatganiad, gan gynnwys un gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y perygl o lifogydd yng Nghymru. Byddwch yn ymwybodol bod cryn bryder, yn sicr yn fy etholaeth i ac mewn rhannau eraill o'r wlad, y bydd y cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Chymdeithas Yswirwyr Prydain, sy'n darparu yswiriant fforddiadwy i gartrefi, yn dod i ben ddiwedd mis nesaf. Mae pobl yn bryderus iawn naill ai oherwydd na fyddant yn gallu cael yswiriant neu y byddant yn wynebu premiymau mawr iawn. Ymwelais â Lloyds of London ddoe ac ni fu unrhyw drafodaeth, nac unrhyw ymgais i gynnal trafodaeth, gan Lywodraeth Cymru ar oblygiadau hynny i bobl yng Nghymru. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Gweinidog wneud datganiad fel y gallwn ofyn iddo beth yw'r sefyllfa o'i safbwynt ef.

Can we also have a statement from the Minister for Education and Skills on his role in determining school closure appeals, given his actions in his constituency? The local authority in Denbighshire, in my constituency, is currently seeking to close a number of schools, and the Minister's actions will have undermined the confidence of people in my constituency in him being able to determine appeals, given his actions regarding the school in his own constituency. It is very important that we have a statement from him so that we can challenge him about his position in relation to school closures in the future.

A allwn ni gael datganiad hefyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar ei swyddogaeth o ran penderfynu ar apeliadau yn erbyn cau ysgolion, o ystyried ei weithredoedd yn ei etholaeth? Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn Sir Ddinbych, yn fy etholaeth i, yn ceisio cau nifer o ysgolion, a bydd gweithredoedd y Gweinidog wedi tanseilio hyder pobl yn fy etholaeth yn ei allu i benderfynu ar apeliadau, o ystyried ei weithredoedd yng nghyswllt yr ysgol yn ei etholaeth ei hun. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael datganiad ganddo fel y gallwn ei herio am ei safbwynt o ran cau ysgolion yn y dyfodol.

14:33

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

I will speak to the Minister for Natural Resources and Food regarding your point in relation to flood risk and your discussions with Lloyds of London, and I will ask him to give us an update on that. There has been no change in the Welsh Government's policy on surplus places.

Byddaf yn siarad â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ynghylch eich pwynt am y perygl o lifogydd a'ch trafodaethau gyda Lloyds of London, a byddaf yn gofyn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am hynny. Ni fu unrhyw newid i bolisi Llywodraeth Cymru ar leoedd gwag.

14:33 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Further to my colleague Darren Millar calling for a statement from the Minister for education, I ask the Minister for business for a statement from the First Minister, if possible. I offered the First Minister the chance to endorse the actions and, indeed, the future of the Minister for education in the third question that I put to him, but he blatantly chose not to answer it; in fact, he went on a bit of a tirade about the Secretary of State. I would be grateful if the First Minister could bring forward a statement so that Members can be clear about whether the Minister for education enjoys the confidence of the First Minister and, indeed, whether the recent actions of the Minister for education have jeopardised his position in determining the fate of schools around Wales. Time and again in this Chamber, Members have heard the Minister for education saying that he is unable to comment on the future of schools, because cases could end up on his desk. He has blatantly infringed that principle and, therefore, the First Minister needs to act. In the first instance, we would require a statement to clarify the First Minister's position regarding his confidence in the Minister for education and his role in determining the future of schools.

Yn dilyn galwad fy nghydweithiwr Darren Millar am ddatganiad gan y Gweinidog addysg, rwy'n gofyn i'r Gweinidog busnes am ddatganiad gan y Prif Weinidog, os yw'n bosibl. Cynigais y cyfle i'r Prif Weinidog gymeradwyo gweithredoedd ac, yn wir, dyfodol y Gweinidog addysg yn y trydydd cwestiwn a ofynnais iddo, ond dewisodd yn amlwg i beidio ag ateb; a dweud y gwir, aeth yn ei flaen areithio'n llym am yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Weinidog gyflwyno datganiad fel y gall yr Aelodau fod yn eglur o ran ba un a oes gan y Prif Weinidog ffydd yn y Gweinidog addysg ac, yn wir, a yw gweithredoedd diweddar y Gweinidog addysg wedi peryglu ei sefyllfa o ran penderfynu ar dynged ysgolion ledled Cymru. Dro ar ôl tro yn y Siambr hon, mae'r Aelodau wedi clywed y Gweinidog addysg yn dweud nad yw'n gallu cynnig sylwadau ar ddyfodol ysgolion, gan y gallai achosion gyrraedd ei ddesg ef yn y pen draw. Mae wedi torri'r egwyddor honno'n amlwg ac, felly, mae angen i'r Prif Weinidog weithredu. Yn y lle cyntaf, byddai angen datganiad arnom i egluro safbwynt y Prif Weinidog o ran ei ffydd yn y Gweinidog addysg, a'i swyddogaeth o benderfynu ar ddyfodol ysgolion.

14:34 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

That is a matter for the First Minister.

Mater i'r Prif Weinidog yw hynny.

14:34 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

I call for a statement on two matters. First, I wish to call for a statement on the reported news that Anglesey, Gwynedd and Flintshire are in the top-10 worst areas in the UK for getting places at Oxford and Cambridge universities. In fact, Anglesey is at the bottom of that list, and Flintshire is second from bottom. I do not wish to denigrate the quality of education—my own children received excellent education in the Flintshire state system—but, nonetheless, this raises serious questions.

Secondly, I wish to call for a statement on credit union funding. It is understood that the Minister for Communities and Tackling Poverty, Huw Lewis, announced new funding for credit unions in Merthyr Tydfil towards the end of the week before last, but no statement has been made to the Assembly. As a courtesy, Members of a legislature like to see their Government making statements to the legislature, before they make them publicly. It is understood that funding has been provided to help credit unions to develop services and products for customers, and to increase assets and membership of credit unions. However, I have seen no reference to the UK Government's credit union expansion project, which operates in Wales, or to how the Welsh scheme will operate with the UK scheme, to ensure mutual benefit and maximum gain, rather than duplication.

Galwaf am ddatganiad ar ddau fater. Yn gyntaf, hoffwn alw am ddatganiad ar y newyddion fod Ynys Môn, Gwynedd a Sir y Fflint ymhlith y 10 o ardaloedd gwaethaf yn y DU o ran llwyddo i gael lleoedd ym mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Mewn gwirionedd, mae Ynys Môn ar waelod y rhestr honno, a Sir y Fflint yw'r ail o'r gwaelod. Nid wyf yn dymuno difrïo ansawdd yr addysg—derbyniodd fy mhlant fy hun addysg ragorol yn system y wladwriaeth yn Sir y Fflint—ond, er hynny, mae hyn yn codi cwestiynau difrifol.

Yn ail, hoffwn alw am ddatganiad ar gyllido undebau credyd. Deallir bod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Huw Lewis, wedi cyhoeddi cyllid newydd ar gyfer undebau credyd ym Merthyr Tudful tua diwedd yr wythnos cyn yr wythnos diwethaf, ond nid oes datganiad wedi ei wneud i'r Cynulliad. Fel mater o gwrteisi, mae Aelodau'r senedd yn hoffi gweld eu Llywodraeth yn gwneud datganiadau i'r ddeddfwrfa, cyn iddynt eu gwneud yn gyhoeddus. Deallir bod y cyllid wedi ei ddarparu i helpu undebau credyd i ddatblygu gwasanaethau a chynhyrchion i gwsmeriaid, ac i gynyddu asedau ac aelodaeth undebau credyd. Fodd bynnag, nid wyf wedi gweld unrhyw gyfeiriad at brosiect ehangu undebau credyd Llywodraeth y DU, sy'n gweithredu yng Nghymru, na sut y bydd y cynllun yn gweithredu ar y cyd â chynllun y DU, er mwyn sicrhau budd i'r ddwy ochr a'r fantais fwyaf posibl, yn hytrach na dyblygu.

Last week, the Scottish Parliament debated the UK credit union expansion project, during a motion that was signed by more than 40 Members of the Scottish Parliament, from all four parties, with positive contributions from all four parties. The relevant Minister—an SNP Minister—welcomed the UK project, and asked his officials to explore how more could be done to support the movement on that basis. Last week also, the House of Lords debated a motion that was secured by a Labour Lord—Lord Kennedy of Southwark—who is the vice-chair of the all-party parliamentary group on credit unions. He welcomed the legislative reform Order under the UK Government on credit unions, and also welcomed the credit union expansion project. Therefore, could we please have a statement on this issue? Thus far, uniquely—but, unfortunately, characteristically—only the Welsh Government appears to have avoided mentioning the UK Government's scheme, and how it may work with this to the mutual benefit of the people of Wales.

Yr wythnos diwethaf, trafododd Senedd yr Alban brosiect ehangu undebau credyd y DU, yn ystod cynnig a lofnodwyd gan fwy na 40 o Aelodau Senedd yr Alban, o bob un o'r pedair plaid, gyda chyfraniadau cadarnhaol gan bob un o'r pedair plaid. Croesawodd y Gweinidog perthnasol—Gweinidog yr SNP—brosiect y DU, a gofynnodd i'w swyddogion archwilio sut y gellid gwneud mwy i gefnogi'r mudiad ar y sail honno. Yr wythnos diwethaf hefyd, trafododd Tŷ'r Arglwyddi gynnig a gafodd ei sicrhau gan Arglwydd Llafur—Arglwydd Kennedy o Southwark—sy'n is-gadeirydd y grŵp seneddol hollbleidiol ar undebau credyd. Croesawodd y Gorchymyn diwygio deddfwriaethol dan Lywodraeth y DU ar undebau credyd, a chroesawodd hefyd y prosiect ehangu undebau credyd. Felly, a allwn ni gael datganiad ar y mater hwn os gwelwch yn dda? Hyd yn hyn, yn unigryw—ond, yn nodweddiadol anffodus—mae'n ymddangos mai dim ond Llywodraeth Cymru sydd wedi osgoi sôn am gynllun Llywodraeth y DU, a sut y gallai weithio gyda hyn er lles pobl Cymru.

14:37

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

In relation to universities, we have a good record in Wales of widening access for Welsh students. In his higher education policy statement, the Minister for Education and Skills has set out a clear vision for higher education in Wales, as we approach 2020. I will ask the Minister for Communities and Tackling Poverty to update us on credit unions, if he has further updates to give, in a written statement.

O ran prifysgolion, mae gennym hanes da yng Nghymru o ehangu mynediad i fyfyrwyr o Gymru. Yn ei ddatganiad polisi addysg uwch, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi nodi gweledigaeth eglur ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, wrth i ni nesáu at 2020. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar undebau credyd, os oes ganddo ddiweddariadau pellach i'w rhoi, mewn datganiad ysgrifenedig.

14:37

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

14:37

# Datganiad: Adolygu'r Cyllid sydd ar Gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Adroddiad Cyntaf

# Statement: The Independent Review of the Availability of Funding for SMEs in Wales: First Report

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Earlier this year, I commissioned Professor Dylan Jones-Evans of the University of Wales to undertake a review of the availability of funding for small and medium-sized enterprises in Wales, with the aim of identifying areas of particular challenge and providing recommendations for action. I sent a copy of Professor Jones-Evans's first stage report to Members yesterday. I appreciate that Members will need more time to digest the report's findings, but I hope that the summary report that I sent to Members last week will help to stimulate today's discussion. In addition, because of the analytical nature of this report, and its importance, I will be happy to take more detailed comments from Members up until the end of term to help inform this work going forward.

Yn gynharach eleni, comisiynais yr Athro Dylan Jones-Evans o Brifysgol Cymru i gynnal adolygiad o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru, gyda'r nod o ganfod meysydd o her arbennig a darparu argymhellion ar gyfer gweithredu. Anfonais gopi o adroddiad cam cyntaf yr Athro Jones-Evans at yr Aelodau ddoe. Rwyf yn sylweddoli y bydd angen mwy o amser ar Aelodau i ystyried canfyddiadau'r adroddiad, ond rwyf yn gobeithio y bydd yr adroddiad cryno a anfonais at Aelodau yr wythnos diwethaf yn helpu i ysgogi trafodaeth heddiw. Yn ogystal, oherwydd natur ddadansoddol yr adroddiad hwn, a'i bwysigrwydd, byddaf yn hapus i gymryd sylwadau mwy manwl gan Aelodau hyd at ddiwedd y tymor i helpu i lywio'r gwaith hwn at y dyfodol.

Before I turn to the report, I would like to thank Professor Jones-Evans and his voluntary advisory panel for the work that they have undertaken thus far. In undertaking the review, Professor Jones-Evans has carried out extensive engagement, seeking views across the banking sector and other financial institutions, intermediaries, academia and the business community. The report is underpinned by a substantial amount of data, which have been obtained from various government and bank sources, academic papers and surveys. Professor Jones-Evans also attended the council for economic renewal meeting on 3 June, where he shared his preliminary findings with council members, and took back feedback to inform his report.

Cyn imi droi at yr adroddiad, hoffwn ddiolch i'r Athro Jones-Evans a'i banel cynghori gwirfoddol am y gwaith y maent wedi ei wneud hyd yn hyn. Wrth gynnal yr adolygiad, mae'r Athro Jones-Evans wedi ymgysylltu'n helaeth, gan ofyn am farn ar draws y sector bancio a sefydliadau ariannol eraill, cyfryngwyr, y byd academaidd a'r gymuned fusnes. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar lawer iawn o ddata, sydd wedi dod o wahanol ffynonellau o'r llywodraeth a banciau, papurau academaidd ac arolygon barn. Roedd yr Athro Jones-Evans hefyd yn bresennol yng nghyfarfod cyngor adnewyddu'r economi ar 3 Mehefin, lle y rhannodd ei ganfyddiadau cychwynnol ag aelodau'r cyngor, a defnyddiodd yr adborth wrth baratoi ei adroddiad.

The report has examined the performance and the ability of the high street banks in providing the finance that is needed by Welsh businesses, with a primary focus on small and medium-sized enterprises. The report contains a number of recommendations on how bank lending to SMEs can be improved and possible interventions that the Welsh Government could make in supporting this. The report recommends that the Welsh Government needs to ensure that Wales, and Welsh businesses, gets a fair share of funding from the new business bank.

Mae'r adroddiad wedi archwilio perfformiad a gallu banciau'r stryd fawr i ddarparu'r cyllid sydd ei angen ar fusnesau Cymru, gan ganolbwyntio'n bennaf ar fusnesau bach a chanolig. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion ynglŷn â sut y gellir gwella'r modd y mae banciau'n rhoi benthyciadau i fusnesau bach a chanolig, ac ymyriadau posibl gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi hyn. Mae'r adroddiad yn argymell bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru, a busnesau Cymru, yn cael cyfran deg o arian gan y banc busnes newydd.

I have previously raised with the Secretary for State for Business, Innovation and Skills my concerns that business bank funding will not be distributed regionally across the UK, and may be concentrated in the more prosperous areas of the UK. I am writing to the Secretary of State today with a copy of this report, highlighting these concerns again.

Rwyf eisoes wedi codi fy mhryderon gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau na fydd cyllid y banc busnes yn cael ei ddosbarthu'n rhanbarthol ar draws y DU, ac y gallai fod wedi'i grynhoi yn ardaloedd mwy ffyniannus y DU. Rwyf yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol heddiw gan amgáu copi o'r adroddiad hwn, er mwyn amlygu'r pryderon hyn eto.

I am also raising with him the issue raised in the report of the detrimental effect of the Basel III rules on lending to SMEs with the UK Treasury and Department for Business, Innovation and Skills. The report suggests that this will enable the UK Government to make representations directly to the Basel committee on banking supervision to recommend that SME lending should be excluded from consideration in terms of determining suitable capital and liquidity in the banking system.

Rwyf hefyd yn codi gydag ef y mater a godwyd yn yr adroddiad ynglŷn ag effaith andwyol rheolau III Basel ar fenthyca i fusnesau bach a chanolig gyda Thrysorlys y DU a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Mae'r adroddiad yn awgrymu y bydd hyn yn galluogi Llywodraeth y DU i gyflwyno sylwadau'n uniongyrchol i bwyllgor Basel ar oruchwyliaeth bancio i argymell y dylid peidio ag ystyried benthyciadau i fusnesau bach a chanolig wrth bennu lefelau cyfalaf a hylifedd addas yn y system fancio.

The report identifies that smaller and younger SMEs remain less likely to be successful in securing funding from their banks. It recommends, therefore, that the Welsh Government needs to consider whether mechanisms, such as microlending or community-based lending to smaller local businesses, should be encouraged and supported. I have established the microbusiness loan fund, which is providing £6 million to microbusinesses, including social enterprises. I have also commissioned independent advice on the subject of community financing. I will provide Members with an update as this work progresses.

Mae'r adroddiad yn nodi bod busnesau bach a chanolig llai ac iau yn parhau i fod yn llai tebygol o lwyddo i sicrhau cyllid gan eu banciau. Mae'n argymell, felly, bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried a ddylid annog a chefnogi mecanweithiau, fel microfenthyca neu fenthyca cymunedol i fusnesau lleol llai. Rwyf wedi sefydlu'r gronfa fenthyciadau i ficrofusnesau, sy'n darparu £6 miliwn i ficrofusnesau, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Rwyf hefyd wedi comisiynu cyngor annibynnol ynglŷn â chyllid cymunedol. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

The review also found that, rather than the cost of borrowing, two of the main obstacles that firms face when accessing bank finance are security against the loan and the affordability of the loan repayment. The report states that, to date, the UK Government's enterprise finance guarantee scheme has done little to address these obstacles, and recommends that any intervention by the Welsh Government should focus on these two critical obstacles.

Canfu'r adolygiad hefyd mai dau o'r prif rwystrau y mae cwmnïau'n eu hwynebu wrth gael cyllid gan y banc yw gwarant ar gyfer y benthyciad a pha un a ellir fforddio ad-dalu'r benthyciad, ac nid cost benthyca. Mae'r adroddiad yn nodi nad yw cynllun gwarant cyllid menter Llywodraeth y DU wedi gwneud llawer, hyd yn hyn, i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, ac yn argymell y dylai unrhyw ymyriad gan Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar y ddau rwystr allweddol hyn.

The report encourages the Welsh Government to open up discussions with the main banks to ensure that Welsh regional managers make the final credit decisions for all Welsh businesses. Local decision-making by banks is seen by many businesses as critical in ensuring that their business case is considered fairly. The review has found that there is very little evidence of this happening, with higher-level credit decisions being made outside Wales. I am writing to senior representatives of the main high street banks and the British Bankers' Association, asking that they give careful consideration to the issues raised in the report.

Mae'r adroddiad yn annog Llywodraeth Cymru i agor trafodaethau gyda'r prif fanciau i sicrhau mai rheolwyr rhanbarthol Cymru sy'n gwneud y penderfyniadau credyd terfynol ar gyfer holl fusnesau Cymru. Mae llawer o fusnesau yn ei hystyried yn hanfodol bod banciau'n gwneud penderfyniadau'n lleol er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth deg i'w hachos busnes. Mae'r adolygiad wedi darganfod nad oes llawer iawn o dystiolaeth bod hyn yn digwydd, gyda phenderfyniadau credyd ar lefel uwch yn cael eu gwneud tu allan i Gymru. Rwyf yn ysgrifennu at uwch gynrychiolwyr prif fanciau'r stryd fawr a Chymdeithas Bancwyr Prydain, yn gofyn iddynt roi ystyriaeth ofalus i'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

The report recommends a banking covenant between lenders and applicants, which could ensure greater transparency and accountability in the lending process. This is to ensure that SMEs, especially those without any formal financial support internally, know exactly what is required in terms of preparing an application to the bank. In exchange for the provision of this information, banks would then agree to examine each potential funding request in more detail, as opposed to making their decisions using the credit-scoring software that is normally applied to the majority of applications. I will give consideration to the Welsh Government working with the British Bankers' Association to pilot a scheme in Wales addressing this.

Mae'r adroddiad yn argymell cyfamod bancio rhwng benthycwyr ac ymgeiswyr, a allai sicrhau bod y broses fenthyca'n fwy tryloyw ac atebol. Bydd hyn yn sicrhau bod busnesau bach a chanolig, yn enwedig y rhai heb unrhyw gymorth ariannol ffurfiol yn fewnol, yn gwybod yn union beth sydd ei angen o ran paratoi cais i'r banc. Yn gyfnewid am ddarparu'r wybodaeth hon, byddai banciau wedyn yn cytuno i archwilio pob cais am gyllid yn fwy manwl, yn hytrach na gwneud eu penderfyniadau gan ddefnyddio'r feddalwedd sgorio credyd sydd fel arfer yn cael ei defnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau. Byddaf yn rhoi ystyriaeth i'r syniad y gallai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Bancwyr Prydain i dreialu cynllun yng Nghymru a fyddai'n mynd i'r afael â hyn.

The report also recommends that the Welsh Government should examine the disconnect between the business support programmes that it offers and the funding supplied by the banks. The Government should also consider how it and the banks can work more closely to ensure that the right support is given to Welsh firms. I will raise this with the banks and consider further how we strengthen our relationship with them.

Mae'r adroddiad hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y diffyg cysylltiad rhwng y rhaglenni cymorth busnes y mae'n eu cynnig a'r cyllid a ddarperir gan y banciau. Dylai'r Llywodraeth hefyd ystyried sut y gall hi a'r banciau gydweithio'n agosach i sicrhau y rhoddir y cymorth cywir i gwmnïau o Gymru. Byddaf yn codi hyn gyda'r banciau ac yn ystyried ymhellach sut y dylem gryfhau ein perthynas â nhw.

Start-up businesses are another segment of the SME business community identified as being less likely to obtain the funding that they require. My officials are in discussions with the Department for Business, Innovation and Skills to explore the possibility of introducing start-up loans in Wales.

Elfen arall o'r gymuned BBaCh y nodwyd eu bod yn llai tebygol o gael y cyllid sydd ei angen arnynt yw busnesau newydd. Mae fy swyddogion wrthi'n trafod gyda'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau i edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno benthyciadau dechrau busnes yng Nghymru.

The report also recommends that the Welsh Government should review the future role of Finance Wales, and raises a number of issues about its operation. I am writing to the chair of the board of Finance Wales regarding the points made in this report to seek Finance Wales's comments on the challenges raised.

Mae'r adroddiad hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu swyddogaeth Cyllid Cymru yn y dyfodol, ac yn codi nifer o faterion ynghylch ei weithrediad. Rwyf yn ysgrifennu at gadeirydd bwrdd Cyllid Cymru ynglŷn â'r pwyntiau a wnaed yn yr adroddiad hwn i ofyn am sylwadau Cyllid Cymru ar yr heriau a godwyd.

Finally, the report emphasises the importance of alternative sources of finance, and recommends that the Welsh Government should take the lead in supporting such sources as peer-to-peer lending and crowdfunding. The second stage of Professor Jones-Evans's review will concentrate on such alternative sources of funding. It will examine venture capital investment, informal investment via business angel networks, community development financial institutions and credit unions. It will also look at peer-to-peer lending, where people lend money to unrelated individuals without going through a traditional financial intermediary, and at crowdfunding, where a company raises finance by selling small amounts of equity to many investors. I will consider the need for any Welsh Government lead on this matter once the work has been completed.

Yn olaf, mae'r adroddiad yn pwysleisio pa mor bwysig yw gwahanol ffynonellau cyllid, ac mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd yr awenau o ran cefnogi ffynonellau megis benthyca rhwng cymheiriaid a chyllido torfol. Bydd ail gam adolygiad yr Athro Jones-Evans yn canolbwyntio ar ffynonellau cyllid o'r fath. Bydd yn edrych ar fuddsoddiad cyfalaf menter, buddsoddiad anffurfiol drwy rwydweithiau angylion busnes, sefydliadau ariannol datblygiad cymunedol ac undebau credyd. Bydd hefyd yn edrych ar fenthyca rhwng cymheiriaid, lle mae pobl yn benthyca arian i unigolion nad ydynt yn perthyn iddynt heb fynd drwy gyfryngwr ariannol traddodiadol, ac ar gyllido torfol, lle mae cwmni'n codi arian trwy werthu symiau bach o ecwiti i lawer o fuddsoddwyr. Byddaf yn ystyried yr angen am unrhyw arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.

Professor Jones-Evans is due to report to me with his second report in the autumn. In the interim, I will be examining the recommendations in more detail and receiving views on them from interested parties. I am very interested to hear Members' views on the contents of this report today and look forward to receiving more considered views before the end of this term.

Bydd yr Athro Jones-Evans yn cyflwyno'i ail adroddiad imi yn yr hydref. Yn y cyfamser, byddaf yn archwilio'r argymhellion yn fwy manwl ac yn derbyn sylwadau arnynt gan bartïon â budd yn y mater. Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn clywed barn yr Aelodau ar gynnwys yr adroddiad hwn heddiw ac edrychaf ymlaen at dderbyn safbwyntiau mwy ystyriol cyn diwedd y tymor hwn.

14:44

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for her statement this afternoon and for the provisional look at the report. Like her, we will be considering the report in more detail over the weeks and months ahead. I also thank Professor Jones-Evans and his team for the great deal of work that has gone into this report. I also take the opportunity to congratulate Professor Jones-Evans on his recent honour and success in that area.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad brynhawn heddiw, ac am gael gweld yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd ar hyn o bryd. Fel hithau, byddwn yn ystyried yr adroddiad yn fanylach dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Diolch hefyd i'r Athro Jones-Evans a'i dîm am y gwaith caled a wnaed i baratoi'r adroddiad hwn. Rwyf hefyd yn cymryd y cyfle i longyfarch yr Athro Jones-Evans ar ei anrhydedd ddiweddar a'i lwyddiant yn y maes hwnnw.

The report is welcome and identifies a number of areas for improvement in business funding and business support in Wales. It is concerning that the report clearly identifies a disconnect between business support programmes and banking funding. I think that that disconnect has been there for some time, but perhaps has not been specifically recognised by any piece of work before. Therefore, I look forward to hearing what you have to say about how you intend to address that. Without any doubt, there is a need for the finance arm of the Welsh Government and the banking sector to work together. They can be complementary. You have said in the past, Minister, that Finance Wales cannot be a substitute for external funding, for the role of the banks, but there is clearly a complementary role that the banks and Finance Wales, the Welsh Government, can have.

Croesawn yr adroddiad ac mae'n nodi nifer o feysydd i'w gwella mewn cyllid busnes a chymorth busnes yng Nghymru. Mae'n destun pryder bod yr adroddiad yn nodi'n glir y ceir diffyg cysylltiad rhwng rhaglenni cymorth busnes a chyllid gan y banciau. Credaf fod y diffyg cysylltiad hwnnw wedi bodoli ers peth amser, ond nad yw efallai wedi cael ei gydnabod yn benodol gan unrhyw ddarn o waith o'r blaen. Felly edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud ynglŷn â sut rydych yn bwriadu mynd i'r afael â hynny. Heb unrhyw amheuaeth, mae angen i adain gyllid Llywodraeth Cymru a'r sector bancio weithio gyda'i gilydd. Gallant ategu gwaith ei gilydd. Rydych wedi dweud yn y gorffennol, Weinidog, na all Cyllid Cymru gymryd lle cyllid allanol na swyddogaeth y banciau, ond mae'n amlwg y gall y banciau a Chyllid Cymru, Llywodraeth Cymru, weithio mewn modd sy'n ategu ei gilydd.

In terms of the discussions you hope to create between the banking sector and the Welsh Government, I would be interested to understand a little more about what form those discussions will take and whether you intend to have a forum within which issues between the Government and the banking sector can be discussed at length. I do not think that that has happened in the past.

O ran y trafodaethau yr ydych yn gobeithio eu creu rhwng y sector bancio a Llywodraeth Cymru, byddai gennyf ddiddordeb mewn deall ychydig mwy am ffurf y trafodaethau hynny ac a ydych yn bwriadu cael fforwm lle y gall y Llywodraeth a'r sector bancio drafod materion yn drylwyr. Nid wyf yn credu bod hynny wedi digwydd yn y gorffennol.

You mentioned start-up businesses, and it is worrying that the report finds that start-up businesses are particularly affected by problems at the moment. As we know, the larger SMEs of today were the start-up businesses of the past. Therefore, if you lose your start-up businesses, you are clearly losing a big chunk of large businesses in the future. The report has identified that, and I would like to hear from you about how you think that can be particularly addressed. It is a vital area.

Soniasoch am fusnesau newydd, ac mae'n destun pryder bod yr adroddiad yn canfod bod problemau'n effeithio'n arbennig ar fusnesau newydd ar hyn o bryd. Fel y gwyddom, y busnesau bach a chanolig mwyaf eu maint heddiw oedd busnesau newydd y gorffennol. Felly, os byddwch yn colli eich busnesau newydd, rydych yn amlwg yn colli darn mawr o fusnesau mawr y dyfodol. Mae'r adroddiad wedi nodi hynny, a hoffwn glywed gennych chi sut yr ydych yn credu y gellir mynd i'r afael â hynny'n benodol. Mae'n faes hollbwysig.

If, as you say, a start-up-loan type of model is needed, of whatever form you think might be best for the Welsh context, how quickly do you think that that sort of scheme could be implemented and how quickly do you think you could get the funding necessary for that in place? It is important that start-up businesses get the support as quickly as possible, because they employ a large number of people.

Os oes angen model o fath benthyciadau dechrau busnes, fel y dywedwch, ar ba bynnag ffurf y credwch a fyddai orau ar gyfer cyd-destun Cymru, pa mor gyflym yn eich barn chi y gellid rhoi'r math hwnnw o gynllun ar waith a pha mor gyflym yn eich barn chi gallech chi sicrhau'r arian angenrheidiol ar gyfer hynny? Mae'n bwysig bod busnesau newydd yn cael y cymorth cyn gynted ag y bo modd, oherwydd eu bod yn cyflogi nifer fawr o bobl.

I welcome the call for a review of Finance Wales. As the Minister and other Members will know, the Welsh Conservatives have been calling for this for some time. We have suggested that Finance Wales could have a far more localised structure in the future, with a more normalised high street presence. We think that that would be good for our high streets, our banks and our businesses. I hope that you will consider the proposals that we set out in our policy document, 'Invest Wales'. However, in any case, I look forward to hearing from you about how you think Finance Wales, in the light of this report, can be made more effective, local and responsive and how it can have a more personal face for local businesses, so that in my area of Wales, south-east Wales, or in Paul Davies's in south-west Wales, the funding provided will be more tailored and suited to businesses in that area.

Croesawaf yr alwad i adolygu Cyllid Cymru. Fel y bydd y Gweinidog ac Aelodau eraill yn gwybod, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi bod yn galw am hyn ers tro. Rydym wedi awgrymu y gallai Cyllid Cymru fod â strwythur llawer mwy lleol yn y dyfodol, ac y gellid normaleiddio mwy ar ei bresenoldeb yn y stryd fawr. Rydym yn credu y byddai hynny'n dda i'n stryd fawr, ein banciau a'n busnesau. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn ystyried y cynigion a nodwyd gennym yn ein dogfen bolisi, 'Buddsoddi Cymru'. Fodd bynnag, waeth am hynny, rwyf yn edrych ymlaen at glywed gennych sut rydych yn meddwl y gellid gwneud Cyllid Cymru, yng ngoleuni'r adroddiad hwn, yn fwy effeithiol, lleol ac yn ymatebol a sut y gall ddatblygu wyneb mwy personol ar gyfer busnesau lleol, er mwyn i'r cyllid a ddarperir yn fy ardal i o Gymru, sef y de-ddwyrain, neu yn ardal Paul Davies yn y de-orllewin, gael ei deilwra'n well a bod yn fwy addas i fusnesau yn yr ardal honno.

Finally, Minister, we look forward to the next stage of Professor Jones-Evans's review. It covers a wide remit, including venture capital investment, peer-to-peer lending and the other areas that you mentioned. Do you have any idea when that stage might be provisionally complete? What guidance will you give to the team to ensure that it will not be such a broad remit that the findings end up being less than helpful because it is trying to cover too much? I would be grateful to hear your views on all of those issues. Thank you for your statement.

Yn olaf, Weinidog, rydym yn edrych ymlaen at gam nesaf adolygiad yr Athro Jones-Evans. Mae'n cwmpasu cylch gwaith eang, gan gynnwys buddsoddiad cyfalaf menter, benthyciadau rhwng cymheiriaid a'r meysydd eraill a grybwyllwyd gennych. A oes gennych unrhyw syniad pryd y gallai'r cam hwnnw fod wedi'i gwblhau? Pa arweiniad a roddwch i'r tîm er mwyn sicrhau na fydd yn gylch gwaith mor eang fel bod y canfyddiadau yn y pen draw yn llai na defnyddiol gan ei fod yn ceisio edrych ar ormod? Byddwn yn ddiolchgar i glywed eich barn ar yr holl faterion hynny. Diolch i chi am eich datganiad.

14:49 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Thank you very much indeed. May I take this opportunity to thank the Chamber in general, because we have had some excellent discussions about the issues of lending to SMEs, microbusinesses and how it is all focused? This is on the professor's first report, before he moves on to the second, but I will note that he is actually very comfortable with the remit for the second report. He thinks that it falls naturally out of what he has reported now, and he is eager to look at these further issues, and I hope that it will be available for us in early autumn. May I make it absolutely clear that that is a strand of work that has come together? There is another strand where I look at community banking and all of those issues, and we will have a clearer picture emerging in the autumn to enable us to take some further decisions about how we look at the way things are run, from a Government perspective.

Diolch yn fawr iawn. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Siambr yn gyffredinol, oherwydd ein bod wedi cael trafodaethau rhagorol ynglŷn â benthyca i fusnesau bach a chanolig, microfusnesau a lle mae pwyslais y cyfan oll. Mae hyn ar adroddiad cyntaf yr athro, cyn iddo symud ymlaen at yr ail, ond byddaf yn nodi ei fod mewn gwirionedd yn gyfforddus iawn â chylch gwaith yr ail adroddiad. Mae'n meddwl ei fod yn datblygu'n naturiol o'r hyn y mae wedi cyflwyno adroddiad arno hyd yma, ac mae'n awyddus i edrych ar y materion ychwanegol hyn, ac rwyf yn gobeithio y bydd ar gael i ni yn gynnar yn yr hydref. Rwyf am nodi'n gwbl glir fod honno'n ffrwd waith sydd wedi dod ynghyd. Ceir ffrwd arall lle y byddaf yn edrych ar fancio cymunedol a'r holl faterion hynny, a bydd darlun cliriach yn dod i'r amlwg yn yr hydref. Bydd hynny'n ein galluogi i wneud rhai penderfyniadau ychwanegol ynghylch sut yr ydym yn edrych ar y dull o redeg pethau, o safbwynt y Llywodraeth.

He has identified areas that I do not think that we have any difficulties in recognising, as you indicated, as we have already talked about them in this Chamber. We are particularly concerned about some of the issues regarding a possible disconnect between what we offer and bank funding. We are dealing with that. We work with the banks on a regular basis to ensure that we know what their lending teams do and that they understand what we do, as a Government. This work is ongoing. However, we might have to do a little more in that area in order to get the streamlined position together.

Mae wedi nodi meysydd nad wyf yn teimlo'i bod yn anodd o gwbl inni eu cydnabod, fel y dywedwch chi, gan ein bod eisoes wedi eu trafod yn y Siambr hon. Rydym yn arbennig o bryderus ynglŷn â rhai o'r materion ynghylch y diffyg cysylltiad posibl rhwng yr hyn a gynigiwn ni a chyllid gan y banciau. Rydym yn delio â hynny. Rydym yn gweithio gyda'r banciau'n rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod beth mae eu timau benthyca'n ei wneud a'u bod yn deall yr hyn rydym ni'n ei wneud, fel Llywodraeth. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, gallai fod yn rhaid i ni wneud ychydig yn fwy yn y maes hwnnw er mwyn cydlynu'r sefyllfa'n drylwyr.

In terms of discussions with the banks, the point that you made was well made regarding whether we want to consider a forum for discussion with the banks. That is something that I will have a word with the professor about, to see whether that would be a useful way to take things forward and perhaps also for them to meet him in that context when he goes through some of the issues that have been raised by this particular report. However, like you, I am very concerned about the position of start-up businesses. I am very concerned about their inability to get money, the fact that they have no backing and what we need to do about that. This report is indicating that we might have gone in a different direction of travel in this regard. We have to understand that this would be quite different if we make some moves in other directions.

O ran trafodaethau gyda'r banciau, fe wnaethoch bwynt da o ran a ydym am ystyried sefydlu fforwm ar gyfer trafod gyda'r banciau. Mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn ei drafod â'r athro, i weld a fyddai honno'n ffordd ddefnyddiol o symud pethau ymlaen ac efallai hefyd iddynt gyfarfod ag ef yn y cyd-destun hwnnw pan fydd yn mynd trwy rhai o'r materion a godwyd gan yr adroddiad penodol hwn. Fodd bynnag, fel chithau, rwyf yn bryderus iawn ynglŷn â sefyllfa busnesau newydd. Rwyf yn bryderus iawn am eu hanallu i gael arian, y ffaith nad oes cefnogaeth ar gael iddynt, a'r hyn y mae angen i ni ei wneud ynglŷn â hynny. Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu y gallem fod wedi mynd i gyfeiriad gwahanol yn hyn o beth. Mae'n rhaid i ni ddeall y byddai hyn yn wahanol iawn pe byddem yn symud i gyfeiriadau eraill.

With regard to Finance Wales, it is very important that we see where it is in the structure. There has been criticism that Finance Wales is no longer 'Wales'; that is, because it looks for business interests and other things that it manages elsewhere, but that the whole purpose of establishing it was to have the opportunity for people to access finance in Wales. The time is right—and I have obviously written to the chair of the board—once again, to have a look at its role and function. I very much hope that what is happening with this report and the future deliberations that I will be having in terms of the second report will help to give me a focus on how Finance Wales can deliver better in the Welsh context for the benefit of Welsh businesses.

O ran Cyllid Cymru, mae'n bwysig iawn ein bod yn gweld beth yw ei le yn y strwythur. Cafwyd beirniadaeth nad yw Cyllid Cymru bellach yn ymwneud â 'Chymru', hynny yw, oherwydd ei fod yn chwilio am fuddiannau busnes a phethau eraill y mae'n eu rheoli mewn mannau eraill, ond mai diben ei sefydlu oedd cael y cyfle i bobl gael gafael ar gyllid yng Nghymru. Dyma'r amser cywir—ac yn amlwg rwyf wedi ysgrifennu at gadeirydd y bwrdd—i gael golwg unwaith eto ar ei rôl a'i swyddogaeth. Gobeithiaf yn fawr y bydd yr hyn sy'n digwydd gyda'r adroddiad hwn a'r trafodaethau y byddaf yn eu cael yn y dyfodol o ran yr ail adroddiad yn fy helpu i ddeall sut y gall Cyllid Cymru ddarparu'n well yng nghyd-destun Cymru er budd busnesau Cymru.

14:51 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Minister, I very much welcome your statement and the report. I also will value time to consider it properly over the next months and years. I want to make a few short points. First, on a recent visit to some small businesses in my constituency, which you very kindly came to along with Peter Black, the Member for South Wales West, a business very forcibly made the point to us that it was not able to use cash flow and its order book as collateral for a loan that it badly needed to tool-up for the very healthy order book that it had. We had a very useful discussion about that particular problem, but it is obviously of wider significance, and it is very interesting that the professor highlights many similar issues across Wales. I know that you are having a look at that.

Weinidog, rwyf yn croesawu eich datganiad a'r adroddiad yn fawr. Byddaf hefyd yn gwerthfawrogi'r amser i'w ystyried yn drylwyr dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Rwyf am wneud rhai pwyntiau byr. Yn gyntaf, daethoch gyda mi, yn garedig iawn, ynghyd â Peter Black, yr Aelod dros Orllewin De Cymru, ar ymweliad diweddar â rhai busnesau bach yn fy etholaeth, a gwnaeth un busnes y pwynt yn gryf iawn i ni nad oedd yn gallu defnyddio llif arian a'i lyfr archebion fel gwarant gyfochrog ar gyfer benthyciad yr oedd wir ei angen arno i brynu offer ar gyfer ei lyfr archebion iach iawn. Cawsom drafodaeth ddefnyddiol iawn am broblem benodol honno, ond mae iddi'n amlwg arwyddocâd ehangach, ac mae'n ddiddorol iawn bod yr athro yn tynnu sylw at nifer o faterion tebyg ledled Cymru. Gwn eich bod yn cael golwg ar hynny.

The other thing that we have looked at frequently in the Chamber, alongside the Minister for Finance, is the supply chain payment system, making sure that anybody who receives Welsh Government funding pays its supply chain within 30 days, and that that is passed on through that supply chain and generates some trading capital, which, once again, the professor highlights.

Y peth arall yr ydym wedi edrych arno'n aml yn y Siambr, ochr yn ochr â'r Gweinidog Cyllid, yw system dalu'r gadwyn gyflenwi, gan wneud yn siŵr bod unrhyw un sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn talu i'w gadwyn gyflenwi o fewn 30 diwrnod, a bod hynny'n cael ei drosglwyddo trwy'r gadwyn gyflenwi ac yn cynhyrchu rhywfaint o gyfalaf masnachu. Mae'r athro, unwaith eto, yn tynnu sylw at hyn.

The last thing that I wanted to make a point about is the availability of funding for start-ups, outside the 18 to 30 bracket as well. That is, when that money is made available and the crucial importance of that. The Enterprise and Business Committee is currently in the process of conducting a youth entrepreneurship inquiry, and we have yet to come to any conclusions on that, but some very forcible points were made to us about the timing of the funding and how absolutely crucial it was to determining whether the business flew or did not fly. That is a very important point. It was coupled with the issue of local-knowledge decisions and not having a 'computer says no' attitude. The professor puts that rather more succinctly than I could, but that is the effect for most businesses.

Y peth olaf yr wyf am wneud pwynt yn ei gylch yw'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cychwyn busnes, y tu allan i'r braced 18 i 30 hefyd. Hynny yw, pryd y darperir yr arian hwnnw a phwysigrwydd hanfodol hynny. Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes ar hyn o bryd yn y broses o gynnal ymchwiliad i entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc. Nid ydym wedi dod i unrhyw gasgliadau ar hynny hyd yma, ond cyflwynwyd rhai pwyntiau grymus iawn i ni ynglŷn ag amseriad y cyllid a pha mor gwbl hanfodol yw hynny wrth benderfynu a yw'r busnes yn cael cychwyn llwyddiannus ai peidio. Mae hwnnw'n bwynt pwysig iawn. Fe'i gwnaed ochr yn ochr â phwynt ynglŷn â gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth leol ac osgoi'r agwedd 'mae'r cyfrifiadur yn dweud na'. Mae'r athro yn cyfleu hynny ychydig yn fwy cryno nag y gallwn i, ond dyna'r effaith ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau.

Minister, I want to draw your attention to some work that has been done in the north-east of England in encouraging some banks, which I believe are Scandinavian in origin, which have local bank managers making local decisions, based on the local knowledge they have of firms and their credit-worthiness, as opposed to the computer system that looks only at whatever it is that it looks at—I am afraid that I am not familiar with all of the concepts inside that—and the enormous effect that is having on the small towns that have been able to attract such a bank. Would you consider looking at that as well?

Weinidog, rwyf am dynnu eich sylw at rywfaint o waith sydd wedi cael ei wneud yng ngogledd-ddwyrain Lloegr i annog rhai banciau, sef rhai Sgandinafaidd o ran tarddiad rwyf yn credu, sydd â rheolwyr banc lleol ac sy'n gwneud penderfyniadau lleol, yn seiliedig ar y wybodaeth leol sydd ganddynt am gwmnïau a'u sefyllfa credyd, yn hytrach nag ar y system gyfrifiadurol nad yw ond yn edrych ar beth bynnag y mae'n edrych arno—mae arnaf ofn nad wyf yn gyfarwydd â'r holl gysyniadau o fewn hyn—a'r effaith enfawr y mae hynny'n ei chael ar y trefi bach sydd wedi llwyddo i ddenu banc o'r fath. A fyddech yn ystyried edrych ar hynny hefyd?

14:54 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Thank you very much for those comments. If I may, I will take them in reverse order. What is happening in the north-east in terms of banks and having a bank manager back in place is very much the tenor of the discussion that we have had in the Chamber about having an individual within a community who understands what is going on in that community, understands their customers, knows what their customers require and knows whether they are prepared to take a risk on somebody with a business idea. That is something that, substantially, the major banks in this country have moved away from. If we are to encourage an entrepreneurial culture in this country, where you can pop in to see somebody and talk through some of these issues, we are going to have to return to some of these elements. That is why I am so keen to look at other issues around community banking in some of the further work that I have commissioned, so that we can take this a stage further. The funding for start-ups and when you require the money is also linked to that in some way because, if you cannot get a quick decision and you are constantly being asked for further information to satisfy the computer's scoring system, you cannot do it. So, it is important that we get this linked up.

Diolch yn fawr iawn am y sylwadau hynny. Os caf, byddaf yn dechrau â'r olaf ac yn gweithio am yn ôl. Yr hyn sy'n digwydd yn y gogledd-ddwyrain o ran banciau a chael rheolwyr banc yn ôl yn sicr yw perwyl y drafodaeth yr ydym wedi'i chael yn y Siambr, ynglŷn â chael unigolyn o fewn cymuned sy'n deall yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned, yn deall eu cwsmeriaid, yn gwybod beth y mae ar eu cwsmeriaid ei angen ac yn gwybod a ydynt yn barod i fentro ar rywun sydd â syniad busnes. Mae hynny'n rhywbeth y mae'r prif fanciau yn y wlad hon wedi symud i ffwrdd oddi wrtho, i raddau helaeth. Os ydym am annog diwylliant entrepreneuraidd yn y wlad hon, lle y gallwch alw i mewn i weld rhywun a thrafod rhai o'r materion hyn, bydd yn rhaid inni ddychwelyd at rai o'r elfennau hyn. Dyna pam yr wyf mor awyddus i edrych ar faterion eraill yn ymwneud â bancio cymunedol yn rhywfaint o'r gwaith pellach yr wyf wedi ei gomisiynu, fel y gallwn fynd â hyn gam ymhellach. Mae'r cyllid ar gyfer busnesau newydd a phryd y mae angen yr arian hefyd yn gysylltiedig â hynny mewn rhyw ffordd oherwydd nad oes modd ichi lwyddo os na allwch gael penderfyniad cyflym ac os oes rhywun yn gofyn yn gyson ichi am ragor o wybodaeth i fodloni system sgorio'r cyfrifiadur. Felly, mae'n bwysig cysylltu hyn oll â'i gilydd.

I also think that there is a role here, which the professor has also looked at, for others who can lend money, because it has been suggested that we should be looking at the role and functions of building societies, and the way that they operate. So, there are some quite interesting suggestions in this report.

Rwyf hefyd yn credu bod swyddogaeth yma, y mae'r athro hefyd wedi ei hystyried, i eraill a all roi benthyg arian, oherwydd yr awgrymwyd y dylem fod yn edrych ar rôl a swyddogaethau cymdeithasau adeiladu, a'r ffordd y maent yn gweithredu. Felly, mae rhai awgrymiadau eithaf diddorol yn yr adroddiad hwn.

In terms of the supply chain, this has been a key issue. We try to pay suppliers within 30 days and then five days when you have the receipt get a valid invoice. However, there is a lot more that we need to do in this area to help small businesses. We are going to pilot project bank accounts for contractors with complex supply chains, so that we can have a lead contractor and deal better with issues in that way. We need to follow on from that work.

O ran y gadwyn gyflenwi, mae hwn wedi bod yn fater allweddol. Rydym yn ceisio talu i gyflenwyr o fewn 30 diwrnod ac yna o fewn pum diwrnod i dderbyn anfoneb ddilys. Fodd bynnag, mae llawer mwy y mae angen inni ei wneud yn y maes hwn i helpu busnesau bach. Rydym yn mynd i dreialu cyfrifon banc prosiect ar gyfer contractwyr â chadwyni cyflenwi cymhleth, fel y gallwn gael contractwr arweiniol ac ymdrin yn well â materion yn y ffordd honno. Mae angen i ni wneud gwaith dilynol yn hynny o beth.

The most serious point that you raised, which was very well put, was about cash flow issues. As a business, you may have the cash flow coming in and you may have the collateral and the contracts in place, but the banks still refuse to lend against it. People are telling me that that would not have happened 15 or 20 years ago, but it is happening now. It is stifling people who want to take a risk and go for contracts if they cannot ensure that they have the cash. So, this report has been a useful contribution to the discussion here today, and there are many points that we will have to take forward in terms of how we develop the policy.

Y pwynt mwyaf difrifol a godwyd gennych, ac a fynegwyd yn dda iawn, oedd materion yn ymwneud â llif arian. Fel busnes, efallai bod gennych y llif arian i mewn ac efallai bod gennych warant gyfochrog a'r contractau, ond mae'r banciau yn dal i wrthod benthyca yn erbyn hynny. Mae pobl yn dweud wrthyf na fyddai hynny wedi digwydd 15 neu 20 mlynedd yn ôl, ond ei fod yn digwydd yn awr. Mae'n llesteirio pobl sydd am fentro a mynd am gontractau os na allant sicrhau bod yr arian ganddynt. Felly, mae'r adroddiad hwn wedi bod yn gyfraniad defnyddiol at y drafodaeth yma heddiw, ac mae llawer o bwyntiau y bydd yn rhaid inni fwrw ymlaen â hwy o ran sut yr ydym yn datblygu'r polisi.

14:56 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch am y datganiad ac am gopi o'r adroddiad manwl a chynhwysfawr gan yr athro. Mae'n amlwg i bawb fod problem sylfaenol ynglŷn â benthyciadau gan fanciau'r stryd fawr, ac mae'r arian mawr—y 'quantitative easing'—mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ei roi mewn yn y system yn amlwg wedi methu cael yr effaith roedd wedi gobeithio y byddai'n ei gael.

Thank you for the statement and for the copy of the detailed and comprehensive report by the professor. It is obvious to everybody that there is a fundamental problem as regards high-street bank loans, and the large sums—the quantitative easing—that the UK Government has injected into the system has obviously failed to have the desired effect.

Mae problem sylfaenol gan y Llywodraeth hon, gan nad oes gan yr un o'r banciau bencadlys yng Nghymru. Nid wyf yn siŵr a oes unrhyw strwythur datganoledig go iawn o fewn y banciau, ac nid oes banciau annibynnol yng Nghymru. Felly, mae honno'n broblem eithaf sylfaenol o safbwynt benthyca arian. Dyna pam mae Plaid Cymru wedi dadlau y dylid sefydlu banc i Gymru i fenthyca i fusnesau bach a chanolig, gyda 'remit' penodol i wneud hynny, fel sydd yn digwydd mewn rhannau eraill o Ewrop a'r byd.

This Government has a fundamental problem, in that not one of the banks has its headquarters in Wales. I do not think that there is any real devolved structure within the banks, and there are no independent banks in Wales. Therefore, that is quite a fundamental problem as regards borrowing money. That is why Plaid Cymru has argued that we should establish a bank of Wales to lend money to SMEs, with a specific remit to do so, as has happened in other parts of Europe and the world.

Yn dilyn o hynny, mae'n anochel bod llawer o'r argymhellion y tu hwnt i bwerau'r Llywodraeth yn uniongyrchol. Yn anochel, mae'ch ymateb chi hefyd mewn llawer o'r cyfeiriadau hyn yn gyffredinol ac yn ansicr ei ganlyniadau, er enghraifft, pan rydych yn sôn am 'geisio dylanwadu' ar hyn a'r llall.

Following on from that, it is inevitable that many of the recommendations are beyond the direct powers of the Government. Inevitably, your response too in many of these directions is general and the outcomes are uncertain, for example, when you talk about 'trying to influence' this that and the other.

Mae brawddeg yn yr adroddiad yn dweud fel hyn:

There is a sentence in the report that says:

'Very little regular discussions happen between the Welsh Government and the high street banks.'

Ychydig iawn o drafodaethau a geir yn rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a banciau'r stryd fawr.

Hoffwn eich sylwadau ar y datganiad hwnnw. Efallai y byddech yn gallu dweud beth yw eich perthynas â'r banciau, pa mor aml rydych yn cyfarfod, ac a oes rheolwyr gan bob un o'r prif fanciau stryd fawr yng Nghymru. Os nad oes strwythur felly, mae'n anodd gweld sut mae'r Llywodraeth hon yn mynd i ddylanwadu ar yr hyn sydd yn digwydd o ran benthyciadau.

I would like your comments on that statement. Perhaps you could tell us what your relationship is with the banks, how often you meet, and whether each of the main high-street banks has managers in Wales. Unless there is such a structure, it is difficult to see how this Government will be able to influence what occurs in terms of loans.

Mae argymhelliad y dylai rheolwyr rhanbarthol o fewn y banciau yng Nghymru fod yn gyfrifol am bob penderfyniad o ran benthyca i fusnes yng Nghymru. Fe fues i mewn cyfarfod rhwng un o'r banciau stryd fawr a busnesau lleol yn y gogledd. Roedd y busnesau i gyd yn gytûn bod symud o'r trefniant a fu gynt, sef yr hyn rydych wedi cyfeirio ato, lle'r oedd gennych reolwr lleol a oedd yn adnabod ei batsh a'i bobl ac yn gwneud y penderfyniadau, ond sydd bellach wedi symud i ryw fath o strwythur rhanbarthol, wedi bod yn gamgymeriad. Un ffaith a ddaeth allan o'r cyfarfod oedd bod y banc hwnnw yn dweud bod un rhan o dair o'r benthyciadau mae'n ei wneud yn y gogledd yn mynd i'r sector amaethyddol. Rwy'n deall pam—oherwydd bod sicrwydd llif arian o fewn y sector amaethyddol sydd ddim yn bodoli mewn sectorau eraill—ond mae'r ffigur hwnnw'n aruthrol o uchel wrth ystyried cyn lleied yw cyfraniad y sector amaethyddol i GVA. Nid wyf yn dweud nad yw'r sector hwnnw'n bwysig, dim ond ei fod yn arwydd bod gwendid sylfaenol neu ddiffyg hyder o fewn gweddill y sector breifat yn y gogledd bod y ffigur hwnnw mor uchel o fewn y sector amaethyddol.

There is a recommendation that regional managers within the banks in Wales should be responsible for every decision in terms of lending to businesses in Wales. I attended a meeting between one of the high-street banks and local businesses in north Wales. All the businesses were agreed that changing from the previous arrangement, to which you have referred, where you had a local manager who knew his own patch and the people and took the decisions, but which has now changed to some sort of regional structure, had been a major error. One fact that came out of that meeting was that the bank said that one third of the loans that it awards in north Wales go to the agriculture sector. I understand why—because there is a guaranteed cash flow in the agriculture sector that does not exist in other sectors—but that figure is massively high considering how small the agricultural sector's contribution to GVA is. I am not saying that that sector is not important, but that it is a sign of a fundamental weakness or lack of confidence within the rest of the private sector in north Wales that that figure is so high in the agricultural sector.

Gwnaethoch gyfeirio yn eich ymateb i'r 'microbusiness loan fund' a ffigur o £6 miliwn. Byddai'n ddiddorol ac yn ddefnyddiol i ni gael gwybod niferoedd y ceisiadau a'r benthyciadau a chyfanswm y rheini dros gyfnod penodol.

You referred in your response to the microbusiness loan fund and a figure of £6 million. It would be interesting and useful for us to know the number of applications received and loans and the total over a specific period.

Mae cyfeiriad hefyd at rôl Finance Wales, ac argymhelliad y dylai, efallai, newid ei ddull o weithio. Mae dau gwestiwn yn codi. Pam y mae cyfraddau benthyciadau Finance Wales yn gyson uwch na chyfraddau'r sector ariannol yn gyffredinol? Mewn rhai achosion, maent yn sylweddol uwch—hyd at dair a phedair gwaith yn uwch na'r hyn sy'n cael ei argymell gan fanc Ewrop. Mae hynny'n gwestiwn eithaf elfennol a sylfaenol ynglŷn â sut mae Finance Wales yn gweithredu. Ar nodyn arall, nodaf mai un o'r cronfeydd benthyca yw'r 'creative IP fund', sydd wedi gwneud 30 o fuddsoddiadau ac wedi benthyca £12 miliwn. Roedd y gronfa hon i fod i adennill canran sylweddol o'r buddsoddiadau yn ôl er mwyn ei ail-fuddsoddi yn y diwydiant. A wnewch chi ryddhau'r ffigurau ynglŷn â faint o'r buddsoddiadau hynny sydd wedi'u hadennill, pwy sydd wedi derbyn benthyciadau ac i ba raddau cawsant eu talu yn ôl? Buddsoddiadau oedd y rheini—benthyciadau—nid grantiau. Felly, credaf ei fod yn deg i'r cyhoedd gael gwybod beth yn union a ddigwyddodd i'r arian hwnnw, a llwyddiant neu aflwyddiant y benthyciadau. Edrychaf ymlaen at yr adroddiad pellach, ac at weld pa raglen weithredu y bydd y Llywodraeth yn ei mabwysiadu yn dilyn hynny.

There is also reference to the role of Finance Wales, and a recommendation that it should, perhaps, change its modus operandi. Two questions arise. Why are the loan rates of Finance Wales consistently higher than those of the financial sector in general? In some cases, they are significantly higher—as much as three or four times more than is recommended by the European bank. That is a quite fundamental question about how Finance Wales operates. On another point, I note that one of the loan funds is the creative IP fund, which has made 30 investments and has lent £12 million. This fund was supposed to recoup a significant percentage of the investments in order to reinvest in the industry. Will you release the figures for how many of those investments have been recouped, who has received those loans and to what extent they were repaid? These were investments—loans—not grants. Therefore, I think it only fair that the public should know exactly what happened to that money, and whether the loans were a success or a failure. I look forward to the further report, and to seeing what action plan the Government will adopt subsequently.

15:02

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

I thank Alun Ffred very much for his contribution. His discussions with business in north Wales are exactly the type of discussions that have been mirrored across Wales in relation to people's concerns about the changes in the system meaning that they did not have a relationship with their bank when they needed help and assistance, when they wanted to expand their businesses, or were having difficulties doing things. The system went against that when it went to a regional approach. It is not even a Wales regional approach; the banks have an England-and-Wales approach in some areas. You make an important point about having a senior presence in Wales so that the banks understand how the Welsh economy works and can make the appropriate lending decisions. That is a matter that we will pursue. Obviously, I meet banks at a higher level than the Welsh level to make these views known. However, I am quite taken by Nick Ramsay's point about a more formal arrangement, perhaps, and a forum with the banks, where we can have quite an open dialogue at a very high level.

Diolch i Alun Ffred yn fawr iawn am ei gyfraniad. Mae ei drafodaethau gyda busnesau yn y gogledd yn cael eu hadlewyrchu'n union yn y math o drafodaethau a gynhelir ar draws Cymru o safbwynt pryderon pobl am y newidiadau yn y system sy'n golygu nad oedd ganddynt berthynas â'u banc pan oedd angen help a chymorth arnynt, pan oeddent yn awyddus i ehangu eu busnesau, neu pan oeddent yn cael trafferth gwneud pethau. Roedd y system yn gweithio'n groes i hynny ar ôl symud i ddull gweithredu rhanbarthol. Nid yw hyd yn oed yn ddull gweithredu rhanbarthol ar gyfer Cymru; mae'r banciau'n gweithio ar sail Cymru a Lloegr mewn rhai meysydd. Rydych yn gwneud pwynt pwysig ynghylch cael presenoldeb uwch swyddog yng Nghymru fel bod y banciau'n deall sut y mae economi Cymru yn gweithio ac yn gallu gwneud y penderfyniadau benthyca priodol. Byddwn yn mynd ar drywydd y mater hwnnw. Yn amlwg, rwyf yn cwrdd â banciau ar lefel uwch na lefel Cymru i fynegi'r safbwyntiau hyn. Fodd bynnag, rwyf yn eithaf hoff o bwynt Nick Ramsay ynghylch trefniant mwy ffurfiol, efallai, a fforwm gyda'r banciau, lle y gallwn gael deialog eithaf agored ar lefel uchel iawn.

Obviously, some of these issues are not for me, but for the UK Government. However, I think that the UK Government shares my concerns on this, because I have sent it the reports. I think that it will be interested in how some of the schemes that it has introduced are working on the ground in terms of more money going into the system, and what the reality is of what the banks are doing in Wales. I do not think that this is a confrontational issue between us and people in the centre; it is about how I can say to them, 'I have this evidence, what do you think? Is this helping you to engage at your level?' in order to see what genuine progress we can make on this. It is important that we recognise that, if we are going to kick-start the economy—we have seen some improvements in the economy—we have to get this right in terms of how we lend to business.

Yn amlwg, mater i Lywodraeth y DU ac nid i mi yw rhai o'r materion hyn. Fodd bynnag, credaf fod Llywodraeth y DU yn rhannu fy mhryderon ynglŷn â hyn, oherwydd fy mod wedi anfon yr adroddiadau ati. Rwyf yn meddwl y bydd ganddi ddiddordeb yn sut y mae rhai o'r cynlluniau a gyflwynwyd ganddi'n gweithio ar lawr gwlad o ran cyflwyno mwy o arian i'r system, a'r hyn y mae'r banciau'n ei wneud yng Nghymru mewn gwirionedd. Nid wyf yn meddwl bod hyn yn destun gwrthdaro rhyngom ni a'r bobl yn y canol; mae'n ymwneud â sut y gallaf i ddweud wrthynt, 'Mae'r dystiolaeth hon gennyf i, beth yw eich barn? A yw hyn yn eich helpu i ymgysylltu ar eich lefel chi?' er mwyn gweld pa gamau gwirioneddol ymlaen y gallwn eu cymryd yn hyn o beth. Rydym wedi gweld rhai gwelliannau yn yr economi, ond mae'n bwysig inni gydnabod bod yn rhaid inni wneud pethau'n iawn, o ran benthyca i fusnesau, os ydym am roi hwb i'r economi.

I was very interested in what you said about a third of the lending going to agriculture and so on. Perhaps that is because they feel that there is a guarantee of getting the money back, because they are sometimes very risk-averse. When you are dealing with small businesses and entrepreneurs, you have to be a bit less risk-averse in terms of allowing the business to start.

Roedd gennyf ddiddordeb mawr yn yr hyn a ddywedwch ynglŷn â'r ffaith bod un rhan o dair o'r benthyciadau'n mynd i amaethyddiaeth ac yn y blaen. Efallai mai'r rheswm am hynny yw eu bod yn teimlo eu bod yn siŵr o gael yr arian yn ôl, oherwydd eu bod weithiau'n amharod iawn i gymryd risg. Mae'n rhaid i chi fod ychydig yn fwy parod i dderbyn risg wrth ddelio â busnesau bach ac entrepreneuriaid, er mwyn galluogi'r busnes i ddechrau gweithredu.

In terms of the microbusiness loan fund, I am more than happy to get the information and update Members in due course. The points that you make about Finance Wales are well made. One issue that is consistently raised with me is its charges for loans and what it is undertaking. That will also be the subject of discussions that we will have with Finance Wales and I am currently having with Finance Wales about how it operates issues within Wales on behalf of the Government. Let us recognise that it is public money that Finance Wales is using and so it is very important that we have control over it.

O ran y gronfa fenthyciadau i ficrofusnesau, rwyf yn fwy na pharod i gael gafael ar y wybodaeth a'i throsglwyddo i'r Aelodau maes o law. Mae'r pwyntiau a wnewch ynglŷn â Chyllid Cymru yn rhai da. Un mater a godir yn gyson gyda mi yw'r hyn y mae'n ei godi am ei fenthyciadau a'r hyn y mae'n ymgymryd ag ef. Bydd hynny hefyd yn destun trafodaethau y byddwn ac yr wyf yn eu cael gyda Chyllid Cymru ynglŷn â'r ffordd y mae'n gweithredu yng Nghymru ar ran y Llywodraeth. Gadewch inni gydnabod mai arian cyhoeddus y mae Cyllid Cymru yn ei ddefnyddio a'i bod felly yn bwysig iawn bod gennym reolaeth drosto.

In relation to the other fund and the investment of £12 million into 30 companies, I will certainly see what information is available and what I am able to release that is not commercially confidential.

O ran y gronfa arall a'r buddsoddiad o £12 miliwn mewn 30 o gwmnïau, byddaf yn sicr yn gweld pa wybodaeth sydd ar gael a beth y gallaf ei ryddhau nad yw'n fasnachol gyfrinachol.

15:05

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Thank you for your statement today, Minister, and I also put on record my thanks to Professor Jones-Evans and his team for what is an extremely comprehensive and helpful report, which I am sure will provide us with material to discuss for many months and years to come.

Diolch i chi am eich datganiad heddiw, Weinidog, ac rwyf hefyd am gofnodi fy niolch i'r Athro Jones-Evans a'i dîm am adroddiad hynod gynhwysfawr a defnyddiol. Rwyf yn siŵr y bydd yn rhoi deunydd i'w drafod inni am fisoedd a blynyddoedd lawer i ddod.

Minister, I would welcome any discussions that you are able to have with the banks on the issue of lending. Banks are often the first port of call for many SMEs, but I am concerned that many SMEs are also reliant on banks for advice as well as for finance, and that is a dangerous situation, given banks' commercial nature. Will you ask whether, at the next stage, Professor Jones-Evans could look not only at the funding sources, but also at how SMEs find out about different funding sources and how they assess their suitability? I am really worried about a lack of visibility of some of the funding sources that are available to our businesses and also about facts such as that 25% of Welsh businesses use credit cards and overdrafts as methods of financing their business.

Weinidog, byddwn yn croesawu unrhyw drafodaethau y gallwch eu cael gyda'r banciau ynglŷn â benthyca. Banciau yn aml yw'r man cyntaf y mae llawer o fusnesau bach a chanolig yn mynd, ond rwyf yn pryderu bod llawer ohonynt hefyd yn dibynnu ar fanciau am gyngor yn ogystal â chyllid, ac mae hynny'n sefyllfa beryglus, o ystyried natur fasnachol banciau. A wnewch chi ofyn a allai'r Athro Jones-Evans, yn y cam nesaf, yn ogystal â ffynonellau ariannu, edrych hefyd ar sut mae busnesau'n dod i wybod am wahanol ffynonellau ariannu a sut maent yn asesu eu haddasrwydd? Rwyf yn wir yn poeni nad yw ein busnesau yn ymwybodol o rai o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael iddynt, a hefyd am bethau fel y ffaith bod 25% o fusnesau Cymru yn defnyddio cardiau credyd a gorddrafftiau fel dulliau o ariannu eu busnes.

I welcome the focus on local decision making as well, because I have had a lot of casework on problems that people have experienced with transferring their accounts and their details from local Welsh teams to offices based in Bristol or elsewhere, the lack of understanding that they feel has accompanied that transfer and the lack of trust that the customer experiences when they feel that they are no longer dealing with a consistent group of people. I also welcome the future consideration of peer-to-peer funding and crowdsourced funding, which I have asked you to look into in the past. I look forward to Professor Jones-Evans's reports on this. I would be interested in hearing what you think a Government's role might be in supporting these kinds of schemes.

Rwyf innau hefyd yn croesawu'r pwyslais ar wneud penderfyniadau'n lleol, oherwydd fy mod wedi cael llawer o waith achos ar broblemau y mae pobl wedi eu cael wrth drosglwyddo eu cyfrifon a'u manylion o dimau lleol yng Nghymru i swyddfeydd ym Mryste neu rywle arall, y diffyg dealltwriaeth y maent wedi ei deimlo wrth drosglwyddo, a'r diffyg ymddiriedaeth y mae'r cwsmer yn ei brofi pan fyddant yn teimlo nad ydynt bellach yn delio â grŵp cyson o bobl. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith y bwriedir ystyried cyllid rhwng cymheiriaid a chyllid torfol—materion yr wyf wedi gofyn i chi eu hystyried yn y gorffennol. Edrychaf ymlaen at adroddiadau'r Athro Jones-Evans ar hyn. Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed pa ran y gallai'r Llywodraeth ei chwarae, yn eich barn chi, o ran cefnogi'r mathau hyn o gynlluniau.

Another recommendation is on considering community-based lending to smaller businesses, and I wonder whether you could give us an update on your work in this regard with credit unions in Wales. Now that they are able to lend to businesses, are they doing so and do they have the resources to do so?

Mae argymhelliad arall yn ymwneud â benthyciadau cymunedol i fusnesau llai, a tybed a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am eich gwaith yn hyn o beth gydag undebau credyd yng Nghymru? Nawr eu bod yn gallu benthyca i fusnesau, a ydynt yn gwneud hynny ac a oes ganddynt yr adnoddau i wneud hynny?

The report looks in great detail at some of the available sources of funding, and I was particularly interested in the start-up loan scheme in England, which has helped some 3,000 young entrepreneurs with funding, but also has mentoring alongside the funding to help make the most of it and to ensure that that investment is well looked after. Do you think that there is an opportunity for Finance Wales to develop its own version of this scheme so that it matches the money and the mentoring?

Mae'r adroddiad yn edrych yn fanwl iawn ar rai o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael, ac roedd gennyf ddiddordeb arbennig yn y cynllun benthyciadau ar gyfer busnesau newydd yn Lloegr. Mae hwn wedi darparu cyllid i oddeutu 3,000 o entrepreneuriaid ifanc, ond mae hefyd yn mentora yn ogystal â chyllido er mwyn eu helpu i wneud y mwyaf ohono ac i sicrhau bod y buddsoddiad yn cael gofal da. A ydych chi'n meddwl bod cyfle i Gyllid Cymru ddatblygu ei fersiwn ei hun o'r cynllun hwn, gan gysylltu'r arian a'r mentora?

Finally, the report says that there is a lack of economic data for Wales, which I agree with. It is very difficult to assess our progress. What discussions have you had with the UK Government regarding the production of statistics such as GVA and GDP figures for Wales in parallel with the UK and Scottish figures?

Yn olaf, mae'r adroddiad yn dweud nad oes digon o ddata economaidd ar gael ar gyfer Cymru, ac rwyf yn cytuno â hynny. Mae'n anodd iawn asesu sut mae pethau'n datblygu. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cynhyrchu ystadegau fel Gwerth Ychwanegol Crynswth a Chynnyrch Mewnwladol Crynswth ar gyfer Cymru ochr yn ochr â ffigurau'r DU a'r Alban?

15:07

## Edwina Hart [Bywgraffiad] [Biography]

Thank you very much for that contribution, because I think that we all have the same message in terms of what the banks are doing. You are right to ask, if you are going to your bank for financial advice, how you get other types of advice as well. I am more than happy to speak to Professor Dylan Jones-Evans about the visibility of funding streams and issues like that. If he wishes to do so, he can cover that in the next stage of his report.

Diolch yn fawr iawn ichi am y cyfraniad hwnnw, a chredaf mai'r un yw'r neges i bawb ohonom o ran yr hyn y mae'r banciau'n ei wneud. Yr ydych yn iawn i ofyn, os ydych yn mynd at eich banc am gyngor ariannol, sut mae cael mathau eraill o gyngor hefyd. Rwyf yn fwy na pharod i siarad â'r Athro Dylan Jones-Evans ynglŷn â pha mor ymwybodol y mae pobl o ffynonellau cyllido a materion tebyg. Os yw'n dymuno, gall ymdrin â hynny yng ngham nesaf ei adroddiad.

As I think that you indicated in relation to a local decision-making process, it builds up distrust when you are moved from one person to another when you are discussing what are quite complicated financial matters from your point of view and do not have that stable relationship and friendship, almost, that develops over years between a bank manager and a business customer. Problems can definitely emerge.

Fel y gwnaethoch nodi, rwyf yn meddwl, o safbwynt y broses o wneud penderfyniadau'n lleol, mae'n creu diffyg ymddiriedaeth pan fyddwch yn cael eich symud o un person i'r llall wrth drafod materion ariannol sy'n eithaf cymhleth o'ch safbwynt chi, ac nad oes gennych y berthynas sefydlog honno, a'r cyfeillgarwch, bron, sy'n datblygu yn ystod y blynyddoedd rhwng rheolwr banc a chwsmer busnes. Gall problemau ddod i'r amlwg yn bendant.

We are particularly keen on looking at peer-to-peer funding and other such sources of lending. I am not quite sure what our role and function would be in that. It might be just providing a framework, it might be encouragement, it might be giving advice to people about how to do it, or it might be to deal with it. However, I think that that will come through as Professor Dylan Jones-Evans carries on with the work that we have commissioned from him, and from the other work that I have commissioned on community-based banking initiatives, which I am very keen on, because we have to look at how community banks work elsewhere, how we could bring that here and how, perhaps, the role of credit unions could be enhanced in this area. There will also be a skills issue within credit unions if they are going to be lending to business, so that they understand the risks of lending to business and so on. Therefore, I am more than happy to return to that in the autumn, if I may, when some of the work has been completed on it.

Rydym yn arbennig o awyddus i edrych ar gyllid rhwng cymheiriaid a ffynonellau benthyca eraill. Nid wyf yn hollol siŵr beth fyddai ein rôl a'n swyddogaeth ni yn hynny o beth. Gallai olygu dim ond darparu fframwaith, gallai olygu annog, gallai olygu rhoi cyngor i bobl ynglŷn â sut i wneud hynny, neu fe allai olygu ymdrin â'r mater. Fodd bynnag, rwyf yn credu y bydd yn dod yn amlwg wrth i'r Athro Dylan Jones-Evans barhau â'r gwaith yr ydym wedi'i gomisiynu oddi wrtho, ac yn sgil y gwaith arall yr wyf wedi'i gomisiynu ar fentrau bancio cymunedol. Rwyf yn frwd iawn dros y syniad hwnnw, oherwydd bod rhaid inni ystyried sut y mae banciau cymunedol yn gweithio mewn mannau eraill, sut y gallem gyflwyno hynny yma a sut, efallai, y gellid ehangu rôl undebau credyd yn y maes hwn. Bydd sgiliau hefyd yn bwysig o fewn undebau credyd os ydynt yn mynd i fod yn benthyca i fusnesau, fel eu bod yn deall risgiau benthyca i fusnesau ac yn y blaen. Felly, rwyf yn fwy na hapus i ddychwelyd at hynny yn yr hydref, os caf, pan fydd peth o'r gwaith wedi ei gwblhau arno.

In terms of the start-up scheme, which has been done in England, as I have indicated, it is a scheme that we will look at. I will look at the suitability of Finance Wales running a possible scheme like that, but, given that I will be looking at the role and function of Finance Wales, I do not think that you would expect me to say 'yes' or 'no' with regard to its involvement at this time.

O ran y cynllun busnesau newydd, sydd ar y gweill yn Lloegr, fel yr wyf wedi dweud, mae'n gynllun y byddwn yn edrych arno. Byddaf yn ystyried pa mor addas yw hi i Gyllid Cymru redeg cynllun posibl o'r fath, ond, o ystyried y byddaf yn edrych ar rôl a swyddogaeth Cyllid Cymru, nid wyf yn meddwl y byddech yn disgwyl i mi ddweud' ie 'neu' na 'o ran ei gyfraniad ar hyn o bryd.

The issue of the lack of economic data has been a concern of ours. We have raised it previously and I will continue to do so, and let Members know.

Mae mater diffyg data economaidd wedi bod yn destun pryder inni. Rydym wedi codi hyn o'r blaen a byddaf yn parhau i wneud hynny, ac yn rhoi'r wybodaeth i'r Aelodau.

15:10

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

I have two short questions, if I may. I speak—dare I say it—as a qualified banker who previously worked in the building society sector. In your statement, you say that the review found that, rather than the cost of borrowing, two of the main obstacles that firms face when accessing bank finance are the security against the loan and the affordability of the loan repayment. In discussions with the banks, directly or through Professor Dylan Jones-Evans, how will you ensure that we recognise the fact that the security against the loan and the level of risk, and therefore capital adequacy, will in fact determine the cost of borrowing and therefore the availability of the loan and the affordability of loan repayments? So, the three are directly interconnected. The failure to recognise that led to the credit crunch.

Mae gennyf ddau gwestiwn byr, os caf. Rwyf yn siarad—os meiddiaf ddweud hyn—fel banciwr cymwysedig a arferai weithio yn y sector cymdeithasau adeiladu. Yn eich datganiad, rydych yn dweud bod yr adolygiad wedi canfod mai dau o'r prif rwystrau y mae cwmnïau'n eu hwynebu wrth sicrhau cyllid gan y banc, yn hytrach na chost benthyca, yw gwarant ar gyfer y benthyciad a pha un a allant fforddio ad-dalu'r benthyciad. Mewn trafodaethau gyda'r banciau, yn uniongyrchol neu drwy'r Athro Dylan Jones-Evans, sut y byddwch yn sicrhau ein bod yn cydnabod mai'r warant ar gyfer y benthyciad a lefel y risg, ac felly digonolrwydd cyfalaf, a fydd mewn gwirionedd yn pennu cost benthyca, ac felly a yw'r benthyciad ar gael ac a ellir fforddio'r ad-daliadau? Felly, mae'r tri pheth yn gysylltiedig â'i gilydd yn uniongyrchol. Y methiant i gydnabod hynny a arweiniodd at y wasgfa gredyd.

The report recommends further discussions with building societies to assess—as you indicated earlier—their potential role in supporting SMEs to access finance, particularly in terms of commercial property lending. Again, in the context of the credit crunch and the current capital adequacy requirements, how will you ensure that that recognises the fact that, for example, the Co-operative Bank is currently undercapitalised because it took over the Britannia building society, which had over-lent in this area without adequate underwriting? In fact, my own previous employers also had to be merged with Nationwide Building Society, again for making imprudent commercial loans. Therefore, we must recognise that banks and building societies have to comply with the law and guidance at a European and UK level applying to prudential rules on lending and capital adequacy.

Mae'r adroddiad yn argymell trafodaethau pellach gyda chymdeithasau adeiladu i asesu—fel y dywedasoch yn gynharach—eu rôl bosibl o ran cynorthwyo busnesau bach a chanolig i gael gafael ar gyllid, yn enwedig o ran benthyca eiddo masnachol. Unwaith eto, yng nghyd-destun y wasgfa gredyd a'r gofynion presennol o ran digonolrwydd cyfalaf, sut y byddwch yn sicrhau bod hynny'n cydnabod y ffaith, er enghraifft, nad oes gan fanc y Co-operative gyfalaf digonol ar hyn o bryd oherwydd iddo gymryd drosodd gymdeithas adeiladu'r Britannia, a oedd wedi benthyca gormod yn y maes hwn heb danysgrifennu'r benthyciadau'n ddigonol? Yn wir, bu raid uno fy nghyflogwyr blaenorol fy hun hefyd â Chymdeithas Adeiladu Nationwide, unwaith eto oherwydd iddynt wneud benthyciadau masnachol annoeth. Felly, rhaid inni gydnabod bod rhaid i fanciau a chymdeithasau adeiladu gydymffurfio â'r gyfraith a chanllawiau ar lefel Ewropeaidd a'r DU sy'n berthnasol i reolau darbodus ar fenthyca a digonolrwydd cyfalaf.

15:11 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

When the professor undertook the report, he did actually understand the issues that you raised, which are crucial, but these are the types of issues that we will have to discuss with the banks in terms of how you get that balance. We can return to that once he has completed his second stage report. As I have indicated to Members, if they have specifics on this that they want to feed into this dialogue and the ongoing discussions to redevelop this strand of policy, I am more than happy to receive them.

Pan ddechreuodd yr athro ar yr adroddiad, roedd mewn gwirionedd yn deall y materion a godwyd gennych, sy'n hollbwysig, ond y rhain yw'r mathau o faterion y bydd yn rhaid inni eu trafod gyda'r banciau o ran sut mae cael y cydbwysedd hwnnw. Gallwn ddychwelyd at hynny ar ôl iddo gwblhau ail gam ei adroddiad. Fel yr wyf wedi ei ddweud wrth yr Aelodau, os ydynt yn dymuno cyfrannu pwyntiau manwl ynglŷn â hyn at y drafodaeth hon a'r trafodaethau parhaus er mwyn ailddatblygu elfen hon o bolisi, rwyf yn fwy na pharod eu derbyn.

15:12 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

In your statement, Minister, you mentioned the fact that the business bank will not be distributing its funds on a regional basis. There is obviously a danger that all of the funds will go to the hothouse of the south-east of England, or not come to Wales. What success do you think that you might have in addressing that issue? You also mentioned looking again at the future direction of Finance Wales. It is important to remember that no other part of the UK has the equivalent of Finance Wales. It is a unique institution. Would the Minister think that it might be possible to build on the success that it has had, and perhaps make it the equivalent of a Welsh business bank?

Yn eich datganiad, Weinidog, fe wnaethoch sôn am y ffaith na fydd y banc busnes yn dosbarthu ei arian ar sail ranbarthol. Mae'n amlwg bod perygl y bydd yr holl arian yn mynd i ardal ffyniannus de-ddwyrain Lloegr, neu ddim yn dod i Gymru. Pa lwyddiant ydych chi'n meddwl y gallech ei gael wrth fynd i'r afael â'r mater hwnnw? Rydych hefyd wedi crybwyll edrych eto ar gyfeiriad Cyllid Cymru yn y dyfodol. Mae'n bwysig cofio nad oes gan unrhyw ran arall o'r DU ddim sy'n cyfateb i Gyllid Cymru. Mae'n sefydliad unigryw. A fyddai'r Gweinidog yn meddwl y gallai fod modd adeiladu ar y llwyddiant y mae wedi'i gael, ac efallai ei wneud yn rhywbeth sy'n cyfateb i fanc busnes ar gyfer Cymru?

15:12 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

To answer the first point, in terms of the business bank, there is always a worry because the south-east of England is another country compared to the rest of the UK. We are not just talking about England and Wales; we are talking about a totally different economy. I think that there were statistics recently indicating how many dollar millionaires there would be in the next three years, in percentage terms, within the south-east of England. Therefore, it is important that we continue with our representations on the business bank, but I do think that the UK Government is aware of the concerns about the business bank and how we need to ensure that there is equity in terms of accessing the money.

I ateb y pwynt cyntaf, o ran y banc busnes, ceir pryder bob amser oherwydd bod de-ddwyrain Lloegr yn wlad arall o'i chymharu â gweddill y DU. Nid ydym yn sôn am Gymru a Lloegr; rydym yn sôn am economi hollol wahanol. Rwyf yn meddwl y cyhoeddwyd ystadegau diweddar yn dangos faint o filiwnyddion doler a fyddai yn y tair blynedd nesaf, o ran canran, yn ne-ddwyrain Lloegr. Felly, mae'n bwysig ein bod yn parhau i gyflwyno ein sylwadau ar y banc busnes, ond rwyf yn credu bod Llywodraeth y DU yn ymwybodol o'r pryderon am y banc busnes a sut y mae angen i ni sicrhau y ceir cydraddoldeb o ran mynediad at yr arian.

Your second point is also very well made in terms of Finance Wales. It was a very good idea. It continues to be a good idea, but, as time moves on, I think that you have to look at its role and function. I am not averse, if it is suitable for the purpose, to enhancing its role and function.

Mae eich ail bwynt hefyd yn un da iawn o ran Cyllid Cymru. Roedd yn syniad da iawn. Mae'n parhau i fod yn syniad da, ond, wrth i amser fynd yn ei flaen, rwyf yn meddwl bod yn rhaid i chi edrych ar ei rôl a'i swyddogaeth. Nid wyf yn gwrthwynebu i ehangu ei rôl a'i swyddogaeth, os yw'n addas ar gyfer y diben.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.13 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.13 p.m.*

# Y Papur Gwyn ynghylch Tai—Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Weithredu'r Papur Gwyn

*The following amendments have been selected: amendments 1, 4 and 7 in the name of William Graham, amendments 2, 5, 6 and 8 in the name of Aled Roberts, and amendments 3 and 9 in the name of Elin Jones.*

# The Housing White Paper—Update on Implementation

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 4 a 7 yn enw William Graham, gwelliannau 2, 5, 6 ac 8 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 3 a 9 yn enw Elin Jones.*

Cynnig NDM5271 Lesley Griffiths

Motion NDM5271 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod yr heriau sylweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ar hyn o bryd i helpu pobl i fyw mewn tai gweddus a fforddiadwy;

2. Yn nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu'r camau a amlinellir yn y Papur Gwyn ynghylch Tai a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau o ran y cyflenwad tai fforddiadwy a sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto;

3. Yn cydnabod rhaglen Llywodraeth Cymru i gyflenwi mwy o dai a chymryd camau eraill a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

1. Recognises the considerable challenges currently facing the Welsh Government and other organisations in helping people to live in decent, affordable homes;

2. Notes progress made in the first year of implementing action set out in the Housing White Paper and the fact that the Welsh Government is on track to meet its targets on affordable housing supply and in bringing empty homes into re-use; and

3. Acknowledges the Government's programme to provide more homes and other actions that will make a difference to people's lives.

15:14

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Last year, Huw Lewis, my predecessor, published a housing White Paper, which set out proposals for a bold and ambitious programme of legislation and non-legislative action. I am pleased to have this opportunity today to update Members on the considerable progress that has been achieved, despite the exceptionally demanding economic environment. I will also take this opportunity to pay credit to our partners in housing, local government, finance and other sectors. Our partners' commitment and expertise has been crucial to the progress made.

Y llynedd, cyhoeddodd Huw Lewis, fy rhagflaenydd Bapur Gwyn ar dai, a oedd yn nodi cynigion ar gyfer rhaglen feiddgar ac uchelgeisiol o ddeddfwriaeth a gweithredu anneddfwriaethol. Yr wyf yn falch o gael y cyfle hwn heddiw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd sylweddol a gyflawnwyd, er gwaethaf yr amgylchedd economaidd eithriadol o anodd. Byddaf hefyd yn achub ar y cyfle hwn i ganmol ein partneriaid ym maes tai, llywodraeth leol, cyllid a sectorau eraill. Mae ymroddiad ac arbenigedd ein partneriaid wedi bod yn hanfodol i'r cynnydd a wnaed.

I will start with legislation. The White Paper sets out our proposals for a housing Bill, which is expected to be introduced in the autumn. It will improve conditions in, and the management of, the private rented sector and will introduce a new statutory duty around the prevention of homelessness. It will facilitate the development of co-operative housing and new sites for our Gypsy and Traveller communities. It will also provide a discretionary power for local authorities to increase the rate of council tax on long-term empty homes. Last month, I published our proposals for a simpler and fairer legal framework for renting homes, which will benefit tenants and landlords. In addition to improving flexibility and efficiency in the housing system, it will also help in cases of domestic abuse and in tackling anti-social behaviour within the home. In addition to improving flexibility and efficiency in the housing system, the inclusion of the prohibited conduct term in all rental contracts will enable eviction action to be taken against perpetrators of anti-social behaviour, without needing to end the tenancy for the household. We have supported Peter Black's Member's Bill, the Mobile Homes (Wales) Bill, which has reached stage 2 of the scrutiny process. We will continue to work with Peter and his team to take this through to Royal Assent.

Yr wyf am ddechrau â deddfwriaeth. Mae'r Papur Gwyn yn nodi ein cynigion ar gyfer Bil tai, y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn yr hydref. Bydd yn gwella amodau yn y sector rhentu preifat, a'r modd o'i reoli, a bydd yn cyflwyno dyletswydd statudol newydd yn ymwneud ag atal digartrefedd. Bydd yn hwyluso datblygiad tai cydweithredol a safleoedd newydd ar gyfer ein cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr. Bydd hefyd yn rhoi pŵer disgresiwn i awdurdodau lleol gynyddu cyfradd y dreth gyngor ar gartrefi sy'n wag yn yr hirdymor. Y mis diwethaf, cyhoeddais ein cynigion ar gyfer fframwaith cyfreithiol symlach a thecach ar gyfer cartrefi rhent, a fydd o fudd i denantiaid a landlordiaid. Yn ogystal â gwella hyblygrwydd ac effeithlonrwydd yn y system tai, bydd hefyd yn helpu mewn achosion o gam-drin yn y cartref a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y cartref. Yn ogystal â gwella hyblygrwydd ac effeithlonrwydd yn y system tai, bydd cynnwys y teler ymddygiad gwaharddedig ym mhob contract rhentu yn golygu y gellir cymryd camau i droi allan y rhai sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol, heb fod angen terfynu'r denantiaeth ar gyfer y rhai eraill sy'n byw yn y cartref. Rydym wedi cefnogi Bil Aelod Peter Black, sef Cartrefi Symudol (Cymru), sydd wedi cyrraedd cam 2 y broses graffu. Byddwn yn parhau i weithio gyda Peter a'i dîm i fynd â hyn ymlaen i Gydsyniad Brenhinol.

I will now turn to each of our three strategic priorities: increasing the housing supply; improving the quality of the existing housing scheme; and improving housing and housing-related services. The current economic climate brings the challenge of delivering housing into sharp focus. Increasing the supply of housing—or 'homes', as I like to call them—is my No. 1 priority across my whole portfolio of planning, housing and regeneration. Our target is 7,500 additional affordable homes and 5,000 long-term empty properties brought back into use during the term of this Government. Over 2,500 affordable homes have now been built, and over 1,000 empty properties have been brought back into use. This is an excellent start, but I want to do more so that we exceed these targets.

Trof yn awr at bob un o'n tair blaenoriaeth strategol: cynyddu'r cyflenwad tai, gwella ansawdd y cynllun tai presennol; a gwella tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn rhoi pwyslais pendant ar yr her o ddarparu tai. Cynyddu'r cyflenwad o dai—neu 'gartrefi', fel y mae'n well gennyf eu galw—yw fy mhrif flaenoriaeth yn fy mhortffolio cyfan ar gyfer cynllunio, tai ac adfywio. Ein targed yw adeiladu 7,500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol, a defnyddio unwaith eto, 5,000 o dai sydd wedi bod yn wag yn yr hirdymor, a hynny yn ystod cyfnod y Llywodraeth hon. Mae dros 2,500 o gartrefi fforddiadwy bellach wedi eu hadeiladu, a thros 1,000 o gartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto. Mae hyn yn ddechrau ardderchog, ond yr wyf eisiau gwneud mwy fel ein bod yn rhagori ar y targedau hyn.

Maximising the use of our resources and innovating is key to the success of this programme. Last year, we allocated over £100 million through the social housing grant to support affordable housing.

Mae gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ac arloesi yn allweddol i lwyddiant y rhaglen hon. Y llynedd, dyrannwyd dros £100 miliwn drwy'r grant tai cymdeithasol i gefnogi tai fforddiadwy.

A good example of innovation is our social housing revenue grant scheme. We will provide revenue funding to enable registered social landlords to borrow up to £140 million, which will mean around 1,100 affordable homes being built. We have already developed rental models such as intermediate rent, and we are continuing to develop a co-operative housing model. We are also looking at how we can support affordable home ownership by providing mortgage guarantees or an equity loan scheme.

Enghraifft dda o arloesedd yw ein cynllun grant refeniw tai cymdeithasol. Byddwn yn darparu arian refeniw i alluogi landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i fenthyg hyd at £140 miliwn, a fydd yn golygu y bydd tua 1,100 o gartrefi fforddiadwy yn cael eu hadeiladu. Rydym eisoes wedi datblygu modelau rhent megis rhent canolradd, ac rydym yn parhau i ddatblygu model tai cydweithredol. Rydym hefyd yn edrych ar sut y gallwn gefnogi perchnogaeth cartref fforddiadwy trwy ddarparu gwarantau morgais neu gynllun benthyciad ecwiti.

Our Houses into Homes scheme has proved highly successful. Under the scheme, £10 million-worth of loans has been offered. Empty homes have been brought back into use, and empty buildings have been converted into accommodation. We have seen around 450 units converted into accommodation already this year.

Mae ein cynllun Troi Tai'n Gartrefi wedi bod yn llwyddiannus iawn. O dan y cynllun, mae gwerth £10 miliwn o fenthyciadau wedi cael eu cynnig. Mae cartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto, ac adeiladau gwag wedi eu troi'n llety. Mae tua 450 o unedau eisoes wedi eu troi'n llety eleni.

Planning plays a vital role in delivering new homes. Local development plans were introduced to assist delivery, and they are a key vehicle for increasing housing supply. Eight plans have now been adopted. By the end of 2013, we expect over half of the authorities across Wales to have adopted plans.

Mae gan gynllunio swyddogaeth hanfodol o ran darparu cartrefi newydd. Cyflwynwyd Cynlluniau datblygu lleol i gynorthwyo'r ddarpariaeth, ac maent yn gyfrwng allweddol ar gyfer cynyddu'r cyflenwad tai. Mae wyth cynllun wedi eu mabwysiadu erbyn hyn. Erbyn diwedd 2013, rydym yn disgwyl y bydd dros hanner yr awdurdodau ledled Cymru wedi mabwysiadu cynlluniau.

In terms of improving the quality of existing homes, I recognise that many social landlords have made significant progress towards meeting the Welsh housing quality standard. However, I am adamant that more progress must be made. My task force is supporting the three local authorities to have a viable business plan to achieve the standard by 2020. It is also reviewing progress made by all landlords, identifying any risk or any non-achievement of the standard by 2020, as well as the wider risks involved in that.

O ran gwella ansawdd cartrefi presennol, yr wyf yn cydnabod bod llawer o landlordiaid cymdeithasol wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Fodd bynnag, yr wyf yn benderfynol bod yn rhaid gwneud mwy o gynnydd. Mae fy nhasglu yn rhoi cefnogaeth i'r tri awdurdod lleol i gael cynllun busnes hyfyw i gyrraedd y safon erbyn 2020. Mae hefyd yn adolygu'r cynnydd a wneir gan bob landlord, gan nodi unrhyw risg neu unrhyw ddiffyg o ran cyrraedd y safon erbyn 2020, yn ogystal â'r risgiau ehangach sy'n ymwneud â hynny.

Housing services help many people, including some of the most vulnerable people in our communities. We have made significant progress in taking forward the recommendations in the review of the Supporting People programme. Six regional collaborative committees are now in place, which helps ensure that services reflect local needs and priorities. Aids and adaptations help people to live independently in their own homes for as long as possible, and they ease pressure on health and social services. Much work is undertaken, but improvements are possible. I am looking to my team to support a further review of this service.

Mae gwasanaethau tai yn helpu llawer o bobl, gan gynnwys rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran bwrw ymlaen â'r argymhellion yn yr adolygiad o'r rhaglen Cefnogi Pobl. Mae chwe phwyllgor cydweithredol rhanbarthol bellach wedi eu sefydlu, sy'n helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol. Mae cymhorthion ac addasiadau yn helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gymaint o amser ag y bo modd, ac maent yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Mae llawer o waith yn cael ei wneud, ond mae gwelliannau yn bosibl. Yr wyf yn bwriadu gofyn i fy nhîm gefnogi adolygiad arall o'r gwasanaeth hwn.

As a Government, we remain seriously concerned about the impact of welfare reform, which are becoming more apparent every day. We are taking action to mitigate the impact, and Members will be aware of a previous announcement that we are investing £750,000 to enable local authorities to help people who are affected by that this year. In addition, we have invested £20 million this year in smaller one- and two-bedroomed homes for people who need to downsize as a result of the bedroom tax.

Fel Llywodraeth, rydym yn dal i wir bryderu am effaith diwygio lles, sydd yn dod yn fwy amlwg bob dydd. Rydym yn cymryd camau i liniaru'r effaith, a bydd yr Aelodau'n ymwybodol o gyhoeddiad blaenorol ein bod yn buddsoddi

The White Paper recognises the likelihood of homelessness increasing at a time of economic stress and savage cuts in welfare reform by the UK Government. Following extensive consultation and discussion, we are now in the process of finalising the legislative process and proposals that will ensure that everyone who is at risk of homelessness will be helped to keep their home or find a home in terms of local authorities and support that they can access.

Mae'r Papur Gwyn yn cydnabod y tebygolrwydd y bydd digartrefedd yn cynyddu mewn cyfnod o bwysau economaidd a thoriadau llym yn dilyn diwygio lles gan Lywodraeth y DU. Yn dilyn trafodaeth ac ymgynghoriad eang, rydym erbyn hyn yn y broses o gwblhau'r broses ddeddfwriaethol a'r cynigion a fydd yn sicrhau bod pawb sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael cymorth i gadw eu cartref neu i ddod o hyd i gartref, o ran awdurdodau lleol a'r gefnogaeth sydd ar gael ar eu cyfer.

In conclusion, in introducing this motion, I am pleased to highlight the significant progress that has been made in the first year of implementing the proposals in our housing White Paper. Progress on housing supply and empty homes targets are pleasing, but we need to be more ambitious. I look forward to the opportunity of increasing the targets that we have already set and to being able to report back to the Chamber in the future.

I gloi, wrth gyflwyno'r cynnig hwn, rwyf yn falch o dynnu sylw at y cynnydd sylweddol sydd wedi ei wneud yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynigion yn ein Papur Gwyn ar dai. Mae'r cynnydd o ran targedau cyflenwi tai a chartrefi gwag yn galonogol, ond mae angen i ni fod yn fwy uchelgeisiol. Rwyf yn edrych ymlaen at y cyfle i gynyddu'r targedau yr ydym eisoes wedi eu gosod a gallu adrodd yn ôl i'r Siambr yn y dyfodol.

15:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have selected the nine amendments to the motion, and I call on Mark Isherwood to move amendments 1, 4 and 7 tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol y naw gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliannau 1, 4 a 7 a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Ym mhwynt 1 dileu popeth ar ôl 'sylweddol' a rhoi yn ei le 'sy'n wynebu cyflenwyr tai a sefydliadau eraill yng Nghymru ers datganoli i helpu pobl i fyw mewn tai gweddus a fforddiadwy;'*

*In point 1 delete all after 'challenges' and replace with 'facing housing suppliers and other organisations in Wales since devolution in helping people to live in decent, affordable homes;'*

*Gwelliant 4—William Graham*

*Amendment 4—William Graham*

*Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 2 and replace with:*

*Yn gresynu wrth y diffyg cynnydd gydag agweddau anneddfwriaethol y Papur Gwyn ynghylch Tai a'r nifer bychan o dai newydd sydd wedi cael eu hadeiladu yng Nghymru;*

*Regrets the lack of progress with the non-legislative aspects of the Housing White Paper and the low number of new homes built in Wales;*

*Gwelliant 7—William Graham*

*Amendment 7—William Graham*

*Ym mhwynt 3, dileu popeth ar ôl 'cydnabod' a rhoi yn ei le 'angen Llywodraeth Cymru i gyflwyno Rhaglen Marchnad Gyfan i gyflenwi mwy o gartrefi a chymryd camau eraill a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.'*

*In point 3 delete all after 'the' and replace with 'Welsh Government's need to introduce a Whole Market Programme to provide more homes and other actions that will make a difference to people's lives.'*

15:21 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

I move amendments 1, 4 and 7 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliannau 1, 4 a 7 yn enw William Graham.

Amendment 1 states that we must recognise the considerable challenges facing housing suppliers and other organisations in Wales since devolution in helping people to live in decent, affordable homes. Having previously worked in the sector, I came to the Assembly in 2003 concerned that housing had slipped down the league table of devolved Government priorities. A 2004 Welsh Consumer Council report said that

Mae gwelliant 1 yn nodi bod yn rhaid i ni gydnabod yr heriau sylweddol sy'n wynebu cyflenwyr tai a sefydliadau eraill yng Nghymru ers datganoli o ran helpu pobl i fyw mewn cartrefi boddhaol, fforddiadwy. Rwyf wedi gweithio yn y sector yn flaenorol, a phan ddeuthum i'r Cynulliad yn 2003 roeddwn yn pryderu bod tai wedi llithro i lawr rhestr blaenoriaethau'r Llywodraeth ddatganoledig. Roedd adroddiad gan Gyngor Defnyddwyr Cymru yn 2004 yn nodi

'Unless house-building and renovation of existing homes is stepped up, Wales could face a housing crisis in coming years'.

'Oni bai bod mwy o adeiladu tai ac o adnewyddu cartrefi presennol, gallai Cymru wynebu argyfwng tai yn y blynyddoedd i ddod'.

The 2008 Homes for All Cymru report, 'Blueprint for Action', said:

Roedd yr adroddiad Homes for All Cymru, 'Blueprint for action' yn 2008 yn nodi:

'there are simply not enough decent homes at a cost people can afford, to meet demand, and it is getting worse ... This is not a new crisis'.

yn syml, nid oes digon o gartrefi boddhaol am bris y gall pobl ei fforddio, er mwyn ateb y galw, ac mae'n mynd yn waeth ... Nid argyfwng newydd yw hwn.

Witnesses to the 2012 Assembly Communities, Equality and Local Government Committee report on the provision of affordable housing in Wales said that

Roedd y tystion i adroddiad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad yn 2012 ar y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yng Nghymru yn dweud bod:

'the housing crisis is with us now'.

yr argyfwng tai yn bodoli nawr.

The Welsh Government failed to heed the warnings.

Methodd Llywodraeth Cymru â chymryd sylw o'r rhybuddion.

Almost 26,000 new social homes were delivered in the last decade of Conservative Government to 1997, but fewer than 6,000—less than one for every four previously delivered—in the first decade of Labour-led devolved Welsh Government. During the last Assembly, 2007-11, just 2,600 new social homes were delivered.

Darparwyd bron i 26,000 o gartrefi cymdeithasol newydd yn ystod degawd olaf y Llywodraeth Geidwadol hyd at 1997, ond llai na 6,000—llai nag un ar gyfer pob pedwar a ddarparwyd yn flaenorol—yn ystod degawd cyntaf Llywodraeth Cymru ddatganoledig dan arweiniad y Blaid Lafur. Yn ystod y Cynulliad diwethaf, 2007-11, dim ond 2,600 o gartrefi cymdeithasol newydd a ddarparwyd.

Amendment 4 regrets the lack of progress with the non-legislative aspects of the housing White Paper and the low number of new homes built in Wales, and amendment 7 acknowledges Welsh Government's need to introduce a whole-market programme to provide more homes. Although the European Commission has recommended that we implement a comprehensive housing reform programme to increase supply, and therefore make housing more affordable, house building is at its lowest level since the 1920s. In fact, National House-Building Council figures show that the total number of new homes built in Wales last year was not only more than 50% down on 2007, but also lower than in 2010, and that the figures for new homes built in Wales during the first quarter of 2013 were still below those for the first quarter of 2010, and lagging behind UK growth rates.

Mae gwelliant 4 yn gresynu'r diffyg cynnydd â'r agweddau anneddfwriaethol ar y Papur Gwyn ar dai nad ydynt yn a'r nifer isel o gartrefi newydd a adeiladwyd yng Nghymru, ac mae gwelliant 7 yn cydnabod angen Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen marchnad gyfan i ddarparu mwy o gartrefi. Er bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi argymell ein bod yn gweithredu rhaglen ddiwygio tai gynhwysfawr er mwyn cynyddu'r cyflenwad, ac felly gwneud tai yn fwy fforddiadwy, mae adeiladu tai ar ei lefel isaf ers y 1920au. Yn wir, mae ffigurau'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol yn dangos bod cyfanswm nifer y tai newydd a adeiladwyd yng Nghymru y llynedd nid yn unig dros 50% yn is o'i gymharu â 2007, ond hefyd yn is nag yn 2010, a bod y ffigurau ar gyfer cartrefi newydd a adeiladwyd yng Nghymru yn ystod chwarter cyntaf 2013 yn dal yn is na'r rhai ar gyfer chwarter cyntaf 2010, ac yn llusgo y tu ôl i gyfraddau twf y DU.

The Welsh Government's housing White Paper said that legislation is not the answer to everything, but it has failed to deliver promised action to increase the supply of new affordable homes, and it has failed to respond to consultation responses calling for strong Welsh Government leadership in raising the profile of housing and working across Government. It has failed to deliver its promised scheme to provide 95% mortgages, despite equivalent schemes being launched in England 16 months ago, and in Scotland 10 months ago. In fact, Wales may have to wait until 2014 to piggyback on schemes to help first-time buyers launched by the UK Government in England.

Roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar dai yn nodi nad deddfwriaeth yw'r ateb i bopeth, ond mae wedi methu â chymryd y camau gweithredu a addawyd i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi newydd fforddiadwy, ac mae wedi methu ag ymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn galw am arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru wrth godi proffil tai a gweithio ar draws y Llywodraeth. Mae wedi methu â chyflawni'r cynllun a addawyd i ddarparu morgeisi 95%, er bod cynlluniau cyfatebol wedi eu lansio yn Lloegr 16 mis yn ôl, ac yn yr Alban 10 mis yn ôl. Mewn gwirionedd, efallai y bydd yn rhaid i Gymru aros tan 2014 i ymuno â chynlluniau i helpu prynwyr tro cyntaf, a lansiwyd gan Lywodraeth y DU yn Lloegr.

With funding already provided—

Gan fod cyllid eisoes wedi ei ddarparu—

15:24 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Can you tell me how many conversations you have had with the mortgage lenders with regard to that scheme, please?

A allwch chi ddweud wrthyf faint o sgyrsiau yr ydych wedi eu cael gyda'r benthycwyr morgeisi ynglŷn â'r cynllun hwnnw, os gwelwch yn dda?

15:24 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Most recently, I discussed this with mortgage lenders three weeks ago, but—

Yn fwyaf diweddar, trafodais hyn gyda benthycwyr morgeisi dair wythnos yn ôl, ond—

15:24 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

What did they say?

Beth oedd ganddynt i'w ddweud?

15:24 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

—that relates to the recent announcement by the UK Government. It is nearly two years since Scotland and England announced they were going ahead with their schemes, which were therefore launched last year. This Welsh Government, however, as always, is lagging behind everyone else and trying to avoid being associated with anything good happening on the other side of the border.

—mae hynny'n ymwneud â'r cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU. Mae bron i ddwy flynedd ers i'r Alban a Lloegr gyhoeddi eu bod yn mynd ymlaen â'u cynlluniau, ac felly fe'u lansiwyd y llynedd. Mae'r Llywodraeth hon, fodd bynnag, fel arfer, yn llusgo y tu ôl i bawb arall ac yn ceisio osgoi bod yn gysylltiedig ag unrhyw beth da sy'n digwydd yr ochr arall i'r ffin.

15:24 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

You keep shouting, but you are wrong again.

Rydych yn parhau i weiddi, ond rydych yn anghywir eto.

15:24 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

No, they are facts. You do not like facts. You call me 'the facts man'—listen to the facts for once in your life; it might do some good.

Na, maent yn ffeithiau. Dydych chi ddim yn hoffi ffeithiau. Rydych yn fy ngalw i 'y dyn ffeithiau'—gwrandewch ar y ffeithiau am unwaith yn eich bywyd; gallai hynny wneud rhywfaint o ddaioni.

With funding already provided to help 26,500 people in England to buy homes under the UK Government's First Buy scheme, only 19 Welsh Government-funded homebuy applications were completed last year. In addition, the intermediate rent scheme here is not monitored by the Welsh Government. The Welsh Government's housing White Paper said that it was committed to the whole housing system, including house builders, housing associations and private landlords. Yet housing associations tell me that they are concerned about the balance-sheet implications of the Welsh Government's housing bond, mark II. Although the 2011 Communities and Culture Committee report on the private rented sector recommended that the private rented sector be a tenure of choice in Wales, private landlord representatives told me recently that the Welsh Government is increasing enforcement and regulation, rather than starting the engagement and true partnership working needed to deliver more quality housing at affordable rents that meet social need.

Er bod cyllid eisoes wedi ei ddarparu i helpu 26,500 o bobl yn Lloegr i brynu cartrefi o dan gynllun First Buy Llywodraeth y DU, dim ond 19 o geisiadau cymorth prynu a ariennir gan Lywodraeth Cymru a gwblhawyd y llynedd. Yn ogystal, nid yw'r cynllun rhent canolradd sydd gennym yma yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru. Roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar dai yn nodi ei bod wedi ymrwymo i'r system dai gyfan, gan gynnwys adeiladwyr tai, cymdeithasau tai a landlordiaid preifat. Er hynny, mae cymdeithasau tai yn dweud wrthyf eu bod yn pryderu am oblygiadau mantolen bond tai, marc II Llywodraeth Cymru. Er bod adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn 2011 ar y sector rhentu preifat yn argymell y dylai'r sector rhentu preifat fod yn ddeiliadaeth o ddewis yng Nghymru, dywedodd cynrychiolwyr landlordiaid preifat wrthyf yn ddiweddar bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu gorfodi a rheoleiddio, yn hytrach na dechrau ar y gwaith ymgysylltu a phartneriaeth gwirioneddol sydd ei angen er mwyn darparu mwy o dai o ansawdd am rent fforddiadwy sy'n bodloni angen cymdeithasol.

Housing developers told the cross-party group on construction that, although they were adapting their business model to adjust for the burden of regulation in Wales, they also predicted a flow of investment into England. Only this month, some of Wales's biggest house builders stated that the delays from the Welsh Government in announcing any assistance to homebuyers is having a continued negative effect on the market in Wales, and warned that they will construct homes in England ahead of Wales over the failure to implement market stimulus schemes here.

Dywedodd datblygwyr tai wrth y grŵp trawsbleidiol ar adeiladu, er eu bod yn addasu eu model busnes er mwyn ystyried y baich rheoleiddio yng Nghymru, eu bod hefyd yn rhagweld llif o fuddsoddiad i mewn i Loegr. Mor ddiweddar â'r mis hwn, mae rhai o adeiladwyr tai mwyaf Cymru wedi datgan bod yr oedi gan Lywodraeth Cymru o ran cyhoeddi unrhyw gymorth i brynwyr tai yn cael effaith negyddol barhaus ar y farchnad yng Nghymru, gan rybuddio y byddant yn adeiladu cartrefi yn Lloegr o flaen Cymru oherwydd y methiant i weithredu cynlluniau ysgogi'r farchnad yma.

Instead of top-down policies requiring high levels of homes that will never be built, we must liberate localism, loosen the supply side and let the whole housing sector meet the housing needs of Wales.

Yn hytrach na pholisïau o'r brig i lawr sy'n gofyn am lefelau uchel o gartrefi na fydd byth yn cael ei hadeiladu, mae'n rhaid i ni ryddhau lleoliaeth, llacio'r ochr gyflenwi a gadael i'r sector tai cyfan ddiwallu anghenion tai Cymru.

15:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on Peter Black to move amendments 2, 5, 6 and 8, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 2, 5, 6 ac 8, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Yn mynegi pryder am fethiant Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r cynllun NewBuy Cymru, sy'n cosbi'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yng Nghymru ac yn rhoi pobl sy'n prynu tai ac yn adeiladu tai o dan anfantais yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr.*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Expresses concern at the failure of the Welsh Government to bring forward the NewBuy Cymru scheme, which is penalising first time homebuyers in Wales and puts homebuyers and house builders at a disadvantage in Wales compared to England.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i sefydlu cynllun integredig i fynd i'r afael â mater cartrefi gwag yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu Strategaeth Cartrefi Gwag genedlaethol ar gyfer Cymru.*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Regrets the failure of the Welsh Government to establish an integrated plan to tackle empty homes in Wales and calls on the Welsh Government to develop a national Empty Homes Strategy for Wales.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Yn croesawu'r cynnydd sydd wedi'i wneud drwy'r cynllun achredu cenedlaethol 'Cynllun Achredu Landlordiaid Cymru' i gydnabod landlordiaid da a gwella'r cyflenwad o lety o ansawdd da ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu'r gwaith o drwyddedu asiantaethau gosod tai yng ngoleuni'r cynnydd o 9% mewn cwynion am asiantaethau gosod tai oddi wrth landlordiaid a thenantiaid yn 2012.*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Welcomes the progress made through the national accreditation scheme 'Landlord Accreditation Wales' to recognise good landlords and improve the supply of good quality accommodation and calls on the Welsh Government to prioritise the licensing of letting agents in light of the 9% increase in complaints about letting agents from landlords and tenants in 2012.*

*Gwelliant 8—Aled Roberts*

*Amendment 8—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Arolwg Tai Cymru i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth am broffil cartrefi a'r stoc tai yng Nghymru, i helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a monitro polisïau tai Llywodraeth Cymru.*

*Insert as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to establish a Welsh Housing Survey to collect information and evidence on the profile of households and housing stock in Wales, to help support the development and monitoring of Welsh Government housing policies.*

15:26

## Peter Black Bywgraffiad Biography

I move amendments 2, 5, 6 and 8 the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 2, 5, 6 ac 8 yr enw Aled Roberts.

I welcome the fact that we are having a debate on housing that is being led by the Government. We need to have more debates on housing. However, I am disappointed that the consultation on the housing White Paper ended, I believe, in August of last year, and that we have yet to see any clear sense of direction on some of the important questions it posed and how we will take them forward. That has created some uncertainty and doubts among housing providers and builders in particular. One aspect that I do not think is the Minister's responsibility, but which is causing uncertainty, is the lack of clarity on where we are going on Part L of the building regulations. A number of people are concerned about this and the additional costs that may arise as a result of that. Although I believe that there is a moratorium period on the Welsh Government making changes to building regulations, it would be very helpful to everyone concerned if some clarity was given by a Minister, not necessarily this Minister, as to what exactly the Welsh Government's intentions are on that aspect and when it will be introduced, so that the builders themselves understand what additional costs they will have to meet and when they will have to meet them.

Croesawaf y ffaith ein bod yn cael dadl ar dai sydd yn cael ei harwain gan y Llywodraeth. Mae angen i ni gael mwy o ddadleuon am dai. Fodd bynnag, rwyf yn siomedig bod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar dai wedi dod i ben, mi gredaf, ym mis Awst y llynedd, ac nad ydym eto wedi gweld unrhyw arwydd eglur o gyfeiriad ar rai o'r cwestiynau pwysig a ofynnwyd ganddo a sut y byddwn yn eu symud ymlaen. Mae hynny wedi creu rhywfaint o ansicrwydd ac amheuon ymhlith darparwyr tai ac adeiladwyr yn arbennig. Un agwedd nad wyf o'r farn mai cyfrifoldeb y Gweinidog ydyw, ond sy'n achosi ansicrwydd, yw'r diffyg eglurder ar ble yr ydym yn mynd gyda rhan L y rheoliadau adeiladu. Mae nifer o bobl yn pryderu am hyn a'r costau ychwanegol a allai godi o ganlyniad i hynny. Er fy mod yn credu bod cyfnod moratoriwm ar gyfer Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau i reoliadau adeiladu, byddai'n ddefnyddiol iawn i bawb dan sylw pe byddai Gweinidog, nid o reidrwydd y Gweinidog hwn, yn esbonio beth yn union yw bwriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r agwedd honno a phryd y bydd yn cael ei chyflwyno, fel bod yr adeiladwyr eu hunain yn deall y costau ychwanegol y bydd yn rhaid iddynt eu talu a phryd y bydd yn rhaid iddynt wneud hynny.

There are a number of issues arising from the housing White Paper that I want to talk about, although it is very difficult to cover the whole thing in five minutes. I share the concern that Mark Isherwood expressed around the NewBuy Cymru scheme. We are in a situation, for a number of different reasons, of having a scheme in England and in Scotland, but no scheme in Wales. I think that there is concern, not only among first-time buyers who might have benefited from that scheme, but also among builders who are very keen to take on the extra demand that might be generated by that scheme and to supply houses for it. We need to find some resolution to this as quickly as possible. I am sure that the Minister will provide some enlightenment on that when he responds to this debate.

Mae nifer o faterion yn codi o'r Papur Gwyn ar dai yr wyf eisiau sôn amdanynt, ond mae'n anodd iawn cwmpasu'r cwbl mewn pum munud. Yr wyf yn rhannu'r pryder a fynegwyd gan Mark Isherwood ynglŷn â'r cynllun NewBuy Cymru. Rydym mewn sefyllfa, am nifer o wahanol resymau, lle y ceir cynllun yn Lloegr ac yn yr Alban, ond nid yng Nghymru. Rwyf yn meddwl bod pryder, nid yn unig ymhlith prynwyr tro cyntaf a allai fod wedi elwa ar y cynllun hwnnw, ond hefyd ymhlith adeiladwyr sy'n awyddus iawn i ymgymryd â'r galw ychwanegol a allai gael ei greu gan y cynllun hwnnw ac i gyflenwi tai ar ei gyfer. Mae angen i ni ddod o hyd i ateb i hyn mor fuan â phosibl. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn rhoi rhywfaint o oleuni ar hynny pan fydd yn ymateb i'r ddadl hon.

Turning to some of the issues in the housing White Paper, tenancy reform, particularly the registration and accreditation scheme for private landlords and lettings and management agencies, is important. How that is taken forward is also particularly important. Maybe, again, some clarity would help the sector to understand what the Government's intentions are on that. I am generally supportive of a registration and accreditation scheme. I am not entirely clear as to how it fits into the existing houses in multiple occupation licensing scheme, whether it will replace it or not. I do not think that was particularly clear from the White Paper. Certainly, I understand that there are issues around putting into effect the current HMO licensing scheme, in that, effectively, you cannot find all the HMOs. If you introduced a licensing scheme for every single privately rented home in Wales, you would have that issue magnified large. I think that you would have huge problems in identifying all the homes that are affected by that, and you would find a lot of people slipping between the floorboards and getting away without registration.

Gan droi at rai o'r materion yn y Papur Gwyn ar dai, mae diwygio tenantiaeth, yn enwedig y cynllun cofrestru ac achredu ar gyfer landlordiaid preifat ac asiantaethau gosod a rheoli tai, yn bwysig. Mae'r modd y byddwn yn bwrw ymlaen â hynny yn arbennig o bwysig. Efallai, unwaith eto, y byddai rhywfaint o eglurder yn helpu'r sector i ddeall bwriad y Llywodraeth ynglŷn â hynny. Rwyf yn cefnogi cynllun cofrestru ac achredu yn gyffredinol. Nid wyf yn deall yn union sut y mae'n cyd-fynd â'r cynllun trwyddedu tai amlfeddiannaeth sydd eisoes yn bodoli, pa un a fydd yn ei ddisodli ai peidio? Nid wyf yn credu bod hynny'n arbennig o eglur yn y Papur Gwyn. Yn sicr, rwyf yn deall bod problemau o ran gweithredu'r cynllun trwyddedu tai amlfeddiannaeth presennol, sef, yn ymarferol, ni allwch ddod o hyd i'r holl dai amlfeddiannaeth. Pe byddech yn cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer pob cartref sy'n cael ei rentu'n breifat yng Nghymru, byddai'r broblem honno'n cynyddu'n helaeth. Credaf y byddech yn cael problemau mawr i ganfod yr holl gartrefi a effeithir gan hynny, a byddech yn dod o hyd i lawer o bobl yn llithro rhwng yr estyll ac yn llwyddo i osgoi cofrestru.

That is why I think that the key priority has to be the licensing of letting and management agents, which I think the whole sector recognises needs doing first. Once that has been done, you can then re-evaluate where we are going in terms of the licensing of other private sector rented homes.

Dyna pam yr wyf yn credu mai'r flaenoriaeth allweddol yw trwyddedu asiantaethau gosod a rheoli tai, ac rwyf yn credu bod y sector cyfan yn cydnabod bod angen gwneud hynny'n gyntaf. Pan fydd hynny wedi ei wneud, gallwch wedyn ail-werthuso ble'r ydym ni'n mynd o ran trwyddedu cartrefi eraill yn y sector rhentu preifat.

An empty homes strategy is a must. A lot of work has been done on empty homes, and I very much welcome the extra money for that, with regard to the renewable loan scheme, some of which was put in as a result of a previous budget deal involving my party. However, it is certainly very welcome and is being taken up around Wales.

Mae sefydlu strategaeth cartrefi gwag yn gwbl angenrheidiol. Mae llawer o waith wedi ei wneud ar dai gwag, ac yr wyf yn croesawu'r arian ychwanegol ar gyfer hynny yn fawr iawn, o ran y cynllun benthyciadau adnewyddadwy, peth ohono wedi ei ddarparu o ganlyniad i gytundeb cyllideb blaenorol a oedd yn cynnwys fy mhlaid i. Fodd bynnag, mae llawer o groeso iddo yn sicr ac mae llawer o ddefnydd ohono o amgylch Cymru.

I am concerned that some local authorities do not have empty homes officers in place, and, the last time I looked, at least one did not have an empty homes strategy in place, which is a concern. That is why a national strategy would be helpful in terms of drawing together all those strands and giving people a sense of direction as to where the Welsh Government is going, not just in terms of the loan scheme and the possible penalisation of people who have left their houses for a long time through council tax, but in terms of a general approach to empty homes set out in a strategy.

Rwyf yn pryderu nad oes gan rai awdurdodau lleol swyddogion cartrefi gwag wedi'u sefydlu, a'r tro diwethaf i mi edrych ar hyn, roedd o leiaf un nad oedd wedi sefydlu strategaeth cartrefi gwag, ac mae hyn yn peri pryder. Dyna pam y byddai strategaeth genedlaethol yn ddefnyddiol o ran tynnu ynghyd yr holl elfennau hynny a rhoi ymdeimlad o gyfeiriad i bobl o ran ble y mae Llywodraeth Cymru yn mynd, nid yn unig o ran y cynllun benthyciad a'r cosbau posibl i bobl sydd wedi gadael eu tai am gyfnod hir, drwy'r dreth gyngor, ond o ran ymagwedd gyffredinol tuag at gartrefi gwag sydd wedi ei nodi mewn strategaeth.

The other issue raised in one of our amendments is the need for proper evidence. Although the housing White Paper sets out a whole list of reforms that the Government wants to put in place, there is not really a Welsh housing survey that gathers together all the information and evidence on the profile of households and housing stock in Wales to help us understand how policies should be developed and monitored in the future. That has been done in the past, and it would be useful if the Minister had a look at that particular aspect and put into place such a survey.

Y mater arall a godwyd yn un o'n gwelliannau yw'r angen am dystiolaeth briodol. Er bod y Papur Gwyn ar dai yn nodi rhestr hirfaith o ddiwygiadau y mae'r Llywodraeth eisiau eu rhoi ar waith, nid oes arolwg tai a gynhelir yng Nghymru sy'n casglu ynghyd yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth am broffil cartrefi a'r stoc tai yng Nghymru i'n helpu i ddeall sut y dylid datblygu a monitro polisïau yn y dyfodol. Gwnaed hynny yn y gorffennol, a byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Gweinidog yn edrych ar yr agwedd benodol honno ac yn sefydlu arolwg o'r fath.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn nodi'r amcangyfrif gan Brif Weinidog Cymru bod angen 20,000 i 25,000 yn ychwanegol o gartrefi un a dwy ystafell wely i liniaru ar effeithiau'r newidiadau i'r budd-dal tai.*

*Notes the estimate by the First Minister that an additional 20,000 to 25,000 one and two bedroom properties are required to mitigate the effects of changes to housing benefit.*

*Gwelliant 9—Elin Jones*

*Amendment 9—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prynwyr tro cyntaf yn gallu manteisio ar gynlluniau priodol sydd wedi'u sefydlu i'w helpu i allu fforddio cartrefi.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that first time buyers can access appropriate schemes designed to help them afford homes.*

15:31 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

I move amendments 3 and 9 in the name of Elin Jones. I start on a positive note by congratulating you, Minister, on the exit from the housing revenue account subsidy system, which we heard about today. I take my hat off to you for that, but I am afraid that that is the only bit of positive that I have for you today, Carl. A great deal has been promised in housing legislation, and it is over a year since the publication of the White Paper. Progress on all those promises—I understand it was not you who made them, but you have to deliver them—has been patchy and there has been a lack of urgency on the Government's part, although I do take on board what the Minister says that you do not have to do everything by legislation. However, it is quite disconcerting just how little the Government has adapted to a number of factors, such as the changes to housing benefit that impact on its own aims and objectives, although I accept that Peter Black's Bill must have taken up considerable legislative capacity.

Cynigiaf welliannau 3 a 9 yn enw Elin Jones. Dechreuaf ar nodyn cadarnhaol drwy eich llongyfarch, Weinidog, am ymadael â system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai, y clywsom amdano heddiw. Codaf fy het ichi am hynny, ond rwyf yn ofni mai dyna'r unig beth cadarnhaol sydd gennyf ichi heddiw, Carl. Mae llawer iawn wedi ei addo mewn deddfwriaeth tai, ac mae dros flwyddyn ers cyhoeddi'r Papur Gwyn. Mae cynnydd ar bob un o'r addewidion hynny—rwyf yn deall nad chi a'u gwnaeth, ond mae'n rhaid ichi eu cyflawni—wedi bod yn dameidiog a bu diffyg brys ar ran y Llywodraeth, er fy mod yn derbyn yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud, sef nad oes raid ichi wneud popeth drwy ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'n peri cryn anesmwythyd bod y Llywodraeth wedi addasu cyn lleied i nifer o ffactorau, megis y newidiadau i fudd-dal tai sy'n effeithio ar ei nodau a'i hamcanion hithau, er fy mod yn derbyn bod Bil Peter Black, mae'n rhaid, wedi cymryd cryn dipyn o gapasiti deddfwriaethol.

We are two years into a five-year term and some 2,500 of your target of 7,500 affordable homes have been delivered, and 2,000 of a target of 5,000 have been brought back into use, although the previous Minister did tell us that they are not all affordable homes because they have been available empty homes, so they will not count in your affordable housing figures. In the current context, urgency is required. I heard what you said earlier about one and two-bedroomed properties. Last week, I asked the First Minister how many one and two-bedroomed properties would be required to deal with the hated bedroom tax. He estimated that between 20,000 and 25,000 would be needed. That is quite an ambitious target to set. Of course, those tenants will be leaving larger properties suitable for larger families, but if they cannot find smaller properties, they will be facing eviction at a considerable cost to themselves and to their landlords. In this wider context, it is unacceptable that legislation aimed at updating homelessness law has been waiting for over two years when the problems in the existing system have been known for quite some time.

Rydym ddwy flynedd i mewn i dymor pum mlynedd ac mae rhyw 2,500 o'ch targed o 7,500 o gartrefi fforddiadwy wedi eu cyflwyno, a 2,000 o darged o 5,000 o dai'n cael eu defnyddio unwaith eto, er bod y Gweinidog blaenorol wedi dweud wrthym nad ydynt i gyd yn gartrefi fforddiadwy oherwydd eu bod wedi bod yn gartrefi gwag sydd ar gael, felly ni fyddant yn cyfrif yn eich ffigurau tai fforddiadwy. Yn y cyd-destun presennol, mae angen gweithredu ar frys. Clywais yr hyn a ddywedasoch yn gynharach am eiddo un a dwy ystafell wely. Yr wythnos diwethaf, gofynnais i'r Prif Weinidog sawl eiddo un a dwy ystafell wely y byddai eu hangen i ddelio â'r dreth ystafell wely atgas. Roedd yn amcangyfrif y byddai angen rhwng 20,000 a 25,000. Mae hwn yn darged eithaf uchelgeisiol i'w osod. Wrth gwrs, bydd y tenantiaid hynny'n gadael eiddo mwy o faint sy'n addas ar gyfer teuluoedd mwy, ond os nad ydynt yn gallu dod o hyd i eiddo llai, byddant yn wynebu cael eu troi allan ar gost sylweddol iddynt hwy eu hunain ac i'w landlordiaid. Yn y cyd-destun ehangach hwn, mae'n annerbyniol bod deddfwriaeth sy'n ceisio diweddaru'r gyfraith ddigartrefedd yn aros ers dros ddwy flynedd pan fo'r problemau yn y system bresennol yn hysbys ers peth amser.

The recommendations of a commissioned piece of work have been on the table since 2012, so evictions, which may well be coming thick and fast before too long, will be under the old rules of intentionality and priority need, and the interpretation of 'settled accommodation' will remain inflexible. Today, I would like to hear how the Minister is going to address this challenging context, and I would specifically like to hear what steps will be taken to instil the preventative approach to homelessness. It is crucial to ensure that homelessness does not rise as a result of the welfare changes, and resources must not be swallowed up by processes rather than outcomes. Also, the excellent progress that has been made on prevention must not be wiped out. In the private rented sector, tenancy reform is crucial.

Mae argymhellion darn o waith a gomisiynwyd wedi bod ar y bwrdd ers 2012, felly bydd troi pobl allan, a allai ddod yn aml ac yn fynych cyn bo hir, yn digwydd o dan yr hen reolau bwriadoldeb ac angen blaenoriaethol, a bydd y dehongliad o 'lety sefydlog' yn dal i fod yn anhyblyg. Heddiw, hoffwn glywed sut y mae'r Gweinidog am fynd i'r afael â'r cyd-destun heriol hwn, a hoffwn yn benodol glywed pa gamau fydd yn cael eu cymryd i feithrin dull ataliol o ran digartrefedd. Mae'n hollbwysig sicrhau nad yw digartrefedd yn codi o ganlyniad i'r newidiadau lles, a rhaid i adnoddau beidio â chael eu llyncu gan brosesau yn hytrach na chanlyniadau. Hefyd, ni ddylid dileu'r cynnydd rhagorol sydd wedi ei wneud ar atal. Yn y sector rhentu preifat, mae'n hollbwysig diwygio tenantiaethau.

I would also like to signal my doubts about the compulsory registration of every landlord, and how much that will actually raise standards, although I agree that letting agents should be registered.

Hoffwn hefyd leisio fy amheuon ynghylch cofrestru pob landlord yn orfodol, ac i ba raddau y bydd hynny mewn gwirionedd yn codi safonau, er fy mod yn cytuno y dylai asiantau gosod fod wedi'u cofrestru.

I wish to say a little about my pleasure to hear about the housing revenue account subsidy system. My family and I will have to find something different to talk about over Sunday lunch once we exit that system, because I lived with it for a long time. I strongly recommend that Members read 'The Great Rent Robbery' by Paul Griffiths, in which he estimates that £2 billion of council tenants' rent has been confiscated by the UK Government since 1989, when it could have been spent on housing here in Wales. That money was used to pay for the rent rebates of other council tenants, meaning that the poor were subsidising the even poorer. Therefore, no-one will mourn the end of that system—its very basis was obscene, and Scotland always refused to be subject to it. It was introduced by the Tories, but it was maintained by Labour, and its existence is a shame on us all. It has robbed us of that £2 billion, and we are now having to pay to get out of that system. But there you are—it is better to see the end of it, I suppose, Minister.

Hoffwn sôn ychydig am fy mhleser o glywed am system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai. Bydd yn rhaid i fy nheulu a minnau ddod o hyd i rywbeth gwahanol i siarad amdano dros ginio dydd Sul ar ôl inni adael y system, gan fy mod yn byw gydag ef ers tro byd. Rwyf yn argymell yn gryf fod yr Aelodau'n darllen 'The Great Rent Robbery' gan Paul Griffiths, lle mae'n amcangyfrif bod £2 biliwn o rent tenantiaid cynghorau wedi ei atafaelu gan Lywodraeth y DU ers 1989, pan ellid fod wedi ei wario ar dai yma yng Nghymru. Defnyddiwyd yr arian hwnnw i dalu am ad-daliadau rhent tenantiaid eraill y cyngor, sy'n golygu bod y tlodion yn sybsideiddio'r tlotach fyth. Felly, ni fydd neb yn galaru am ddiwedd y system honno—roedd ei holl sylfaen yn wrthun, ac mae'r Alban bob amser wedi gwrthod bod yn rhan ohoni. Fe'i cyflwynwyd gan y Torïaid, ond cafodd ei chadw gan Lafur, ac mae ei bodolaeth yn gywilydd ar bob un ohonom. Mae wedi ein hamddifadu o'r £2 biliwn hwnnw, ac rydym yn awr yn gorfod talu i ymadael â'r system. Ond dyna chi—mae'n well gweld ei diwedd, am wn i, Weinidog.

Finally, on austerity, we now know that the Minister's party is committed to the austerity agenda on a UK level and that a future Labour UK Government would not reverse the bedroom tax. Therefore, does that position reflect the Minister's own values and those of his Government?

Yn olaf, ar gynilo, rydym bellach yn gwybod bod plaid y Gweinidog wedi ymrwymo i'r agenda gynilo ar lefel y DU ac na fyddai Llywodraeth Lafur y DU yn y dyfodol yn gwrthdroi'r dreth ystafell wely. Felly, a yw'r sefyllfa honno'n adlewyrchu gwerthoedd y Gweinidog ei hun a rhai ei Lywodraeth?

15:36

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Housing has changed a lot in the last 50 years, not all of it for the best. There has been a large increase in empty properties, many in places where you would never have even thought of finding empty properties even 20 years ago. There has been a change in housing tenure and in housing need, and there has been a huge increase in the number of single-person households, and, because of that, household size has dropped. There has been an increase in pensioner households, and an increase in the number of people living in houses in multiple occupation—many of them young, especially students, where there has been a huge increase in student numbers. There are places in my colleague Julie James's constituency where whole streets have been almost completely taken over by houses in multiple occupation, which, even 20 years ago, were almost all family homes.

Mae tai'n faes sydd wedi newid yn fawr yn ystod y 50 mlynedd diwethaf, ac nid bob amser er gwell. Bu cynnydd mawr yn nifer yr eiddo gwag, llawer ohono mewn mannau lle na fyddech erioed wedi hyd yn oed meddwl am ddod o hyd i eiddo gwag hyd yn oed 20 mlynedd yn ôl. Bu newid mewn daliadaeth tai ac yn yr angen am dai, a gwelwyd cynnydd enfawr yn nifer yr aelwydydd un person, ac, oherwydd hynny, mae maint yr aelwydydd wedi lleihau. Bu cynnydd yn nifer aelwydydd pensiynwyr, a chynnydd yn nifer y bobl sy'n byw mewn tai amlfeddiannaeth—llawer ohonynt yn ifanc, yn enwedig myfyrwyr, lle bu cynnydd enfawr yn nifer y myfyrwyr. Mae mannau yn etholaeth fy nghyd-weithiwr Julie James lle mae strydoedd cyfan wedi eu cymryd drosodd bron yn gyfan gwbl gan dai amlfeddiannaeth, a oedd, hyd yn oed 20 mlynedd yn ôl, bron i gyd yn gartrefi teuluol.

Council housing has declined, through sales and the failure to build, and there has been a substantial growth in housing associations. The decline in the private rented sector, which looked terminal in the 1960s and the 1970s, has been reversed, with a huge increase in private landlords—both large-scale owners, and those using an additional house as an alternative to a private pension scheme. As a consequence of benefit changes, demand has increased for smaller-sized accommodation.

Mae nifer y tai cyngor wedi gostwng, drwy iddynt gael eu gwerthu a thrwy fethiant i adeiladu, a bu twf sylweddol mewn cymdeithasau tai. Mae'r dirywiad yn y sector rhentu preifat, a oedd yn edrych yn derfynol yn y 1960au a'r 1970au, wedi ei wrthdroi, gyda chynnydd enfawr yn nifer y landlordiaid preifat—yn berchnogion ar raddfa fawr, a'r rheiny sy'n defnyddio tŷ ychwanegol yn lle cynllun pensiwn preifat . O ganlyniad i newidiadau i fudd-daliadau, mae'r galw wedi cynyddu am lety llai o faint.

Empty homes, co-operative housing, and the registration of private landlords are the three issues that I wish to concentrate on.

Cartrefi gwag, tai cydweithredol, a chofrestru landlordiaid preifat yw'r tri mater yr wyf am ganolbwyntio arnynt.

According to the housing White Paper, there are many long-term empty homes in Wales in the private sector. The new Houses into Homes programme is supported by investment. I believe that any house that has remained empty for over two years, and which has not been actively marketed or put up for auction, should, each year it is empty, move up one band of the council tax. This should differentiate between the 'can't sell' and the 'won't sell'. We cannot allow these properties—many in areas of substantial housing shortage—to remain empty continually. The carrot is supporting investment, and the stick means increases in council tax in order to make people feel that it costs more and more to just leave these houses empty.

Yn ôl y Papur Gwyn ar Dai, mae nifer o gartrefi gwag tymor hir yn y sector preifat yng Nghymru. Mae'r rhaglen newydd Troi Tai'n Gartrefi yn cael ei chefnogi â buddsoddiad. Rwyf yn credu y dylai pob tŷ sydd wedi bod yn wag am dros ddwy flynedd, ac nad yw wedi ei farchnata neu ei gynnig mewn arwerthiant, symud i fyny un band o'r dreth gyngor bob blwyddyn y mae'n wag. Dylai hyn wahaniaethu rhwng y rhai 'na allant werthu' a'r rhai 'nad ydynt am werthu'. Ni allwn ganiatáu i'r eiddo hwn—llawer ohono mewn ardaloedd lle mae prinder tai sylweddol—aros yn wag yn barhaus. Buddsoddi yw'r foronen, a'r ffon yw codi'r dreth gyngor er mwyn gwneud i bobl deimlo ei bod yn costio mwy a mwy i adael y tai hyn yn wag.

On co-operative housing, in other parts of the world, this third form of housing tenure exists. There are strong co-operative housing sectors in countries as diverse as Sweden, Canada, Austria, Turkey and the United States of America. In Sweden, for example, two large co-operative organisations provide over 0.75 million homes, which equates to almost 20% of the population living in co-operative housing. In Canada, which began developing housing co-operatives in the early 1970s, there are now 400,000 people living in co-operative homes. To place Britain's co-operative housing in perspective, there are more co-operative homes in Vancouver than there are in the whole of Great Britain.

O ran tai cydweithredol, mewn rhannau eraill o'r byd, ceir y trydydd math hwn o ddeiliadaeth tai. Mae sectorau tai cydweithredol cryf mewn gwledydd mor amrywiol â Sweden, Canada, Awstria, Twrci ac Unol Daleithiau America. Yn Sweden, er enghraifft, mae dau sefydliad cydweithredol mawr yn darparu dros 0.75 miliwn o gartrefi, sy'n golygu bod bron i 20% o'r boblogaeth yn byw mewn tai cydweithredol. Yng Nghanada, a ddechreuodd ddatblygu cwmnïau tai cydweithredol yn y 1970au cynnar, mae 400,000 o bobl erbyn hyn yn byw mewn cartrefi cydweithredol. A rhoi tai cydweithredol Prydain yn eu cyd-destun, mae mwy o gartrefi cydweithredol yn Vancouver nag sydd ym Mhrydain Fawr i gyd.

The previous Minister for housing, Huw Lewis, said:

Dywedodd y Gweinidog tai blaenorol, Huw Lewis:

'I want to create a new housing sector in Wales, no less, and make us the first of the home nations to pilot and develop housing based on the Co-operative Party's New Foundation model.

Mae arnaf eisiau creu sector tai newydd yng Nghymru, dim llai, a'n gwneud ni y cyntaf o'r gwledydd cartref i dreialu a datblygu tai yn seiliedig ar fodel Sylfaen Newydd y Blaid Gydweithredol.

'It works by separating the value of land from the purchase price of properties built on it through the means of a Community Land Trust (CLT). Unlike traditional home ownership, homes built on the CLT are financed by a corporate loan borrowed by a co-operative. Residents make monthly payments, based on an affordable percentage of their monthly income—with the flexibility to increase or decrease according to their current circumstances; so that payments could be reduced if a resident became unemployed, for example.

Mae'n gweithio trwy wahanu gwerth y tir oddi wrth bris prynu eiddo a adeiladwyd arno trwy gyfrwng Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol. Yn wahanol i fod yn berchen ar dŷ yn y modd traddodiadol, mae cartrefi a adeiladwyd o dan yr Ymddiriedolaeth yn cael eu hariannu drwy fenthyciad corfforaethol a fenthycir gan gwmni cydweithredol. Mae preswylwyr yn gwneud taliadau misol, yn seiliedig ar ganran fforddiadwy o'u hincwm misol—gyda'r hyblygrwydd i gynyddu neu leihau hynny yn ôl eu hamgylchiadau ar y pryd; fel bod modd lleihau taliadau pe byddai preswyliwr yn colli ei waith, er enghraifft.

'By offering investors safe, guaranteed yield investments, an added advantage of New Foundations is its potential to attract institutional investors, pension funds for example, to invest cash back into the Welsh economy.'

Trwy gynnig buddsoddiadau diogel i fuddsoddwyr sy'n gwarantu arenillion, un arall o fanteision y Sylfaen Newydd yw ei botensial i ddenu buddsoddwyr sefydliadol, cronfeydd pensiwn er enghraifft, i fuddsoddi arian yn ôl i mewn i economi Cymru.

I really believe that co-operative housing is the one means of taking us forward to start bridging the gap. It is desperately needed in Wales and I hope that the Minister will explore this.

Rwyf yn grediniol mai tai cydweithredol yw'r unig ffordd o symud yn ein blaenau i ddechrau cau'r bwlch. Mae angen hynny'n ddybryd yng Nghymru, ac rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn edrych ar hyn.

The White Paper contains a proposal to introduce a compulsory registration and licencing scheme for all landlords and letting and management agencies in the private sector. Welsh Labour is committed to modernising the private rented sector in Wales and proposes to introduce legislation that would require the mandatory registration and licensing of private landlords as well as letting and management agents in the private rented sector. This has been unregulated for far too long. One core element of the new scheme will be to establish a comprehensive online database of the landlords and letting and management agencies currently operating in the private rented sector. That facility will allow all prospective tenants to look up the potential property or their prospective landlord agent to find out whether they are registered and/or licensed on the scheme.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynnig i gyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i bob landlord ac asiantaeth gosod a rheoli yn y sector preifat. Mae Llafur Cymru wedi ymrwymo i foderneiddio'r sector rhentu preifat yng Nghymru ac mae'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n ei gwneud yn orfodol cofrestru a thrwyddedu landlordiaid preifat yn ogystal ag asiantau gosod a rheoli yn y sector rhentu preifat. Mae'r maes hwn wedi bod heb ei reoleiddio yn rhy hir o lawer. Un elfen graidd o'r cynllun newydd fydd sefydlu cronfa ddata ar-lein gynhwysfawr o landlordiaid ac asiantaethau gosod a rheoli sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn y sector rhentu preifat. Bydd y cyfleuster hwnnw'n caniatáu i bob darpar denant chwilio am yr eiddo posibl neu'r darpar asiant landlord i weld a ydynt wedi eu cofrestru a/neu eu trwyddedu o dan y cynllun.

Planning really is the source of whether we do or do not get the additional housing. Why is land so expensive to build on in Britain and in Wales in particular? It is because we ration it quite substantially. If we really wish to see an increase in the number of houses being built, we need to make more land available to build upon. That would bring down land prices and the cost of houses. On television, we see massive houses in other parts of the world that cost less than a three-bedroomed semi in this country, where prices are driven up by land values. That really is the key.

Cynllunio sydd wrth wraidd a gawn y tai ychwanegol ai peidio. Pam mae hi mor ddrud adeiladu ar dir ym Mhrydain ac yng Nghymru'n benodol? Oherwydd ein bod yn ei ddogni'n eithaf sylweddol. Os ydym o ddifrif am weld mwy o dai'n cael eu hadeiladu, mae angen inni sicrhau bod mwy o dir ar gael i adeiladu arno. Byddai hynny'n dod â phrisiau tir a chostau tai i lawr. Ar y teledu, gwelwn dai enfawr mewn rhannau eraill o'r byd sy'n costio llai na thŷ pâr tair ystafell wely yn y wlad hon, lle mae gwerth tir yn gyrru'r prisiau i fyny. Dyna sy'n allweddol mewn gwirionedd.

Finally, I think that what we see here is the difference between a Welsh Labour Government that is committed to the public good and the Tory-Liberal Democrat Government in Westminster.

Yn olaf, rwyf yn meddwl mai'r hyn a welwn yma yw'r gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Lafur Cymru sydd wedi ymrwymo i les y cyhoedd a Llywodraeth y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan.

15:42

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Housing, home ownership, owner-occupation and its available provision provide a litmus test for how well a society operates. The rights and choice of home ownership should be available to all, and inadequate policy in this area is a sad indictment of any society—economically, socially and culturally. That is why it is so important that we, as an Assembly and collectively, provide the Welsh people with access to their own homes and stability within them. We all recognise the tough economic climate but we should also seize the opportunities that still present to us during these tough times. We, as policy makers, have a duty to scrutinise the forthcoming housing Bill so that we do not miss the chance to shape rigorous, meaningful policy.

Mae tai, perchnogaeth tai, perchen-feddiannaeth a'r ddarpariaeth sydd ar gael yn brawf litmws o ba mor dda y mae cymdeithas yn gweithredu. Dylai hawliau a dewisiadau o ran perchnogaeth tai fod ar gael i bawb, ac mae polisi annigonol yn y maes hwn yn adlewyrchiad trist ar unrhyw gymdeithas—yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Dyna pam ei bod mor bwysig ein bod ni, fel Cynulliad ac ar y cyd, yn rhoi cyfle i bobl Cymru gael eu cartrefi eu hunain a sefydlogrwydd ynddynt. Rydym i gyd yn cydnabod yr hinsawdd economaidd anodd, ond dylem hefyd achub ar y cyfleoedd sy'n dal ar gael inni yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'n ddyletswydd arnom ni, fel llunwyr polisi, i graffu ar y Bil tai sydd ar y gweill fel nad ydym yn colli cyfle i lunio polisi manwl, ystyrlon.

15:42

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Thank you very much for taking an intervention. What discussions have you had with Westminster regarding the bedroom tax and the effect that it might have on those fleeing domestic abuse?

Diolch yn fawr iawn ichi am dderbyn ymyriad. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â San Steffan ynghylch y dreth ystafell wely a'r effaith y gallai ei chael ar y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig?

15:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Order. I deprecate Members who read interventions; it is not good style. You may wish to respond, Janet.

Trefn. Nid wyf yn cymeradwyo aelodau sy'n darllen ymyriadau; nid yw'n dda o beth. Efallai yr hoffech ymateb, Janet.

15:43 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Out of courtesy to the Member, I would like to say that I am not the Minister for housing. I think that you need to ask that question to the housing Minister here. I will say that I have had numerous conversations with people who are really desperate for home accommodation. I can endorse the points made my Mark Isherwood about how the situation in Wales is really becoming much worse.

O ran cwrteisi i'r Aelod, hoffwn ddweud nad fi yw'r Gweinidog tai. Credaf fod angen ichi ofyn y cwestiwn hwnnw i'r Gweinidog tai yma. Fe ddywedaf fy mod wedi cael nifer o sgyrsiau â phobl y mae dirfawr angen cartref arnynt. Gallaf gadarnhau'r pwyntiau a wnaed gan Mark Isherwood fod y sefyllfa yng Nghymru'n gwaethygu'n fawr.

Out of concern, rather than political point-scoring, I raise the subject of NewBuy Cymru. We supported its intention to provide a mortgage guarantee scheme to help those struggling to get that essential first foot onto the property ladder. Therefore, it was incredibly disquieting that the policy was scrapped so soon after its initial introduction. Well-established property developers such as Redrow, Macbryde Homes and the Watkin Jones Group have expressed their deep concerns regarding the implications for their ability to build new homes. They argue that Wales is at a distinct disadvantage compared with other parts of the UK, where buyers have benefited from schemes like NewBuy, HomeBuy Direct and Help to Buy in England, and, in Scotland, there is LIFT, the low-cost initiative for first-time buyers. While the UK Government has Help to Buy mortgage guarantee scheme will be available from January 2012, bringing, we hope, much-needed relief, what is the Welsh Government doing now to support prospective property owners to buy their own homes?

Er mwyn mynegi pryder, yn hytrach na sgorio pwyntiau gwleidyddol, soniaf am NewBuy Cymru. Roeddem yn cefnogi ei fwriad i ddarparu cynllun gwarant morgais i helpu'r rhai sy'n ei chael yn anodd cael y droed gyntaf hanfodol ar yr ysgol eiddo. Felly, roedd yn destun pryder mawr fod y polisi wedi ei ddiddymu mor fuan ar ôl ei gyflwyno. Mae datblygwyr eiddo sefydledig megis Redrow, Macbryde Homes a Grŵp Watkin Jones wedi mynegi eu pryderon mawr ynghylch y goblygiadau o ran eu gallu i adeiladu tai newydd. Maent yn dadlau bod Cymru o dan anfantais bendant o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU, lle mae prynwyr wedi elwa ar gynlluniau fel NewBuy, HomeBuy Direct a Help to Buy yn Lloegr, ac, yn yr Alban, mae LIFT, y fenter gost isel ar gyfer y rhai sy'n prynu am y tro cyntaf. Er y bydd cynllun gwarant morgais Help to Buy Llywodraeth y DU ar gael o fis Ionawr 2012, gan ddod â rhyddhad y mae ei angen yn ddybryd, rydym yn gobeithio, beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud yn awr i gefnogi darpar berchnogion eiddo i brynu eu cartrefi eu hunain?

As pertains to landlords, I am sure that we all appreciate that tenants that are subject to unprofessional or criminal activity suffer greatly. With over 100 separate laws already in place to regulate, the problem is not a lack of laws. Moreover, it is a problem because of the inability—and possibly the lack of will and resource—of local authorities to enforce robustly steps against such bad practice. The proposals for a mandatory and complex registration scheme for those who operate in the private rented sector will impose an overly bureaucratic licensing scheme that only serves to dissuade existing landlords—and we must not forget that they are providing a valuable service. I would urge the Minister to outline the plans that he has to work with local authorities to clamp down on criminal landlords and rogue operators, who, it is fair to say, are in the minority.

O ran landlordiaid, rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn cydnabod bod tenantiaid sy'n destun gweithgarwch amhroffesiynol neu droseddol yn dioddef yn fawr. Mae dros 100 o gyfreithiau gwahanol eisoes ar waith i reoleiddio hyn, ac felly nid diffyg cyfreithiau yw'r broblem. Ar ben hynny, mae'n broblem oherwydd anallu—a diffyg ewyllys ac adnoddau o bosibl—awdurdodau lleol i orfodi camau'n gadarn yn erbyn arfer gwael o'r fath. Bydd y cynigion ar gyfer cynllun cofrestru gorfodol a chymhleth i'r rhai sy'n gweithredu yn y sector rhentu preifat yn gorfodi cynllun trwyddedu rhy fiwrocrataidd na fydd ond yn peri i landlordiaid presennol dynnu allan—a rhaid inni beidio ag anghofio eu bod yn darparu gwasanaeth gwerthfawr. Byddwn yn annog y Gweinidog i amlinellu'r cynlluniau sydd ganddo i weithio gydag awdurdodau lleol i weithredu'n gadarn yn erbyn landlordiaid sy'n troseddu ac yn erbyn rhai twyllodrus, sydd, mae'n deg dweud, yn lleiafrif.

The Residential Landlords Association in Wales has called for the establishment of—

Mae'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl yng Nghymru wedi galw am sefydlu-

*Elin Jones a gododd—*

*Elin Jones rose—*

15:45 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

I am never going to get through this. If I do, and I have time left, then of course I will take your intervention.

Nid wyf am ddod i ben â hyn. Os llwyddaf, ac os bydd gennyf amser ar ôl, yna, wrth gwrs cymeraf eich ymyriad.

The Residential Landlords Association in Wales has called for the establishment of a Welsh housing survey to provide a more detailed picture across all housing tenures, and it could be used by other Government departments, local authorities and housing associations—I would like to add estate agents as well to that—to grasp market trends in the private rented sector, such as rent and numbers of occupants. Minister, what plans do you have to establish a straightforward, uncomplicated survey that addresses current Welsh housing trends within any forthcoming legislation? You said that local development plans were there to assist delivery. I beg to differ. I will not elaborate on this point; there is plenty of opportunity in other debates to do that. The Welsh Government's ambitious targets for tackling homelessness in Wales are to be welcomed, but it is a sad indictment of any society that a single individual can easily fall through the cracks. While I have been sitting here today I have heard of a 19-year-old in my constituency who recently lost his employment, told his landlord that he would be two weeks late with the rent, and has found himself evicted. Unfortunately, he has come to me a little too late, but those are issues that we are dealing with all the time. Minister, what assessment have you made of Crisis UK's homeless monitor for Wales 2012, which showed that statutory homeless applications were up 3%?

Mae'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl yng Nghymru wedi galw am sefydlu arolwg tai yng Nghymru i ddarparu darlun mwy manwl ar draws yr holl ddeiliadaethau tai, a gallai adrannau eraill y Llywodraeth, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai—hoffwn ychwanegu gwerthwyr tai yn ogystal at hynny—ei ddefnyddio i ddeall tueddiadau'r farchnad yn y sector rhentu preifat, megis rhent a nifer y preswylwyr. Weinidog, pa gynlluniau sydd gennych i sefydlu arolwg rhwydd, syml sy'n mynd i'r afael â thueddiadau presennol ym maes tai yng Nghymru mewn unrhyw ddeddfwriaeth sydd ar y gweill? Dywedasoch fod cynlluniau datblygu lleol yno i gynorthwyo i ddarparu yn y maes hwn. Rwyf yn anghytuno. Nid wyf am ymhelaethu ar y pwynt hwn; mae digon o gyfle mewn dadleuon eraill i wneud hynny. Mae targedau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru i'w croesawu, ond mae'n adlewyrchiad trist ar unrhyw gymdeithas y gall un unigolyn yn hawdd syrthio drwy'r craciau. Tra bûm yn eistedd yma heddiw clywais am unigolyn 19 mlwydd oed yn fy etholaeth a gollodd ei swydd yn ddiweddar, a dweud wrth ei landlord y byddai bythefnos yn hwyr yn talu'r rhent, ac mae wedi ei droi allan. Yn anffodus, mae wedi dod ataf braidd yn rhy hwyr, ond mae'r rhain yn faterion yr ydym yn ymdrin â hwy drwy'r amser. Weinidog, pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o fonitor digartrefedd Crisis UK ar gyfer Cymru 2012, a oedd yn dangos bod ceisiadau digartrefedd statudol wedi codi 3%?

15:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Conclude now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

15:47

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

I would also ask what extra resources you are putting into local authorities. The importance of getting the housing Bill right cannot be overstated, but I believe that we all need to work together in this regard.

Byddwn hefyd yn gofyn pa adnoddau ychwanegol yr ydych yn eu rhoi i awdurdodau lleol. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y Bil tai'n cael ei lunio'n iawn, ond rwyf yn credu bod angen inni i gyd weithio gyda'n gilydd yn hyn o beth.

15:47

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

I have to say that I have agreed with many things that people of all political parties have said today, but there was very little that I agreed with in that. It is about time that the party to my left—geographically, that is, not politically—started looking at the needs of people who are being made homeless consistently and regularly, and who will now be affected even more by— [Interruption.] Would you let me finish first? These are people who will be extremely affected by universal benefit, and this seems to be going on and on. While most of us here agree that construction has to be supported, and that new homes have to be built, we are putting people at the centre of our strategy—the people who are being made homeless.

Mae'n rhaid imi ddweud fy mod wedi cytuno â llawer o bethau y mae pobl o bob plaid wleidyddol wedi'u dweud heddiw, ond nid oedd llawer iawn yr oeddwn yn cytuno ag ef yn hynny. Mae'n hen bryd i'r blaid ar fy chwith—yn ddaearyddol, hynny yw, nid yn wleidyddol—ddechrau edrych ar anghenion pobl sy'n eu cael eu hunain yn ddigartref yn gyson ac yn rheolaidd, y bydd effaith hyd yn oed yn fwy—[Torri ar draws.] A wnewch chi adael imi orffen yn gyntaf? Mae'r rhain yn bobl y bydd buddion cyffredinol yn effeithio'n aruthrol arnynt, ac mae fel petai'n mynd ymlaen ac ymlaen. Er bod y rhan fwyaf ohonom yma'n cytuno bod yn rhaid cefnogi gwaith adeiladu, a bod yn rhaid adeiladu cartrefi newydd, rydym yn rhoi pobl wrth wraidd ein strategaeth—y bobl sy'n eu cael eu hunain yn ddigartref.

15:48

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Do you agree that, as part of your constituency work, you will meet with large numbers of people on waiting lists for housing, and even private housing is not available? Have you looked at the Welsh landlords register to see how much housing is available in your area from that body, which currently provides accreditation?

A ydych yn cytuno, fel rhan o'ch gwaith etholaethol, y byddwch yn cwrdd â nifer fawr o bobl ar restrau aros am dai, ac nad oes tai preifat hyd yn oed ar gael? A ydych wedi edrych ar gofrestr landlordiaid Cymru i weld faint o dai sydd ar gael yn eich ardal chi gan y corff hwnnw, sydd ar hyn o bryd yn achredu?

15:49 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Indeed I have, and I have met with Flintshire County Council to look at the problems that it is identifying—like, for example, the bedroom tax, which was introduced by your party. So I am afraid that, while I will look at the broad spectrum, I do not ignore what I do not want to believe.

Ydw yn wir, ac rwyf wedi cwrdd â Chyngor Sir y Fflint i edrych ar y problemau y mae'n eu nodi—fel, er enghraifft, y dreth ystafell wely, a gyflwynwyd gan eich plaid chi. Felly mae arnaf ofn, er y byddaf yn edrych ar y sbectrwm eang, nad wyf yn anwybyddu'r hyn nad wyf am ei gredu.

There are lots of things that we will do in the housing Bill that are excellent. One is the Houses into Homes programme, which has been both popular and successful. We should be proud that the scheme is the first of its type to be run by any Government in the UK. I am particularly pleased because, of course, it is a move that was championed in the last Assembly by the Communities and Culture Committee, which I chaired. Many witnesses said then that this was a much-needed scheme and that it would be more cost-effective than simply developing new homes. So it has proved. We have had £10 million drawn down in the first year, another £10 million allocated, and this has provided in the region of 450 new homes so far. In my own constituency, I have seen what can be achieved. I have mentioned before that, in Flint, a terrace of derelict properties has been renovated and is now ready for six families to live in again.

Mae llawer o bethau y byddwn yn eu gwneud yn y Bil tai sydd yn ardderchog. Un yw'r rhaglen Troi Tai'n Gartrefi, sydd wedi bod yn boblogaidd ac yn llwyddiannus. Dylem fod yn falch mai'r cynllun hwn yw'r cyntaf o'i fath i gael ei gynnal gan unrhyw Lywodraeth yn y DU. Rwyf yn arbennig o falch oherwydd, wrth gwrs, mae'n symudiad a gafodd ei hyrwyddo yn y Cynulliad diwethaf gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, yr oeddwn yn gadeirydd arno. Dywedodd llawer o dystion bryd hynny fod hwn yn gynllun y mae ei angen yn ddirfawr ac y byddai'n fwy cost-effeithiol na dim ond datblygu cartrefi newydd. Felly y bu. Tynnwyd £10 miliwn i lawr yn ystod y flwyddyn gyntaf, dyrannwyd £10 miliwn arall, ac mae hyn wedi darparu oddeutu 450 o gartrefi newydd hyd yma. Yn fy etholaeth fy hun, rwyf wedi gweld yr hyn y gellir ei gyflawni. Rwyf wedi crybwyll o'r blaen fod teras o dai gwag yn y Fflint wedi ei adnewyddu ac mae bellach yn barod i chwech o deuluoedd fyw ynddo eto.

The really good thing that we heard today in the Public Accounts Committee is that these loans are already being repaid. That means that this is a truly sustainable and recyclable scheme. Contrast that with mortgage guarantee schemes. I must say, Minister, that I hope that we are very careful when thinking about any such schemes. Creating another housing boom that will not last and is not sustainable is no way to boost the economy of the country. Telling people that they can have a mortgage of £700,000 means that they are the people who will suffer. The people who will benefit are the builders, estate agents, those from the building societies and so on. There are two sides to every story, and we must think about that.

Y peth gwirioneddol dda a glywsom heddiw yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw bod y benthyciadau hyn eisoes yn cael eu had-dalu. Mae hynny'n golygu bod hwn yn gynllun gwirioneddol gynaliadwy ac ailgylchadwy. Cymharwch hynny â chynlluniau gwarant morgais. Mae'n rhaid imi ddweud, Weinidog, fy mod yn gobeithio y byddwn yn ofalus iawn wrth feddwl am unrhyw gynlluniau o'r fath. Nid yw creu ffyniant arall ym maes tai na fydd yn para ac nad yw'n gynaliadwy yn mynd i roi hwb i economi'r wlad. Mae dweud wrth bobl y gallant gael morgais o £700,000 yn golygu mai nhw yw'r bobl a fydd yn dioddef. Y bobl a fydd yn elwa yw'r adeiladwyr, y gwerthwyr tai, y rhai hynny o'r cymdeithasau adeiladu ac yn y blaen. Mae dwy ochr i bob stori, a rhaid inni feddwl am hynny.

The other thing that I would like to mention is the private rented sector. I think that it is absolutely right that we have regulation in this sector. There are very good landlords. Generally speaking, they are the ones that you do not need to try to get licensed or regulated; they are quite happy because they do a jolly good job.

Y peth arall yr hoffwn sôn amdano yw'r sector rhentu preifat. Credaf ei bod yn hollol iawn fod rheoleiddio ar y sector hwn. Mae rhai landlordiaid da iawn. Yn gyffredinol, dyma'r rhai nad oes angen ichi geisio eu trwyddedu neu eu rheoleiddio; maent yn berffaith hapus oherwydd eu bod yn gwneud gwaith da dros ben.

This morning, we heard the news about the housing revenue account subsidy finally being agreed by the Welsh Government and the Treasury. I am not here to blame anybody, but this has been a really convoluted process that has caused many problems. Minister, this now opens the way to rent reform. I believe that this was delayed by a year from April 2013; I hope that it will go ahead in 2014. As you sum up, I wonder whether you are able to make any comments at all on the timetable for that.

Y bore yma, clywsom y newyddion fod Llywodraeth Cymru a'r Trysorlys wedi cytuno o'r diwedd ar y cymhorthdal cyfrif refeniw tai. Nid wyf yma i fwrw bai ar unrhyw un, ond mae hon wedi bod yn broses gymhleth iawn sydd wedi achosi llawer o broblemau. Weinidog, mae hyn yn awr yn agor y drws i ddiwygio rhentu. Credaf i hyn gael ei ohirio am flwyddyn o Ebrill 2013; rwyf yn gobeithio y bydd yn mynd yn ei flaen yn 2014. Wrth ichi grynhoi, tybed a wnewch chi sôn am yr amserlen ar gyfer hynny.

15:52 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Minister, I have read your housing White Paper. I do not sit on one of the committees that scrutinise it—I am sure that that is a great relief to you. [Laughter.] However, the ideas that are coming forward are very interesting. I know that there is a particular issue about houses in multiple occupation. I echo Peter Black's concerns that there is an area or sector that requires registration and a greater focus of resources. There are very real concerns about that. I ask you to look at the Scottish example, where compulsory registration of landlords led to a reduction in the housing available. That is solid evidence, which supports the call for a housing survey. If compulsory registration reduces the housing available, surely it is having the opposite effect to that intended.

Weinidog, rwyf wedi darllen eich Papur Gwyn ar Dai. Nid wyf yn eistedd ar un o'r pwyllgorau sy'n craffu arno—rwyf yn siŵr bod hynny'n rhyddhad mawr ichi. [Chwerthin.] Fodd bynnag, mae'r syniadau sy'n dod ymlaen yn ddiddorol iawn. Gwn fod problem benodol ynghylch tai amlfeddiannaeth. Adleisiaf bryderon Peter Black fod yna ardal neu sector sy'n gofyn am gofrestru a mwy o ganolbwyntio adnoddau. Mae pryderon gwirioneddol am hynny. Gofynnaf ichi edrych ar yr enghraifft yn yr Alban, lle mae cofrestru gorfodol i landlordiaid wedi arwain at ostyngiad yn nifer y tai sydd ar gael. Mae hynny'n dystiolaeth gadarn, sy'n cefnogi'r alwad am arolwg tai. Os yw cofrestru gorfodol yn lleihau nifer y tai sydd ar gael, does bosibl ei fod yn cael effaith groes i'r hyn a fwriedir.

I am also particularly concerned about rural housing. Someone in my area has been trying to build affordable wooden housing. He is a specialist and has designed a wooden house that is affordable and can easily be put up. He is happy to donate, in effect, the houses but retain ownership of the land. He has been trying to work with the rural housing enabler and has hit blockage after blockage. I think that it would be helpful if you would come to meet him so that you could talk to him. You would then see some of the barriers that exist for people who are genuinely committed to their local communities and want to improve the availability of affordable housing, particularly in rural communities.

Rwyf hefyd yn pryderu'n arbennig am dai yng nghefn gwlad. Mae rhywun yn fy ardal i wedi bod yn ceisio adeiladu tai pren fforddiadwy. Mae'n arbenigwr ac wedi cynllunio tŷ pren sy'n fforddiadwy ac yn hawdd ei godi. Mae'n hapus i roi'r tai, i bob pwrpas, ond cadw perchnogaeth y tir. Mae wedi bod yn ceisio gweithio gyda'r swyddog galluogi tai gwledig, ac mae wedi taro rhwystr ar ôl rhwystr. Credaf y byddai'n ddefnyddiol pe baech yn dod i gwrdd ag ef er mwyn siarad ag ef. Byddech wedyn yn gweld rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl sy'n wirioneddol ymroddedig i'w cymunedau lleol ac yn dymuno sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.

I take issue with one of the contributors today, who said that there is no regulation in the sector—there is a substantial amount of regulation. I think that there are about 100 pieces of legislation, as Janet Finch-Saunders has already mentioned, that govern landlord relationships. There is particular legislation around protection against eviction, so that safeguard exists. I do not know whether you have met with the Residential Landlords Association, Minister, but I had a look at the website and at the voluntary scheme that is run in Wales at the moment, and I could not find any housing available in Conwy at all, and that, it seems, is because that scheme is not known by landlords. People might be willing to join it on a voluntary basis. Would you look at implementing a voluntary scheme, initially, apart from in the case of HMOs, where there are real issues and concerns about the kind of safety provisions that are available in houses in multiple occupation?

Rwyf yn anghytuno ag un o'r cyfranwyr heddiw, a ddywedodd nad oes rheoleiddio ar y sector—mae llawer iawn o reoleiddio. Rwyf yn meddwl bod tua 100 o ddarnau o ddeddfwriaeth, fel y mae Janet Finch-Saunders eisoes wedi'i grybwyll, sy'n rheoli cysylltiadau landlordiaid. Mae deddfwriaeth benodol yn ymwneud ag amddiffyn rhag troi allan, felly mae'r dull diogelu hwnnw ar waith. Nid wyf yn gwybod a ydych wedi cwrdd â'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl, Weinidog, ond cefais gipolwg ar y wefan ac ar y cynllun gwirfoddol sy'n cael ei redeg yng Nghymru ar hyn o bryd, ac ni allwn ddod o hyd i ddim tai sydd ar gael yng Nghonwy o gwbl, a hynny, mae'n debyg, oherwydd nad yw landlordiaid yn gwybod am y cynllun hwnnw. Efallai y byddai pobl yn barod i ymuno ag ef o'u gwirfodd. A wnewch chi edrych ar weithredu cynllun gwirfoddol, i ddechrau, ac eithrio i dai amlfeddiannaeth, lle mae materion a phryderon gwirioneddol am y math o ddarpariaethau diogelwch sydd ar gael mewn tai amlfeddiannaeth?

Finally, in terms of the additional burdens upon house builders—Mark Isherwood has made this point very clear—if you continue to increase the regulatory burden on those who are providing housing in Wales, they will look at the opportunities over the border. You know it in your own region, Minister, because you live very close to that border and you know what opportunities there are for business flight over the border. I ask you to consider carefully the impact on local employment and jobs if people do not percieve that they are able to build affordable housing. That is different from social housing and private rented housing. I think that that is where Sandy Mewies is wrong. Her suggestion was not to allow people to get out of social housing and onto the property ladder.

Yn olaf, o ran y baich ychwanegol ar adeiladwyr tai—mae Mark Isherwood wedi gwneud y pwynt hwn yn glir iawn—os byddwch yn parhau i gynyddu'r baich rheoleiddio ar y rhai sy'n darparu tai yng Nghymru, byddant yn edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael dros y ffin. Rydych yn gwybod hynny yn eich ardal eich hun, Weinidog, oherwydd eich bod yn byw'n agos iawn at y ffin ac rydych yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael i fusnesau fynd dros y ffin. Gofynnaf ichi ystyried yn ofalus yr effaith ar gyflogaeth a swyddi lleol os nad yw pobl yn tybio eu bod yn gallu adeiladu tai fforddiadwy. Mae hynny'n wahanol i dai cymdeithasol a thai rhent preifat. Credaf mai dyna ble mae Sandy Mewies yn anghywir. Roedd ei hawgrym hi'n ymwneud â pheidio â galluogi pobl i ymadael â thai cymdeithasol a dringo ar yr ysgol eiddo.

*Sandy Mewies a gododd—*

*Sandy Mewies rose—*

15:57 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

I will not allow an intervention; I have 15 seconds to go. I think that there is an opportunity with the Homebuy scheme to allow people to get onto the housing ladder with their first homes, and that is an important opportunity that they should be given.

Nid wyf am ganiatáu ymyriad; mae gennyf 15 eiliad yn weddill. Credaf fod cyfle yn sgil y cynllun Homebuy i alluogi pobl i ddringo ar yr ysgol dai â'u cartrefi cyntaf, ac mae hynny'n gyfle pwysig y dylid ei roi iddynt.

15:57 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

I will start by congratulating the Welsh Government for bringing forward this debate and the much needed reform of the private rented sector. There has been a call for some time for greater improvement to the housing sector in the interest of the tenant, the landlord and the agents. A national mandatory registration scheme should help to bring about fairness for those currently unable to protect themselves against unscrupulous landlords. However, it is also important to remember that the protection within the White Paper is afforded to not only tenants, but landlords. The White Paper offers considerable protection for those landlords who experience nuisance tenants by enforcing clear and simple tenancy agreements. By working proactively with the police, local authority and other agencies, landlords can deal effectively with those who are intent on causing disruption not only to the landlords but to their neighbours. I am also pleased to see that matters relating to anti-social behaviour will now be taken into account on an ongoing basis when developing the licensing scheme.

Rwyf am ddechrau drwy longyfarch Llywodraeth Cymru am gyflwyno'r ddadl hon a'r diwygiadau y mae eu hangen yn ddirfawr yn y sector rhentu preifat. Bu galw ers tro am fwy o welliannau i'r sector tai er budd y tenantiaid, y landlordiaid a'r asiantau. Dylai cynllun cofrestru gorfodol cenedlaethol helpu i sicrhau tegwch i'r rhai nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu eu hamddiffyn eu hunain yn erbyn landlordiaid diegwyddor. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cofio bod yr amddiffyniad yn y Papur Gwyn yn cael ei gynnig nid dim ond i denantiaid, ond i landlordiaid hefyd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig cryn dipyn o amddiffyniad i'r landlordiaid hynny a chanddynt denantiaid sy'n peri niwsans drwy orfodi cytundebau tenantiaeth clir a syml. Drwy weithio'n rhagweithiol gyda'r heddlu, yr awdurdod lleol ac asiantaethau eraill, gall landlordiaid ymdrin yn effeithiol â'r rhai sy'n benderfynol o achosi aflonyddwch nid yn unig i'r landlordiaid, ond i'w cymdogion hefyd. Rwyf hefyd yn falch o weld y bydd materion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol bellach yn cael eu hystyried yn barhaus wrth ddatblygu'r cynllun trwyddedu.

I would also like to focus on another area in the White Paper, in respect of the responsibilities of letting agencies. I am pleased to see agents acting on behalf of landlords, because it must be remembered that we have a lot of absent landlords. The only point of contact for those tenants is the agents. [Interruption.] Whether you want to believe it or not, people will certainly tell you all about it in my area. Therefore, the fact that we are making it the case that agents will have to be accredited under the scheme to comply with a code of practice can only be a good thing.

Hoffwn hefyd ganolbwyntio ar faes arall yn y Papur Gwyn, mewn perthynas â chyfrifoldebau asiantaethau gosod. Rwyf yn falch o weld asiantau'n gweithredu ar ran landlordiaid, gan fod yn rhaid cofio bod gennym lawer o landlordiaid absennol. Yr unig bwynt cyswllt ar gyfer y tenantiaid hynny yw'r asiantau. [Torri ar draws.] P'un a ydych am ei gredu ai peidio, bydd pobl yn sicr o ddweud wrthych amdano yn fy ardal i. Felly, ni all y ffaith ein bod yn sicrhau y bydd yn rhaid achredu asiantau o dan y cynllun i gydymffurfio â chod ymarfer ond bod yn beth da.

I heard mention this morning of a voluntary scheme. In Carmarthenshire, the accommodation accreditation scheme has been in action for many years. However, while the local authority has been proactive in trying to persuade landlords to join that voluntary scheme, the number of landlords actually joining it has been relatively low. That leads me and the county council to conclude that the need for a compulsory scheme is pretty clear. In many respects, the private rented sector can be compared to any other business operating in a private capacity, with responsibilities and some form of regulation determining its responsibility to its customers. In this case, the customers are the tenants. With more people choosing to rent in the private sector in the current economic climate, the need for further regulation of the sector is, in my opinion, all the more vital. Once again, I wish to congratulate the Minister for showing his commitment to ensuring that he will moderate the private rented sector in Wales.

Clywais sôn y bore yma am gynllun gwirfoddol. Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r cynllun achredu llety wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer. Fodd bynnag, er bod yr awdurdod lleol wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio perswadio landlordiaid i ymuno â'r cynllun gwirfoddol, mae nifer y landlordiaid sy'n ymuno mewn gwirionedd wedi bod yn gymharol isel. Mae hynny'n peri i mi a'r cyngor sir feddwl ei bod yn eithaf amlwg fod angen cynllun gorfodol. Mewn sawl ffordd, gellir cymharu'r sector rhentu preifat ag unrhyw fusnes arall sy'n gweithredu'n breifat, gyda chyfrifoldebau a rhyw fath o reoleiddio'n pennu ei gyfrifoldeb tuag at ei gwsmeriaid. Yn yr achos hwn, y tenantiaid yw'r cwsmeriaid. Wrth i fwy o bobl ddewis rhentu yn y sector preifat yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'r angen am reoleiddio pellach ar y sector, yn fy marn i, yn bwysicach fyth. Unwaith eto, hoffwn longyfarch y Gweinidog am ddangos ei ymrwymiad i sicrhau y bydd yn cymedroli'r sector rhentu preifat yng Nghymru.

16:00 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Have you ever asked your local authority how many successful enforcement proceedings it has taken against unscrupulous landlords?

A ydych erioed wedi gofyn i'ch awdurdod lleol faint o gamau gorfodi llwyddiannus y mae wedi eu cymryd yn erbyn landlordiaid diegwyddor?

16:00 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

The point is not about how many successful enforcement proceedings there have been. What we are trying to do is to get in there before you have to get to that point. Do you know how long it takes—and there are plenty of solicitors and barristers here who can advise you—to get to that point of enforcement? There are loopholes and hoops that people have to jump through—mostly tenants, who do not have a flipping leg to stand on. Therefore, I welcome this today. It will save a lot of money and a lot of frustration in terms of having to try to shut the door after the horse has bolted.

Nid faint o gamau gorfodi llwyddiannus sydd wedi bod yw'r pwynt yma. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw camu i mewn cyn bod yn rhaid ichi gyrraedd y pwynt hwnnw. A ydych yn gwybod faint o amser y mae'n ei gymryd—ac mae digon o gyfreithwyr a bargyfreithwyr yma a all eich cynghori—i gyrraedd y pwynt gorfodi hwnnw? Mae tyllau a chylchoedd y mae rhaid i bobl neidio drwyddynt—tenantiaid yn bennaf, nad oes ganddynt goes i sefyll arni. Felly, rwyf yn croesawu hyn heddiw. Bydd yn arbed llawer o arian a llawer o rwystredigaeth o ran gorfod ceisio cau'r drws ar ôl i'r ceffyl ddianc.

16:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

16:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

I thank the Deputy Presiding Officer for the opportunity to respond to this very important debate on housing and the housing White Paper. I would like to start by thanking the majority of Members, whose contributions were very helpful in terms of the scope and opportunity that we have in Wales and the opportunity in the legislative programme to develop legislation in order for us to achieve a more sustainable, improved housing supply and to increase the supply in the market. That falls very clearly into my top priorities, as I mentioned earlier, for the next three years: to increase the supply of housing is my team's priority, as it will have a positive knock-on effect across the housing market, which will improve choices for local people. Improving and increasing the supply will assist in the regeneration of many of our town centres and communities, as well as offering opportunities for jobs and economic growth.

Diolch i'r Dirprwy Lywydd am y cyfle i ymateb i'r ddadl bwysig iawn hon ar dai a'r Papur Gwyn ar Dai. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r rhan fwyaf o'r Aelodau, yr oedd eu cyfraniadau'n ddefnyddiol iawn o ran y cwmpas a'r cyfle sydd gennym yng Nghymru a'r cyfle yn y rhaglen ddeddfwriaethol i ddatblygu deddfwriaeth er mwyn inni allu datblygu cyflenwad tai gwell a mwy cynaliadwy a chynyddu'r cyflenwad yn y farchnad. Mae hynny'n amlwg iawn ymhlith fy mhrif flaenoriaethau, fel y soniais yn gynharach, dros y tair blynedd nesaf: blaenoriaeth fy nhîm yw cynyddu'r cyflenwad tai, oherwydd bydd hynny'n cael sgil-effaith gadarnhaol ar draws y farchnad dai, a fydd yn gwella dewisiadau i bobl leol. Bydd gwella a chynyddu'r cyflenwad yn helpu i adfywio llawer ar ganol ein trefi a'n cymunedau, ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer swyddi a thwf economaidd.

16:02 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

On that point, I listened to the Members to my left—geographically; never standing to my left politically—and their tales of woe about house builders fleeing across the border. I think that they were referring to the sprinklers and other issues that may come in and affect builders. However, do you agree with me in asking why, if that is the case, the construction industry in Wales is outperforming that of England? Is what they are doing just scaremongering?

Ar y pwynt hwnnw, gwrandewais ar yr Aelodau ar fy chwith—yn ddaearyddol; byth i'r chwith imi'n wleidyddol—a'u hanesion digalon am adeiladwyr tai'n ffoi dros y ffin. Rwyf yn meddwl eu bod yn cyfeirio at y system chwistrellu a materion eraill a allai ddod i mewn ac effeithio ar adeiladwyr. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno â mi pan ofynnaf pam, os yw hynny'n wir, y mae'r diwydiant adeiladu yng Nghymru'n perfformio'n well na'r diwydiant yn Lloegr? Ai dim ond codi bwganod yw'r hyn y maent yn ei wneud?

16:03 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I am grateful for the Member's contribution and, of course, I recognise her commitment, and mine, to introducing the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011, which was supported by Members from across the parties, including those on the Conservative benches. That policy was adopted many years ago and will be introduced. I will touch on that in further detail shortly.

Rwyf yn ddiolchgar am gyfraniad yr Aelod ac, wrth gwrs, rwyf yn cydnabod ei hymrwymiad hi, a fy ymrwymiad innau, i gyflwyno Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, a gefnogwyd gan Aelodau ar draws y pleidiau, gan gynnwys y rhai ar y meinciau Ceidwadol. Mabwysiadwyd y polisi hwnnw flynyddoedd lawer yn ôl a bydd yn cael ei gyflwyno. Byddaf yn manylu ar hynny maes o law.

The legislative programme, as mentioned by Jocelyn Davies in her contribution, is not an end in itself, although the Bills that I am introducing aim to improve quality of life and security for people so that they can live in stable, suitable and attractive communities across Wales. I am grateful for her support in terms of HRAS. I was disappointed, but I always am, by the contribution by Conservative colleagues, because they did not even have the decency to support the proposals and acknowledge that we, today, we face the burden of missing out on over £30 million per year, which would be for the benefit of Welsh constituents, whom they represent, in terms of the HRAS. I congratulate Huw Lewis and Jocelyn Davies for the work that they did in trying to drive this agenda forward, as well as Peter Black and colleagues in the Liberal Democrats for their work with the Treasury to support us in securing this deal today. There has been no mention of that from the benches opposite, which is quite astonishing.

Nid yw'r rhaglen ddeddfwriaethol, fel y crybwyllwyd gan Jocelyn Davies yn ei chyfraniad, yn ddiben ynddi'i hun, er mai nod y Biliau yr wyf yn eu cyflwyno yw gwella ansawdd bywyd a diogelwch i bobl fel y gallant fyw mewn cymunedau sefydlog, addas a deniadol ledled Cymru. Rwyf yn ddiolchgar am ei chefnogaeth o ran HRAS. Roeddwn yn siomedig, ond rwyf bob amser yn siomedig, â chyfraniad fy nghyd-weithwyr Ceidwadol, gan nad oeddent hyd yn oed yn ddigon cwrtais i gefnogi'r cynigion a chydnabod ein bod, heddiw, yn wynebu'r baich o golli allan ar dros £30 miliwn y flwyddyn, a fyddai er budd etholwyr Cymru, y maent yn eu cynrychioli, o ran y HRAS. Rwyf yn llongyfarch Huw Lewis a Jocelyn Davies am y gwaith a wnaethant wrth geisio gyrru'r agenda hon yn ei blaen, yn ogystal â Peter Black a chyd-weithwyr yn y Democratiaid Rhyddfrydol am eu gwaith gyda'r Trysorlys i'n cefnogi i sicrhau'r cytundeb hwn heddiw. Ni fu unrhyw sôn am hynny gan y meinciau gyferbyn, sy'n syfrdanol.

I would also like to make reference today to tackling anti-social behaviour in households in order to ensure that those in neighbouring properties enjoy good living conditions in their own home. Simplifying tenancies and improving the private rented sector will be achieved through the Bill. I listened very carefully to the contribution made by Members, and I would like to touch quickly on the registration scheme. We aspire to drive out any Rachman-style operation in Wales; we should get rid of that very quickly. With the introduction of the Bill, we will be looking to support good-quality private landlords across the sector in Wales. They should not worry if they are delivering good-quality accommodation. We will reduce the contract system to two standard contracts that will be devised by Welsh Government in conjunction with the organisations, in order for them to have a more flexible approach to delivery, where tenants and landlords will understand what their actions should be to each other.

Hoffwn hefyd gyfeirio heddiw at fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol mewn cartrefi er mwyn sicrhau bod pobl mewn eiddo cyfagos yn mwynhau amodau byw da yn eu cartrefi eu hunain. Bydd symleiddio tenantiaethau a gwella'r sector rhentu preifat yn digwydd drwy gyfrwng y Bil. Gwrandewais yn astud iawn ar y cyfraniad a wnaethpwyd gan yr Aelodau, a hoffwn sôn yn gyflym am y cynllun cofrestru. Ein nod yw cael gwared ar unrhyw weithredu yn null Rachman yng Nghymru; dylem gael gwared ar hynny'n gyflym iawn. Drwy gyflwyno'r Bil, byddwn yn ceisio cefnogi landlordiaid preifat o safon uchel ar draws y sector yng Nghymru. Os ydynt yn darparu llety o ansawdd da ni fydd angen iddynt boeni. Byddwn yn lleihau'r system gontract i ddau gontract safonol a fydd yn cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â'r sefydliadau, er mwyn iddynt allu mynd ati i ddarparu'n fwy hyblyg, a sicrhau bod tenantiaid a landlordiaid yn deall sut y dylent weithredu tuag at ei gilydd .

The Members opposite also made reference to the fact that the Residential Landlords Association seemed to be out of the loop in the creation of this. That is not the case; it sits on the working group that is devising these standards. Therefore, I find the comments made by the opposition Members unbelievable.

Cyfeiriodd yr Aelodau gyferbyn hefyd at y ffaith ei bod yn ymddangos nad yw'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl wedi bod yn rhan o'r broses o greu hyn oll. Nid yw hynny'n wir; mae'n aelod o'r gweithgor sy'n llunio'r safonau hyn. Felly, mae'r sylwadau a wnaed gan Aelodau'r gwrthbleidiau yn anghredadwy i mi.

I do not think that I can take any lectures from the Conservative benches on housing and property supply. We are in the middle of welfare reform and we are in the middle of the introduction of the bedroom tax. We are seeing people being evicted from their properties. Janet Finch-Saunders raised an issue about a very young member of her constituency who has been evicted from a property. I dare say that the impact of the bedroom tax, welfare reform and the economy, driven by the UK Conservative Government, has had a massive effect, and I will not accept the crocodile tears that the Member uses in this Chamber.

Nid wyf yn meddwl y gallaf gymryd unrhyw bregethu gan feinciau'r Ceidwadwyr ar dai a'r cyflenwad eiddo. Rydym yng nghanol diwygiadau lles, ac rydym yng nghanol cyflwyno'r dreth ystafell wely. Rydym yn gweld pobl yn cael eu troi allan o'u heiddo. Soniodd Janet Finch-Saunders am unigolyn ifanc iawn yn ei hetholaeth sydd wedi cael ei droi allan o eiddo. Mentraf ddweud bod effaith y dreth ystafell wely, diwygiadau lles a'r economi, sy'n cael eu sbarduno gan Lywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig, wedi cael effaith aruthrol, ac ni allaf dderbyn y dagrau ffug y mae'r Aelod yn eu defnyddio yn y Siambr hon.

On other points mentioned by Members today, Peter Black mentioned the Part L regulations, which are important. I have been in post for nine weeks now, and I am seriously considering what implications the Part L regulations are having or could have on the construction industry. I will make a statement before the summer recess on my decision regarding the implementation of that.

Ar bwyntiau eraill a grybwyllwyd gan Aelodau heddiw, soniodd Peter Black am y rheoliadau Rhan L, sy'n bwysig. Rwyf bellach wedi bod yn y swydd am naw wythnos, ac rwyf yn ystyried o ddifrif pa oblygiadau sydd i reoliadau Rhan L o ran y diwydiant adeiladu, neu pa oblygiadau a allai fod. Byddaf yn gwneud datganiad cyn toriad yr haf ar fy mhenderfyniad ynghylch gweithredu hynny.

Alongside that, there is the important issue of the introduction of sprinklers that Ann Jones and other colleagues have fought so hard for. There are impacts in terms of finance on the building and construction sector, but I have met with its representatives to discuss how the Welsh Government and I can change the way in which some of this legislation is implemented, and how we can support that process.

Ochr yn ochr â hynny, mae mater pwysig cyflwyno'r systemau chwistrellu y mae Ann Jones a chyd-weithwyr eraill wedi brwydro mor galed drosto. Mae effeithiau o ran cyllid ar y sector adeiladu a chodi adeiladau, ond rwyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr y sector i drafod sut y gall Llywodraeth Cymru a minnau newid y ffordd y mae rhywfaint o'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei rhoi ar waith, a sut y gallwn gefnogi'r broses honno.

On another significant issue, I was intrigued by the terminology used by some colleagues around the NewBuy Cymru scheme. I wish to touch briefly on the real facts around the NewBuy Cymru scheme. The NewBuy Cymru scheme has not been scrapped, despite the suggestions of opposition Members that that may be the case. We were ready to launch the final stages of the implementation of this scheme when I came into post around nine weeks ago. The scheme was predicated on a working arrangement between the Welsh Government and partner agencies such as the lenders, the builders and the people who wanted to support the scheme. The Welsh Government has not pulled out of this scheme. Discussions are ongoing with builders and lenders—in fact, there was a discussion yesterday with those organisations—to find a way through where they feel comfortable in being able to continue with the scheme. If they wish to come to the table to take the scheme forward, I am still willing and committed to taking the scheme forward. It is not the case that the Welsh Government has scrapped the scheme. Mark Isherwood said that he had spoken to the Council of Mortgage Lenders. My team spoke to it this week, and it is still not yet ready to commit to a scheme for the future. I will gladly take an intervention.

Ar fater pwysig arall, roedd rhywfaint o'r derminoleg a ddefnyddiwyd gan rai cyd-weithwyr ynghylch y cynllun NewBuy Cymru yn ddirgelwch imi. Hoffwn gyfeirio'n fyr at y ffeithiau go iawn ynghylch cynllun NewBuy Cymru. Nid yw cynllun NewBuy Cymru wedi ei ddiddymu, er gwaethaf yr awgrymiadau gan Aelodau'r gwrthbleidiau y gallai hynny fod yn wir. Roeddem yn barod i lansio camau olaf gweithredu'r cynllun hwn pan ddechreuais yn y swydd tua naw wythnos yn ôl. Roedd y cynllun yn seiliedig ar drefniant gweithio rhwng Llywodraeth Cymru ac asiantaethau sy'n bartneriaid megis y benthycwyr, yr adeiladwyr a'r bobl a oedd yn dymuno cefnogi'r cynllun. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi tynnu allan o'r cynllun hwn. Mae trafodaethau'n parhau ag adeiladwyr a benthycwyr—yn wir, cafwyd trafodaeth ddoe â'r sefydliadau hynny—i ddod o hyd i ffordd ymlaen lle maent yn teimlo'n gyfforddus i barhau â'r cynllun. Os ydynt yn dymuno dod at y bwrdd i fynd â'r cynllun yn ei flaen, rwyf yn dal yn barod i fwrw ymlaen â'r cynllun ac yn ymroddedig i hynny. Nid yw'n wir fod Llywodraeth Cymru wedi diddymu'r cynllun. Dywedodd Mark Isherwood ei fod wedi siarad â'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi. Siaradodd fy nhîm â'r Cyngor yr wythnos hon, ac nid yw'n barod eto i ymrwymo i gynllun at y dyfodol. Byddaf yn falch o dderbyn ymyriad.

16:09

## Mark Isherwood [Bywgraffiad] [Biography]

I am referring to the fact that England and Scotland were able to launch such a scheme over a year ago, because they had taken the initiative the November before that. However, Wales took many months before it followed and declared an interest in pursuing that, which meant that by the time we finally got there, events overtook it. We should not have even been following Scotland—we should have been leading it.

Cyfeiriaf at y ffaith fod Lloegr a'r Alban wedi gallu lansio cynllun o'r fath dros flwyddyn yn ôl, oherwydd eu bod wedi cymryd y cam cyntaf y mis Tachwedd cyn hynny. Fodd bynnag, cymerodd Cymru fisoedd lawer cyn dilyn a datgan diddordeb mewn gwneud hynny, ac erbyn inni gyrraedd yno o'r diwedd, roedd pethau wedi symud ymlaen. Ni ddylem hyd yn oed fod wedi bod yn dilyn yr Alban—dylem fod wedi bod yn ei harwain.

16:09

## Carl Sargeant [Bywgraffiad] [Biography]

Yet again, a roll back on what the Member said earlier. He and his colleagues said that the scheme had been scrapped and that we would not be introducing it. That is not the case in Wales.

Unwaith eto, af yn ôl at yr hyn a ddywedodd yr Aelod yn gynharach. Dywedodd ef a'i gyd-weithwyr fod y cynllun wedi ei ddiddymu ac na fyddem yn ei gyflwyno. Nid yw hynny'n wir yng Nghymru.

Finally, to pick up on the point that Sandy Mewies made on the important issue of the very successful empty homes scheme, I was pleased to visit the housing in Delyn that the Member made reference to. It is a very successful scheme. It got to be the process where we use recycled funding back into the system. It is already happening. I am very grateful for the support from colleagues in that process. We will be seeking to support amendments 3, 6 and 9 today and I would urge Members to reject the others. However, I am grateful for the opportunity to have this debate today. Thank you.

Yn olaf, a chyfeirio at y pwynt a wnaeth Sandy Mewies ar fater pwysig y cynllun cartrefi gwag llwyddiannus iawn, roeddwn yn falch o ymweld â'r tai yn Delyn yr oedd yr Aelod yn cyfeirio atynt. Mae'n gynllun llwyddiannus iawn. Daeth yn broses lle rydym yn defnyddio arian wedi'i ailgylchu yn ôl i mewn i'r system. Mae'n digwydd eisoes. Rwyf yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth gan gyd-weithwyr yn y broses honno. Byddwn yn ceisio cefnogi gwelliannau 3, 6 a 9 heddiw, a byddwn yn annog yr Aelodau i wrthod y lleill. Fodd bynnag, rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i gael y ddadl hon heddiw. Diolch yn fawr.

16:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there are objections, therefore I defer all voting under this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Gofal Sylfaenol a'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw William Graham, gwelliannau 2 a 3 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 4 a 5 yn enw Aled Roberts.*

## Primary Care and the Inverse Care Law

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of William Graham, amendments 2 and 3 in the name of Elin Jones, and amendments 4 and 5 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5272 Lesley Griffiths

Motion NDM5272 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn cydnabod rôl hanfodol gofal sylfaenol o ran llunio a chyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Recognises the vital role of primary care in shaping and delivering health services in Wales and in addressing health inequalities.

16:10 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Y prynhawn yma, byddwn yn trafod cyflwr gofal sylfaenol yng Nghymru. Yn union fel mae gwasanaethau ysbyty yn cael sylw blaenllaw yng nghyllidebau'r gwasanaeth iechyd, maen nhw hefyd, fel yr ydym yn gwybod, yn flaenllaw iawn yn y trafodaethau cyhoeddus am y gwasanaeth iechyd gwladol, yn y fan hon, fel mewn mannau eraill. I mi, mae hwn yn gyfle i ganolbwyntio ar y cyfraniad cadarnhaol mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn eu gwneud i fywydau pobl Cymru.

This afternoon, we will debate the state of primary care in Wales. Just as hospital services dominate health service budgets, they also, as we know, dominate public discussion of the national health service, here, as elsewhere. For me, this is an opportunity to focus on the positive contribution that primary care services make to the lives of the people of Wales.

Mae dros 90% o gleifion sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth iechyd yn gwneud hynny drwy wasanaethau gofal sylfaenol. Mae nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, therapyddion galwedigaethol a ffiseotherapyddion oll yn gweithio gyda'i gilydd i hybu iechyd, i ddelio â salwch ac i gynnig cysur a chymorth pan fo angen.

Over 90% of patients who come into contact with the health service do so through primary care services. Nurses, midwives, health visitors, occupational therapists and physiotherapists all work together to promote health, to deal with illness and to offer comfort and support when needed.

Mae rhyw 3 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru, ond cafodd 19 miliwn o apwyntiadau eu gwneud mewn meddygfeydd y llynedd. Oes, mae pethau a allai fod yn well, ac, oes, mae gwasanaethau yr ydym am eu gwella. Serch hynny, mae'r bobl sy'n defnyddio gofal sylfaenol yn fodlon iawn yn ôl y ffigurau annibynnol diweddaraf sydd gennym. Maen nhw'n dweud bod dros 90% o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau meddygon teulu yn fodlon â'r gwasanaethau a gânt.

Some 3 million people live in Wales, but 19 million appointments were made at GP surgeries last year. Yes, there are things that could be improved, and, yes, there are services that we wish to improve. However, the people who use primary care are very satisfied according to the latest independent figures that we have. They show that over 90% of people who use GP services are satisfied with the services that they receive.

I make these points to underline something important and increasingly different about the approach that we take to these services here in Wales. It has become fashionable, in some parts of the wider media and political world, to heap the blame for the pressures that health services face across the United Kingdom on to the backs of primary care, and of general practitioners in particular.

Gwnaf y pwyntiau hyn i danlinellu rhywbeth pwysig a chynyddol wahanol am yr ymagwedd yr ydym yn ei chymryd at y gwasanaethau hyn yma yng Nghymru. Mae wedi dod yn ffasiynol, mewn rhai rhannau o'r cyfryngau ehangach a'r byd gwleidyddol, i fwrw'r bai am y pwysau y mae gwasanaethau iechyd yn eu hwynebu ledled y Deyrnas Unedig ar ofal sylfaenol, ac ar feddygon teulu'n benodol.

That is emphatically not the approach that this Labour Government will take here in Wales. Of course we want to see more in access, in out-of-hours care and in increasing the pace and scale of change, but these ambitions are rooted in our commitment to primary care and in our enduring belief in the model of family medicine; not because we believe that model to be bust or broken.

Yn bendant nid dyna'r ymagwedd y bydd y Llywodraeth Lafur hon yn ei chymryd yma yng Nghymru. Wrth gwrs, rydym am weld mwy o ran mynediad, o ran gofal y tu allan i oriau arferol ac o ran sicrhau newid yn gynt ac ar raddfa fwy, ond mae'r uchelgeisiau hyn wedi eu gwreiddio yn ein hymrwymiad i ofal sylfaenol ac yn ein cred barhaus yn y model meddygaeth teulu; nid am ein bod yn credu bod y model hwnnw wedi chwalu neu wedi torri.

It is in order to go on developing a primary care service that remains true to its sense of public service, while freed up to apply those values in contemporary circumstances, that we have, today, published for discussion with patients and the professional groups, a new delivering local healthcare plan for Wales.

Er mwyn dal ati i ddatblygu gwasanaeth gofal sylfaenol sy'n parhau i fod yn driw i'w ymdeimlad o wasanaeth cyhoeddus, ond yn rhydd i roi'r gwerthoedd hynny ar waith o dan amgylchiadau cyfoes, yr ydym, heddiw, wedi cyhoeddi cynllun cyflwyno gofal iechyd lleol newydd i Gymru, i'w drafod â chleifion a'r grwpiau proffesiynol.

We need a plan to address the challenges that we face in our own times, such as the challenges of providing care for older people with complex needs and people who live long lives while managing chronic health conditions; the challenges of providing care in new ways and in which traditional models of surgery-based care are being overtaken by lives lived in the electronic age; and the challenges of responding to the diseases of the early twenty-first century—abuse of alcohol, rising levels of obesity, the epidemic which is diabetes, the strains in mental health produced by an age of anxiety and the social and economic dislocations of prolonged and penetrating austerity. To meet those challenges, we need solutions and services that are locally based, and clinically led.

Mae angen cynllun arnom i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu yn ein hoes ein hunain, megis heriau darparu gofal i bobl hŷn a chanddynt anghenion cymhleth a phobl sy'n byw bywydau hir a chyflyrau iechyd cronig arnynt; heriau darparu gofal mewn ffyrdd newydd lle mae modelau traddodiadol o ofal seiliedig ar lawdriniaeth yn cael eu goddiweddyd gan fywydau sy'n cael eu byw yn yr oes electronig; a her ymateb i glefydau dechrau'r unfed ganrif ar hugain—camddefnyddio alcohol, lefelau cynyddol o ordewdra, epidemig diabetes, y straen ar iechyd meddwl a achosir gan oes o bryder a'r dryswch cymdeithasol ac economaidd y mae caledi hir a dwys yn ei beri. Er mwyn ymateb i'r heriau hynny, mae angen atebion a gwasanaethau sy'n rhai lleol, dan arweiniad clinigol.

Newly animated and empowered locality networks are the best place, I believe, for the NHS, local government and the third sector to share expertise and to help shift resources away from hospitals and into collaborative community services closer to people's homes. I want locality networks to be key decision-making points in the Welsh NHS. To help that happen, I intend to work with the British Medical Association and others to develop the GP contract in Wales to take a step away from its audit-driven, tick-box approach to quality and to take a step backwards towards professional judgment and a trust-based approach to practice. By moving to a more holistic view of care, rather than care fragmented into ever smaller component parts, I believe that we can free up both time and, more importantly, professional energy to re-gear the system towards primary and preventative services.

Y ffordd orau, yn fy marn i, i'r GIG, llywodraeth leol a'r trydydd sector rannu arbenigedd a helpu i symud adnoddau i ffwrdd oddi wrth ysbytai ac i mewn i wasanaethau cymunedol ar y cyd yn nes at gartrefi pobl yw drwy rwydweithiau ardal newydd bywiog a grymus. Rwyf am i rwydweithiau ardal fod yn fannau lle gwneir penderfyniadau allweddol yn y GIG yng Nghymru. Er mwyn helpu hynny i ddigwydd, rwyf yn bwriadu gweithio gyda Chymdeithas Feddygol Prydain ac eraill i ddatblygu'r contract meddygon teulu yng Nghymru er mwyn cymryd cam oddi wrth yr ymagwedd blwch ticio sy'n seiliedig ar archwilio tuag at ansawdd a chymryd cam yn ôl tuag at farn broffesiynol ac ymagwedd at ymarfer sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth. Drwy symud at ofal mwy cyfannol, yn hytrach na gofal sy'n cael ei rannu'n gydrannau llai byth, credaf y gallwn ryddhau amser ac, yn bwysicach, egni proffesiynol i ailgyfeirio'r system tuag at wasanaethau sylfaenol ac ataliol.

It is because that is an ambition that has proved stubbornly difficult to realise—not just here in Wales—that I intend to introduce a new set of drivers to make locality networks the powerful players that we need them to be. Where networks create new local services that reduce demand in secondary care, a share in the budget impact of such changes will remain with the network, so that it can go on investing in further developments of that sort for the future so that we can recreate a primary care described very recently by Dr Julian Tudor-Hart as characterised by the immense satisfaction of care that is holistic, patient-centred and co-produced in which health is not a commodity traded in the marketplace, but a social gift.

Oherwydd bod hwnnw'n uchelgais sydd wedi bod yn hynod anodd ei wireddu—nid dim ond yma yng Nghymru—rwyf yn bwriadu cyflwyno cyfres newydd o ysgogwyr i wneud rhwydweithiau ardal yn chwaraewyr pwerus fel y mae angen iddynt fod. Lle mae rhwydweithiau'n creu gwasanaethau lleol newydd sy'n lleihau'r galw mewn gofal eilaidd, bydd cyfran o effaith gyllidebol newidiadau o'r fath yn aros gyda'r rhwydwaith, fel y gall barhau i fuddsoddi mewn datblygiadau pellach o'r fath ar gyfer y dyfodol ac fel y gallwn ninnau ail-greu gofal sylfaenol a ddisgrifiwyd yn ddiweddar iawn gan Dr Julian Tudor-Hart fel un a nodweddir gan foddhad enfawr yn sgil gofal sy'n gyfannol, yn canolbwyntio ar y claf ac yn cael ei gydgynhyrchu, lle nad yw iechyd yn nwydd masnachu yn y farchnad, ond yn rhodd gymdeithasol.

In naming the inventor of the inverse care law, I turn now to the second part of today's motion, which draws attention to the role of primary care in addressing health inequalities. Let me begin by saying that the single greatest contribution ever made to addressing health inequalities in this country has been the national health service itself. In the beginning, it was believed that, by itself, the NHS would eradicate health inequalities. We know now that that is not the case. However, as we approach the sixty-fifth birthday of the NHS next week, let us never forget that, before it came into existence, the decision to seek necessary medical help was driven not by need, but by the ability to pay, and not by the severity of your clinical condition, but by the economic circumstances in which you lived.

Wrth enwi dyfeisiwr y ddeddf gofal gwrthgyfartal, trof yn awr at ail ran y cynnig heddiw, sy'n tynnu sylw at rôl gofal sylfaenol o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Gadewch imi ddechrau drwy ddweud mai'r cyfraniad unigol mwyaf a wnaed erioed i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn y wlad hon oedd y gwasanaeth iechyd gwladol ei hun. Ar y dechrau, y gred oedd y byddai'r GIG, ar ei ben ei hun, yn cael gwared ar anghydraddoldebau iechyd. Rydym bellach yn gwybod nad dyna a ddigwyddodd. Fodd bynnag, wrth inni nesáu at ben-blwydd y GIG yn bump a thrigain yr wythnos nesaf, gadewch inni beidio ag anghofio fod y penderfyniad i geisio cymorth meddygol angenrheidiol, cyn y GIG, yn cael ei yrru nid yn ôl angen, ond yn ôl y gallu i dalu, ac nid yn ôl difrifoldeb eich cyflwr clinigol, ond yn ôl yr amgylchiadau economaidd yr oeddech yn byw ynddynt.

Today, the miracle that is the modern NHS means that its services—services at a scale and of a nature that were not even the stuff of dreams in 1948—are still provided not according to the size of your wallet, but the urgency of your clinical need. Whatever its imperfections, for that reason, the NHS surely remains the greatest engine for reducing health inequalities that has ever been invented.

Heddiw, mae gwyrth y GIG modern yn golygu bod ei wasanaethau—gwasanaethau ar raddfa ac o natur nad oedd pobl hyd yn oed yn breuddwyddio amdanynt yn 1948—yn dal i gael eu darparu nid yn ôl maint eich waled, ond yn ôl brys eich angen clinigol. Beth bynnag ei ddiffygion, am y rheswm hwnnw, mae'n dal i fod yn wir mai'r GIG yw'r peiriant mwyaf i leihau anghydraddoldebau iechyd sydd erioed wedi ei ddyfeisio.

Of course, there is more to be done. The refreshed and refocused Communities First programme has a new investment in health workers. There is to be a new inverse care law programme in the Cwm Taf and Aneurin Bevan local health board areas. We will continue to widen the primary healthcare team, including greater use of directly-employed local clinical staff and salaried GPs, to provide the extra flexibility that we need to increase services where need is greatest. We will build on the success of programmes in dentistry and eye care that have already made the most difference where that difference was most needed. We will extend our work with community pharmacies, which have an enduring presence in the most disadvantaged places. We will never, ever fall foul of that pessimism that says that poverty and inequality are inevitable and that government can do nothing to make a difference in the lives of those who rely most of all on the good that good government can bring about. That is the contribution that primary care already makes and can go on making to an ever greater extent in the future. That is the basis on which I move the motion for debate before the Assembly this afternoon.

Wrth gwrs, mae mwy i'w wneud. Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf sydd wedi'i hailwampio a'i haddasu yn buddsoddi o'r newydd mewn gweithwyr iechyd. Bydd rhaglen newydd ar y ddeddf gofal gwrthgyfartal yn ardaloedd byrddau iechyd lleol Cwm Taf ac Aneurin Bevan. Byddwn yn parhau i ehangu'r tîm gofal iechyd sylfaenol, gan gynnwys defnyddio mwy ar staff clinigol lleol a gyflogir yn uniongyrchol a meddygon teulu cyflogedig, er mwyn darparu'r hyblygrwydd ychwanegol y mae ei angen arnom i gynyddu gwasanaethau lle mae'r angen mwyaf. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant rhaglenni mewn deintyddiaeth a gofal llygaid sydd eisoes wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf lle'r oedd angen y gwahaniaeth hwnnw fwyaf. Byddwn yn estyn ein gwaith â fferyllfeydd cymunedol, sydd â phresenoldeb parhaus yn y lleoedd mwyaf difreintiedig. Ni fyddwn byth, byth yn ildio i'r besimistiaeth sy'n dweud bod tlodi ac anghydraddoldeb yn anochel ac na all y llywodraeth wneud dim i wneud gwahaniaeth ym mywydau'r rhai sy'n dibynnu fwyaf ar y daioni y gall llywodraethu da ei wneud. Dyna'r cyfraniad y mae gofal sylfaenol eisoes yn ei wneud ac y gall barhau i'w wneud fwyfwy yn y dyfodol. Ar sail hynny yr wyf yn cynnig y cynnig ar gyfer dadl gerbron y Cynulliad y prynhawn yma.

## 16:19 Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have selected the five amendments to the motion and I call on Darren Millar to move amendment 1, tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dewis y pum gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu wrth gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru ar gyflwyno moratorium ar ddatblygu cynlluniau gofal sylfaenol newydd.*

*Regrets the Welsh Government's recent announcement on the introduction of a moratorium on the development of new primary care schemes.*

## 16:19 Darren Millar Bywgraffiad Biography

I move amendment 1 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliant 1 yn enw William Graham.

I am very pleased to be speaking about primary care, because we know that it is the gateway to our NHS, and it is vital to addressing the health inequalities that the Minister spoke about. I have to confess that I did not really understand what the inverse care law was until preparing for today's debate. I then realised that there was a concern that paying for care was something that led to these huge health inequalities that we see in different parts of the world, and that the establishment of the NHS was designed to overcome the inverse care law. However, we do know that, despite the creation of the national health service, those who live in our most deprived communities are still among those with the worst health outcomes. We know that average life expectancy for people in deprived parts of Wales, compared to those in more affluent parts of the country, differs by 19 years for men and 18 years for women. We know that individuals who live in deprived communities are more likely to smoke and suffer from smoking-related diseases than those in more affluent areas. We also know that obesity tends to be more of a problem, unfortunately, in deprived areas than others. Therefore, we know that we have to do something to sort out this problem and this link and relationship between deprivation and poor health. You will certainly get the support of this party in any actions that you take, Minister, to help overcome those issues.

Rwyf yn falch iawn o fod yn siarad am ofal sylfaenol, gan ein bod yn gwybod mai dyma'r porth i'n GIG, ac mae'n hanfodol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd y siaradodd y Gweinidog amdanynt. Mae'n rhaid imi gyfaddef nad oeddwn mewn gwirionedd yn deall beth oedd y ddeddf gofal gwrthgyfartal hyd nes imi ddechrau paratoi ar gyfer y ddadl hon heddiw. Yna sylweddolais fod pryder fod talu am ofal wedi arwain at yr anghydraddoldebau iechyd mawr hyn a welwn mewn gwahanol rannau o'r byd, ac mai'r bwriad wrth sefydlu'r GIG oedd goresgyn y ddeddf gofal gwrthgyfartal. Fodd bynnag, gwyddom, er gwaethaf creu'r gwasanaeth iechyd gwladol, fod y rhai sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn parhau i fod ymhlith y rhai sydd â'r canlyniadau iechyd gwaethaf. Rydym yn gwybod fod gwahaniaeth yn nisgwyliad oes cyfartalog pobl mewn rhannau difreintiedig o Gymru, o'u cymharu â'r rhai mewn rhannau mwy cefnog o'r wlad, a'r gwahaniaeth hwnnw'n 19 mlynedd i ddynion a 18 mlynedd i fenywod. Rydym yn gwybod bod unigolion sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yn fwy tebygol o ysmygu a dioddef o glefydau sy'n gysylltiedig ag ysmygu na'r rhai mewn ardaloedd mwy cefnog. Rydym hefyd yn gwybod bod gordewdra'n tueddu i fod yn fwy o broblem, yn anffodus, mewn ardaloedd difreintiedig nag mewn ardaloedd eraill. Felly, rydym yn gwybod bod yn rhaid inni wneud rhywbeth i ddatrys y broblem hon a'r cysylltiad a'r berthynas rhwng amddifadedd ac iechyd gwael. Byddwch yn sicr o gael cefnogaeth y blaid hon i unrhyw gamau a gymerwch, Weinidog, i helpu i oresgyn y materion hynny.

We agree wholeheartedly with the principle of making care available as close to people as possible, and that means in their communities, where possible, and through primary care, where possible. However, we know that that is not always going to be achievable. The current state of NHS finances—they will have been cut by over £800 million in real terms by the end of the next financial year—makes it much more difficult for the NHS to be able to develop the suite of services that people in our communities need and indeed deserve. Also, Minister, when you consider the fact that we have a Social Services and Well-being (Wales) Bill on the table, we have to make sure that the money that we spend, whether that is through local government in social services or through the NHS, is available to develop that range of services. When you have budgets under pressure, as they are at the moment in the NHS, there is a penny-pinching mentality among those people who commission services through the primary care sector, which makes it very difficult to prime the pump to develop new services and to get them running alongside those services that might currently exist in secondary care.

Rydym yn cytuno'n llwyr â'r egwyddor o sicrhau bod gofal ar gael mor agos at bobl ag y bo modd, ac mae hynny'n golygu yn eu cymunedau, lle bo modd, a thrwy ofal sylfaenol, lle bo modd. Fodd bynnag, gwyddom nad yw hynny bob amser yn mynd i fod yn bosibl. Mae cyflwr presennol cyllid y GIG—bydd wedi ei dorri dros £800 miliwn mewn termau real erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf—yn ei gwneud yn llawer mwy anodd i'r GIG allu datblygu'r gyfres o wasanaethau sydd eu hangen ar bobl yn ein cymunedau ac yn wir y maent yn eu haeddu. Hefyd, Weinidog, pan ystyriwch fod Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar y bwrdd, mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod yr arian yr ydym yn ei wario, boed hynny drwy lywodraeth leol yn y gwasanaethau cymdeithasol neu drwy'r GIG, ar gael i ddatblygu'r ystod honno o wasanaethau. Pan fo cyllidebau o dan bwysau, fel y maent ar hyn o bryd yn y GIG, mae meddylfryd cybyddlyd ymhlith y bobl hynny sy'n comisiynu gwasanaethau drwy'r sector gofal sylfaenol, sy'n ei gwneud yn anodd iawn ysgogi datblygu gwasanaethau newydd a sicrhau eu bod yn rhedeg ochr yn ochr â'r gwasanaethau hynny a allai fod ar gael ar hyn o bryd mewn gofal eilaidd.

So, while you have waxed lyrical about the opportunities that primary care presents for the future of the NHS, I wonder whether you would put your money where your mouth is when you are around the Cabinet table and search for the extra resources that our precious NHS needs in order to ensure that you can deliver on the words that you have just spoken.

Felly, er eich bod wedi traethu'n huawdl am y cyfleoedd y mae gofal sylfaenol yn eu cyflwyno ar gyfer dyfodol y GIG, tybed a wnewch chi wneud yn ogystal â dweud pan fyddwch o gwmpas bwrdd y Cabinet a chwilio am yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar ein GIG gwerthfawr er mwyn sicrhau eich bod yn gallu rhoi'r hyn yr ydych newydd ei ddweud ar waith.

We will be supporting the amendment that Plaid Cymru has tabled in respect of chronic conditions, amendment 2. We recognise the importance of that amendment. However, you will have seen, Minister, that we have tabled an amendment in relation to the recently-announced moratorium on primary care developments and the potential adverse impact that that will have on the ability of the NHS to deliver the sort of primary care vision that you have spoken about. I would appreciate it if, in your response to today's debate, you could tell us how long you anticipate that that moratorium will continue, and what you will do with the money that you will not spend this year that you would otherwise have spent. Are you going to release that into the front line in order to protect our NHS against the cuts that your Government is imposing? What are you going to do as a result?

Byddwn yn cefnogi'r gwelliant y mae Plaid Cymru wedi'i gyflwyno o ran cyflyrau cronig, sef gwelliant 2. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y gwelliant hwnnw. Fodd bynnag, fe welwch, Weinidog, ein bod wedi cyflwyno gwelliant o ran y moratoriwm a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ddatblygiadau gofal sylfaenol a'r effaith andwyol bosibl y bydd hynny'n ei chael ar allu'r GIG i ddarparu'r math o weledigaeth gofal sylfaenol yr ydych wedi sôn amdani. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech, yn eich ymateb i'r ddadl heddiw, ddweud wrthym am ba hyd yr ydych yn rhagweld y bydd y moratoriwm yn parhau, a beth y byddwch yn ei wneud â'r arian na fyddwch yn ei wario eleni y byddech fel arall wedi'i wario. A ydych yn mynd i'w ryddhau i'r rheng flaen, er mwyn diogelu ein GIG yn erbyn y toriadau y mae eich Llywodraeth yn eu gosod? Beth ydych chi'n mynd i'w wneud o ganlyniad?

To touch on doctor recruitment, we will be supporting the Liberal Democrat amendment 4. We will also be supporting amendment 2, tabled in the name of Elin Jones, in relation to chronic care.

A sôn am recriwtio meddygon, byddwn yn cefnogi gwelliant 4 y Democratiaid Rhyddfrydol. Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones, mewn perthynas â gofal cronig.

You have touched on the issue of dentistry, Minister. There is another important primary care service that is provided by independent providers, namely eye care. Have you had the opportunity, Minister, to look at the opportunities that eye care and opticians around the country offer to be able to provide services that are currently provided only in hospitals, particularly in terms of glaucoma care et cetera?

Rydych wedi crybwyll deintyddiaeth, Weinidog. Mae gwasanaeth gofal sylfaenol pwysig arall sy'n cael ei ddarparu gan ddarparwyr annibynnol, sef gofal llygaid. A ydych wedi cael cyfle, Weinidog, i edrych ar y cyfleoedd y mae gofal llygaid ac optegwyr ledled y wlad yn eu cynnig o ran gallu darparu gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd mewn ysbytai yn unig, yn enwedig o ran gofal glawcoma ac ati?

16:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Conclude with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

16:24

## Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Perhaps you could respond to some of those points in your response to the debate. Thank you.

Efallai y gallech ymateb i rai o'r pwyntiau hynny yn eich ymateb i'r ddadl. Diolch yn fawr.

16:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Elin Jones to move amendments 2 and 3, tabled in her name.

Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn ei henw.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi'r cynnig gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu am dimau o weithwyr meddygol proffesiynol o dan arweiniad meddygon teulu i ddarparu gofal drwy'r dydd a'r nos i rai cleifion sydd â chyflyrau cronig difrifol.*

*Notes the proposal from the Royal College of GPs for GP led teams of medical professionals to provide around the clock care for some patients with severe chronic conditions.*

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod gwasanaeth gofal cymdeithasol effeithiol yn gwneud cyfraniad pwysig at sicrhau bod pobl yn gallu rheoli cyflyrau cronig yn y gymuned ac yn gresynu wrth y rhwystrau artiffisial sy'n parhau rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol.*

*Notes that an effective social care service makes an important contribution to ensuring people can manage chronic conditions in the community and regrets the continuing artificial barriers between Health and Social Care.*

16:25

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiaf welliannau 2 a 3 yn fy enw i.

I move amendments 2 and 3 in my name.

Diolch i'r Llywodraeth am gyflwyno'r ddadl hon heddiw ar rôl gofal sylfaenol, er bod y cynnig sydd o'n blaenau heddiw yn weddol benagored. Rwyf yn cyflwyno'r gwelliannau yn enw Plaid Cymru. Mae ein dau welliant heddiw yn cydnabod y rôl bwysig y gall gofal sylfaenol ei chwarae wrth ofalu am gleifion yn y gymuned. I wneud hynny'n effeithiol, mae angen diddymu'r rhwystrau artiffisial rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd, a chreu gwasanaeth gwbl integredig, sydd â gweithlu integredig a chyllidebau unedig. Mae angen i ofal sylfaenol fod yn ganolog i'r broses honno. Yn wir, gall gofal sylfaenol, meddygon teulu a nyrsys ardal arwain ar y gwaith hwn. Dyna pam yr oedd yn dda gennyf weld Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu yn dweud yn ddiweddar y dylid edrych eto ar rôl meddygon teulu o ran gofalu am rhai cleifion rownd y cloc.

I thank the Government for bringing forward this debate today on the role of primary care, although the motion before us today is relatively open-ended. I present the amendments in the name of Plaid Cymru. Our two amendments today recognise the important role that primary care can play in caring for patients in the community. To do that effectively, we need to bring down the artificial barriers between social care and healthcare, and create an entirely integrated service, with an integrated workforce and merged budgets. Primary care needs to be at the heart of this process. Indeed, primary care, general practitioners and district nurses could lead in this work. That is why I was pleased to see the Royal College of General Practitioners say recently that we should look again at the role of GPs in relation to providing around-the-clock care for some patients.

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Gwyddom fod canran fach o gleifion yn ddefnyddwyr cyson o'r NHS: yr henoed a'r bregus; cleifion diwedd oes; cleifion â chyflyrau cymhleth; a rhai cleifion a phroblemau iechyd meddwl dwys. Yn ddiweddar, dywedodd Dr Clare Gerada, cadeirydd y coleg brenhinol, y dylid ystyried system lle fyddai meddygon teulu'n cymryd cyfrifoldeb am y cleifion cymhleth hyn yn ystod y dydd, y nos a'r penwythnos. Amcangyfrifir bod tua 5% o gleifion yn syrthio i'r categori hwn. Byddai hynny'n lleihau yn sylweddol y baich ar unedau argyfwng yn ein hysbytai, a byddai hefyd yn cael effaith ychwanegol o ran wardiau'n llenwi yn ein hysbytai. Gan fod y coleg brenhinol wedi agor y drws i'r syniad hwn, gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn bachu ar y cyfle i gael trafodaeth ar y mater hwn gyda'r coleg brenhinol a chyda'r BMA. Croesawaf yr hyn a ddywedodd y Gweinidog yn ei gyfraniad heddiw ar edrych eto ac adolygu rhywfaint ar gytundebau meddygon teulu. Credaf ei fod yn symud i'r cyfeiriad yr oedd y coleg brenhinol hefyd yn cyfeirio ato.

We know that a small percentage of patients are regular users of the NHS: the elderly and the vulnerable; those reaching the end of their lives; patients with complex conditions; and some patients with severe mental health problems. Recently, Dr Clare Gerada, the chair of the royal college, said that we should consider a system in which GPs would take responsibility for these complex patients during the day, at night, and on weekends. It is estimated that some 5% of patients would fall into this category. That would significantly reduce the burden on A&E units in our hospitals, and it would also have an additional impact on hospital wards becoming full. As the royal college has opened the door to this idea, I hope that the Minister will grasp the opportunity to discuss this matter with the royal college and the BMA. I welcome what the Minister had to say in his contribution today about looking again at GP contracts and reviewing them to some extent. I think that he is moving in the direction the royal college was also referring to.

Wrth gwrs, wrth inni drafod gofal sylfaenol a meddygon teulu yn fwy benodol, un mater y bydd yn rhaid i'r Gweinidog fynd i'r afael ag ef yw'r angen i recriwtio i'r proffesiwn hwn. Mae un o'r gwelliannau a gyflwynwyd heddiw yn cyfeirio at hynny. Nododd adroddiad Marcus Longley y llynedd y byddai 40% o feddygon teulu yn ardaloedd y Cymoedd yn ymddeol dros y ddegawd nesaf. Gwyddom hefyd fod llefydd gwag ar gyfer hyfforddi meddygon teulu yn ein hysbytai ar hyn o bryd. Mae angen, felly, i'r Gweinidog ymyrryd yn awr a denu meddygon teulu o dan hyfforddiant i'n hysbytai drwy gymhelliad ariannol, o bosibl. Mae angen ystyried hynny ar hyn o bryd er mwyn sicrhau gweithlu meddygol digonol yn yr NHS o fewn y pump i 10 mlynedd nesaf, yn enwedig mewn perthynas â meddygon teulu. Rydym yn mynd i weld meddygon teulu yn ymddeol, a hefyd, o ran y polisïau y cyfeiriwyd atynt gan y Gweinidog heddiw, byddwn yn gweld gwaith y meddygon teulu yn cynyddu o fewn yr NHS. Fel y dywedais, bydd 40 y cant o feddygon teulu yn ymddeol o'r Cymoedd, yn benodol, yn y ddegawd nesaf. Dyna'r union ardaloedd lle mae'r angen am ofal iechyd ar ei lefel uchelaf, gyda lefelau afiechydon ar eu huchelaf hefyd, yn enwedig cyflyrau cronig.

Of course, as we discuss primary care and GPs more specifically, one issue that the Minister will have to tackle is the need to recruit into the profession. One of the amendments tabled today makes reference to that. The Marcus Longley report of last year noted that 40% of GPs in Valleys areas will be retiring over the next decade. We also know that there are unfilled training places for GPs in our hospitals at present. The Minister needs, therefore, to intervene now and attract trainee GPs to our hospitals by providing financial incentives, perhaps. That needs to be considered at present in order to ensure an adequate medical workforce in the NHS in five to 10 years' time, especially in relation to GPs. We are going to see GPs retire, and also, in terms of the policies the Minister referred to today, we will see the work of GPs within the NHS increase. As I said, 40% of GPs in the Valleys, in particular, will retire within the next decade. Those are the very areas where the need for healthcare is at its greatest, with levels of illness at their highest, particularly in relation to chronic conditions.

Felly, yn ogystal ag edrych ar fuddsoddi mewn, a chynllunio, gofal sylfaenol yn yr ardaloedd hyn, mae angen targedu buddsoddiad iechyd cyhoeddus ynddynt, o bosibl drwy gydweithio â rhaglenni fel Cymunedau yn Gyntaf. Oes, mae angen buddsoddi yn yr NHS a gwella gwasanaethau mewn ardaloedd difreintiedig. O bosibl, byddai arbed gwasnaethau argyfwng a mamolaeth yn ysbyty Llantrisant yn gyfraniad at hynny. Byddai penderfyniad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i beidio â chyflwyno cytundebau sero awr ar gyfer gweithwyr gofal hefyd yn gyfraniad at sicrhau hynny. Serch hynny, y flaenoriaeth fawr yw targedu cymorth a rhaglenni iechyd cyhoeddus at wella ansawdd iechyd pobl, drwy eu hannog i roi'r gorau i ysmygu ac i ymgymryd â bywyd a diet iachach. Yn hyn o beth, mae lle eto i ofal sylfaenol arwain ar y materion hyn, ac i drin y person, nid y clefyd yn unig.

Therefore, as well as looking at investment in, and planning, primary care in these areas, we need to target public health investment into these areas, possibly through collaborating with programmes such as Communities First. Yes, we need to invest in the NHS and improve services in disadvantaged areas. Saving maternity and emergency services at Llantrisant hospital might perhaps make a contribution to that. A decision by Rhondda Cynon Taf County Borough Council not to introduce zero-hour contracts for care workers would also contribute to ensuring that. However, the major priority is to target assistance and public health programmes to improve people's quality of health, by encouraging them to stop smoking and to adopt healthier lifestyles and diets. In that regard, there is again a place for primary care to lead on these issues, and to treat the person, not just the disease.

16:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on Kirsty Williams to move amendments 4 and 5, tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod pwysigrwydd recriwtio a chadw meddygon ar gyfer darparu gofal sylfaenol mewn ardaloedd gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro a chyhoeddi nifer y meddygon sy'n cael eu recriwtio drwy'r ymgyrch Gweithio dros Gymru.*

*Recognises the importance of doctor recruitment and retention to the provision of primary care in rural areas and calls on the Welsh Government to monitor and publish the number of doctors recruited through the Work for Wales campaign.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn mynegi pryder am brinder deintyddion y GIG yng Nghymru sy'n derbyn cleifion newydd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad o nifer y bobl nad ydynt yn gallu cael gafael ar ddeintydd y GIG yn eu hardal, i ganfod lle mae problemau lleol yn bodoli.*

*Expresses concern at the lack of NHS dentists in Wales accepting new patients and calls on the Welsh Government to undertake an assessment of the number of people unable to access an NHS dentist in their area, to determine where localised problems exist.*

16:29

## Kirsty Williams [Bywgraffiad] [Biography]

I move amendments 4 and 5 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 4 a 5 yn enw Aled Roberts.

I begin by restating the Welsh Liberal Democrats' support for the primary care sector in all its guises, and by recognising the vast contribution that those professionals make to the health, wellbeing and quality of life of Welsh citizens. I do not disagree with the sentiments expressed by the Minister this afternoon about how he has a vision for primary care services; it is just more important than ever, I believe, that that vision and those sentiments are translated into real action on the ground. It is even more important, because as we have seen from the variety of health reconfiguration plans that have been published to date, we are going to see a drop in the number of in-patient beds in our district general hospitals and a cut in the number of community hospitals, and, therefore, it will be primary healthcare teams in our communities that will be expected to take on the challenge and take up the slack.

Dechreuaf drwy ailddatgan cefnogaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i'r sector gofal sylfaenol yn ei holl ffurfiau, a thrwy gydnabod y cyfraniad enfawr y mae'r gweithwyr proffesiynol hynny'n ei wneud i iechyd, lles ac ansawdd bywyd dinasyddion Cymru. Nid wyf yn anghytuno â'r hyn a ddywedwyd gan y Gweinidog y prynhawn yma ynglŷn â'i weledigaeth ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol; mae'n bwysicach nag erioed, yn fy marn i, fod y weledigaeth honno a'r teimladau hynny'n cael eu troi'n weithredu gwirioneddol ar lawr gwlad. Mae hyd yn oed yn bwysicach, oherwydd fel yr ydym wedi'i weld o'r amryw o gynlluniau ad-drefnu iechyd sydd wedi'u cyhoeddi hyd yma, rydym yn mynd i weld gostyngiad yn nifer y gwelyau i gleifion mewnol yn ein hysbytai dosbarth cyffredinol a gostyngiad yn nifer yr ysbytai cymuned, ac, felly, disgwylir mai timau gofal iechyd sylfaenol yn ein cymunedau fydd yn derbyn yr her ac yn dal y slac yn dynn.

The issue for me, therefore, is this: what steps will the Minister take to achieve that holy grail of health ministers everywhere of how we actually turn the service into a primary care-led service when there is the constant guzzling by the secondary care sector of the resources that are available? It can be done, and I would draw the Minister's attention to the virtual ward initiative in my constituency. Led by local general practitioners, every effort is made to prevent admission to hospital wherever possible, working with the community district nursing teams, working with local authority social services departments—and I agree with the points made by Elin Jones about the integration of health and social services—and working with a range of healthcare professionals, providing care in people's homes, which is where the patient wants to be, and preventing admissions to hospital. Actually, Powys Teaching Local Health Board area is one of the few, if not unique, areas in Wales, where we have seen a drop in the number of admissions to secondary care, because we are managing people at home, rather than GPs simply referring them to hospital.

Fy nghwestiwn i, felly, yw hyn: pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i gyflawni greal sanctaidd gweinidogion iechyd ym mhob man o ran sut yr ydym mewn gwirionedd yn troi'r gwasanaeth yn wasanaeth a arweinir gan ofal sylfaenol pan fo'r sector gofal eilaidd yn llyncu'r adnoddau sydd ar gael o hyd? Mae modd gwneud hynny, a hoffwn dynnu sylw'r Gweinidog at fenter y ward rithwir yn fy etholaeth. Dan arweiniad meddygon teulu lleol, gwneir pob ymdrech i atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty lle bynnag y bo modd, gan weithio gyda'r timau nyrsio ardal cymunedol, gweithio gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol—ac rwyf yn cytuno â'r pwyntiau a wnaed gan Elin Jones ynghylch integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol—a gweithio gydag amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddarparu gofal yng nghartrefi pobl, lle mae'r claf yn dymuno bod, ac atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty. A dweud y gwir, mae ardal Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn un o'r ychydig ardaloedd, os nad yr unig un, yng Nghymru, lle rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y derbyniadau i ofal eilaidd, oherwydd ein bod yn rheoli pobl yn eu cartrefi, yn hytrach na bod meddygon teulu'n eu hatgyfeirio i'r ysbyty.

I would be interested to learn whether such schemes as our virtual ward system would benefit from the new financial regime that the Minister has just outlined and how we could enjoy those repatriated funds so that we could invest even more heavily in our community-based services. Of course, to continue to do that in Brecon and Radnorshire, and across rural Wales, we need to recruit and retain GPs, and I take the point about the ageing population of GPs across Wales. I think that there are particularly acute recruitment problems in rural Wales. Not so long ago, I met the postgraduate dean to try to persuade him of the case for looking at establishing additional postgraduate and post-registration qualifications, to recognise the extra skills that rural GPs often have in managing very complex caseloads. Unfortunately, without leadership from the Minister, I doubt that they would want to take it forward, but I do think that we could recognise those skills.

Byddai gennyf ddiddordeb gwybod a fyddai cynlluniau fel ein system ward rithwir yn elwa o'r drefn ariannol newydd y mae'r Gweinidog newydd ei hamlinellu a sut y gallem fwynhau'r cronfeydd hynny sydd wedi'u hadleoli er mwyn inni allu buddsoddi hyd yn oed yn fwy helaeth yn ein gwasanaethau yn y gymuned. Wrth gwrs, er mwyn parhau i wneud hynny ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, a ledled cefn gwlad Cymru, mae angen inni recriwtio a chadw meddygon teulu, ac rwyf yn derbyn y pwynt bod poblogaeth y meddygon teulu'n heneiddio ledled Cymru. Credaf fod problemau recriwtio'n arbennig o ddifrifol yng nghefn gwlad Cymru. Dro yn ôl, cwrddais â deon yr uwchraddedigion i geisio dwyn perswâd arno fod achos dros edrych ar sefydlu cymwysterau ôl-raddedig ac ôl-gofrestru ychwanegol, i gydnabod y sgiliau ychwanegol sydd gan feddygon teulu gwledig yn aml er mwyn gallu rheoli llwythi achosion cymhleth iawn. Yn anffodus, heb arweiniad gan y Gweinidog, rwyf yn amau a fyddent am fwrw ymlaen â hynny, ond rwyf o'r farn y gallem gydnabod y sgiliau hynny.

I am grateful to the Minister for the continuation of the minimum practice income guarantee. There was a suggestion before Christmas that the MPIG would go; that would have been absolutely devastating to the sustainability of rural practices, and I hope that the Minister will take the opportunity to reiterate his support for the MPIG.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am barhad y warant isafswm incwm practis. Roedd awgrym cyn y Nadolig y byddai'r warant hon yn mynd; byddai hynny wedi bod yn hynod ddinistriol i gynaliadwyedd practisiau gwledig, ac rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn manteisio ar y cyfle i ailddatgan ei gefnogaeth i'r warant isafswm incwm practis.

On the issue of dentistry, you referred to the Liberal Democrat amendments. The number of patients using an NHS dentist in Wales is falling behind that of England, and although the number of people registered with a dentist rose slightly in 2011, we are still below the 2006 figure of 56% of people registered with an NHS dentist. We are now at only 44.9%. Also, there are specific problems in very specific areas in Wales, and I would remind the Minister of his Government's commitment to ensure that everybody who wants access to an NHS dentist has that opportunity. So, I would like to hear from him today exactly how he intends to drive that forward. Dentistry is an important aspect of the primary care team, as is community pharmacy, which, I know, the Government is committed to looking at, to see what we can do to utilise the skills of those professionals, and I would reiterate the comments made by Darren Millar. We have seen a new contract for dentists and a new contract for GPs. We have seen innovative ways of working with community pharmacy, yet our optometrists on the local high street are still working with a very old contract. There are opportunities for keeping people in primary care, and reducing waiting times for secondary care, if we could look at whether there is a new, more modern way of supporting that service.

O ran deintyddiaeth, cyfeiriasoch at welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae nifer y cleifion sy'n defnyddio deintydd y GIG yng Nghymru yn cwympo y tu ôl i Loegr, ac er bod nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru â deintydd wedi codi ychydig yn 2011, rydym yn dal yn is na ffigur 2006 pan oedd 56% o bobl wedi'u cofrestru â deintydd y GIG. Dim ond 44.9% sydd wedi'u cofrestru yn awr. Hefyd, mae problemau penodol mewn ardaloedd penodol iawn yng Nghymru, a byddwn yn atgoffa'r Gweinidog o ymrwymiad ei Lywodraeth i sicrhau bod pawb sy'n dymuno gallu mynd at ddeintydd y GIG yn cael cyfle i wneud hynny. Felly, hoffwn glywed ganddo heddiw yn union sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â hyn. Mae deintyddiaeth yn rhan bwysig o'r tîm gofal sylfaenol, fel y mae fferylliaeth gymunedol, a gwn fod y Llywodraeth wedi ymrwymo i edrych ar hynny, i weld beth y gallwn ei wneud i ddefnyddio sgiliau'r gweithwyr proffesiynol hynny, a byddwn yn ategu sylwadau Darren Millar. Rydym wedi gweld contract newydd ar gyfer deintyddion a chontract newydd ar gyfer meddygon teulu. Rydym wedi gweld ffyrdd arloesol o weithio gyda fferylliaeth gymunedol, ac eto mae ein hoptometryddion ar y stryd fawr leol yn dal i weithio o dan gontract hen iawn. Mae cyfleoedd i gadw pobl mewn gofal sylfaenol, a lleihau amseroedd aros ar gyfer gofal eilaidd, pe gallem edrych i weld a oes ffordd newydd, fwy modern o gefnogi'r gwasanaeth hwnnw.

16:35

## David Rees Bywgraffiad Biography

I will start by thanking the Minister for presenting his vision this afternoon because I think that it is very helpful.

Rwyf am ddechrau drwy ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno ei weledigaeth y prynhawn yma oherwydd rwyf yn meddwl ei bod yn ddefnyddiol iawn.

The relationship between primary care and addressing health inequalities in our poorest and most deprived communities is well documented. However, despite multiple health service reconfigurations in Wales over the years, Julian Tudor Hart's inverse care law, which states that the communities with the greatest need have the poorest access to healthcare and consequently the lowest health outcomes, still remains relevant, over 40 years after it was first coined. I am disappointed but not surprised that Darren Millar did not know about that until this debate was brought to the attention of the Assembly.

Mae'r berthynas rhwng gofal sylfaenol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn ein cymunedau tlotaf a mwyaf difreintiedig wedi ei chofnodi'n dda. Fodd bynnag, er gwaetha'r ffaith i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru gael ei ad-drefnu sawl gwaith dros y blynyddoedd, mae deddf gofal gwrthgyfartal Julian Tudor Hart, sy'n datgan mai yn y cymunedau lle mae'r angen mwyaf y mae hi fwyaf anodd cael gafael ar ofal iechyd, ac mai yno felly y gwelir y canlyniadau iechyd isaf, yn dal i fod yn berthnasol, dros 40 mlynedd ar ôl ei bathu gyntaf. Rwyf yn siomedig ond nid wyf yn synnu nad oedd Darren Millar yn gwybod am hynny hyd nes i'r ddadl hon gael ei dwyn i sylw'r Cynulliad.

Dr Hart was a general practitioner in Glyncorrwg in the Afan valley when he produced that paper in 1971. He saw for himself—as we have seen, and as did my predecessor in the Chamber, Dr Brian Gibbons, who was a practice partner with Dr Hart—the impact that high levels of socioeconomic and physical deprivation can have on a local area, and how life expectancy rates can vary dramatically between communities that are only a few miles apart. Primary care practitioners—from GPs, district nurses and health visitors to pharmacists and community clinic staff—are the local faces of the Welsh NHS; the people on the ground who are the first port of call for NHS service users. Their value in improving the health of local communities—not only in terms of physical illness, but also wider public health and lifestyle choices—cannot be underestimated. Indeed, 90% of all healthcare interventions happen at the primary care level. The knowledge the GPs and community healthcare practitioners have of their local areas and residents is invaluable, and more needs to be done to support local practitioners to provide a more diverse range of services to a greater number of people.

Meddyg teulu yng Nglyncorrwg yng Nghwm Afan oedd Dr Hart pan luniodd y papur hwnnw ym 1971. Gwelodd drosto'i hun—fel yr ydym ninnau wedi gweld, ac fel y gwnaeth fy rhagflaenydd yn y Siambr, Dr Brian Gibbons, a oedd yn bartner practis i Dr Hart—yr effaith y gall lefelau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol a ffisegol ei chael ar ardal leol, a sut y gall cyfraddau disgwyliad oes amrywio'n fawr rhwng cymunedau sydd ond ychydig filltiroedd oddi wrth ei gilydd. Ymarferwyr gofal sylfaenol—o feddygon teulu, nyrsys ardal ac ymwelwyr iechyd i fferyllwyr a staff clinigau cymunedol—yw wynebau lleol y GIG yng Nghymru; y bobl ar lawr gwlad, sef y man cyswllt cyntaf ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau'r GIG. Ni ellir gorbwysleisio eu gwerth o ran gwella iechyd cymunedau lleol—nid yn unig o ran salwch corfforol, ond hefyd o ran iechyd ehangach y cyhoedd a dewisiadau ynghylch ffordd o fyw. Yn wir, mae 90% o'r holl ymyriadau gofal iechyd yn digwydd ar lefel gofal sylfaenol. Mae'r wybodaeth sydd gan feddygon teulu ac ymarferwyr gofal iechyd cymunedol am eu hardaloedd a'r trigolion lleol yn amhrisiadwy, ac mae angen gwneud mwy i gynorthwyo ymarferwyr lleol i ddarparu ystod fwy amrywiol o wasanaethau i fwy o bobl.

A recent Royal College of General Practitioners report into health inequalities in Scotland identified several productive avenues of development with similar applicability to Wales. It highlights the vital role played by the primary care sector in providing a co-ordinated and continuous base from which to develop integrated healthcare provision. That has already been mentioned by Elin Jones. It highlights the need to target NHS resources in times of economic austerity, as well as emphasising the fact that the primary mechanism for GPs to address health inequalities in deprived areas is to increase the volume and quantity of care that they provide. However, health inequalities are not solely, or even primarily, the domain of the NHS. We must look at the wider environmental and socioeconomic determinants—access to leisure and sports facilities, work opportunities, housing and educational needs and improvements to the surrounding environment—in order to address these chronic discrepancies. It is no coincidence that the communities with the lowest life expectancies and difficulties in accessing healthcare are the ones in the most deprived physical environments, with little or no access to local facilities and with high levels of unemployment.

Nododd adroddiad diweddar Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu ar anghydraddoldebau iechyd yn yr Alban nifer o lwybrau datblygu cynhyrchiol y gellid eu defnyddio yn yr un modd yng Nghymru. Mae'n tynnu sylw at rôl hanfodol y sector gofal sylfaenol o ran darparu sylfaen gydlynol a pharhaus ar gyfer datblygu darpariaeth gofal iechyd integredig. Mae Elin Jones eisoes wedi crybwyll hynny. Mae'n tynnu sylw at yr angen i dargedu adnoddau'r GIG mewn cyfnod o gyni economaidd, ac yn pwysleisio mai'r prif fecanwaith i feddygon teulu fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd mewn ardaloedd difreintiedig yw darparu mwy o ofal. Fodd bynnag, nid mater i'r GIG yn unig, nac yn bennaf hyd yn oed, yw anghydraddoldebau iechyd. Mae'n rhaid inni edrych ar y penderfynyddion amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol ehangach—mynediad at gyfleusterau hamdden a chwaraeon, cyfleoedd gwaith, anghenion tai ac addysg, a gwelliannau i'n hamgylchedd—er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondebau cronig hyn. Nid cyd-ddigwyddiad mohoni fod y cymunedau lle mae'r disgwyliad oes isaf a'r anawsterau mwyaf o ran cael gofal iechyd yn byw yn yr amgylcheddau ffisegol mwyaf difreintiedig, gydag ychydig neu ddim mynediad at gyfleusterau lleol a lefelau uchel o ddiweithdra.

We must look holistically at the impact of health inequalities. A much more integrated approach to healthcare provision is required in order to successfully address health inequalities. Given that such inequalities arise due to a myriad of interacting factors, it is logical that our response should be similarly multifaceted, with targeted and joined-up collaboration between the multiple sectors, partners and agencies—not least between the different healthcare bodies. For individuals with complex care needs, a multidisciplinary approach is needed, with GPs in particular playing a vital role in facilitating patients' transitions across organisational boundaries, making the appropriate referrals and guiding patients and carers around the healthcare system.

Rhaid inni edrych mewn ffordd gyfannol ar effaith anghydraddoldebau iechyd. Mae angen dull llawer mwy integredig o ddarparu gofal iechyd er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn llwyddiannus. Gan fod anghydraddoldebau o'r fath yn deillio o fyrdd o ffactorau cysylltiedig, mae'n gwneud synnwyr y dylai ein hymateb fod yr un mor amlochrog, gyda chydweithio cydgysylltiedig wedi'i dargedu rhwng y gwahanol sectorau, partneriaid ac asiantaethau—ac yn arbennig rhwng y gwahanol gyrff gofal iechyd. Ar gyfer unigolion a chanddynt anghenion gofal cymhleth, mae angen dull amlddisgyblaethol, lle mae meddygon teulu'n arbennig yn chwarae rhan hanfodol o ran hwyluso trosglwyddo cleifion ar draws ffiniau sefydliadol, a gwneud yr atgyfeiriadau priodol a thywys cleifion a gofalwyr o gwmpas y system gofal iechyd.

As the health boards conduct their consultation into the proposed reconfiguration of the NHS in Wales, we must ensure that we get it right in terms of access to primary care for the most deprived areas. When acute or trauma emergency services are likely to be situated at fewer sites, local and community provision of primary care becomes increasingly important: not only in these cases, but also in terms of day-to-day living. However, public health also requires preventative approaches and we must ensure that our community facilities incorporate access not only to caring for illness, but also to wellbeing services—for example, dietary and exercise advice—in order to provide local residents with a more rounded range of options.

Wrth i'r byrddau iechyd gynnal eu hymgynghoriad ar yr ad-drefnu arfaethedig ar y GIG yng Nghymru, mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n iawn o ran gallu cael gofal sylfaenol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Ar adeg pan fo'r gwasanaethau brys acíwt neu drawma yn debygol o gael eu lleoli mewn llai o safleoedd, mae darpariaeth gofal sylfaenol leol a chymunedol yn dod yn fwyfwy pwysig: nid yn unig yn yr achosion hyn, ond hefyd yn ein bywydau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae iechyd y cyhoedd hefyd yn gofyn am ddulliau ataliol a rhaid inni sicrhau bod ein cyfleusterau cymunedol yn cynnwys mynediad nid yn unig at ofalu am salwch, ond hefyd at wasanaethau lles—er enghraifft, deiet a chyngor ar ymarfer corff—er mwyn darparu amrywiaeth mwy cyflawn o opsiynau i drigolion lleol.

To this end, it is vital that any reconfiguration of hospital services occurs concurrently with compensatory provision of local community health services, particularly GP out-of-hours provision and the availability of access to local pharmacies. Co-ordination and partnership working is required between GPs, pharmacies and hospitals, as the sharing of information and improving communications between primary care practitioners and hospitals have a vital role to play in contributing to preventing overall service fragmentation. Information technology is critical to this element as well. It is crucial that this central aspect of reconfiguration is not neglected. It is the integration of health and social care services that must continue to be at the forefront of our agenda to ensure that our services are designed in a co-ordinated and collaborative fashion, with the care and wellbeing of the patient and improved patient outcomes at the heart of our focus.

I'r perwyl hwn, mae'n hanfodol bod unrhyw ad-drefnu ar wasanaethau ysbytai yn digwydd law yn llaw â darparu gwasanaethau iechyd cymunedol lleol i gydbwyso hynny, yn enwedig darpariaeth meddygon teulu y tu allan i oriau arferol a sicrhau y gellir cael gafael ar fferyllfeydd lleol. Mae angen cyd-drefnu a gweithio mewn partneriaeth rhwng meddygon teulu, fferyllfeydd ac ysbytai, oherwydd mae rhannu gwybodaeth a gwella cyfathrebu rhwng ymarferwyr gofal sylfaenol ac ysbytai yn hanfodol o ran cyfrannu at atal gwasanaethau'n gyffredinol rhag darnio. Mae technoleg gwybodaeth yn hanfodol i'r elfen hon hefyd. Mae'n hollbwysig peidio ag esgeuluso'r agwedd ganolog hon ar ad-drefnu. Rhaid i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol barhau i fod yn flaenllaw ar ein hagenda er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu cynllunio mewn modd cydlynol a chydweithredol, gyda gofal a lles cleifion a chanlyniadau gwell i gleifion wrth wraidd hynny.

16:40

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

I was interested to hear Darren Millar describe primary care as 'the gateway' to the NHS, because, in my view, primary care is the NHS for most people. That is what they experience, and they hope to never have to experience hospital care. Ninety per cent of people only ever use primary in any one year, but you would not know that from the amount of time and energy that we give to discussing hospital care. For me, the key is to ensure that primary care is as good as possible so that we are all as healthy as possible, because we all want never to have to use hospital care. Sadly, people in poorer communities are much more likely to have to use hospital care, and there are clearly challenges, as Elin Jones has mentioned, in ensuring that we have GPs to go to serve in our poorest communities, given the number of GPs in Valleys communities who are retiring, and the recruitment problems she described. In contrast, there is no problem overall in recruiting GPs. This is one of the more popular areas of medicine, not least because it is family-friendly compared with working in emergency care, for example.

Roedd yn ddiddorol clywed Darren Millar yn disgrifio gofal sylfaenol fel 'porth' i'r GIG, oherwydd, yn fy marn i, gofal sylfaenol yw'r GIG i'r rhan fwyaf o bobl. Dyna'r hyn y maent yn ei brofi, ac maent yn gobeithio na fydd yn rhaid iddynt byth gael gofal mewn ysbyty. Mae naw deg y cant o bobl nad ydynt ond yn defnyddio sylfaenol mewn unrhyw flwyddyn, ond ni fyddech yn gwybod hynny o ystyried faint o amser ac egni yr ydym yn ei roi i drafod gofal mewn ysbytai. I mi, yr hyn sy'n allweddol yw sicrhau bod gofal sylfaenol cystal ag y gall fod er mwyn inni i gyd fod mor iach â phosibl, oherwydd rydym i gyd yn gobeithio na fydd yn rhaid inni byth gael gofal mewn ysbyty. Yn anffodus, mae pobl mewn cymunedau tlotach yn fwy tebygol o lawer o orfod cael gofal mewn ysbyty, ac mae'n amlwg fod heriau, fel y mae Elin Jones wedi crybwyll, o ran sicrhau bod gennym feddygon teulu i fynd i wasanaethu yn ein cymunedau tlotaf, o ystyried nifer y meddygon teulu mewn cymunedau yn y Cymoedd sy'n ymddeol, a'r problemau recriwtio a ddisgrifiodd hi. Ar y llaw arall, nid oes problem yn gyffredinol o ran recriwtio meddygon teulu. Dyma un o feysydd mwyaf poblogaidd meddygaeth, yn arbennig gan ei fod yn ystyriol o deuluoedd o'i gymharu â gweithio mewn gofal brys, er enghraifft.

I do not think that, as Darren described, it is a case of trying to find more money. What we have to do is to try to rebalance the relationship between primary care and hospital care, because hospitals are always the greedy partners who will always want more and always have an infinite list of medicines and interventions that they want to try out. However, there is no more money, so what we have to do is to try to push money back down the pipe and get improved primary care so that there are fewer people needing hospital care.

Nid wyf yn credu mai mater yw hyn, fel y disgrifiodd Darren, o geisio dod o hyd i fwy o arian. Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yw ceisio ailgydbwyso'r berthynas rhwng gofal sylfaenol a gofal ysbyty, gan fod ysbytai bob amser yn bartneriaid barus a fydd bob amser eisiau mwy ac y bydd ganddynt bob amser restr ddiderfyn o feddyginiaethau ac ymyriadau y maent am roi cynnig arnynt. Fodd bynnag, nid oes rhagor o arian, felly'r hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yw ceisio gwthio arian yn ôl i lawr y bibell a chael gwell gofal sylfaenol fel bod llai o bobl ac arnynt angen gofal ysbyty.

I will briefly take your intervention, Darren.

Cymeraf eich ymyriad yn gyflym, Darren

16:42 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Do you accept that taking over £800 million out of the national health service for 3 million people over a period of five years, which is what your Government is doing, will have an impact on all front-line NHS services, including primary care services?

A ydych yn derbyn y bydd cymryd mwy na £800 miliwn allan o'r gwasanaeth iechyd gwladol ar gyfer 3 miliwn o bobl dros gyfnod o bum mlynedd, sef yr hyn y mae eich Llywodraeth yn ei wneud, yn cael effaith ar holl wasanaethau rheng flaen y GIG, gan gynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol ?

16:42 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Funnily enough, I do not accept your figures. You bang on in this way, but I do not accept them at all. The fact is that there is no more money, not least because the UK Government has cut the amount of money coming to us.

Yn rhyfedd iawn, nid wyf yn derbyn eich ffigurau. Rydych yn rhygnu ymlaen am hyn, ond nid wyf yn eu derbyn o gwbl. Y ffaith yw nad oes rhagor o arian, yn rhannol oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi torri'r arian sy'n dod inni.

In the time left to me, I just want to discuss one issue that is central to the way in which we deliver the NHS. That issue is to do with what we eat, and a lack of exercise, which is causing the obesity epidemic, and which, in turn, is fuelling the diabetes epidemic. Sadly, somebody from a poorer community is two and a half times more likely to contract diabetes than somebody from a better-off community. When you are diagnosed with diabetes, it requires a complete change of lifestyle for you and all your family—everything from what you eat to when you eat it to the exercise that you take and what your weight is. I recall the struggle that one of my constituents had to adjust to the new regime and the drugs that he had to take once it was clear that diabetes was the cause of his being unwell. It is easy enough for somebody who is used to the internet, and looking up facts and figures and reading learned journals, to quickly become an expert patient by looking at the best evidence of how to control their diabetes. However, if reading is not something that you are comfortable with, and is not the sort of thing that you usually do, then you are hugely dependent on the diabetes education that is or is not available through your primary care service. The absence of that education is what leads to the complications of diabetes, which then leads to amputations, problems with eyesight and early death. It is absolutely essential that primary care is well geared up to deal with this, because 10% of the population now has diabetes, and we must ensure that everybody knows how to control it if they have it. Also, of course, we want people not to eat adulterated food, and to live a decent, physically active life, so that they then avoid, hopefully, getting diabetes in the first place.

Yn yr amser sydd ar ôl imi, rwyf am drafod un mater sy'n ganolog i'r ffordd yr ydym yn darparu'r GIG. Mae'n ymwneud â'r hyn yr ydym yn ei fwyta, a diffyg ymarfer corff, sy'n achosi'r epidemig gordewdra, sydd, yn ei dro, yn bwydo'r epidemig diabetes. Yn anffodus, mae rhywun o gymuned dlotach ddwywaith a hanner yn fwy tebygol o gael diabetes na rhywun o gymuned fwy cefnog. Pan fyddwch yn cael diagnosis o ddiabetes, mae'n rhaid i chi a'ch teulu newid eich ffordd o fyw'n llwyr—popeth o'r hyn yr ydych yn ei fwyta, pa bryd y byddwch yn ei fwyta, i'r ymarfer corff a wnewch a beth yw eich pwysau. Cofiaf y frwydr a gafodd un o'm hetholwyr o ran addasu i'r drefn newydd a'r cyffuriau y bu'n rhaid iddo eu cymryd unwaith y daeth i'r amlwg mai diabetes oedd y rheswm dros ei salwch. Mae'n ddigon hawdd i rywun sydd wedi arfer â'r rhyngrwyd, ac edrych am ffeithiau a ffigurau a darllen cylchgronau dysgedig, ddod yn glaf arbenigol yn gyflym iawn drwy edrych ar y dystiolaeth orau ynghylch sut i reoli ei diabetes. Fodd bynnag, os nad yw darllen yn rhywbeth yr ydych yn gyfforddus ag ef, ac nad dyma'r math o beth yr ydych yn ei wneud fel arfer, yna rydych yn ddibynnol iawn ar yr addysg diabetes sydd ar gael neu nad yw ar gael drwy eich gwasanaeth gofal sylfaenol. Absenoldeb yr addysg honno sy'n arwain at gymhlethdodau diabetes, sydd wedyn yn arwain at dorri aelod o'r corff, problemau gyda'r golwg a marw'n gynnar. Mae'n hollbwysig bod gofal sylfaenol yn gwbl gymwys i ddelio â hyn, oherwydd mae diabetes bellach ar 10% o'r boblogaeth, a rhaid inni sicrhau bod pawb yn gwybod sut i'w reoli os yw arnynt. Hefyd, wrth gwrs, rydym am i bobl beidio â bwyta bwyd wedi'i ddifwyno, a byw bywyd da, â digon o ymarfer corff, er mwyn iddynt allu osgoi, gobeithio, cael diabetes yn y lle cyntaf.

16:45 **William Graham** Bywgraffiad Biography

The inverse care law is the principle that the availability of good medical or social care tends to vary inversely with the need of the population served. In the United Kingdom, with its tradition of universal coverage through the NHS, distribution of general practitioners appears to be based on local population size rather than on the need of that population. The most prevalent example of this, sadly, is in Wales.

Y ddeddf gofal gwrthgyfartal yw'r egwyddor bod y gofal meddygol neu gymdeithasol da sydd ar gael yn tueddu i amrywio yn wrthgyfartal ag anghenion y boblogaeth a wasanaethir. Yn y Deyrnas Unedig, a'i thraddodiad o ddarpariaeth i bawb ledled y GIG, ymddengys fod dosbarthiad meddygon teulu'n seiliedig ar faint y boblogaeth leol yn hytrach nag ar angen y boblogaeth honno. Mae'r enghraifft fwyaf cyffredin o hyn, yn anffodus, yng Nghymru.

The news that, under Labour, one in eight people in Wales are on an NHS waiting list is quite astonishing. No-one deserves to be put through needlessly long waits. Vulnerable people in particular are still suffering the painful effects of this enduring problem. Waits of over 12 hours in accident and emergency departments are sadly not uncommon. More multimorbidity in deprived areas means that patients die younger, that they are ill for longer before they die and that they and their families present more complex problems to general practitioners and primary care teams.

Mae'r newyddion, o dan Lafur, fod un o bob wyth o bobl yng Nghymru ar restr aros y GIG yn eithaf rhyfeddol. Does neb yn haeddu gorfod aros yn hir yn ddiangen. Mae pobl sy'n agored i niwed yn arbennig yn dal i ddioddef effeithiau poenus y broblem barhaus hon. Yn anffodus, nid yw'n anarferol i bobl orfod aros dros 12 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae mwy o amlforbidrwydd mewn ardaloedd difreintiedig yn golygu bod cleifion yn marw'n iau, eu bod yn sâl yn hwy cyn marw a'u bod hwy a'u teuluoedd yn dod at feddygon teulu a thimau gofal sylfaenol â phroblemau mwy cymhleth.

Primary care in these areas is, in turn, relatively understaffed, under-resourced and less able to deal with patients' needs. Secondary care manages emergencies, but emergency services are a poor, inefficient substitute for the personalised integrity of the primary care that patients with comorbidity need. Healthcare itself becomes a social determinant of health, and it falls short of meeting the need of the most ill of patients.

Mae gofal sylfaenol yn yr ardaloedd hyn, yn ei dro, yn gymharol brin o staff, heb ddigon o adnoddau ac yn llai abl i ymdrin ag anghenion cleifion. Mae gofal eilaidd yn rheoli argyfyngau, ond mae'r gwasanaethau brys yn ail gwael, aneffeithlon i uniondeb personol y gofal sylfaenol sydd ei angen ar gleifion ag anghenion cydforbidrwydd. Mae gofal iechyd ei hun yn dod yn benderfynydd cymdeithasol ar gyfer iechyd, ac nid yw'n bodloni anghenion y cleifion mwyaf sâl.

Current planned changes to primary care in the NHS in Wales herald a worsening of the manifestations of the inverse care law by distributing resources solely on the basis of age. Such changes effectively take money away from practices in deprived areas, where fewer people survive into old age but where younger patients have a higher burden of disease. Much of this problem can be attributed to the current GP contract. Perhaps the Minister will inform us, in his reply, of how he is making progress with access to weekend and evening surgeries, particularly as the British Medical Association said in its conference recently that it requires premium rates at weekends.

Yn sgil y newidiadau arfaethedig i ofal sylfaenol yn y GIG yng Nghymru mae'n argoeli y bydd y ddeddf gofal gwrthgyfartal yn ei hamlygu ei hun yn waeth drwy ddosbarthu adnoddau ar sail oedran yn unig. Mae newidiadau o'r fath i bob pwrpas yn cymryd arian oddi wrth bractisiau mewn ardaloedd difreintiedig, lle mae llai o bobl yn byw i fod yn hen, ond lle mae baich clefydau'n drymach ymhlith y cleifion iau. Gellir priodoli llawer o'r problemau hyn i'r contract meddygon teulu cyfredol. Efallai y gall y Gweinidog roi gwybod inni, yn ei ateb, sut y mae'n symud yn ei flaen o ran sicrhau bod meddygfeydd ar agor ar benwythnosau a gyda'r nos, yn enwedig gan fod Cymdeithas Feddygol Prydain wedi dweud yn ei chynhadledd yn ddiweddar ei bod yn mynnu cyfraddau premiwm ar benwythnosau.

Inequalities in health are more than a technical or academic issue. They are differences that greatly affect a person's life—how long a person lives or the age at which someone contracts a condition that impacts on their quality of life. Inequality is the result of many factors—poverty, geographic location, culture and lifestyles. We cannot change some of these things, such as the genetic material that we inherit, our age and gender, but many of the differences in health that we see between different parts of our society are avoidable.

Mae anghydraddoldebau mewn iechyd yn fwy na dim ond mater technegol neu academaidd. Maent yn wahaniaethau sy'n effeithio'n fawr ar fywydau pobl—am ba hyd y mae rhywun yn byw neu'r oedran pan fo rhywun yn cael cyflwr sy'n effeithio ar ansawdd ei fywyd. Mae anghydraddoldeb yn ganlyniad i nifer o ffactorau—tlodi, lleoliad daearyddol, diwylliant a ffyrdd o fyw. Ni allwn newid rhai o'r pethau hyn, fel y deunydd genetig a etifeddwn, ein hoedran a'n rhyw, ond mae llawer o'r gwahaniaethau mewn iechyd a welwn rhwng gwahanol rannau o'n cymdeithas yn rhai y gellir eu hosgoi.

We must take positive action in favour of deprived places and people to meet their needs, working at a scale that is intensely proportionate to the level of disadvantage. We need to work with communities, and the development of community pharmacy is an integral part of Welsh Conservative policy. We need to develop health assets, and ensure that interventions are suitable for their contexts and are properly evaluated with outcomes noted. We must address inequity throughout the life course, prioritising early-years interventions.

Mae'n rhaid inni gymryd camau cadarnhaol dros fannau a phobl difreintiedig er mwyn bodloni eu hanghenion, a gweithio ar raddfa sy'n hynod gymesur â lefel yr anfantais. Mae angen inni weithio gyda chymunedau, ac mae datblygu fferylliaeth gymunedol yn rhan annatod o bolisi Ceidwadwyr Cymru. Mae angen inni ddatblygu asedau iechyd, a sicrhau bod ymyriadau'n addas ar gyfer eu cyd-destun ac yn cael eu gwerthuso'n briodol a'r canlyniadau'n cael eu nodi. Rhaid inni fynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy gydol cwrs bywyd, gan flaenoriaethu ymyriadau'r blynyddoedd cynnar.

The Minister has stated that we

Mae'r Gweinidog wedi datgan bod

'need to develop new models of care to enable services to be delivered within the community, closer to people's homes. Evidence indicates a strong primary and community led NHS can deliver better health outcomes and greater equity in health'.

angen inni ddatblygu modelau newydd o ofal er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn y gymuned, yn agosach at gartrefi pobl. Mae tystiolaeth yn dangos y gall y GIG dan arweiniad sylfaenol a chymunedol cryf ddarparu gwell canlyniadau iechyd a mwy o degwch ym maes iechyd.

He went on to say,

Aeth ymlaen i ddweud,

'I am, therefore, looking to improve the pace and scale of transformation of primary and community services and to focus on integration with secondary care and with social care. We need to move away from predominantly reactive illness based hospital services, to a service based upon prevention and early intervention, with proactive, integrated care within local communities'.

Felly, rwyf yn ceisio trawsnewid gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn gynt ac ar raddfa fwy a chanolbwyntio ar integreiddio â gofal eilaidd a gofal cymdeithasol. Mae angen inni symud oddi wrth wasanaethau mewn ysbytai sy'n adweithio i salwch yn bennaf, at wasanaeth yn seiliedig ar atal ac ymyrryd yn gynnar, gyda gofal rhagweithiol, integredig mewn cymunedau lleol.

We fully agree, but the announcement that there will be a moratorium on the development of new primary care schemes comes as yet another disappointment.

Rydym yn cytuno'n llwyr, ond mae'r cyhoeddiad y bydd moratoriwm ar ddatblygu cynlluniau gofal sylfaenol newydd yn siom arall.

Various Welsh Government strategy documents make reference to inequalities in health behaviours and the impact on our health and wellbeing, particularly for more disadvantaged groups. The 2009 Welsh Government publication 'Our Healthy Future', sets out the agenda for public health to 2020. A key action of 'Our Healthy Future' was to develop a strategic action plan on reducing inequalities in health. It appears that this agenda has, sadly for the people of Wales, been much delayed.

Mae amryw o ddogfennau strategaeth Llywodraeth Cymru'n cyfeirio at anghydraddoldebau mewn ymddygiad iechyd a'r effaith ar ein hiechyd a'n lles, yn enwedig ar gyfer grwpiau mwy difreintiedig. Mae cyhoeddiad 2009 Llywodraeth Cymru 'Ein Dyfodol Iach' yn pennu'r agenda ar gyfer iechyd y cyhoedd hyd at 2020. Un o gamau gweithredu allweddol 'Ein Dyfodol Iach' oedd datblygu cynllun gweithredu strategol ar leihau anghydraddoldebau ym maes iechyd. Mae'n ymddangos, yn anffodus i bobl Cymru, y bu cryn dipyn o oedi â'r agenda honno.

16:49 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I am very pleased that we are having this debate on public health, because we spend a lot of time debating waiting times for ambulances, waiting times in A&E and hospital reconfiguration, as the Minister has said. All of these things are very important issues, but a lot of them would be different if we were able to put a much greater emphasis on primary and preventative care, where the bulk of health gain is. On the whole, gains in health will not be achieved by the reductions in waiting lists. Those issues, on the whole, will be tackling ill health. Gains in health will be achieved by promoting, for example, reduced salt and fat in diets, trying to bring down smoking and encouraging exercise. These things are quite hard to get up high on the public agenda when there is a constant clamour about the issues that are mainly in secondary care. As the Minister said, it is stubbornly difficult to turn the ship around and to get the emphasis there right at the beginning, because that is the NHS; it is like turning a liner around.

Rwyf yn falch iawn ein bod yn cael y ddadl hon ar iechyd y cyhoedd, oherwydd rydym yn treulio llawer o amser yn trafod amseroedd aros am ambiwlansys, amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac ad-drefnu ysbytai, fel y dywedodd y Gweinidog. Mae pob un o'r rhain yn faterion pwysig iawn, ond byddai llawer ohonynt yn wahanol pe byddem yn gallu rhoi llawer mwy o bwyslais ar ofal sylfaenol ac ataliol, lle mae'r rhan fwyaf o'r enillion o ran iechyd. Ar y cyfan, ni fydd cwtogi rhestrau aros yn dod ag enillion o ran iechyd. Bydd y materion hynny, at ei gilydd, yn mynd i'r afael ag iechyd gwael. Ceir enillion ym maes iechyd drwy hyrwyddo, er enghraifft, llai o halen a braster mewn deiet, ceisio lleihau ysmygu ac annog ymarfer corff. Mae'n eithaf anodd rhoi'r pethau hyn yn uchel ar yr agenda gyhoeddus pan fo llawer o sŵn am y materion sy'n ymwneud yn bennaf â gofal eilaidd. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae'n hynod anodd troi'r llong a sicrhau bod y pwyslais yno ar y dechrau un, oherwydd dyna'r GIG; mae'n debyg i droi llong fawr o gwmpas.

We all know how important exercise is, for example, and exercise can now be prescribed by GPs, by giving access to a gym by means of a prescription. That is very welcome. However, we want exercise to be built into our everyday lives, especially for children. Therefore, I was very pleased that the working party, under Tanni Grey-Thomson, recommended that physical exercise should be equal in the curriculum to subjects such as maths, English, science and Welsh. I entirely support that, and this was a significant report that was presented yesterday, because exercise at a young age is important and, in fact, the younger the better.

Rydym i gyd yn gwybod pa mor bwysig yw ymarfer corff, er enghraifft; gall ymarfer corff bellach gael ei ragnodi gan feddygon teulu, a gallwch fynd i'r gampfa drwy bresgripsiwn. Mae hynny i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, rydym am i ymarfer corff fod yn rhan annatod o'n bywydau bob dydd, yn enwedig i blant. Felly, roeddwn yn falch iawn bod y gweithgor, o dan Tanni Grey-Thomson, wedi argymell y dylai ymarfer corff fod yn gyfartal yn y cwricwlwm â phynciau fel mathemateg, Saesneg, gwyddoniaeth a Chymraeg. Rwyf yn cefnogi hynny'n llwyr, ac roedd yr adroddiad a gyflwynwyd ddoe'n un pwysig, oherwydd mae'n bwysig gwneud ymarfer corff yn ifanc ac, yn wir, gorau po ieuengaf.

The most important place to work preventatively to try to change the inverse care law is with pregnant women, with advice to the mother and father, especially when the families are struggling financially. That would probably be the biggest investment we could make in the health of the nation for the future. Antenatal care, as we all know, has a huge impact on the life chances of our children. We should therefore put our maximum effort during the pregnancy of the mother, particularly in preparing for breastfeeding and in encouraging and helping with breastfeeding when the baby is born. That would involve a lot of primary care health professionals—health visitors, antenatal classes, GPs and practice nurses—concentrating on families from socioeconomic groups where they are struggling, in urban working-class areas, for example. The rate of breastfeeding has been very slow to improve, and it is worse among young mothers from poorer socioeconomic backgrounds. In Wales, the exclusive breastfeeding rate in 2010 at birth was 71%, but it went down to 17% by six weeks. That shows that mothers start off wanting to breastfeed because they know it is the best thing, and yet the figure went down by a staggering amount to 17%. There are places from which we can learn more about this. The rest of Europe has a much better rate, with almost all babies born in Norway, Denmark and Sweden being breastfed for longer periods. Therefore, we must make breastfeeding more normal and something that is not to be hidden away.

Y ffordd bwysicaf o wneud gwaith ataliol i geisio newid y ddeddf gofal gwrthgyfartal yw gweithio gyda merched beichiog, a rhoi cyngor i'r fam a'r tad, yn enwedig pan fydd y teuluoedd yn cael trafferthion ariannol. Mae'n debyg mai dyna'r buddsoddiad mwyaf y gallem ei wneud yn iechyd y genedl at y dyfodol. Mae gofal cyn geni, fel y gŵyr pob un ohonom, yn cael effaith aruthrol ar gyfleoedd bywyd ein plant. Dylem felly wneud ein hymdrechion mwyaf yn ystod beichiogrwydd y fam, yn enwedig drwy baratoi ar gyfer bwydo ar y fron ac annog a helpu'r fam i fwydo ar y fron ar ôl geni'r baban. Byddai hynny'n golygu bod llawer o weithwyr iechyd proffesiynol ym maes gofal sylfaenol—ymwelwyr iechyd, dosbarthiadau cyn geni, meddygon teulu a nyrsys practis—yn canolbwyntio ar deuluoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol lle maent yn ei chael yn anodd, mewn ardaloedd dosbarth gweithiol trefol, er enghraifft. Mae'r gyfradd bwydo ar y fron wedi bod yn araf iawn yn codi, ac mae'n is ymysg mamau ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach. Yng Nghymru, roedd 71% o famau'n bwydo ar y fron yn unig adeg geni'r baban yn 2010, ond roedd hynny'n cwympo i 17% ar ôl chwe wythnos. Mae hynny'n dangos bod mamau'n awyddus i fwydo ar y fron ar y dechrau am eu bod yn gwybod mai dyna sydd orau, ac eto cwympodd y ffigur hwnnw'n syfrdanol i 17%. Mae lleoedd ble y gallwn ddysgu mwy am hyn. Mae'r gyfradd yn well o lawer yng ngweddill Ewrop, ac mae bron pob baban sy'n cael ei eni yn Norwy, Denmarc a Sweden yn cael eu bwydo ar y fron am gyfnodau hwy. Felly, mae'n rhaid inni wneud bwydo ar y fron yn fwy normal ac yn rhywbeth nad yw'n cael ei guddio.

On that inverse care law, breastfeeding is most common among mothers aged 30 or over, who have left education aged over 18 and those in managerial and professional positions. They are the women who breastfeed: the women who are the more privileged in society, and it is often the younger women who are struggling who give up breastfeeding. Therefore, if we could get in there and put a lot of resources there, that would give the best life chances possible for those babies when they grow up. I am very glad that the Assembly is part of the breastfeeding-friendly initiative, which encourages mothers to breastfeed in cafes and public areas. I am pleased that we are doing that in this Assembly, but we know that, in the wider public sense, there is a long way to go.

O ran y ddeddf gofal gwrthgyfartal, mae bwydo ar y fron yn digwydd fwyaf ymysg mamau 30 mlwydd oed neu drosodd, a adawodd addysg yn hŷn na 18 oed, a'r rhai mewn swyddi rheoli a phroffesiynol. Y rhain yw'r menywod sy'n bwydo ar y fron: y menywod sydd fwyaf breintiedig mewn cymdeithas, ac yn aml y menywod iau sy'n ei chael yn anodd sy'n rhoi'r gorau i fwydo ar y fron. Felly, pe gallem fynd i mewn yno a neilltuo llawer o adnoddau yno, byddai hynny'n rhoi'r cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd i'r babanod hynny pan fyddant yn tyfu i fyny. Rwyf yn falch iawn fod y Cynulliad yn rhan o'r fenter sy'n croesawu bwydo ar y fron, sy'n annog mamau i fwydo ar y fron mewn caffis a mannau cyhoeddus. Rwyf yn falch ein bod yn gwneud hynny yn y Cynulliad hwn, ond rydym yn gwybod, yn yr ystyr gyhoeddus ehangach, fod cryn dipyn o ffordd i fynd.

As well as the issue of breastfeeding, there is the issue of smoking. Great progress has been made in that area with a ban on smoking in public places and the smoking cessation programmes, but, again, there is a long way to go. If we can put even more effort into trying to stop smoking, particularly among pregnant mothers, we will get to a position where we will improve the health gains. Therefore, I know, in a way, to say that all of the effort has to be put into pregnancy, is restrictive when you think of everything that happens after—

Yn ogystal â bwydo ar y fron, mae angen rhoi sylw i ysmygu hefyd. Bu cynnydd mawr yn y maes hwnnw gyda gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a'r rhaglenni rhoi'r gorau i ysmygu, ond, unwaith eto, mae cryn dipyn o ffordd i fynd. Os gallwn roi hyd yn oed mwy o ymdrech i geisio rhoi terfyn ar ysmygu, yn enwedig ymhlith mamau beichiog, byddwn mewn sefyllfa lle byddwn yn gwella'r enillion o ran iechyd. Felly, gwn, mewn ffordd, fod dweud bod yn rhaid rhoi'r holl ymdrech i mewn i feichiogrwydd yn ein cyfyngu pan fyddwch yn meddwl am bopeth sy'n digwydd ar ôl—

16:54
## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Finish with this please.

Gorffennwch gyda hyn os gwelwch yn dda.

16:54
## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

However, that is where the maximum gain will come.

Fodd bynnag, dyna o ble daw'r enillion mwyaf.

16:54
## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for bringing forward this debate. It is a very timely debate, because health inequalities can have a corrosive effect on not just individual lives, but whole communities. It is obviously bad for individuals, because we know that the poorest groups in society are often the least likely to take a proactive approach to seeking health services. I was interested in the work that has been done by a group of GPs involved in the Deep End project in Scotland. The group defined the problem as the 'unworried unwell'—that is, those who not only avoid health contacts but have no health indications that they may need healthcare intervention. Reading through the different cases in Scotland, I was reminded of similar cases in my constituency. Patients in such communities often have multiple chronic diseases and significant health and other needs.

Diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r ddadl hon. Mae'n ddadl amserol iawn, oherwydd gall anghydraddoldebau iechyd gael effaith andwyol nid yn unig ar fywydau unigolion, ond ar gymunedau cyfan. Mae'n amlwg yn ddrwg i unigolion, oherwydd rydym yn gwybod mai'r grwpiau tlotaf mewn cymdeithas sydd leiaf tebygol yn aml o fynd ati'n rhagweithiol i chwilio am wasanaethau iechyd. Roedd gennyf ddiddordeb yn y gwaith sydd wedi ei wneud gan grŵp o feddygon teulu sy'n rhan o'r prosiect Deep End yn yr Alban. Mae'r grŵp yn diffinio'r broblem fel yr 'anhwylus dibryder'—hynny yw, y rhai sydd nid yn unig yn osgoi cysylltiadau iechyd, ond nad oes arwyddion iechyd y gallai fod angen ymyrraeth gofal iechyd arnynt. O ddarllen drwy'r gwahanol achosion yn yr Alban, fe'm hatgoffwyd o achosion tebyg yn fy etholaeth i. Mae gan gleifion mewn cymunedau o'r fath yn aml glefydau cronig lluosog ac anghenion iechyd arwyddocaol ac anghenion eraill.

We know that the role of primary care is vital and, in particular, general practice has a significant part to play in tackling health inequalities. I suppose that I had better put on record the fact that I am married to a GP. The Royal College of General Practitioners has acknowledged that

Rydym yn gwybod bod rôl gofal sylfaenol yn hanfodol ac, yn benodol, mae gan bractis cyffredinol ran fawr i'w chwarae o safbwynt mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae'n debyg y byddai'n well imi gofnodi fy mod yn briod â meddyg teulu. Mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol wedi cydnabod

‘With unrivalled access to the heart of communities, we can influence the health inequalities agenda as practitioners, commissioners and community leaders.’

Y gallwn, am ein bod yn gallu mynd yn well na neb arall i galon cymunedau, ddylanwadu ar yr agenda anghydraddoldebau iechyd fel ymarferwyr, comisiynwyr ac arweinwyr cymunedol.

It has also said that

Mae hefyd wedi dweud

‘Health inequalities are not just about health. They arise from a myriad of wider determinants of health, some of which lie within the remit of the GP.’

Nid mater o iechyd yn unig yw anghydraddoldebau iechyd. Maent yn deillio o fyrdd o benderfynyddion iechyd ehangach, rhai ohonynt o fewn cylch gwaith y meddyg teulu.

Therefore, once again, we know that there is huge potential there.

Felly, unwaith eto, rydym yn gwybod bod potensial aruthrol yno.

I want to pay tribute to the Welsh Labour Government because, since the start of devolution, it has remained true to ensuring that tackling health inequalities remains central to the political agenda. I will give you some examples of that. We have talked a lot about retiring GPs and, for many years in areas like mine, we had real difficulty attracting GPs. However, there are currently, in the Cwm Taf Local Health Board area, 30 salaried GPs, directly employed by Cwm Taf. There is a problem, Minister, as you know, with the out-of-hours services and there is an issue about attracting enough GPs to that. However, I know that that is something that you are aware of.

Hoffwn dalu teyrnged i Lywodraeth Lafur Cymru oherwydd, ers dechrau datganoli, mae wedi aros yn driw i sicrhau bod mynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn parhau i fod yn ganolog i’r agenda wleidyddol. Rhoddaf rai enghreifftiau ichi o hynny. Rydym wedi sôn llawer am feddygon teulu sy’n ymddeol ac, am flynyddoedd lawer mewn ardaloedd fel fy ardal i, roedd yn anodd iawn denu meddygon teulu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, mae 30 o feddygon teulu cyflogedig, yn cael eu cyflogi’n uniongyrchol gan Gwm Taf. Mae problem, Weinidog, fel y gwyddoch, â’r gwasanaethau y tu allan i oriau arferol ac mae problem o ran denu digon o feddygon teulu i hynny. Fodd bynnag, gwn eich bod yn ymwybodol o hynny.

In my area, we have also seen the new hospital, which is offering modern services. The interesting thing about the new hospital is that, for the first time ever, we have a state-of-the-art dental unit, which is bringing dental students from the Heath hospital to train in my area. Once again, this is attracting patients who have not been on a dental list before. Therefore, there is some very good and innovative work being done there.

Yn fy ardal i, cawsom hefyd ysbyty newydd, sy’n cynnig gwasanaethau modern. Yr hyn sy’n ddiddorol am yr ysbyty newydd yw bod gennym, am y tro cyntaf erioed, uned ddeintyddol o’r radd flaenaf, sy’n dod â myfyrwyr deintyddol o’r Ysbyty Athrofaol i hyfforddi yn fy ardal i. Unwaith eto, mae hyn yn denu cleifion nad ydynt wedi bod ar restr ddeintyddol o’r blaen. Felly, mae rhywfaint o waith da ac arloesol iawn yn cael ei wneud yno.

There are some new surgeries in my constituency. I know that, in Merthyr, there is the Keir Hardie Health Park, which the previous Minister for health, Lesley Griffiths, opened. She was quoted as saying that this would help to turn the inverse care law on its head. Therefore, once again, this is real progress. However, we are in the middle of difficult times. The important thing is that we maintain momentum. There will be things that are at risk, because they will be seen as luxury items, if you like, but these are very important things in relation to which we need to keep up the momentum.

Mae rhai meddygfeydd newydd yn fy etholaeth. Gwn, ym Merthyr, am Barc Iechyd Keir Hardie, a agorwyd gan y Gweinidog iechyd blaenorol, Lesley Griffiths. Cafodd ei dyfynnu’n dweud y byddai hyn yn helpu i droi’r ddeddf gofal gwrthgyfartal ar ei phen. Felly, unwaith eto, mae hyn yn gynnydd gwirioneddol. Ond mae hwn yn gyfnod anodd. Yr hyn sy’n bwysig yw ein bod yn cynnal y momentwm. Bydd rhai pethau mewn perygl, oherwydd byddant yn cael eu hystyried yn eitemau moethus, fel petai, ond mae’r rhain yn bethau pwysig iawn y mae angen inni gynnal y momentwm ynglŷn â hwy.

These things will require partnership working, and I want to mention a few examples where there are gaps and where things may be at risk. If we do not fill the gaps, there could be long-term repercussions for the future of people’s health if we do not monitor that.

Bydd angen gweithio mewn partneriaeth yn hyn o beth, a hoffwn sôn am rai enghreifftiau lle mae bylchau a lle y gallai pethau fod mewn perygl. Oni fyddwn yn llenwi’r bylchau, gallai fod ôl-effeithiau hir-dymor ar ddyfodol iechyd pobl os nad ydym yn monitro hynny.

Julie Morgan has mentioned breastfeeding. We know the huge benefits breastfeeding provides for babies. However, in the Merthyr area served by the Prince Charles Hospital, the number of those breastfeeding stands at only 38.6%, whereas in the Llantrisant area served by the Royal Glamorgan Hospital, the figure is 59.1%. Therefore, within health board areas, there is a big discrepancy.

Mae Julie Morgan wedi sôn am fwydo ar y fron. Rydym yn gwybod am fanteision enfawr bwydo ar y fron i fabanod. Fodd bynnag, yn ardal Merthyr a wasanaethir gan Ysbyty’r Tywysog Siarl, dim ond 38.6% sy’n bwydo ar y fron, ond yn ardal Llantrisant a wasanaethir gan Ysbyty Brenhinol Morgannwg, mae’r ffigur yn 59.1%. Felly, o fewn ardaloedd y byrddau iechyd, ceir anghysondeb mawr.

Jenny Rathbone has talked about diabetes care. In my constituency, we are 5% higher than the Welsh average. Therefore, that is a real issue for areas like mine.

Mae Jenny Rathbone wedi sôn am ofal diabetes. Yn fy etholaeth i, rydym 5% yn uwch na chyfartaledd Cymru. Felly, mae hon yn broblem wirioneddol i ardaloedd fel fy un i.

As the recession bites, and it is biting, it is likely that people will try to ease their stress—and we have talked a lot about wellbeing—whether through binge-eating or alcohol. That is something that affects everybody, but this is a big problem in our communities, and alcoholism remains a big problem. Some 1,000 people die in Wales each year as a result of it.

Wrth i'r dirwasgiad frathu, ac mae yn brathu, mae'n debyg y bydd pobl yn ceisio lleddfu eu straen—ac rydym wedi siarad llawer am les—boed hynny drwy orfwyta mewn pyliau neu ag alcohol. Mae hynny'n rhywbeth sy'n effeithio ar bawb, ond mae hon yn broblem fawr yn ein cymunedau, ac mae alcoholiaeth yn dal i fod yn broblem fawr. Mae tua 1,000 o bobl yn marw yng Nghymru bob blwyddyn o ganlyniad i hyn.

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

You must finish with this, please.

Mae'n rhaid ichi orffen ar hyn, os gwelwch yn dda.

17:00 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

One of the worst aspects of the bedroom tax is the expectation—

Un o agweddau gwaethaf y dreth ystafell wely yw'r disgwyliad—

17:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Okay, thank you. I call on the Minister to reply.

Iawn, diolch. Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

17:00 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I will begin by addressing the amendments tabled to the motion. I am afraid that we have to oppose amendment 1, about the moratorium on the primary care estate scheme. This is a brief moratorium, on which I will get advice next month. We will have our new policy in place by September. There are legal, financial and strategic reasons as to why a new policy is needed. It will not result in less money being spent on the primary care estate. It will result in money being spent better on that estate, and we will be better off in primary care for it.

Rwyf am ddechrau drwy fynd i'r afael â'r gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Mae arnaf ofn fod yn rhaid inni wrthwynebu gwelliant 1, ynghylch y moratoriwm ar gynllun yr ystâd gofal sylfaenol. Moratoriwm byr yw hwn, a byddaf yn cael cyngor arno y mis nesaf. Bydd ein polisi newydd ar waith erbyn mis Medi. Mae rhesymau cyfreithiol, ariannol a strategol pam y mae angen polisi newydd. Ni fydd yn golygu bod llai o arian yn cael ei wario ar yr ystâd gofal sylfaenol. Bydd yn golygu bod arian yn cael ei wario'n well ar yr ystâd, a byddwn yn well ein byd o ran gofal sylfaenol oblegid hynny.

I am pleased to accept amendment 2 in the name of Elin Jones. The local plan that I referred to has been drawn up in consultation with the Royal College of General Practitioners. We understand the points that it makes and we want to work with it on that.

Rwyf yn falch o dderbyn gwelliant 2 yn enw Elin Jones. Mae'r cynllun lleol y cyfeiriais ato wedi ei lunio mewn ymgynghoriad â Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol. Rydym yn deall y pwyntiau y mae'n eu gwneud ac rydym am weithio gydag ef ar hynny.

I am also happy to accept amendment 3, in relation to chronic conditions management. In terms of removing artificial barriers between health and social care, it is not the Government's view that the way to do that is by organisational or structural change. Where artificial barriers exist, we need to find proper ways of addressing them.

Rwyf hefyd yn fodlon derbyn gwelliant 3, mewn perthynas â rheoli cyflyrau cronig. O ran cael gwared ar rwystrau artiffisial rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, nid yw'r Llywodraeth o'r farn mai drwy newid sefydliadol neu strwythurol y mae gwneud hynny. Lle ceir rhwystrau artiffisial, mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd priodol o ymdrin â hwy.

I recognise the recruitment issues mentioned in amendment 4, and I will say a bit more about those in a moment. We will accept that amendment.

Rwyf yn cydnabod y materion recriwtio a grybwyllir yng ngwelliant 4, a byddaf yn dweud ychydig mwy am y rheiny mewn munud. Byddwn yn derbyn y gwelliant hwnnw.

We are not able to accept amendment 5, not because we do not agree that there are real issues in dentistry that we need to address, but because of the specific suggestion about the way to identify those areas where shortages occur. We already have a way of doing that, set out in the oral health delivery plan, which provides a better way of doing what this amendment sets out to do.

Ni allwn dderbyn gwelliant 5, nid am nad ydym yn cytuno bod problemau gwirioneddol ym maes deintyddiaeth y mae angen inni roi sylw iddynt, ond oherwydd yr awgrym penodol am y ffordd o adnabod y meysydd hynny lle mae prinder. Mae gennym eisoes ffordd o wneud hynny, a nodir yng nghynllun cyflenwi iechyd y geg, sy'n darparu ffordd well o wneud yr hyn y mae'r gwelliant hwn yn ceisio'i wneud.

I thank Members for the many contributions to this debate. I will try to pick out three themes that we have heard this afternoon, before replying to a small number of specifics. I will begin by thanking Members for doing something that I failed to do, which was to place primary care and health inequalities in a broader context. This theme began with Darren Millar, who pointed to the impact of the Social Services and Well-being (Wales) Bill, and seeing a broader service context.

Diolch i'r Aelodau am y cyfraniadau lawer i'r ddadl hon. Ceisiaf ddewis tair thema yr ydym wedi'u clywed y prynhawn yma, cyn ymateb i nifer fach o fanylion. Rwyf am ddechrau drwy ddiolch i'r Aelodau am wneud rhywbeth y methais i â'i wneud, sef rhoi gofal sylfaenol ac anghydraddoldebau iechyd mewn cyd-destun ehangach. Dechreuodd y thema hon gyda Darren Millar, a dynnodd sylw at effaith Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a gweld cyd-destun ehangach y gwasanaeth.

Rwy'n ddiolchgar i Elin Jones am yr hyn a ddywedodd am iechyd cyhoeddus, a'r cysylltiad rhwng y bobl sy'n gweithio ym maes meddygon teulu a'r agenda yn y sector iechyd cyhoeddus.

I am grateful to Elin Jones for what she said about public health, and the link between those working in general practice and the public health sector agenda.

David Rees placed the wider determinants of health in a broader economic context. It is the economic chances that people have in life that go on to have a profound impact on their health opportunities. You see those operate at the macro level, at a community level, as Christine Chapman said, and in the lives of individuals as well.

Rhoddodd David Rees y penderfynyddion iechyd ehangach mewn cyd-destun economaidd ehangach. Mae cyfleoedd economaidd pobl mewn bywyd yn cael effaith aruthrol ar eu cyfleoedd iechyd. Fe welwch y rhain yn gweithredu ar lefel macro, ar lefel gymunedol, fel y dywedodd Christine Chapman, ac ym mywydau unigolion yn ogystal.

Julie Morgan reminded us that health inequalities begin in the womb. By the time a child is born, there are health inequalities that go with a poor diet, and that go with mothers who are unable to access the help that they need; before the child is even born, some of those patterns of health inequality are being laid down. Julie outlined a whole series of things that we can do to make a real difference at that stage and throughout that child's life.

Atgoffodd Julie Morgan ni fod anghydraddoldebau iechyd yn dechrau yn y groth. Erbyn i'r plentyn gael ei eni, ceir yr anghydraddoldebau iechyd sy'n mynd law yn llaw â deiet gwael, ac yn dod gyda mamau nad ydynt yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt; cyn i'r plentyn gael ei eni hyd yn oed, mae rhai o'r patrymau hynny o ran anghydraddoldebau iechyd yn cael eu pennu. Amlinellodd Julie gyfres o bethau y gallwn eu gwneud i wneud gwahaniaeth go iawn ar yr adeg honno a thrwy gydol oes y plentyn hwnnw.

William Graham had some interesting things to say. He reminded us that health inequality is health complexity, and that people who suffer from health inequalities tend to have a whole range of different health issues that then have an impact on their lives. The only way to address this is through the second theme that has been echoed around the Chamber this afternoon, namely the integration of the efforts of all those people who have a chance to make a difference in the lives of people from the community and primary care perspective.

Roedd gan William Graham rai pethau diddorol i'w dweud. Fe'n hatgoffodd fod anghydraddoldebau iechyd yn gyfystyr â chymhlethdod iechyd, a bod pobl sy'n dioddef o anghydraddoldebau iechyd yn tueddu i fod ag ystod eang o faterion iechyd gwahanol sydd wedyn yn effeithio ar eu bywydau. Yr unig ffordd i fynd i'r afael â hyn yw drwy'r ail thema sydd wedi adleisio o amgylch y Siambr y prynhawn yma, sef cyfuno ymdrechion yr holl bobl hynny y mae ganddynt gyfle i wneud gwahaniaeth ym mywydau pobl o safbwynt gofal cymunedol a sylfaenol.

In order to do that, a third theme that we heard is that of recruitment. Jenny Rathbone is absolutely right that, in the bigger picture, attracting people to work in general practice is not a difficulty. However, there are places and pockets where that is not the case. There are rural issues to be considered, and there are issues of attracting people into communities of deprivation.

Er mwyn gwneud hynny, y drydedd thema y clywsom amdani yw recriwtio. Mae Jenny Rathbone yn hollol iawn nad yw, yn y darlun ehangach, yn anodd denu pobl i weithio mewn practis cyffredinol. Fodd bynnag, mae lleoedd a phocedi lle nad yw hynny'n wir. Mae materion gwledig i'w hystyried, ac mae problemau o ran denu pobl i gymunedau lle ceir amddifadedd.

When I first came to the Assembly back in 2000, when Jane Hutt was the Minister for health and Kirsty Williams was the health spokesperson for the Welsh Liberal Democrats, we worked together on a plan for improving health in Wales; a plan for the NHS and its partners. One of the things that we talked about all the time then was what we were told was the impending crisis in GP recruitment in the Valleys. You could not find a woman GP anywhere in the whole borough of Merthyr. There has been a transformation in primary care in those areas because of the actions here in Wales, through salaried GPs, investing in health inequality programmes and so on. So, there are things that need to be done in recruitment, but there are things that we can do too.

Pan ddeuthum i'r Cynulliad gyntaf yn ôl yn 2000, pan oedd Jane Hutt yn Weinidog iechyd a Kirsty Williams oedd llefarydd iechyd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, buom yn gweithio gyda'n gilydd ar gynllun i wella iechyd yng Nghymru; cynllun ar gyfer y GIG a'i bartneriaid. Un o'r pethau yr oeddem yn sôn amdano drwy'r amser bryd hynny oedd yr hyn y dywedwyd wrthym oedd yn argyfwng ar droed o ran recriwtio meddygon teulu yn y Cymoedd. Ni allech ddod o hyd i feddyg teulu benywaidd yn unman yn holl fwrdeistref Merthyr. Mae gofal sylfaenol wedi'i drawsnewid yn yr ardaloedd hynny oherwydd yr hyn a wnaethpwyd yma yng Nghymru, drwy feddygon teulu cyflogedig, buddsoddi mewn rhaglenni anghydraddoldebau iechyd ac yn y blaen. Felly, mae pethau y mae angen eu gwneud o ran recriwtio, ond mae pethau y gallwn eu gwneud hefyd.

17:05

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr am dderbyn yr ymyrraeth, Mark. A ydych yn hapus bod pobl Cymru yn derbyn y gwasanaeth maent yn ei haeddu gan y gwasanaeth iechyd gwladol? A ydych yn hyderus bod pawb yng Nghymru yn derbyn y gwasanaeth hwnnw?

Thank you, Mark, for taking the intervention. Are you content that the people of Wales receive the service that they deserve from the national health service? Are you confident that everyone in Wales receives that service?

17:05

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Nid wyf yn gallu dweud bod pawb ym mhob man yn hapus gyda'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn. Ar y cyfan, pan rydym yn gwneud ymchwil annibynnol, mae cleifion yn dweud eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth, ond lle mae problemau, mae'n rhaid inni ddelio â nhw.

I cannot say that everyone, everywhere is happy with the service that they receive. On the whole, when we undertake independent research, patients say that they are happy with the service, but where problems exist, we must deal with them.

I am not saying that everyone, everywhere is happy with the service that they receive. However, on the broad picture, independent analysis always shows that there are eye-wateringly high levels of satisfaction with the health service in Wales. Health services, over the last 10 years, have had levels of satisfaction that most other public services would be absolutely delighted to have. Where there are problems, we have to deal with them, and, sometimes, those are problems of recruitment, as I have said.

Nid wyf yn dweud bod pawb, ym mhob man, yn hapus â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Fodd bynnag, yn y darlun eang, mae dadansoddiadau annibynnol bob amser yn dangos bod lefelau rhyfeddol o uchel o foddhad â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae gwasanaethau iechyd, dros y 10 mlynedd diwethaf, wedi cyrraedd lefelau boddhad y byddai'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus eraill wrth eu bodd yn eu cael. Lle mae problemau, mae'n rhaid inni ymdrin â hwy, ac, weithiau, problemau recriwtio yw'r rheiny, fel yr wyf wedi ei ddweud.

I want to refer briefly to a number of small, specific points. I recognise the role and importance of the minimum practice income guarantee in rural practices, but I cannot give a guarantee that it will live forever. It is a barrier to addressing health inequalities, because of the way in which it takes money from places where the need is greatest and puts it into places where there is a need to retain practice income. Anything that we do on it will be slow and sensitive and will work with the profession, but I am not prepared to give and cannot give a guarantee to doctors that MPIG is untouchable.

Rwyf am gyfeirio'n fyr at nifer o bwyntiau bach, penodol. Rwyf yn cydnabod rôl a phwysigrwydd y warant isafswm incwm practis mewn practisiau gwledig, ond ni allaf roi sicrwydd y bydd yn para am byth. Mae'n rhwystr i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, oherwydd y ffordd y mae'n cymryd arian o lefydd lle mae'r angen mwyaf ac yn ei roi i fannau lle mae angen cadw incwm practis. Bydd popeth a wnawn arno yn araf ac yn sensitif ac yn gweithio gyda'r proffesiwn, ond nid wyf yn barod i roi, ac ni allaf roi, gwarant i feddygon fod y warant isafswm incwm practis yn rhywbeth na ellir ei gyffwrdd.

On the issue of dentists, we have an extra £800,000 for NHS dentistry as a result of decisions taken by my predecessor, Lesley Griffiths, and I am keen to use liberalisation, which the General Dental Council has recently introduced, to find new ways of providing dental services here in Wales.

O ran deintyddion, mae gennym £800,000 yn ychwanegol ar gyfer deintyddiaeth y GIG o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan fy rhagflaenydd, Lesley Griffiths, ac rwyf yn awyddus i ddefnyddio rhyddfrydoli, y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i gyflwyno yn ddiweddar, i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau deintyddol yma yng Nghymru.

Dirprwy Lywydd, I will end by saying that, in the last Welsh health survey, 17% of adults reported talking to a GP about their health here in Wales over the previous two weeks. Over the previous 12 months, half of the Welsh population had attended an optician, seven out of 10 had seen a dentist and 90% had used a pharmacy. Our primary care services have their roots deep in the foundations laid in the lives of families in every street in the land for three NHS generations. I know that there is agreement across this Chamber that we are absolutely determined to go on doing so in the future.

Ddirprwy Lywydd, rwyf am orffen drwy ddweud bod 17% o oedolion, yn yr arolwg diwethaf o iechyd yng Nghymru, wedi dweud eu bod wedi siarad â meddyg teulu am eu hiechyd yma yng Nghymru dros y pythefnos a aeth heibio. Dros y 12 mis blaenorol, roedd hanner poblogaeth Cymru wedi bod i weld optegydd, saith o bob 10 wedi gweld deintydd a 90% wedi defnyddio fferyllfa. Mae gwreiddiau ein gwasanaethau gofal sylfaenol yn ddwfn yn y sylfeini a osodwyd ym mywydau teuluoedd ym mhob stryd yn y wlad dros dair cenhedlaeth y GIG. Gwn fod cytundeb ledled y Siambr hon ein bod yn gwbl benderfynol o barhau i wneud hynny yn y dyfodol.

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there are objections, therefore I defer all voting under this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly, gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to voting time. Before I take the first vote, do three Members wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Symudwn yn awr at y cyfnod pleidleisio. Cyn imi gymryd y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i NDM5271.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5271.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 12, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 12, Against 38, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i NDM5271.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5271.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 26, Ymatal 7.*

*Amendment not agreed: For 17, Against 26, Abstain 7.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i NDM5271.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5271.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 38, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment agreed: For 38, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i NDM5271.

Result of the vote on amendment 4 to NDM5271.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 23, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 23, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i NDM5271.

Result of the vote on amendment 5 to NDM5271.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 23, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 23, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i NDM5271.

Result of the vote on amendment 6 to NDM5271.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i NDM5271.

Result of the vote on amendment 7 to NDM5271.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 27, Ymatal 7.*

*Amendment not agreed: For 16, Against 27, Abstain 7.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i NDM5271.

Result of the vote on amendment 8 to NDM5271.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 23, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 23, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i NDM5271.

Result of the vote on amendments 9 to NDM5271.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5271 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5271 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod yr heriau sylweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ar hyn o bryd i helpu pobl i fyw mewn tai gweddus a fforddiadwy;

1. Recognises the considerable challenges currently facing the Welsh Government and other organisations in helping people to live in decent, affordable homes;

2. Yn nodi'r amcangyfrif gan Brif Weinidog Cymru bod angen 20,000 i 25,000 yn ychwanegol o gartrefi un a dwy ystafell wely i liniaru ar effeithiau'r newidiadau i'r budd-dal tai;

2. Notes the estimate by the First Minister that an additional 20,000 to 25,000 one and two bedroom properties are required to mitigate the effects of changes to housing benefit;

3. Yn croesawu'r cynnydd sydd wedi'i wneud drwy'r cynllun achredu cenedlaethol 'Cynllun Achredu Landlordiaid Cymru' i gydnabod landlordiaid da a gwella'r cyflenwad o lety o ansawdd da ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu'r gwaith o drwyddedu asiantaethau gosod tai yng ngoleuni'r cynnydd o 9% mewn cwynion am asiantaethau gosod tai oddi wrth landlordiaid a thenantiaid yn 2012;

3. Welcomes the progress made through the national accreditation scheme 'Landlord Accreditation Wales' to recognise good landlords and improve the supply of good quality accommodation and calls on the Welsh Government to prioritise the licensing of letting agents in light of the 9% increase in complaints about letting agents from landlords and tenants in 2012;

4. Yn nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu'r camau a amlinellir yn y Papur Gwyn ynghylch Tai a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau o ran y cyflenwad tai fforddiadwy a sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto;

4. Notes progress made in the first year of implementing action set out in the Housing White Paper and the fact that the Welsh Government is on track to meet its targets on affordable housing supply and in bringing empty homes into re-use;

5. Yn cydnabod rhaglen Llywodraeth Cymru i gyflenwi mwy o dai a chymryd camau eraill a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl; a

5. Acknowledges the Government's programme to provide more homes and other actions that will make a difference to people's lives; and

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prynwyr tro cyntaf yn gallu manteisio ar gynlluniau priodol sydd wedi'u sefydlu i'w helpu i allu fforddio cartrefi.

6. Calls on the Welsh Government to ensure that first time buyers can access appropriate schemes designed to help them afford homes.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5271 fel y'i diwygiwd.

Result of the vote on motion NDM5271 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5271fel y'i diwygiwyd: O blaid 39, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

*Motion NDM5271 as amended agreed: For 39, Against 12, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i NDM5272.

Result of the vote on amendment 1 to NDM5272.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i NDM5272.

Result of the vote on amendment 2 to NDM5272.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i NDM5272.

Result of the vote on amendment 3 to NDM5272.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i NDM5272.

Result of the vote on amendment 4 to NDM5272.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i NDM5272.

Result of the vote on amendment 5 to NDM5272.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 27, Abstain 0.*

Cynnig NDM5272 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5272 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn cydnabod rôl hanfodol gofal sylfaenol o ran llunio a chyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Recognises the vital role of primary care in shaping and delivering health services in Wales and in addressing health inequalities.

Yn nodi'r cynnig gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu am dimau o weithwyr meddygol proffesiynol o dan arweiniad meddygon teulu i ddarparu gofal drwy'r dydd a'r nos i rai cleifion sydd â chyflyrau cronig difrifol.

Notes the proposal from the Royal College of GPs for GP led teams of medical professionals to provide around the clock care for some patients with severe chronic conditions.

Yn nodi bod gwasanaeth gofal cymdeithasol effeithiol yn gwneud cyfraniad pwysig at sicrhau bod pobl yn gallu rheoli cyflyrau cronig yn y gymuned ac yn gresynu wrth y rhwystrau artiffisial sy'n parhau rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Notes that an effective social care service makes an important contribution to ensuring people can manage chronic conditions in the community and regrets the continuing artificial barriers between Health and Social Care.

Yn cydnabod pwysigrwydd recriwtio a chadw meddygon ar gyfer darparu gofal sylfaenol mewn ardaloedd gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro a chyhoeddi nifer y meddygon sy'n cael eu recriwtio drwy'r ymgyrch Gweithio dros Gymru.

Recognises the importance of doctor recruitment and retention to the provision of primary care in rural areas and calls on the Welsh Government to monitor and publish the number of doctors recruited through the Work for Wales campaign.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5272 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5272 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5272 fel y'i diwygiwyd: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5272 as amended agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

17:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.14 p.m.*

*The meeting ended at 5.14 p.m.*